



## Cyfarfod

### PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 10FED CHWEFROR, 2022**

Lleoliad

### Cyfarfod Rhithiol

**\*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni\***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 3 Chwefror 2022)

# **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

## **AELODAETH (19)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans  
Berwyn Parry Jones  
Paul John Rowlinson  
Sedd Wag

Aled Wyn Jones  
Peredur Jenkins  
Gethin Glyn Williams

Huw Gruffydd Wyn Jones  
W. Gareth Roberts  
E. Selwyn Griffiths

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes  
Angela Russell  
Sedd Wag

John Pughe Roberts  
Richard Medwyn Hughes

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Alwyn Gruffydd

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd  
Sion W. Jones

### **Aelod Lleyg (1)**

Mrs Sharon Warnes

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2021 fel rhai cywir

## 5. PENDERFYNIAD CABINET 18/01/2022 EITEM 6 - DATHLU DYDD GWYL DEWI 12 - 20

Penderfyniad wedi ei alw i mewn i'w graffu yn unol ag Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021 21 - 46

I ystyried y wybodaeth ynghyd a'r risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021 47 - 58

I dderbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet

## 8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION 59 - 71

I dderbyn y wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y sefyllfa arbedion

## 9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

72 - 88

Ystyried yr adroddiad, sylwebu ar y cynnwys a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi'u cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

89 - 95

Diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22

**11. CYLLIDEB 2022/23** 96 - 158

I ystyried y gyllideb y bwriedir ei argymhell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

**12. STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)** 159 - 197

I dderbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ei derbyn.

**13. GWEITHIO I'R DYFODOL A'R GEFNOGAETH LLESIANT MEDDYLIOL** 198 - 204

Cyflwyno trosolwg o'r cynlluniau ar gyfer gweithio i'r dyfodol a nodi'r gefnogaeth a gynigir i staff yng nghyswllt llesiant meddyliol. Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried y wybodaeth a gyflwynir

**14. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU** 205 - 283

Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 3 Archwilio Cymru ac adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar



## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 18-11-21

### Presenoldeb:

**Cynghorwyr:** Is Gadeirydd: Cynghorydd Medwyn Hughes

Aled Ll Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Berwyn P Jones, Dewi Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

### Swyddogion:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Caleb Wyn Lewis (Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)  
Alan Hughes (Archwilio Cymru)  
Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)  
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Aled Wyn Jones, Huw W Jones a Sion W Jones

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

#### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

#### 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 14 Hydref 2021 fel rhai cywir

#### 5. STRATEGAETH CYLLIDEB 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad ar gais yr Aelod Cabinet Cyllid yn nodi amserlen, rhagolygon a risgiau perthnasol yng nghyswllt strategaeth cyllideb y Cyngor i'r Pwyllgor. Gosodwyd cyddestun i'r adroddiad gan amlygu i'r Cabinet ystyried yr adroddiad 28 Medi 2021. Penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r drefn ac amserlen llunio Cyllideb 2022/23, gan nodi os bydd bwlich cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a chronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, a phwyllgo cyn adnabod arbedion ychwanegol fydd angen yn ystod Haf 2022. Hefyd, penderfynodd y Cabinet

dderbyn cynnwys yr adroddiad fel Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, gan nodi bod cynllunio ariannol yn hynod heriol.

Mynegwyd bod sawl cais eleni am adnoddau ychwanegol o ganlyniad i bwysau ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd mai Grant Llywodraeth Cymru yw prif ffynhonnell ariannol y Cyngor a bod y Llywodraeth wedi nodi eu bwriad i gyhoeddi setliad drafft 2022/23 ar gyfer awdurdodau lleol ar 21 Rhagfyr 2021 a'r setliad terfynol ar yr 2il o Fawrth 2022. Eglurwyd bod yr amserlen yma'n un hynod heriol a bod ansicrwydd ariannol o ganlyniad i'r pandemig.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Cyllid bwysigrwydd y seminarau rhithiol ar y gyllideb i aelodau ym mis Ionawr, a phwysodd ar bawb i bresenoli eu hunain yn y sesiynau.

Nododd y Pennaeth Cyllid, bod cais i isafu unrhyw newid rhwng y setliad ddrafft a'r setliad grant terfynol, gan mai anodd, o dan yr amgylchiadau presennol yw cynllunio ar gyfer 2022/23. Ateggodd bod niferoedd Covid yn parhau'n uchel yng Ngwynedd ac nad oedd arwydd clir o pryd fydd y wlad a'r byd yn adfer. Cyfeiriodd at gefnogaeth y Gronfa Galedi sydd ar hyn o bryd yn ariannu costau sylweddol ychwanegol ym meysydd digartrefedd, gofal, a phrydau ysgol am ddim, ond amlygodd ei bryder o ddatganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Lleol na fydd Cronfa Caledi o Ebrill 2022 ymlaen. O ganlyniad, byddai gallu'r Cyngor i barhau i gyllido'r gwasanaethau uchod ar lefel uwch yn ddibynnol ar ddyraniad arian ychwanegol yn y setliad.

Cyfeiriwyd at ragdybiaethau oedd yn gosod tri senario - gorau, canolog a gwaethaf o fewn rheswm. Er yn ragdybiaethau bras, nodwyd bod sefyllfa gyllidol gadarn y Cyngor a chronfeydd wrth gefn iach yn golygu fod modd defnyddio'r cronfeydd hyn i liniaru sefyllfa tymor byr. Tynnwyd sylw at yr heriau fydd yn wynebu'r Cyngor, yn cynnwys adferiad Covid, a chynnydd chwyddiant mewn cyflogau, yswiriant cenedlaethol, cost tanwydd, ayb.

Mynegwyd nad oedd rheswm i addasu'r strategaeth, gan nad oedd tystiolaeth digonol ar hyn o bryd i wneud hynny

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Bod yr argymhelliad i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i liniaru sefyllfa yn gam positif iawn ar gyfer y tymor byr.
- Cydweld gyda defnyddio cronfeydd wrth gefn fel nad oes toriadau.
- A oes ystyriaeth goblygiadau i ffordd newydd o weithio wedi eu hystyried?
- Bod trefn gadarn a llwyddiannus o fonitro arbedion - hawdd fyddai defnyddio reserfau - angen rhannu neges gydag adrannau yn nodi, er nad oes arbedion newydd wedi'u cynllunio, y bydd angen i'r Cyngor weithio yn effeithiol, ac awgrymwyd rhoi trefn effeithlonrwydd yn ei le.

Mewn ymateb i gwestiwn o effaith Covid ar gyllideb y Cyngor i'r dyfodol, nododd y Pennaeth Cyllid bod Covid wedi golygu gwariant sylweddol uwch dros y 18 mis diwethaf. Er hynny mae'r hyn mae Gwynedd wedi ei hawlio gan y Gronfa Caledi wedi profi yn anrhydeddus iawn. Penderfyniad y Cyngor yn fuan iawn ar ddechrau'r pandemig oedd blaenoriaethu iechyd a diogelwch trigolion y Sir, ac wrth i'r Llywodraeth gamu i mewn wedyn gyda chyfraniadau roedd darlun iach i gyllidebau Gwynedd ar ddiwedd 2020/21, a'r cronfeydd wrth gefn bellach ar gael i ymdrin gyda photensial o ergyd ariannol yn 2022/23.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag arbedion costau rhedeg swyddfeydd a chostau teithio, nodwyd nad oedd costau teithio'r aelodau etholedig a staff swyddfa yn arwyddocaol o safbwynt cyllideb gyfan y Cyngor, ac nad oedd cwtogiad aruthrol yn y costau hyn oherwydd

bod staff gofal, a staff allanol eraill, yn gorfod parhau i deithio er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

Mewn ymateb i sefydlu trefn effeithlonrwydd, awgrymwyd bod cyfle bob amser i wella hyd yn oed mewn argyfwng. Ystyriwyd mai'r 'drefn' fyddai peidio rhuthro gan barhau i fonitro arbedion hanesyddol gyda phwyslais ar adrannau i gymryd perchnogaeth.

## PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r amserlen, y rhagolygon a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllideb y Cyngor**
- **Derbyn penderfyniadau'r Cabinet (28 Medi 2021)**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2021/22 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad yn amlygu gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Amlygwyd, yn ystod y chwe mis rhwng y 1af o Ebrill a 30 Medi 2021 bod gweithgarwch buddsoddi a benthycu'r Cyngor wedi aros o fewn cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol ac nad oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ategwyd yr amcangyfrifir bod incwm buddsoddi'r Cyngor yn uwch na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2021/ 22.

Cyfeiriwyd at y cyd-destun allanol oedd yn cyfeirio at y cefndir economaidd, marchnadoedd ariannol ac adolygiad credyd. Yng nghyd-destun benthycu, amlygwyd y gall awdurdodau lleol fenthycu gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) ar yr amod eu bod yn gallu cadarnhau nad ydynt yn bwriadu prynu 'asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch' yn y ddwy flynedd ariannol gyfredol neu nesaf, gyda chadarnhad o bwrpas gwariant cyfalaf gan y Swyddog Adran 151. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu prynu unrhyw asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch o fewn y tair blynedd nesaf ac felly mae'n gallu cyrchu'r PWLB yn llawn - ystyriwyd benthycu o'r PWLB fel yr opsiwn gorau

Eglurwyd bod £10m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo ac ecwiti cyfun strategol sydd yn cael eu rheoli yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth. Er bod y gwerth cyfalaf cyfun o £9.243m yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £10m, gwnaed y buddsoddiadau gan wybod y byddai gwerthoedd cyfalaf yn ansafonlog ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. O ganlyniad gwiredir yr amcanion drwy sefydlogrwydd prisiau tymor canolog.

Cyfeiriwyd at ddefnydd Swyddfa Rheoli Dyledion fel cerbyd buddsoddi sydd yn talu ychydig mwy nag eraill ac yn hyblyg, hawdd a diogel i'w ddefnyddio. Er bod y cyfraddau yn isel a'r rhagolygon yn wan ac ansafonlog, adroddwyd bod y Cyngor yn buddsoddi cymaint ag y gallent o fewn cyfnod heriol;

Cadarnhawyd bod gweithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio'n llawn gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys ac yng nghyd-destun hyfforddiant buddsoddi bod swyddogion, yn ystod y cyfnod, wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy'n berthnasol i'w swyddi. Tynnwyd sylw at ddiwygiadau i godau CIPFA oedd yn cynnwys

- Cynnwys materion ESG fel ystyriaeth o fewn Rheolaeth Risgiau TMP 1.
- Ffocws ychwanegol ar wybodaeth a sgiliau swyddogion ac aelodau etholedig sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau.

Amlygwyd bod Arlingclose yn disgwyl i'r Gyfradd Banc gynyddu yn Ch2 2022 a hyn oherwydd dymuniad Banc Lloegr i symud o lefelau argyfwng gymaint ag ofn pwysau

chwyddiant. Mae buddsoddwyr wedi cynnwys sawl cynnydd yn y Gyfradd Banc i 1% erbyn 2024 yn eu prisiau. Er bod Arlingclose yn credu y bydd y Gyfradd Banc yn codi, ni fydd mor uchel â disgwyliadau'r marchnadoedd.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod y perfformiad yn dderbyniol er gwaethaf cyfraddau llog echrydus o isel.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol gan aelod:

- Bod defnyddio PWLB i'w groesawu - sicrhau nad yw arian ar gael ar gyfer masnachu

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gallu'r Awdurdod Lleol i fuddsoddi mewn eiddo neu adeiladu / prynu tai yn lleol, nododd y Pennaeth Cyllid bod yr Awdurdod yn gwneud hyn drwy'r Strategaeth Tai (er bod Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar yr hyn y gellid ei wneud). Ategwyd nad oedd yr un tŷ wedi ei brynu hyd yma gan fod y 'model' yn edrych am eiddo penodol / pwrpasol.

Mewn ymateb i gwestiwn pa mor aml mae'r cyfyngiadau yn cael eu monitro, nodwyd bod hyn yn cael ei wneud yn flynyddol. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pheidio buddsoddi mwy mewn banciau a chymdeithasau adeiladu ac awdurdodau, nodwyd bod cyfyngiadau Banc ar yr elfennau hyn a bod angen cadw o fewn y canllawiau gan wneud y gorau o'r hyn sydd ar gael er nad oes llawer o hyblygrwydd.

## **PENDERFYNWYD**

### **Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys**

## **7. ASESAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu ymatebion Cyngor Gwynedd i adroddiad gan Archwilio Cymru yng nghyswllt cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Tynnwyd sylw at bedwar argymhelliad oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Croesawyd Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol o Archwilio Cymru i gyflwyno'r canfyddiadau.

Nodwyd bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond bod sawl her ariannol o hyd gan gynnwys parhau i gario drosodd arbedion heb eu cyflawni sydd yn achosi pwysau ariannol heb ei datys ar wasanaethau ac y bydd canfod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at yr ymatebion gan ofyn i'r Pwyllgor gefnogi'r gweithredu.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Yn argymhelliad 2 a 3 bod angen ystyried nad gofynion data cyllidol sydd yma
- Pwysig i'r Cyngor wneud defnydd o wybodaeth gefndirol
- Bod pob penderfyniad ariannol yn seiliedig ar ddata
- Pam yr angen i ragweld 3 blynedd i'r dyfodol? Nid oes gan y Llywodraeth gynllun 3 blynedd pam felly gofyn i'r Cyngor wneud? Derbyn bod posib rhagweld ond ni fyddai sail cadarn i dafluniadau
- Nodyn 'tystiolaeth i ddangos defnydd o gronfeydd wrth gefn i wella a thrawsnewid gwasanaethau a all yn eu tro helpu a chynaliadwyedd y Cyngor' – gofynnwyd i Archwilio Cymru am enghraifft o sefyllfa – angen gwybodaeth ehangach

- A'i sylwadau cyffredinol sydd dan sylw ynteu wendidau mewn adrannau?

Cytunwyd gyda'r sylw bod data yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau buddsoddi ond y gellid defnyddio data cyfredol hefyd i ddad-fuddsoddi lle efallai nad oes galw neu wneud pethau yn wahanol. Ystyriwyd bod £71m wrth gefn yn swm sylweddol all gyfrannu tuag at raglenni trawsnewidiol fyddai'n gwneud gwasanaeth cynaliadwy

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Cyllid bod arian wrth gefn yn cyfrannu at brosiectau newydd e.e., strategaeth technoleg gwybodaeth ysgolion, swydd prosiect rheoli hinsawdd, gwella Galw Gwynedd, ac fe anogir adrannau i gyflwyno cynlluniau ynghyd a bidiau am arian.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adrannau yn cyflwyno cynlluniau ac os yw'r cynlluniau yn cael eu gwyntyllu i sicrhau bod yr arian yn mynd i'r lle iawn, nodwyd bod lluo o gynlluniau wedi eu cyflwyno ac y byddai'r Cabinet yn trafod bidiau ym mis Ionawr.

Mewn ymateb i sylw am ragolygon tair blynedd, nododd yr Archwilydd bod gwerth mewn rhagolygon, er nad oes ffynhonnell ariannol wedi ei gytuno. Awgrymwyd mai data ariannol sydd yn rhan o'r sgwrs bresennol, ond y gellid ystyried gwybodaeth gefndirol megis twf yn y galw, achosion cymhleth neu brisiau marchnad fel enghreifftiau fyddai'n cyfoethogi'r sgwrs. Nodwyd bod y broses rheoli perfformiad yn cael ei foderneiddio gyda gosodiad mesurau a dangosyddion, er yn anffodus nid yw'n cael ei wneud gan bob adran. Ategodd bod cyfeiriad y Cyngor yn galonogol a'i fod yn hyderus yng ngallu'r Cyngor i weld newidiadau gan ddefnyddio cyd-destun sefyllfaoedd - byddai hyn yn rhoi'r Cyngor mewn lle da.

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd yr Aelod Cabinet bod angen ystyried a defnyddio pob math o ddata er mwyn cynnig gwell gwasanaethau i drigolion

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo ymateb Cyngor Gwynedd i argymhellion Archwilio Cymru**

## **8. ARCHWILIO CYMRU – RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN**

Cyflwynwyd diweddariad chwarterol (hyd at 30 Medi 2021) o raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru. Trafodwyd y gwaith archwilio ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad lleol gan amlygu y byddai'r Adolygiad o Reoli Perfformiad yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn newydd. Cyfeiriwyd at adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers Ebrill 2021.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelod:

- Bod yr amserlen ar gyfer rheoli perfformiad yn dynn iawn os am gwblhau ym mis Chwefror
- Er cynnydd sylweddol mewn mewnlifiad, dim cyfeiriad at y maes yn y rhaglen waith. Y mater yn creu effaith syfrdanol ar y Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol - yn enwedig yn y siroedd tlotaf

Mewn ymateb i sylw bod Llywodraeth Cymru bellach yn cynllunio ymlaen 3 blynedd, a sut byddai hyn yn ymrwmo ac ariannu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn cynllunio ymlaen 50 mlynedd, nodwyd bod y pum egwyddor gynaliadwy sydd rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt wrth weithio yn eu cynorthwyo i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor. Ategodd yr Archwilydd ei fod hefyd yn derbyn y sylw ynglŷn â mewnlifiad ac y byddai'r mater yn derbyn sylw pan fydd risgiau yn cael eu cloriannu.

**PENDERFYNIAD:**

- **Derbyn rhaglen waith Chwarter 2 Archwilio Cymru**

**9. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro yn diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd yn y rhaglen waith mewn ymateb i Ddeddfwriaeth sy'n cyflwyno newidiadau a grymoedd llywodraethiant Llywodraeth Leol yng Nghymru. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi mabwysiadu rhaglen waith (Mai 2021) sy'n ymateb i ddarpariaethau a gofynion y Ddeddf ac sy'n cyfarch y camau mewn modd amserol a phriodol.

Tynnwyd sylw at newidiadau penodol statudol i swyddogaethau a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn y Ddeddf gan gyfeirio at yr atodiad oedd yn amlinellu prif newidiadau i'r Cyfansoddiad. Adroddwyd, gyda thraean yr aelodaeth yn Aelodau Lleyg, bod hysbyseb i ganfod aelodau wedi ei chyhoeddi a bod cyfundrefn gyda phanel penodi mewn lle i argymhell i'r Cyngor Llawn fydd yn cymeradwyo'r penodiadau yn unol a drefn a sefydlwyd Mai 2017.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol cafwyd y cwestiynau a'r ymatebion canlynol:

- A oes modd i Gynghorydd sydd yn ymddeol roi ei enw ymlaen fel Aelod Lleyg?  
*Byddai rhaid cael bwlch o 12 mis rhwng ymddeol a gwneud cais*
- A fydd y Cadeirydd yn derbyn tal am fod yn Gadeirydd?  
*Bydd Cadeirydd yn derbyn lwfans aelod cyfetholedig sydd wedi ei osod gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol*
- A oes ymateb wedi ei dderbyn i'r hysbyseb?  
*Dyddiad cau yw Tachwedd 25ain - gwybodaeth wedi ei rannu gyda'r Aelodau i annog rhywun addas i geisio*
- Pwy fydd yn penodi'r Aelodau Lleyg?  
*Yn unol â threfn a sefydlwyd yn Mai 2017, bydd y panel yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Cabinet Cyllid a fydd wedi eu cynghori gan y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro. Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried ac argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.*
- A fydd Cynghorau ymylol yn chwilio am yr un Aelodau ac a fydd modd i un person fod yn aelod ar ddau bwyllgor?  
*Derbyniol i Aelodau fod yn aelodau Pwyllgor mewn mwy nag un Sir*
- Os methu penodi a fydd 'sedd wag' yn cael ei nodi?  
*Er bod penodi efallai yn heriol, os na fydd pob sedd yn cael ei llenwi, bydd rhaid amlygu sedd wag*
- A yw'r Aelodau Lleyg yn gorfod bod o Wynedd?  
*Dim rhaid i aelodau fod o Wynedd, ond bod gofyn iddynt fod a chysylltiad a'r Sir*
- Pwy fydd yn monitro safon? A fydd balans gwleidyddol yn cael ei ystyried?  
*Bod aelodau lleyg gyda barn annibynnol - bydd angen i unrhyw fuddiant gael ei gofnodi gyda manylion cofrestru gyda phlaidd wleidyddol*
- A fydd modd ystyried cynnal cyfarfod anffurfiol i bawb ddod i adnabod ei gilydd cyn dechrau'r drefn newydd?  
*Hyn heb ei drafod yn swyddogol. Nodwyd ynghyd ag aelodau lleyg y bydd aelodau newydd posib hefyd ar y Pwyllgor, felly derbyn yr awgrym i gynnal sgwrs ymlaen llaw yn nodi dyheadau rôl, cyn efallai penodi Cadeirydd*
- Gydag Aelod Lleyg i'w benodi fel Cadeirydd ar y Pwyllgor, awgrym i'r panel cyfweld holi ymgeiswyr os ydynt yn ystyried eu hunain yn addas ar gyfer bod yn Gadeirydd.

*Posib holi os oes 'diddordeb' gan ymgeisydd i fod yn Gadeirydd. Ategwyd bod yr hysbyseb hefyd yn amlygu hyn*

- Os penodi 4 aelodau lleyg a fydd yn dderbyniol cael dwy sedd wag os penderfynir parhau gydag 18 aelod?  
*Os mai'r penderfyniad fydd parhau gydag 18 aelod dyma beth fydd cyfansoddiad yr aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor - bydd angen parhau i geisio llenwi'r seddau gwag.*
- Derbyn bod newidiadau sylweddol i'r Pwyllgor hwn - bydd gweld colli nifer o aelodau profiadol

#### **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo cynnydd yn y Rhaglen Waith a cheisio diweddariad ar gyfer cyfarfod Mis Chwefror**
- **Argymhell i'r Cyngor Llawn maint cyfansawdd o 18 aelod ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - 12 Aelod Cyfetholedig a 6 Aelod Lleyg. I fod yn weithredol o 5 Mai 2022**
- **Derbyn y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad – newidiadau statudol i'w cyflawni gan y Swyddog Monitro yn unol a'i hawl dan y Cyfansoddiad.**

Wrth ddod ar cyfarfod i ben amlygodd y Cadeirydd mai dyma gyfarfod diwethaf Mr Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) - diolchwyd iddo am ei waith, ei gefnogaeth i'r Pwyllgor a'i agwedd broffesiynol o sicrhau bod y Cyngor mewn dwylo da. Dymunwyd ymddeoliad hyblyg hapus iddo.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12:25

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

|                 |                                                                    |
|-----------------|--------------------------------------------------------------------|
| <b>PWYLLGOR</b> | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu                                  |
| <b>DYDDIAD</b>  | 10 Chwefror 2022                                                   |
| <b>PWNC</b>     | Penderfyniad Cabinet 18/01/2022<br>Eitem 6 – Dathlu Dydd Gŵyl Dewi |
| <b>AWDUR</b>    | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd                   |

1. Mae'r penderfyniad a ganlyn wedi ei alw i mewn i'w graffu yn unol ag Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor: –

## **Eitem 6: Dathlu Dydd Gŵyl Dewi, cyfarfod Cabinet 18/01/2022**

**“Dynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol a paragraff 2.10 o'r adroddiad”**

2. Gwnaethpwyd y cais i alw'r penderfyniad i mewn i'w graffu gan y Cyngorwyr John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor), Angela Russell a Sion Jones o fewn y gofynion a'r amserlen angenrheidiol.

3. Mae'r rhesymau am alw mewn, hynny yw'r agweddau o'r penderfyniad ystyrir dylid eu craffu ac sydd o fewn gofynion Cyfansoddiadol, wedi eu nodi fel a ganlyn:

“Pryder ynglyn a'r gost i Gyngor Gwynedd i ganiatau diwrnod gwyliau ychwanegol i holl staff yr awdurdod, cost o ddeutu £200 mil wedi ei ddarganfod yn y cyfnod ariannol anodd sy'n bodoli i bawb, credir gall yr arian hyn gael ei ddefnyddio i bwrpas arall er budd pobl Gwynedd. Gofynnwn felly i'r Cabinet ail ystyried y penderfyniad yma hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru yn cael yr hawl i ganiatau diwrnod banc ychwanegol ar Ddydd Gŵyl Ddewi, ar 1af Mawrth i Gymru gyfan.”

4. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y mater yn unol â'r agweddau o'r penderfyniad yr ystyrir y dylid eu craffu amgaeir y dogfennau isod gyda'r adroddiad hwn.

- Atodiad 1 – Taflen penderfyniad y Cabinet (Eitem 6, 18/01/2022)
- Atodiad 2 – adroddiad y Cabinet (Eitem 6, 18/01/2022)

Nid oes ymateb penodol wedi ei ddarparu gan yr Aelod Cabinet gan fod y wybodaeth i gyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad aeth i'r Cabinet ar y 18fed o Ionawr, 2022.



## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

|                                                                                                                                                                              |                 |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|
| <b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>                                                                                                                                       | 18 Ionawr 2022  |
| <b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Chwefror 2022 |

---

### PWNC

Eitem 6:DATHLU DYDD GWYL DEWI

---

### PENDERFYNIAD

- Dynodwyd dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol a paragraff 2.10 o'r adroddiad.
  - Awdurdodwyd swyddogion i ymchwilio i opsiynau posib i wneud trefnant o'r fath yn un parhaol ac i'r perwyl hwnnw cynnal trafodaethau pellach gyda'r undebau llafur cydnabyddedig a parhau i lobio am gefnogaeth Llywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru sefydlu gwyliau banc i Gymru.
- 

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref, penderfynwyd fel a ganlyn:

- Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.
- Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Nodwyd fod gwyliau bynyddol yn fater cytundebol sydd yn ymwneud â chyflogaeth staff y Cyngor ac o ganlyniad bod gofyn i'r Cyngor fel cyflogwr drafod y mater yn lleol fel rhan o amodau gwaith gweithiwr llywodraeth leol gyda cynrychiolwyr y 3 undeb cydnabyddedig.

Eglurwyd fod amondau gwaith Athrawon yn fater y byddai'n ofynnol ei drafod ar lefel genedlaethol ac nid oes modd sefydlu Dydd Gŵyl Dewi fel diwrnod o wyliau i athrawon drwy ddod i gytundeb yn lleol.

O ganlyniad i hyn nodwyd y bydd angen ymwchilio i opsiynau posib i wneud trefniant o'r fath yn un parahol.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU

---

---

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

# CABINET CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 18fed o Ionawr, 2022  
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Nia Jeffreys  
Swyddog Cyswllt: Geraint Owen  
Rhif Ffon Cyswllt: 32335  
Teitl yr Eitem: Dathlu Dydd Gŵyl Ddewi

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- a. Dynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol a paragraff 2.10 o'r adroddiad
- b. Awdurdodi swyddogion i ymchwilio i opsiynau posib i wneud trefniant o'r fath yn un parhaol ac i'r perwyl hwnnw cynnal trafodaethau pellach efo'r undebau llafur cydnabyddedig a pharhau i lobio am gefnogaeth Llywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru sefydlu gwyliau banc i Gymru.

### 2. CEFNDIR A'R RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref, penderfynwyd fel a ganlyn:

- a. *Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.*
- b. *Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

2.2 Mae gwyliau blynyddol yn fater cytundebol sydd yn ymwneud â chyflogaeth staff y Cyngor. Mae hynny yn golygu fod gofyn i ni fel cyflogwr drafod y mater yn lleol fel rhan o amodau gwaith gweithwyr llywodraeth leol ac hynny hefo cynrychiolwyr y tri undeb cydnabyddedig, sef Unsain, y GMB ac Unite. Yn hynny o beth, y disgwyliad fyddai bod y Cyngor, fel cyflogwr, a'r undebau llafur cydnabyddedig yn dod i gonsensws ar y ffordd ymlaen.

2.3 Fodd bynnag, mae amodau gwaith athrawon yn ein hysgolion yn fater y byddai'n ofynnol ei drafod ar lefel cenedlaethol ac yn hynny o beth nid oes modd sefydlu Dydd Gŵyl Ddewi fel diwrnod o wyliau i athrawon trwy ddod i gytundeb yn lleol. Ar y llaw arall, mae gweddill staff yr ysgolion yn gweithio yn unol a thelerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol ac felly byddai unrhyw gytundeb a wireddir yn lleol yn berthnasol iddynt hwy.

- 2.4 Yng nghyd-destun yr hyn y gellir ei gytuno arno yn lleol, mae swyddogion eisoes wedi tynnu sylw'r undebau at y cynnig a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn, ac wedi cynnal trafodaeth anffurfiol ar yr opsiynau y gellir eu hystyried os yw'r Cabinet yn casglu y dylid ceisio sefydlu diwrnod o wyliau ychwanegol. Dyma'r opsiynau hynny:
- Caniatáu diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol i bob aelod staff perthnasol i'w gymryd ar un ai y 1af o Fawrth yn flynyddol neu ar y diwrnod gwaith agosaf pe bai'r 1af o Fawrth yn disgyn ar y penwythnos – gyda'r staff hynny a fyddai'n gorfod gweithio ar y diwrnod hwnnw yn cael y rhyddid i gymryd y diwrnod ychwanegol ar adeg arall yn ystod y flwyddyn.
  - Mae'r Cyngor eisoes yn caniatáu diwrnod a hanner ychwanegol i gyfanswm gwyliau blynyddol staff. Mae'n bosib cynnig fod un diwrnod o'r diwrnod a hanner ychwanegol hwnnw yn cael ei ddefnyddio i bwrpas sicrhau diwrnod o wyliau ar ddydd Gŵyl Ddewi. O weithredu yn y modd yma, byddai carfan sylweddol o staff y Cyngor yn colli'r rhyddid i gymryd y diwrnod o wyliau hwnnw ar adeg o'u dewis, fel ag y gwneir yn bresennol.
  - Cyflwynodd yr undebau opsiwn arall i'w ystyried, sef cyfuniad o'r ddau gynnig olaf h.y. bod y Cyngor yn ariannu hanner diwrnod ychwanegol o wyliau, gan hefyd ail ddynodi hanner diwrnod o'r gwyliau blynyddol ychwanegol (sydd eisoes yn cael ei roi) er mwyn sefydlu Dydd Gŵyl Ddewi fel diwrnod o wyliau i staff.
- 2.5 O ganiatáu diwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer dathlu dydd Gŵyl Ddewi, byddai cost oddeutu £200,000 yn flynyddol i'r Cyngor (oddeutu £100,000 o weithredu'r opsiwn olaf sydd yn cynnig ychwanegu hanner diwrnod o wyliau ac ail-ddynodi hanner diwrnod arall o'r cyfanswm gwyliau a ganiateir yn bresennol). Mae'r costau hyn yn bennaf oherwydd yr angen i gyflogi staff achlysurol i sicrhau parhad gwasanaeth yn absenoldeb staff sefydlog.
- 2.6 Yn amlwg, ni fyddai angen cytundeb ffurfiol efo'r undebau llafur cydnabyddedig yng nghyswllt yr opsiwn cyntaf ond byddai angen darparu cyfnod o ymgynghori, gyda golwg i sicrhau cytundeb torfol gyda cynrychiolwyr yr undebau, pe byddai'r Cabinet yn ffafrio un o'r ddau opsiwn arall. Golyga hynny na fyddai amser digonol er mwyn cyflwyno'r newid posib i'r amodau gwaith ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi 2022.
- 2.7 Mae hynny yn arwain at un opsiwn tymor byr arall, sef yr hyn sy'n cael ei argymhell fel y penderfyniad a geisir, ple bo'r Cabinet yn caniatáu un diwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer eleni yn unig gan ddynodi'r diwrnod hwnnw ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi (heblaw am y staff hynny a fyddai'n rhaid gweithio ar y diwrnod hwnnw a fyddai'n gallu cymryd y diwrnod ychwanegol ar adeg o'u dewis yn ystod y flwyddyn). Byddai gwneud hynny yn arwain at gost unwaith ac am byth oddeutu £200,000 ond hefyd yn caniatáu'r amser angenrheidiol ar gyfer ymchwilio i opsiynau posib i wneud trefniant o'r fath yn un parhaol ac i'r perwyl hwnnw cynnal trafodaethau pellach efo'r undebau llafur cydnabyddedig.
- 2.8 Hyd yn oed pe na fyddai'r Cabinet am symud ymlaen i sefydlu trefniant parhaol ar y pwynt yma, byddai cymeradwyo un diwrnod o wyliau ychwanegol am eleni yn dilyn trywydd y mae rhai awdurdodau cyhoeddus eraill wedi'i wneud yn ddiweddar e.e. Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Conwy.
- 2.9 Byddai penderfynu dynodi diwrnod ychwanegol o wyliau am eleni yn unig i gychwyn, hefyd yn rhoi'r cyfle i geisio adnabod opsiynau ychwanegol i'r tri sydd wedi dod i'r amlwg hyd yma, sef y rhai a nodir ym mharagraff 2.4 o'r adroddiad hwn. Rhaid cydnabod fod cost i wireddu'r opsiynau sydd wedi eu hadnabod hyd yma felly bydd cyfle dros y misoedd nesaf i geisio adnabod opsiynau pellach hefyd.

- 2.10 Am eleni, fel a amlygir yn sylwadau y Pennaeth Cyllid, mae modd ariannu'r gost o gyflawni'r cynllun hwn o danwariant net. Fodd bynnag, os am ddod i drefniant parhaol ar gyfer y blynyddoedd dilynol byddai angen gwneud darpariaeth benodol yng nghyllideb refeniw y Cyngor. Gan nad ydym ar hyn o bryd wedi gorffen ymchwilio i'r holl opsiynau yn llawn a sefydlu'r costau ynghlwm i'r opsiynau hynny, ni ellir dod i benderfyniad parhaol ar y pwynt yma. Felly, yn dilyn sefydlu'r holl opsiynau posib, bydd angen i'r Cabinet gloriannu'r gost o wireddu trefniant parhaol yn erbyn blaenoriaethau eraill y Cyngor.
- 2.11 Eto, yn y cyd-destun yma, atgoffir aelodau'r Cabinet na fyddai modd cynnwys athrawon oherwydd nad yw'r hawl gan y Cyngor i newid yr amodau gwaith hynny yn lleol. Yn amlwg, os am ganiatáu diwrnod ychwanegol o wyliau yn barhaol yna byddem yn dymuno cynnwys athrawon yn y trefniant hwnnw. Argymhellir felly y dylid hefyd parhau i alw ar lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru.
- 2.12 Gellir cadarnhau bod yr oblygiadau cydraddoldeb wedi'u hasesu a bod yr argymhelliad a wneir yn gydnaws a dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

- 3.1 Yn ei gyfarfod ar y 7 o Hydref, 2021, bu i'r Cyngor hefyd alw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru yr hawl i fedru sefydlu gwyliau banc ar gyfer Cymru, yn yr un modd ag y gwneir eisoes ar gyfer llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Ysgrifennodd Cadeirydd y Cyngor at Lywodraeth San Steffan yn ddiweddarach a derbyniwyd ymateb ar y 10 o Ragfyr, 2021 gan yr Is-Ysgrifennydd yn yr Adran Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol yn nodi nad oes gan Lywodraeth San Steffan unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau presennol ar gyfer sefydlu gwyliau banc yng Nghymru (gweler yr ohebiaeth yn atodiadau 1 a 2).
- 3.2 Ar sail yr ymateb hynod o siomedig yma, mae'n amlwg nad oes unrhyw fwriad gan Llywodraeth bresennol San Steffan i ddatganoli'r hawl hwn ar hyn o bryd ac felly ni fydd modd ymateb yn gadarnhaol i ddymuniad y Cyngor llawn trwy benderfyniad gan Lywodraeth Cymru am y tro.
- 3.3 O ganlyniad, cyflwynir yr argymhellion i'r Cabinet fel yr unig fodd ymarferol bosib o sefydlu dydd Gŵyl Ddewi 2022 fel diwrnod o wyliau i staff y Cyngor.

### **4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Pe byddai'r Cabinet yn ffafrio'r opsiwn i ddynodi Dydd Gŵyl Ddewi fel gwyliau ychwanegol ar gyfer 2022 yn unig ac yna'n awyddus i roi ystyriaeth bellach i'r hyn ellir ei wireddu yn y tymor hirach, bydd modd addasu hawliau gwyliau staff am y flwyddyn gyfredol yn syth gan hefyd gynnal trafodaethau pellach efo'r undebau llafur cydnabyddedig ynglŷn a threfniadau i'r dyfodol, gyda golwg i adrodd ymhellach ar yr argymhellion ym Mehefin eleni.

### **5. UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

#### **Y Swyddog Monitro**

Fe nodir yn arddodiad fod yr argymhelliad yma yn deillio o gais gan y Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref i'r Cabinet ystyried dynodi diwrnod o wyliau staff ar Ddydd Gwyl Dewi. Gan fod penderfyniad o'r fath yn fater Cabinet nid oes unrhyw reidrwydd gweithredu y penderfyniad Cyngor yma ac mae'n rhaid i'r Cabinet roi ystyriaeth briodol i'r hyn a argymhellir. Amlygir y rhesymeg am gynnig un tro sydd yn cydnabod fod gofynion ymgynghori a thrafod pellach ar gyfer sefydlu unrhyw drefniant parhaol petai dymuniad. Rwy'n fodlon fod yr argymhelliad yn briodol.

## **Y Pennaeth Cyllid**

Gallaf gadarnhau fod swyddogion yr Adran Gyllid wedi cynorthwyo awdur yr adroddiad i adnabod y costau byddai'r Cyngor yn eu hwynebu wrth ddynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o wyliau i'r gweithlu ac rwyf yn fodlon fod yr wybodaeth ariannol a nodir yn yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r amcangyfrifon hynny.

Mae adroddiad *Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021*, sydd yn eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma, yn nodi fod y pwysau ar nifer o gyllidebau corfforaethol eu natur ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni a ceisir penderfyniad i drosglwyddo'r tanwariant net ar y cyllidebau hyn i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol. Byddai'r trosglwyddiad yma, petai'r Cabinet yn ei ganiatáu, yn sylweddol fwy na chostau dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o wyliau i'r gweithlu. Byddai felly yn briodol a rhesymol i ddigolledu adrannau fyddai'n gweld cynnydd un-tro yn eu costau fel canlyniad i'r penderfyniad hwn allan o'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol, fel bo'r angen yn codi. Ar y llaw arall, petai'r Cabinet yn penderfynu peidio trosglwyddo'r tanwariant byddai hwnnw yn parhau ar gael i'w ddefnyddio i'r pwrpas yma

**Cadeirydd y Cyngor**  
**Chairman of the Council**  
Y Cynghorydd / Councillor Simon Glyn



Gofynnwch am/Ask for: **Eirian Roberts**  
☐ (01286) 679018 Ein Cyf / Our Ref: ER  
☐ (01286) 671072 Eich Cyf / Your Ref:  
E-bost / E-mail: [eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)

Y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng, AS  
Ysgrifennydd Gwladol Dros Fusnes, Ynni a Strategaeth  
Ddiwydiannol  
1 Victoria Street  
Llundain. SW1H 0ET

17 Tachwedd, 2021

Annwyl Mr Kwarteng,

Hoffwn ddwyn eich sylw at y cynnig canlynol a fabwysiadwyd yn unfrydol mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Gwynedd:-

**“PENDERFYNWYD:-**

- 1. Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.**
- 2. Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.”**

Gosododd y cynigydd y cyd-destun i'w gynnig gan olrhain rhywfaint o hanes Dewi Sant, nawddsant Cymru, a'i arwyddocâd i'r Cymry, gan hefyd bwysleisio mai diben y cynnig oedd ceisio adfer rhywfaint o hunan-barch o ran ein arwahanrwydd a'n hunaniaeth fel cenedl.

Roedd rhai o'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth yn cynnwys:-

- Y cytunid yn llwyr â'r egwyddor, a chefnogid yr alwad i sefydlu Dydd Gŵyl Dewi fel gŵyl banc yng Nghymru.
- Ei bod yn warthus ac yn embaras bod yr hawl i greu gwyliau banc wedi'i roi i Lywodraeth yr Alban ac i Lywodraeth Gogledd Iwerddon, ond nid i Lywodraeth Cymru.
- Ei bod yn sarhad ar y Cymry ers canrifoedd nad oes gennym fel gwlad yr hawl i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Y ddadl o hyd yw'r gost, ond mae gŵyl banc yn hwb anhygoel i economi cefn gwlad.
- Bod dyletswydd ar unrhyw un sy'n byw yng Nghymru i gefnogi ein nawddsant, waeth beth yw eu cefndir a'u traddodiad.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r cynnig hwn fel y gallaf adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Yn gywir,

**Y Cynghorydd Simon Glyn**  
**Cadeirydd y Cyngor**

CYFIEITHIAD O YMATEB LLYWODRAETH SAN STEFFAN I LYTHYR  
CADEIRYDD Y CYNGOR

10 o Ragfyr, 2021

Annwyl Gynghorydd Glyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd at y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng AS, ynglŷn a'r cynnig i gydnabod Dydd Gŵyl Ddewi yn ffurfiol fel gŵyl banc yng Nghymru. Rwyf yn ymateb gan bod y mater yn disgyn o fewn fy mhortffolio gweinidogol.

Tra ein bod yn gwerthfawrogi bod pobl Cymru eisiau dathlu eu nawdd sant, mae mwy o bobl yn gweithio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr nag oes rhwng yr Alban a Lloegr. Gallai'r integreiddio agosach hyn arwain at amharu mwy ar fusnes. Pe byddai ganddom wyliau banc ar wahân yng Nghymru a Lloegr, mae'n anodd rhagweld yr effaith a fyddai hynny yn ei gael ar weithwyr a busnesau.

Tra byddai gŵyl banc ychwanegol o fudd i rai cymunedau a sectorau, byddai'r gost o ŵyl banc ychwanegol i'r economi yn parhau'n sylweddol. Mae asesiad a wnaed yn dilyn yr ŵyl banc ychwanegol ar gyfer y Jiwbili Diemwnt yn 2012 yn arddangos (ar draws y DU yn ei gyfanrwydd) bod y gost i'r economi o'r ŵyl banc ychwanegol hwnnw oddeutu £1.2 biliwn.

Mae pob setliad datganoli unigol wedi'i datblygu gan ystyried y cefndir o'r gwahanol hanes a'r systemau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol. Mae gwahanol ffactorau angen ystyriaethau ar wahân. Nid yw'r hyn sy'n gweithio mewn un lle yn gweithio mewn man arall pob tro ac ni ddylem dybio mai datganoli yw y datrysiad cywir oherwydd ei fod wedi'i ddatganoli mewn man arall.

Am y rheswm hwn, nid oes gan y Llywodraeth gynlluniau cyfredol i newid y trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu a'u derbyn ar gyfer gwyliau banc yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i gyd-weithio hefo pob un o'r Llywodraethau Datganoledig er mwyn sicrhau bod sefydliadau'r DU yn gweithio ar y cyd fel un DU. Rydym yn gwerthfawrogi'r gweithio agos parhaus efo Llywodraeth Cymru tra hefyd yn parchu ei natur datganoledig, er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu economi gref a mentrus ar draws y Deyrnas Unedig.

Diolch eto am roi'r amser i ysgrifennu ataf.

Yn gywir,

**PAUL SCULLY AS**

Gweinidog ar gyfer Busnesau Bach, Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur  
Gweinidog dros Lundain



# Eitem 6

|                  |                                                                                                                                                                                           |
|------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CYFARFOD:        | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU                                                                                                                                                         |
| DYDDIAD:         | 10 CHWEFROR 2022                                                                                                                                                                          |
| TEITL:           | CYLLIDEB REFENIW 2021/22 –<br>ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021                                                                                                                              |
| PWRPAS:          | Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf                                                                                                                                      |
| GWEITHREDIAD:    | Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau |
| AELOD CABINET:   | CYNGHORYDD IOAN THOMAS                                                                                                                                                                    |
| SWYDDOG CYSWLLT: | FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID                                                                                                                                                     |

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021) i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

## Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 18/01/2022

Adroddiad Cabinet 18/01/2022: Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

|                                                                                                                                                                              |                 |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|
| <b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>                                                                                                                                       | 18 Ionawr 2022  |
| <b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Chwefror 2022 |

### PWNC

Eitem 7: CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021

### PENDERFYNIAD

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2021 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodwyd fod effaith ariannol Covid yn parhau yn 2021/22, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodwyd fod cyfundrefn cymorth Covid Llywodraeth Cymru drwy gronfa caledi yn parhau, ond nad yw'n cyfarch gorwariant oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodwyd fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol eleni.
- Cymeradwywyd yr argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
  - Tanwariant o (£20k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - Tanwariant net o (£1,846k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**ADRODDIAD I'R CABINET**  
18 IONAWR 2022

**Aelod Cabinet:** Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**1. Y penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2021 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi fod effaith ariannol Covid yn parhau yn 2021/22, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodi fod cyfundrefn cymorth Covid Llywodraeth Cymru drwy gronfa caledi yn parhau, ond nad yw'n cyfarch gorwariant oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol eleni.
- Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2**).
  - Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
    - Tanwariant o (£20k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
    - Tanwariant net o (£1,846k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Tachwedd yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2021/22, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd yn Bwrdeistrefol yn gorwario ar ddiwedd y flwyddyn tra bod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

## 3. Covid

Fel yr ydym eisoes wedi adrodd i Gabinet, mae effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm, oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 ac yn £10.4 miliwn hyd yn hyn eleni. Gweler y manylion yn **Atodiad 3**.

Yn dilyn i Lywodraeth Cymru sefydlu cronfa caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm Awdurdodau Lleol, yng Ngwynedd mae ceisiadau misol gwerth £8.4 miliwn wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, i ddigolledu'r Cyngor am y gwariant ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Tachwedd, gyda chyllid o £5.5 miliwn eisoes wedi ei dderbyn.

O ran y colledion incwm, roedd gwerth y cais am hanner cyntaf y flwyddyn dros £1.7 miliwn, gyda £1.4 miliwn eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

## 4. Sefyllfa Arbedion

Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod dros £32.8 miliwn sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Heb amheuaeth bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £855k, tra bod £666k gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

## **5. Adrannau'r Cyngor**

Yr hyn sydd yn amlwg iawn eleni yw'r pwysau sylweddol sydd yn wynebu'r maes gofal oedolion a'r maes gwastraff, tra bod dyraniad adnodd ychwanegol a dileu cynlluniau arbedion yn golygu rhagolygon sefyllfa ariannol gytbwys gan yr Adran Plant a Theuluoedd. Mae'r prif faterion o fewn yr adrannau fel a ganlyn:

### **5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Rhagwelir gorwariant o £995k eleni gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg o'r gorwariant. Y prif feysydd gorwariant yw gwasanaethau pobl hŷn, anableddau dysgu a gofal cymunedol. Mae effaith Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda gwerth dros £3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol am y cyfnod hyd at ddiwedd Tachwedd.

Bydd yr Aelodau Cabinet yn cofio iddynt ganiatáu gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

### **5.2 Adran Plant a Theuluoedd**

Yn dilyn i'r Cyngor ddyrannu £1.8 miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllidebu 2021/22 ar gyfer cwrdd â'r pwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion nad oedd yn gwireddu, mae'r rhagolygon ariannol ar hyn o bryd yn addawol iawn, gyda tanwariant o £113k yn cael ei ragweld.

Yr ystadegau diweddaraf yn cadarnhau fod y pwysau mewn gwahanol feysydd yn is na lefelau 2020/21, ond fod gorwariant yn parhau yn y maes Arbenigol/Derwen ac Ôl-16.

### **5.3 Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol**

Y maes bwrdeistrefol yn parhau i fod yn gorwario gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu a gwaredu gwastraff. Mae'r adran yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £666k mewn nifer o feysydd. Mae'r adran hefyd wedi wynebu costau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â Covid i gydymffurfio efo'r rheolau, gyda Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu hyd at ddiwedd Hydref, ac rydym yn ffyddiog y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i'n digolledu am y costau ychwanegol am weddill y flwyddyn.

## **5.4 Byw'n lach**

Yn ystod 2020/21 gwelwyd goblygiadau'r argyfwng ar gwmni Byw'n lach gyda cholled ariannol sylweddol oedd bron i £2.7 miliwn am y flwyddyn ariannol. Llwyddwyd i adennill y golled ariannol yn ei gyfanrwydd drwy hawlio drwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ynghyd â'r cynllun Saib Swyddi (Ffyrlo).

O ran y rhagolygon eleni, bydd hawliadau gwerth oddeutu £1.4 miliwn yn cael eu hawlio gan y Llywodraeth am y cyfnod hyd at ddiwedd Tachwedd, gyda'r disgwyliad y bydd y gefnogaeth ariannol gan y Llywodraeth yn parhau am weddill y flwyddyn ariannol. Felly, er y bu adroddiad i'r Cabinet 9 Mawrth 2021, oedd yn nodi fod y Cyngor yn tanysgrifennu'r golled i Byw'n lach, nid yw'n ymddangos y bydd y golled yn disgyn ar y Cyngor eleni.

## **5.5 Corfforaethol**

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol a hefyd yn gyfrifol am y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

## **6. Casgliad Cyffredinol**

Unwaith eto eleni, mae effaith ariannol Covid yn amlwg iawn ar y ffigyrau, gyda methiant i wireddu arbedion yn ffactor amlwg gan y ddwy adran sydd yn gorwario fwyaf sef yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei fantoli o ganlyniad i danwariant gan y mwyafrif o'r adrannau ynghyd â chyllidebau Corfforaethol.

## **7. Camau nesaf ac amserlen**

Bydd y cyfrifwyr yn parhau i hawlio am y costau ychwanegol a'r colledion incwm perthnasol i Covid gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 18 Mai 2022 ar sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22.

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Grant gan y Llywodraeth yn Sgil Argyfwng Covid

**Cyllideb Refeniw 2021/22 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran**

|                                                                   | Adolygiad Diwedd Tachwedd             |                                                  |                                   |                                                      | Amcan Sefyllfa Diwedd Awst 2021/22<br>£ '000 |
|-------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------------------------------|-----------------------------------|------------------------------------------------------|----------------------------------------------|
|                                                                   | Cyllideb Arfaethedig 2021/22<br>£'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22<br>£ '000 | Addasiadau a Argymhellir<br>£'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2021/22<br>£ '000 |                                              |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant                                       | 57,875                                | 995                                              | 0                                 | 995                                                  | 1,370                                        |
| Plant a Theuluoedd                                                | 19,304                                | (113)                                            | 0                                 | (113)                                                | (36)                                         |
| Addysg                                                            | 98,048                                | (54)                                             | 0                                 | (54)                                                 | (89)                                         |
| Economi a Chymuned                                                | 5,043                                 | (86)                                             | 0                                 | (86)                                                 | (203)                                        |
| Prifffyrdd a Bwrdeistrefol                                        | 25,671                                | 862                                              | 0                                 | 862                                                  | 982                                          |
| Amgylchedd                                                        | 3,691                                 | (178)                                            | 0                                 | (178)                                                | (228)                                        |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd                                            | (130)                                 | 5                                                | 0                                 | 5                                                    | (30)                                         |
| Tai ac Eiddo                                                      | 5,567                                 | (306)                                            | 0                                 | (306)                                                | (175)                                        |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol                           | 2,073                                 | (87)                                             | 0                                 | (87)                                                 | (94)                                         |
| Cefnogaeth Gorfforaethol                                          | 6,984                                 | (83)                                             | 0                                 | (83)                                                 | (92)                                         |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)                                  | 6,567                                 | (56)                                             | 0                                 | (56)                                                 | (62)                                         |
| <b>Cyllidebau Corfforaethol</b><br><i>(Gwahaniaethau yn unig)</i> | *                                     | (1,866)                                          | 1,866                             | 0                                                    | 0                                            |
| <b>Cyfansymiau (net)</b>                                          | <b>230,693</b>                        | <b>(967)</b>                                     | <b>1,866</b>                      | <b>899</b>                                           | <b>1,343</b>                                 |

Trosglwyddiad i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol 1,846

Trosglwyddiad i Gronfa Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf 20

1,866



**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| <b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>                 | <b>Cyllideb Arfaethedig 2021/22</b> | <b>Amcan Sefyllfa 2021/22</b> | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22</b> | <b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b> | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22</b> | <b>Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2021/22</b> |
|----------------------------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------|-----------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>                                            | £'000                               | £'000                         | £'000                                         | £'000                                                                   | £'000                                              | £'000                                                 |
| <b><u>Gwasanaethau Oedolion</u></b>                      |                                     |                               |                                               |                                                                         |                                                    |                                                       |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn                                    |                                     |                               |                                               |                                                                         |                                                    |                                                       |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi                              | 15,957                              | 15,067                        | (890)                                         | 0                                                                       | (890)                                              | (825)                                                 |
| Gofal Cartref                                            | 7,451                               | 8,084                         | 633                                           | 0                                                                       | 633                                                | 616                                                   |
| Eraill                                                   | (123)                               | 690                           | 813                                           | 0                                                                       | 813                                                | 905                                                   |
|                                                          | 23,285                              | 23,841                        | 556                                           | 0                                                                       | 556                                                | 696                                                   |
| Gwasanaethau Anabledd Corff                              | 2,531                               | 2,486                         | (45)                                          | 0                                                                       | (45)                                               | (165)                                                 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu                              | 21,379                              | 21,890                        | 511                                           | 0                                                                       | 511                                                | 724                                                   |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl                               | 3,629                               | 3,844                         | 215                                           | 0                                                                       | 215                                                | (2)                                                   |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion)                           | 3,264                               | 3,185                         | (79)                                          | 0                                                                       | (79)                                               | 88                                                    |
| <b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u></b>             | <b>54,088</b>                       | <b>55,246</b>                 | <b>1,158</b>                                  | <b>0</b>                                                                | <b>1,158</b>                                       | <b>1,341</b>                                          |
| <b><u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u></b> |                                     |                               |                                               |                                                                         |                                                    |                                                       |
| Gofal Preswyl                                            | (54)                                | (353)                         | (299)                                         | 0                                                                       | (299)                                              | (371)                                                 |
| Gofal Dydd                                               | (2)                                 | (140)                         | (138)                                         | 0                                                                       | (138)                                              | (131)                                                 |
| Gofal Cymunedol                                          | 223                                 | 765                           | 542                                           | 0                                                                       | 542                                                | 640                                                   |
| Eraill                                                   | (4)                                 | (17)                          | (13)                                          | 0                                                                       | (13)                                               | (16)                                                  |
| <b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u></b>              | <b>163</b>                          | <b>255</b>                    | <b>92</b>                                     | <b>0</b>                                                                | <b>92</b>                                          | <b>122</b>                                            |

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| <b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>                               | <b>Cyllideb Arfaethedig 2021/22</b> | <b>Amcan Sefyllfa 2021/22</b> | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22</b> | <b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b> | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22</b> | <b>Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2021/22</b> |
|------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------|-----------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>                                                          | £'000                               | £'000                         | £'000                                         | £'000                                                                   | £'000                                              | £'000                                                 |
| <b><u>Gwasanaethau Eraill</u></b>                                      |                                     |                               |                                               |                                                                         |                                                    |                                                       |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol ( <i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i> ) | 3,424                               | 3,573                         | 149                                           | 0                                                                       | 149                                                | 236                                                   |
| Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgil Covid 19                       | 200                                 | 125                           | (75)                                          | 0                                                                       | (75)                                               | 0                                                     |
| Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran                                     | 0                                   | (329)                         | (329)                                         | 0                                                                       | (329)                                              | (329)                                                 |
| <b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u></b>                             | <b>3,624</b>                        | <b>3,369</b>                  | <b>(255)</b>                                  | <b>0</b>                                                                | <b>(255)</b>                                       | <b>(93)</b>                                           |
| <b><u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u></b>                     | <b>57,875</b>                       | <b>58,870</b>                 | <b>995</b>                                    | <b>0</b>                                                                | <b>995</b>                                         | <b>1,370</b>                                          |

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - lleihad yn y galw am breswyl a nyrsio ac er y bu llai o alw am Ofal Cartref y llynedd yn sgil Covid, galw cynyddol yn amlwg eleni. Yn 'Eraill' gorwariant ar Lety Cefnogol gyda chostau cynllun Hafod y Gest ac Awel y Coleg yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol, bu cynnydd hefyd yn y nifer pecynnu taliadau uniongyrchol a thrafferthion gwireddu arbedion.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - Achos newydd preswyl a nyrsio a phwysau cynyddol ar lety cefnogol ond lleihad yn y galw am ofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - achosion newydd costus yn llety cefnogol a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol sydd yn cael ei leihau gan arian un-tro eleni.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - pwysau cynyddol ar breswyl a nyrsio a chynlluniau cefnogol.

**Gwasanaethau Darparu** - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a cholled incwm yn faterion yn Gofal Cymunedol, tra fod trosiant staff wedi arwain at danwariant mewn nifer o gartrefi pobl hŷn ac oblygiadau Covid wedi amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - rhai cynlluniau arbedion yn parhau heb eu gwireddu ond yr effaith yn cael ei leihau gan drosiant staff a derbyniad grant.

**Cyllideb 2021/22** - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

**Gwariant / Grant Covid19** - mae effaith Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda dros £3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru at y pwysau ychwanegol hyd at ddiwedd Tachwedd.

**Arbedion** - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £855k yn parhau heb eu gwireddu.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| <b>Adran Plant a Theuluoedd</b>    | <b>Cyllideb<br/>Arfaethedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Sefyllfa<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant Gros<br/>2021/22</b> | <b>Defnydd o<br/>Ffynonellau<br/>Eraill Neu<br/>Addasiadau<br/>Eraill a<br/>Argymhellir</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant<br/>Addasedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan Gor/(Tan)<br/>Wariant<br/>Adolygiad Awst<br/>2021/22</b> |
|------------------------------------|---------------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>                      | <b>£'000</b>                                | <b>£'000</b>                          | <b>£'000</b>                                              | <b>£'000</b>                                                                                | <b>£'000</b>                                                       | <b>£'000</b>                                                      |
| Rheolaeth Gwasanaeth               | 591                                         | 573                                   | (18)                                                      | 0                                                                                           | (18)                                                               | (13)                                                              |
| Gweithredol                        | 2,082                                       | 2,257                                 | 175                                                       | 0                                                                                           | 175                                                                | 147                                                               |
| Lleoliadau                         |                                             |                                       |                                                           |                                                                                             |                                                                    |                                                                   |
| Lleoliadau All-Sirol               | 4,701                                       | 4,568                                 | (133)                                                     | 0                                                                                           | (133)                                                              | (196)                                                             |
| Maethu Drwy Asiant                 | 1,633                                       | 1,517                                 | (116)                                                     | 0                                                                                           | (116)                                                              | (129)                                                             |
| Maethu Mewnol                      | 2,406                                       | 2,435                                 | 29                                                        | 0                                                                                           | 29                                                                 | 80                                                                |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill    | 1,688                                       | 1,651                                 | (37)                                                      | 0                                                                                           | (37)                                                               | (52)                                                              |
|                                    | 10,428                                      | 10,171                                | (257)                                                     | 0                                                                                           | (257)                                                              | (297)                                                             |
| Ôl-16                              | 1,238                                       | 1,303                                 | 65                                                        | 0                                                                                           | 65                                                                 | 116                                                               |
| Arbenigol/Derwen                   | 1,826                                       | 2,089                                 | 263                                                       | 0                                                                                           | 263                                                                | 259                                                               |
| Cyfiawnder Ieuenctid               | 252                                         | 215                                   | (37)                                                      | 0                                                                                           | (37)                                                               | (37)                                                              |
| Blynyddoedd Cynnar                 | 137                                         | 83                                    | (54)                                                      | 0                                                                                           | (54)                                                               | (35)                                                              |
| Ieuenctid                          | 889                                         | 707                                   | (182)                                                     | 0                                                                                           | (182)                                                              | (150)                                                             |
| Eraill                             | 1,861                                       | 1,793                                 | (68)                                                      | 0                                                                                           | (68)                                                               | (26)                                                              |
| <b>Cyfanswm Plant a Theuluoedd</b> | <b>19,304</b>                               | <b>19,191</b>                         | <b>(113)</b>                                              | <b>0</b>                                                                                    | <b>(113)</b>                                                       | <b>(36)</b>                                                       |

**Plant a Theuluoedd**

Yn dilyn dyrannu dros £1.8m o arian ychwanegol i'r adran ar gyfer 2021/22 ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o arbedion, y rhagolygon eleni o ganlyniad yn llawer mwy addawol gyda thanwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn.

**Gweithredol** - gorwariant ar gynlluniau cefnogol, ond sydd islaw'r lefelau a welwyd cyn cyfnod y Covid, ynghyd â gorwariant ar gostau staff.

**Lleoliadau** - dyraniad bid a dileu arbedion wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd wedi bod yn gorwario'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er y gwelwyd 5 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, y nifer cyfartalog lawr i 21.7 o'i gymharu â 22 ar gyfer 2020/21. Y niferoedd cyfartalog hefyd i lawr ar gyfer maethu drwy asiant sydd yn 31.5 eleni i gymharu gyda 33.4 yn 2020/21. Yn Maethu Mewnol, rhagwelir gorwariant ynghlwm â'r cynllun Tâl am Sgiliau a'r Cynllun Aros Ymlaen.

**Ôl-16** - y maes yma wedi bod yn destun bid gwerth £100k eleni sydd wedi cynorthwyo i leihau y pwysau ar y gyllideb sydd yn deillio o effaith flwyddyn lawn achosion.

**Arbenigol/Derwen** – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ynghyd â newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

**Blynyddoedd Cynnar** – defnydd cynyddol o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

**Ieuenctid** – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| <b>Adran Addysg</b>                      | <b>Cyllideb<br/>Arfaethedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Sefyllfa<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant Gros<br/>2021/22</b> | <b>Defnydd o<br/>Ffynonellau<br/>Eraill Neu<br/>Addasiadau<br/>Eraill a<br/>Argymhellir</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant<br/>Addasedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan Gor/(Tan)<br/>Wariant<br/>Adolygiad Awst<br/>2021/22</b> |
|------------------------------------------|---------------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>                            | £'000                                       | £'000                                 | £'000                                                     | £'000                                                                                       | £'000                                                              | £'000                                                             |
| Ysgolion Datganoledig                    | 82,309                                      | 82,309                                | 0                                                         | 0                                                                                           | 0                                                                  | 0                                                                 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion            | (813)                                       | (1,122)                               | (309)                                                     | 0                                                                                           | (309)                                                              | (313)                                                             |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol       |                                             |                                       |                                                           |                                                                                             |                                                                    |                                                                   |
| Cludiant                                 | 5,518                                       | 5,619                                 | 101                                                       | 0                                                                                           | 101                                                                | 262                                                               |
| Gwasanaeth Atodol                        | 461                                         | 839                                   | 378                                                       | 0                                                                                           | 378                                                                | 177                                                               |
| Eraill                                   | 3,324                                       | 3,289                                 | (35)                                                      | 0                                                                                           | (35)                                                               | (51)                                                              |
|                                          | 9,303                                       | 9,747                                 | 444                                                       | 0                                                                                           | 444                                                                | 388                                                               |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth               | 2,240                                       | 2,088                                 | (152)                                                     | 0                                                                                           | (152)                                                              | (129)                                                             |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 5,009                                       | 4,972                                 | (37)                                                      | 0                                                                                           | (37)                                                               | (35)                                                              |
| <b>Cyfanswm Addysg</b>                   | <b>98,048</b>                               | <b>97,994</b>                         | <b>(54)</b>                                               | <b>0</b>                                                                                    | <b>(54)</b>                                                        | <b>(89)</b>                                                       |

**Addysg**

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniadau grantiau, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant.

**Cludiant** - Er fod £291k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2021/22, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu £164k o orwariant ar Gludiant Tacsis eleni. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd am y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar. Derbyniad grant a thanwariant un-tro ar fysis ysgolion eleni yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - gorwariant staff, colledion incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brecwast. Gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid hefyd yn amlwg, gyda chyfran o'r colledion incwm a'r gwariant ychwanegol perthnasol yn cael eu hawlio gan Lywodraeth Cymru.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £223k.

| <b>CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b> |                                             |                                       |                                                           |                                                                                             |                                                                    |                                                                   |
|-------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|
| <b>Adran Economi a Chymuned</b>                             | <b>Cyllideb<br/>Arfaethedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Sefyllfa<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant Gros<br/>2021/22</b> | <b>Defnydd o<br/>Ffynonellau<br/>Eraill Neu<br/>Addasiadau<br/>Eraill a<br/>Argymhellir</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant<br/>Addasedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan Gor/(Tan)<br/>Wariant<br/>Adolygiad Awst<br/>2021/22</b> |
| <b>Maes:-</b>                                               | £'000                                       | £'000                                 | £'000                                                     | £'000                                                                                       | £'000                                                              | £'000                                                             |
| Rheolaeth                                                   | 375                                         | 375                                   | 0                                                         | 0                                                                                           | 0                                                                  | 0                                                                 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau                      | 374                                         | 432                                   | 58                                                        | 0                                                                                           | 58                                                                 | 12                                                                |
| Morwrol a Pharciau Gwledig                                  | 438                                         | 222                                   | (216)                                                     | 0                                                                                           | (216)                                                              | (251)                                                             |
| Cytundebau Hamdden                                          | 1,078                                       | 1,099                                 | 21                                                        | 0                                                                                           | 21                                                                 | 25                                                                |
| Rhaglenni Chwaraeon                                         | 32                                          | 32                                    | 0                                                         | 0                                                                                           | 0                                                                  | 0                                                                 |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd                               | (77)                                        | (23)                                  | 54                                                        | 0                                                                                           | 54                                                                 | 0                                                                 |
| Marchnata a Digwyddiadau                                    | 288                                         | 302                                   | 14                                                        | 0                                                                                           | 14                                                                 | 0                                                                 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd                                       | 1,627                                       | 1,571                                 | (56)                                                      | 0                                                                                           | (56)                                                               | (33)                                                              |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd               | 908                                         | 947                                   | 39                                                        | 0                                                                                           | 39                                                                 | 44                                                                |
| <b>Cyfanswm Economi a Chymuned</b>                          | <b>5,043</b>                                | <b>4,957</b>                          | <b>(86)</b>                                               | <b>0</b>                                                                                    | <b>(86)</b>                                                        | <b>(203)</b>                                                      |



**Economi a Chymuned**

**Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau** - gwariant ychwanegol un-tro ar raglenni adfywio eleni.

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y rhagolygon tanwariant gan gynnwys trosiant staff, rhagori ar incwm yn Hafan Pwllheli, yn sgil y nifer cynyddol o dwristiaid i'r ardal ac felly yn y galw am angorfeydd yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid dros gyfnod yr haf. Gwelwyd hefyd fod incwm y traethau yn rhagori'r targedau incwm yn dilyn tymor prysur o ran twristiaid i'r ardal.

**Cytundebau Hamdden** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, o'r tafluniadau diweddaraf rhagwelir y bydd gorwariant o £21k erbyn diwedd y flwyddyn.

Gan fod Covid wedi amharu ar allu'r canolfannau hamdden i agor ac ar ddarpariaeth gwasanaeth, felly wedi cael effaith ar y gallu i gynhyrchu incwm, mae cais am arian i ddigolledu Byw'n Iach am gostau ychwanegol a cholled incwm Covid gan Lywodraeth Cymru yn £1.4 miliwn hyd at ddiwedd Tachwedd 2021 (£2.7 miliwn yn 2020/21).

**Rhaglenni Datblygu Economaidd** - gwariant ychwanegol ar amrywiol gynlluniau eleni.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - swyddi gwag a throsiant staff sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - sgil effaith Covid wedi amharu ar y lefelau incwm, bu llithriad yn amserlen agor Neuadd Dwyfor yn dilyn y gwaith adnewyddu, sydd yn ei dro wedi arwain at ddiffyg incwm eleni. Problemau yn parhau yn Storiol gyda rhagolygon o ddiffyg o £42k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd) | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22 | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2021/22 |
|---------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|----------------------------------------|------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>                                           | £'000                        | £'000                  | £'000                                  | £'000                                                            | £'000                                       | £'000                                          |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)             | 9,990                        | 9,842                  | (148)                                  | 0                                                                | (148)                                       | (65)                                           |
| Gwasanaethau Peirianeg                                  | 468                          | 577                    | 109                                    | 0                                                                | 109                                         | 136                                            |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol      Gwastraff               | 11,135                       | 11,831                 | 696                                    | 0                                                                | 696                                         | 663                                            |
| Eraill                                                  | 4,078                        | 4,283                  | 205                                    | 0                                                                | 205                                         | 248                                            |
| <b>Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>               | <b>25,671</b>                | <b>26,533</b>          | <b>862</b>                             | <b>0</b>                                                         | <b>862</b>                                  | <b>982</b>                                     |

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - rhagwelir tanwariant ar benawdau amrywiol o'r gyllideb ynghyd â chynnydd mewn incwm sydd yn cynorthwyo i gwrthbwysu'r oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Peirianeg** - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng a phont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiaid.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd mewn grym yn Nwyfor ac Arfon ac yn weithredol ym Meirionnydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn amlwg eleni. Cynnydd hefyd yn y nifer o dunelledd o wastraff ailgylchu a domestig a gesglir sydd yn gynydd o 6% a 9% ers lefelau 2019. Ymhellach, rhagwelir orwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu, costau fflyd a thrafferthion i wireddu arbedion.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys colledion incwm cynnal tiroedd, pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwastraff masnachol, cyfleusterau cyhoeddus a glanhau strydoedd ac arbedion yn parhau heb eu darganfod.

Mae ardrawiad Covid19 wedi cael cryn effaith ar yr adran o ran gwariant ychwanegol a cholled incwm, gyda gwerth dros £1.3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru eleni (£2.4m yn 2020/21).

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| <b>Adran Amgylchedd</b>                   | <b>Cyllideb<br/>Arfaethedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Sefyllfa<br/>2021/22</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant Gros<br/>2021/22</b> | <b>Defnydd o<br/>Ffynonellau<br/>Eraill Neu<br/>Addasiadau<br/>Eraill a<br/>Argymhellir</b> | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant<br/>Addasedig<br/>2021/22</b> | <b>Amcan Gor/(Tan)<br/>Wariant<br/>Adolygiad Awst<br/>2021/22</b> |
|-------------------------------------------|---------------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>                             | <b>£'000</b>                                | <b>£'000</b>                          | <b>£'000</b>                                              | <b>£'000</b>                                                                                | <b>£'000</b>                                                       | <b>£'000</b>                                                      |
| Rheolaeth yr Adran                        | 704                                         | 633                                   | (71)                                                      | 0                                                                                           | (71)                                                               | (82)                                                              |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 391                                         | 393                                   | 2                                                         | 0                                                                                           | 2                                                                  | 145                                                               |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth  |                                             |                                       |                                                           |                                                                                             |                                                                    |                                                                   |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)       | 391                                         | 112                                   | (279)                                                     | 0                                                                                           | (279)                                                              | (281)                                                             |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio                | (1,845)                                     | (1,707)                               | 138                                                       | 0                                                                                           | 138                                                                | (89)                                                              |
| Cludiant Integredig                       | 1,827                                       | 1,992                                 | 165                                                       | 0                                                                                           | 165                                                                | 150                                                               |
|                                           | 373                                         | 397                                   | 24                                                        | 0                                                                                           | 24                                                                 | (220)                                                             |
| Cefn Gwlad a Mynediad                     | 625                                         | 636                                   | 11                                                        | 0                                                                                           | 11                                                                 | 10                                                                |
| Gwarchod y Cyhoedd                        | 1,598                                       | 1,454                                 | (144)                                                     | 0                                                                                           | (144)                                                              | (81)                                                              |
| <b><u>Cyfanswm Amgylchedd</u></b>         | <b>3,691</b>                                | <b>3,513</b>                          | <b>(178)</b>                                              | <b>0</b>                                                                                    | <b>(178)</b>                                                       | <b>(228)</b>                                                      |

**Amgylchedd**

**Rheolaeth** - trosiant staff a thanwariant cyffredinol wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - y rhagolygon incwm wedi gwella ers yr adolygiad ddiwedd Awst yn dilyn i geisiadau sylweddol gael eu cyflwyno dros y misoedd diwethaf. Tanwariant ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**

**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - diffyg incwm parcio sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys costau cyflogi.

**Cludiant Integredig** - rhagwelir gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, gyda'r gwaith o gynnal adolygiad i edrych ar y ddarpariaeth wedi ail gychwyn bellach yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

**Gwarchod y Cyhoedd** - cynnydd yn y niferoedd o swyddi gwag a rhagolygon o gynnydd mewn incwm wedi arwain at danwariant pellach. Llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr ac hysbysebu.

| <b>CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b> |                              |                        |                                               |                                                                  |                                                    |                                                |
|-------------------------------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|------------------------------------------------|
| <b>Adran Ymgynghoriaeth</b>                                 | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22</b> | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22</b> | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2021/22 |
| <b>Maes:-</b>                                               | £'000                        | £'000                  | £'000                                         | £'000                                                            | £'000                                              | £'000                                          |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg                            | (692)                        | (724)                  | (32)                                          | 0                                                                | (32)                                               | (102)                                          |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)                     | 0                            | 0                      | 0                                             | 0                                                                | 0                                                  | 0                                              |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd                                  | 584                          | 584                    | 0                                             | 0                                                                | 0                                                  | 29                                             |
| Gwasanaeth Adeiladu                                         | (22)                         | 15                     | 37                                            | 0                                                                | 37                                                 | 43                                             |
| <b><u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u></b>                       | <b>(130)</b>                 | <b>(125)</b>           | <b>5</b>                                      | <b>0</b>                                                         | <b>5</b>                                           | <b>(30)</b>                                    |

### **Ymgynghoriaeth**

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg** - nifer cynyddol o swyddi gwag sydd yn cael effaith negyddol ar lefelau incwm sydd yn cael eu hadennill ar gynlluniau gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Uned Rheoli Risg Llifogydd** - gwelliant yn y rhagolygon gyda sefyllfa gytbwys bellach yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn.

**Gwasanaeth Adeiladu** - trosiant staff sydd yn arwain at ddiffyg cynhyrchu incwm.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| <b>Adran Tai ac Eiddo</b> | <b>Cyllideb Arfaethedig 2021/22</b> | <b>Amcan Sefyllfa 2021/22</b> | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22</b> | <b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b> | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22</b> | <b>Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2021/22</b> |
|---------------------------|-------------------------------------|-------------------------------|-----------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>             | <b>£'000</b>                        | <b>£'000</b>                  | <b>£'000</b>                                  | <b>£'000</b>                                                            | <b>£'000</b>                                       | <b>£'000</b>                                          |
| Rheolaeth                 | 209                                 | 153                           | (56)                                          | 0                                                                       | (56)                                               | (33)                                                  |
| Gwasanaethau Tai          |                                     |                               |                                               |                                                                         |                                                    |                                                       |
| Digartrefedd              | 1,105                               | 1,072                         | (33)                                          | 0                                                                       | (33)                                               | 53                                                    |
| Tai Sector Breifat        | 393                                 | 391                           | (2)                                           | 0                                                                       | (2)                                                | (5)                                                   |
| Eraill                    | 398                                 | 363                           | (35)                                          | 0                                                                       | (35)                                               | (74)                                                  |
|                           | 1,896                               | 1,826                         | (70)                                          | 0                                                                       | (70)                                               | (26)                                                  |
| Gwasanaethau Eiddo        |                                     |                               |                                               |                                                                         |                                                    |                                                       |
| Eiddo                     | 3,479                               | 3,338                         | (141)                                         | 0                                                                       | (141)                                              | (92)                                                  |
| Gofalu, Arlwygo a Glanhau | (17)                                | (56)                          | (39)                                          | 0                                                                       | (39)                                               | (24)                                                  |
|                           | 3,462                               | 3,282                         | (180)                                         | 0                                                                       | (180)                                              | (116)                                                 |
| <b>Tai ac Eiddo</b>       | <b>5,567</b>                        | <b>5,261</b>                  | <b>(306)</b>                                  | <b>0</b>                                                                | <b>(306)</b>                                       | <b>(175)</b>                                          |

**Tai ac Eiddo**

**Rheolaeth** - tanwariant o ganlyniad i drosiant staff a chostau hyfforddiant yn gyfrifol am y sefyllfa.

**Gwasanaethau Tai** - unwaith eto eleni yn Digartrefedd rhagwelir bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn deillio o'r argyfwng Covid, o ran symud y digartref oddi ar y stryd. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn digolledu'r Cyngor am gyfran sylweddol o'r £2.3 miliwn o wariant ychwanegol perthnasol. Pwysau arall amlwg eleni yw costau i gwrdd â chynnal a chadw'r Cynllun Lesu Tai preifat, gyda gwaith dal fyny efo'r ochr cynnal a chadw yn dilyn oediad yn sgil Covid. Yn gydamserol, tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn y maes Sipsiwn a Theithwyr dan 'Eraill'.

**Gwasanaethau Eiddo** - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ar yr ochr Eiddo, gyda chyfuniad o lai o wariant ar wasanaethau a chyflenwadau a rhagor o incwm yn y maes Gofalu, Arlwygo a Glanhau.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| <b>Adrannau Canolog</b>                 | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22</b> | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | <b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22</b> | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2021/22 |
|-----------------------------------------|------------------------------|------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|------------------------------------------------|
| <b>Maes:-</b>                           | £'000                        | £'000                  | £'000                                         | £'000                                                            | £'000                                              | £'000                                          |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,073                        | 1,986                  | (87)                                          | 0                                                                | (87)                                               | (94)                                           |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)        | 6,567                        | 6,511                  | (56)                                          | 0                                                                | (56)                                               | (62)                                           |
| Cefnogaeth Gorfforaethol                | 6,984                        | 6,901                  | (83)                                          | 0                                                                | (83)                                               | (92)                                           |
| <b><u>Cyfanswm Adrannau Canolog</u></b> | <b>15,624</b>                | <b>15,398</b>          | <b>(226)</b>                                  | <b>0</b>                                                         | <b>(226)</b>                                       | <b>(248)</b>                                   |

**Adrannau Canolog**

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - trosiant staff a swyddi gwag yn gyfrifol am y tanwariant gyda chyfran o'r tanwariant yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag ynghyd â derbyniad incwm mewn nifer o feysydd.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - trosiant staff a rhagori ar incwm gan nifer o wasanaethau, er hyn, sgil effaith Covid wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy, gyda rhagolygon o ddiffyg incwm o £70k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol.

| <b>CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD</b>  |                                    |                              |                                                           |                                                                                 |                                                                    |                                                         |
|--------------------------------------------------------------|------------------------------------|------------------------------|-----------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------|
| <b>Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)</b> | Cyllideb<br>Arfaethedig<br>2021/22 | Amcan<br>Sefyllfa<br>2021/22 | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant Gros<br/>2021/22</b> | Defnydd o<br>Ffynonellau<br>Eraill Neu<br>Addasiadau<br>Eraill a<br>Argymhellir | <b>Amcan<br/>Gor / (Tan)<br/>Wariant<br/>Addasedig<br/>2021/22</b> | Amcan Gor/(Tan)<br>Wariant<br>Adolygiad Awst<br>2021/22 |
| <b>Maes:-</b>                                                | £'000                              | £'000                        | £'000                                                     | £'000                                                                           | £'000                                                              | £'000                                                   |
| Treth Cyngor                                                 | *                                  | *                            | (359)                                                     | 359                                                                             | 0                                                                  | 0                                                       |
| Gostyngiadau Treth Cyngor                                    | *                                  | *                            | (332)                                                     | 332                                                                             | 0                                                                  | 0                                                       |
| Costau Cyfalaf                                               | *                                  | *                            | (20)                                                      | 20                                                                              | 0                                                                  | 0                                                       |
| Derbyniad Llog                                               | *                                  | *                            | 0                                                         |                                                                                 | 0                                                                  | 0                                                       |
| Darpariaeth Gorfforaethol                                    | *                                  | *                            | (545)                                                     | 545                                                                             | 0                                                                  | 0                                                       |
| Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd                            | *                                  | *                            | (463)                                                     | 463                                                                             | 0                                                                  | 0                                                       |
| Eraill                                                       | *                                  | *                            | (147)                                                     | 147                                                                             | 0                                                                  | 0                                                       |
| <b><u>Cyfanswm Corfforaethol</u></b>                         | <b>*</b>                           | <b>*</b>                     | <b>(1,866)</b>                                            | <b>1,866</b>                                                                    | <b>0</b>                                                           | <b>0</b>                                                |



**Corfforaethol**

**Treth Cyngor** - hyd at ddiwedd Tachwedd, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 305 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22. Mae £6.5m o Breimiwm Treth Cyngor wedi ei raglennu i'w dderbyn yn ystod 2021/22 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â 2020/21 ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i ddefnyddio i gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf.

**Darpariaeth Gorfforaethol** - oherwydd amgylchiadau ni fu y galw ar y ddarpariaeth mor uchel a'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd ac Eraill** - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

**Argymhellir** fod (£20k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,846k) yn mynd i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Tud. 46

|            |      | Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru |                    |      |                        |                    | Saib Swyddi (Furlough) |               |                   |                    |                   |
|------------|------|---------------------------------|--------------------|------|------------------------|--------------------|------------------------|---------------|-------------------|--------------------|-------------------|
|            |      | Digolledu Gwariant Ychwanegol   |                    |      | Digolledu Colled Incwm |                    | Cyfraniad at Gyflogau  |               |                   |                    |                   |
| Mis        | Cais | Gwerth y Cais                   | Grant Wedi Dderbyn | Cais | Gwerth y Cais          | Grant Wedi Dderbyn | Cais                   | Gwerth y Cais |                   | Grant Wedi Dderbyn |                   |
|            |      |                                 |                    |      |                        |                    |                        | Byw'n lach    | Gweddill y Cyngor | Byw'n lach         | Gweddill y Cyngor |
|            |      | £'000                           | £'000              |      | £'000                  | £'000              |                        | £'000         | £'000             | £'000              | £'000             |
| Ebrill     | 1    | 483                             | 474                | 1    | 1,020                  | 811                | 1                      | 116           | 5                 | 116                | 5                 |
| Mai        | 2    | 811                             | 760                |      |                        |                    | 2                      | 35            | 5                 | 35                 | 5                 |
| Mehefin    | 3    | 824                             | 823                |      |                        |                    | 3                      | 26            | 4                 | 26                 | 4                 |
| Gorffennaf | 4    | 1,434                           | 1,088              | 2    | 687                    | 567                | 4                      | 27            | 3                 | 27                 | 3                 |
| Awst       | 5    | 787                             | 733                |      |                        |                    | 5                      | 26            | 2                 | 26                 | 2                 |
| Medi       | 6    | 891                             | 808                |      |                        |                    | 6                      | 16            | 2                 | 16                 | 2                 |
| Hydref     | 7    | 1,392                           | 773                | 3    | -                      | -                  | 7                      |               |                   |                    |                   |
| Tachwedd   | 8    | 1,773                           | -                  |      |                        |                    | 8                      |               |                   |                    |                   |
| CYFANSWM   |      | 8,395                           | 5,459              |      | 1,707                  | 1,378              |                        | 246           | 21                | 246                | 21                |

Trosgolwg o'r Holl Geisiadau:

|                   | Gwerth y Cais<br>£'000 | Grant Wedi Dderbyn<br>£'000 |
|-------------------|------------------------|-----------------------------|
| CYFANSWM          | 10,369                 | 7,105                       |
| Elfen Byw'n lach  | 1,147                  | 1,092                       |
| Gweddill y Cyngor | 9,222                  | 6,013                       |

# Eitem 7

|                  |                                                                                                               |
|------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CYFARFOD:        | <b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>                                                                      |
| DYDDIAD:         | <b>10 CHWEFROR 2022</b>                                                                                       |
| TEITL:           | <b>RHAGLEN GYFALAF 2021/22 –<br/>ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021</b>                                           |
| PWRPAS:          | <b>Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf</b>                                              |
| GWEITHREDIAD:    | <b>Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet</b> |
| AELOD CABINET:   | <b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS</b>                                                                                 |
| SWYDDOG CYSWLLT: | <b>FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID</b>                                                                  |

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021) i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

## **Atodiadau:**

Taflen Penderfyniad Cabinet 18/01/2022

Adroddiad Cabinet 18/01/2022: Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

|                                                                                                                                                                              |                 |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|
| <b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>                                                                                                                                       | 18 Ionawr 2022  |
| <b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Chwefror 2022 |

### PWNC

Eitem 8: RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD (SEFYLLFA 30 TACHWEDD 2021)

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2021) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- lleihad o £15,000 mewn defnydd o fenthyca,
- cynnydd o £3,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- cynnydd o £104,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd o £75,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
- lleihad o £1,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
- cynnydd o £363,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**ADRODDIAD I'R CABINET**  
18 IONAWR 2022

**Aelod Cabinet:** Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2021/22 –  
Adolygiad Diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2021)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Penderfyniad a geisir**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2021) o'r rhaglen gyfalaf.
  - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
    - lleihad o £15,000 mewn defnydd o fenthycy,
    - cynnydd o £3,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
    - cynnydd o £104,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
    - cynnydd o £75,000 mewn defnydd o gyfraniadau referniw,
    - lleihad o £1,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
    - cynnydd o £363,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.
- 

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2021/22. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £127.675m am y 3 blynedd 2021/22 – 2023/24.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £3.660m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £52.1m yn 2021/22 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £27.4m (53%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae effaith argyfwng Covid19 yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 37% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Tachwedd eleni, o'i gymharu â 31% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 51% ddwy flynedd yn ôl (2019/20, cyn amhariad Covid19).
- Mae £22.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Tachwedd 2021.

| ADRAN                       | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD |               |               |                | CYNNYDD /<br>(LLEIHAD) ERS<br>YR ADOLYGIAD<br>DIWETHAF |
|-----------------------------|---------------------------|---------------|---------------|----------------|--------------------------------------------------------|
|                             | 2021/22                   | 2022/23       | 2023/24       | CYFANSWM       |                                                        |
|                             | £'000                     | £'000         | £'000         | £'000          |                                                        |
| Addysg                      | 8,999                     | 14,909        | 4,310         | 28,218         | 2,664                                                  |
| Amgylchedd                  | 13,748                    | 1,019         | 121           | 14,888         | (975)                                                  |
| Cefnogaeth Gorfforaethol    | 60                        | -             | -             | 60             | 60                                                     |
| Cyllid                      | 944                       | 1,282         | 838           | 3,064          | 3                                                      |
| Economi a Chymuned          | 3,245                     | 1,666         | 180           | 5,091          | 701                                                    |
| Tai ac Eiddo                | 8,920                     | 21,250        | 6,929         | 37,099         | (468)                                                  |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3,383                     | 3,361         | 625           | 7,369          | 2                                                      |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd  | 1,785                     | 482           | -             | 2,267          | 35                                                     |
| Prifffyrdd a Bwrdeistrefol  | 9,273                     | 5,995         | 3,134         | 18,402         | 167                                                    |
| Ymgynghoriaeth              | 1,834                     | 7,013         | 42            | 8,889          | 1,471                                                  |
| Corfforaethol               | -                         | 1,828         | 500           | 2,328          | -                                                      |
| <b>CYFANSWM</b>             | <b>52,191</b>             | <b>58,805</b> | <b>16,679</b> | <b>127,675</b> | <b>3,660</b>                                           |

#### 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £3.660m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers yr adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU                           | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD |               |               |                | CYNNYDD /<br>(LLEIHAD) ERS<br>YR ADOLYGIAD<br>DIWETHAF |
|-----------------------------------|---------------------------|---------------|---------------|----------------|--------------------------------------------------------|
|                                   | 2021/22                   | 2022/23       | 2023/24       | CYFANSWM       |                                                        |
|                                   | £'000                     | £'000         | £'000         | £'000          |                                                        |
| Benthyca gyda chefnogaeth         | 8,164                     | 6,610         | 6,610         | 21,384         | -                                                      |
| Benthyca Arall                    | 2,074                     | 7,863         | 3,289         | 13,226         | (15)                                                   |
| Grantiau a Chyfraniadau           | 27,423                    | 11,843        | 247           | 39,513         | 3,134                                                  |
| Derbyniadau Cyfalaf               | 236                       | 750           | 0             | 986            | 104                                                    |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,685                     | 34            | 0             | 2,719          | 75                                                     |
| Cronfa Cyfalaf                    | 843                       | 9,345         | 204           | 10,392         | (1)                                                    |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill     | 10,766                    | 22,360        | 6,329         | 39,455         | 363                                                    |
| <b>CYFANSWM</b>                   | <b>52,191</b>             | <b>58,805</b> | <b>16,679</b> | <b>127,675</b> | <b>3,660</b>                                           |

#### 5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Awst, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £4,936k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad yn y defnydd o grantiau yn dod â chyfanswm y symudiad i £3,134k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £2,331k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £1,452k Grant Llywodraeth Cymru tuag at Atal Llifogydd
- £409k Grant Cronfa Symbyliad Economaidd
- £308k Grant Ysgolion Ganrif 21 – Gofal Plant Ysgol Trefeithyr
- £285k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig
- £151k Grantiau tuag at gynlluniau Morwrol a Pharciau Gwledig gan Lywodraeth Cymru

## **6. Argymhellion**

### **Gofynnir i'r Cabinet:**

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 i 2023/24, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

## **7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2021/22 – 2023/24.

## **8. Ystyriaethau Perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## **9. Camau Nesaf ac Amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.



---

**Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
  - Atodiad B: Symudiadau o 2021/22 i 2022/23
  - Atodiad C: Gwariant 8 mis cyntaf 2021/22
-

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

|                                                                                                                                                                                                | 2021/22 | 2022/23-<br>2023/24 |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|---------------------|
|                                                                                                                                                                                                | £'000   | £'000               |
| <b>Grantiau a Chyfraniadau</b>                                                                                                                                                                 |         |                     |
| • Grant Cynnal a Chadw Ysgolion ( <i>Adran Addysg</i> ).                                                                                                                                       | 2,331   |                     |
| • Grant Ysgolion Ganrif 21 - Gofal Plant Ysgol Treferythyr ( <i>Adran Addysg</i> ).                                                                                                            | 308     |                     |
| • Grantiau Cronfa Symbyliad Economaidd ( <i>Adran Economi a Chymuned; Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).                                                                                   | 409     |                     |
| • Grantiau tuag at gynlluniau Morwrol a Pharciau Gwledig gan Lywodraeth Cymru ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> ).                                                                             | 151     |                     |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynlluniau Atal Llifogydd - grantiau ychwanegol ac yn cymryd lle elfen o'r ariannu Menter Benthycia Llywodraeth Leol (LGBI) ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> ). | 543     | 909                 |
| • Lleihau'r defnydd o'r grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).                                     | (1,154) |                     |
| • Lleihau'r defnydd o'r grantiau o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).                                         | (106)   |                     |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig gan gynnwys tirweddau cynaladwy ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).                                                                              | 285     |                     |
| • Addasiad yn y cynllun ariennir trwy Grant Digartrefedd gyda Llywodraeth Cymru yn talu trydydd parti yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy'r Cyngor ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> ).              | (530)   |                     |

|                                                                                                                                                                                            |       |       |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|-------|
| <b>Benthyciadau Arall</b>                                                                                                                                                                  |       |       |
| • Cerbydau Priffyrdd a Bwrdeistrefol ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).                                                                                                           | (15)  |       |
| <b>Derbyniadau Cyfalaf</b>                                                                                                                                                                 |       |       |
| • Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).                                                                                         | 104   |       |
| <b>Refeniw Adrannol a Chorfforaethol</b>                                                                                                                                                   |       |       |
| • Cyfraniadau Ysgolion tuag at gynlluniau ( <i>Adran Addysg</i> ).                                                                                                                         | 26    |       |
| • Newid ariannu cyfatebol Canolfan Ailgylchu Llandygai a chynlluniau eraill ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).                                                                    | (93)  |       |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau ( <i>Adran Economi a Chymuned; Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Adran Tai ac Eiddo; Adran Cefnogaeth Gorfforaethol</i> ). | 142   |       |
| • Addasiad Technegol ( <i>Corfforaethol</i> ).                                                                                                                                             | 406   | (406) |
| <b>Cronfa Cyfalaf</b>                                                                                                                                                                      |       |       |
| • Addasiad Technegol ( <i>Corfforaethol</i> ).                                                                                                                                             | (406) | 406   |
| <b>Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill</b>                                                                                                                                                       |       |       |
| • Arian cyfatebol tuag at gynlluniau Parciau Gwledig ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> ).                                                                                                  | 32    | 50    |
| • Adnewyddu cerbydau ac offer ( <i>Adran Plant a Theuluoedd; Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).                                                                                        | 175   |       |
| • Cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau ( <i>Adran Ymgynghoriaeth; Adran Tai ac Eiddo; Adran Cefnogaeth Gorfforaethol</i> ).                                                             | 102   |       |

-----

## Manylion Ail-broffilio

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

|                                                                                         | 2021/22<br>£'000 | 2022/23<br>£'000 |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|------------------|------------------|
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) ( <i>Adran Addysg</i> )                       | (5,370)          | 5,370            |
| Adfywio Tref a Glannau Caernarfon ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )                   | (140)            | 140              |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )       | (366)            | 366              |
| Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )                   | (114)            | 114              |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen ( <i>Adran Plant a Theuluoedd</i> )            | (232)            | 232              |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )               | (750)            | 750              |
| Cynlluniau Sefydliadau Gofal Dydd Oedolion ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> ) | (1,161)          | 1,161            |
| Adnewyddu Cerbydau ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Adran Ymgynghoriaeth</i> )     | (1,219)          | 1,219            |
| Cynlluniau Bwrdeistrefol ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> )                     | (48)             | 48               |
| Cynlluniau Atal Llifogydd ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> )                               | (5,816)          | 5,816            |
| Cynlluniau Trafnidiaeth ( <i>Adran Amgylchedd</i> )                                     | (176)            | 176              |
| Gwelliannau Trefol ( <i>Adran Amgylchedd</i> )                                          | (20)             | 20               |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio ( <i>Adran Amgylchedd</i> )                                   | (219)            | 219              |
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau ( <i>Adran Amgylchedd</i> )                                    | (356)            | 356              |
| Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd ( <i>Adran Amgylchedd</i> )                      | (48)             | 48               |
| Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )                         | (2,210)          | 2,210            |
| Cynlluniau Strategaeth Tai ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )                                | (6,187)          | 6,187            |
| Cynlluniau Addasiadau Swyddfeydd ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )                          | (123)            | 123              |
| Cynlluniau Cynnal a Chadw wedi eu cyfalafu ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )                | (126)            | 126              |

|                                                                                 |         |       |
|---------------------------------------------------------------------------------|---------|-------|
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )                 | (1,347) | 1,347 |
| Cynllun Gwaredu Asbestos ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )                          | (400)   | 400   |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> ) | (2,925) | 2,925 |
| Uwchraddio'r System Ariannol ( <i>Adran Cyllid</i> )                            | (14)    | 14    |
| Adnewyddu Cyfarpar TG ( <i>Adran Cyllid</i> )                                   | (500)   | 500   |
| Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 22/23 ( <i>Corfforaethol</i> )         | (1,328) | 1,328 |

**Noder:**

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

## Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2021/22

| CRYNODEB                         | RHAGLEN<br>GYFALAF<br>BLWYDDYN LAWN<br>(adolygwyd<br>Tachwedd)<br>2021/22<br>£'000 | GWIR<br>WARIANT<br>8 MIS HYD AT<br>30/11/2021<br>£'000 |
|----------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|
| Addysg                           | 8,999                                                                              | 3,496                                                  |
| Amgylchedd                       | 13,748                                                                             | 3,752                                                  |
| Cefnogaeth Gorfforaethol         | 60                                                                                 | 59                                                     |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 944                                                                                | 300                                                    |
| Economi a Chymuned               | 3,245                                                                              | 1,341                                                  |
| Tai ac Eiddo                     | 8,920                                                                              | 4,525                                                  |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant      | 3,383                                                                              | 1,014                                                  |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd       | 1,785                                                                              | 448                                                    |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol        | 9,273                                                                              | 4,335                                                  |
| Ymgynghoriaeth                   | 1,834                                                                              | 119                                                    |
| Corfforaethol                    | -                                                                                  | -                                                      |
| <b>CYFANSWM</b>                  | <b>52,191</b>                                                                      | <b>19,389</b>                                          |

**Noder:**

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (37%) yn uwch na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 8 mis 2020/21 yn 31%), ond yn is na dwy flynedd yn ôl (51% yn 2019/20, cyn amhariad Covid19).

# Eitem 8

|                  |                                                                                                                                                             |
|------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CYFARFOD:        | <b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>                                                                                                                    |
| DYDDIAD:         | <b>10 CHWEFROR 2022</b>                                                                                                                                     |
| TEITL:           | <b>TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION</b>                                                                                  |
| PWRPAS:          | <b>Adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf</b>                                                                                                                     |
| GWEITHREDIAD:    | <b>Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y sefyllfa arbedion</b> |
| AELOD CABINET:   | <b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS</b>                                                                                                                               |
| SWYDDOG CYSWLLT: | <b>DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID</b>                                                                                                                         |

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion) i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

## **Atodiadau:**

Taflen Penderfyniad Cabinet 18/01/2022

Adroddiad Cabinet 18/01/2022: Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

|                                                                                                                                                                              |                 |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------|
| <b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>                                                                                                                                       | 18 Ionawr 2022  |
| <b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Chwefror 2022 |

### PWNC

Eitem 9: TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.

Nodwyd fod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

Wrth baratoi cyllideb 2022/23, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 3 o ran cynlluniau arbedion 2022/23: - cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef

- Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
- Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
  - symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol
  - nodwyd mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, fel a nodir yn Atodiad 3.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.



## **ADRODDIAD I'R CABINET**

|                        |                                                                                |
|------------------------|--------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Dyddiad</b>         | <b>18 Ionawr 2022</b>                                                          |
| <b>Aelod Cabinet</b>   | <b>Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid</b>                           |
| <b>Pwnc</b>            | <b>Trosolwg Arbedion:<br/>Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion</b> |
| <b>Swyddog Cyswllt</b> | <b>Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid</b>                                            |

---

### **1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- 1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.
- 1.2 Nodi bod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- 1.3 Wrth baratoi cyllideb 2022/23, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 3 o ran cynlluniau arbedion 2022/23:
  - cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
    - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
    - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
  - symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol
  - nodi mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, fel a nodir yn Atodiad 3.

### **2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR**

- 2.1 Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2021/22 a blynyddoedd blaenorol ac hefyd yn edrych ar gynlluniau arbedion sydd wedi eu cynllunio ar gyfer 2022/23.
- 2.2 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £966,720 yn 2021/22, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2021.
- 2.3 Bellach gellir adrodd fod cyfanswm o £32.8 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 94% o'r £34.8m gofynnol dros y cyfnod. Mae 45% o arbedion 2021/22 wedi eu gwireddu hyd yma a 19% pellach ar drac i gyflawni'n amserol eleni.

- 2.4 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

### 3. AIL-ASESU ARBEDION

- 3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.
- 3.2 Mae'r tabl isod yn dangos gwerth yr arbedion a gafodd eu dileu neu eu gohirio i 2022/23:

**Tabl 1: Arbedion wedi eu dileu neu eu gohirio i 2022/23**

|                              | Gohirio i<br>2022/23<br>£ | Dileu<br>£ |
|------------------------------|---------------------------|------------|
| Cynlluniau 2017/18 - 2020/21 | 1,037,750                 | 848,040    |
| Cynlluniau 2021/22           | 511,250                   | 595,450    |
| CYFANSWM                     | 1,549,000                 | 1,433,490  |

- 3.3 Yn dilyn o adolygiad o sefyllfa arbedion yr adrannau a gyflwynwyd i'r Cabinet 12 Hydref 2021, nodwyd fod gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Yn ystod Tachwedd 2021, bu cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i drafod y cynlluniau sydd yn profi i fod yn heriol ganddynt, mi fydd y cynlluniau yn cael eu hystyried ymhellach wrth lunio cyllidebau 2022/23.

### 4. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2020/21

- 4.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt o 2015/16 - 2020/21, **cyfanswm o bron i £34m. Calonogol yw gallu adrodd bod dros £32m, neu 96% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o wireddu'r arbedion rhai o'r cynlluniau'n parhau.
- 4.2 Mae'r llithriad ymylol yma yn bennaf ar rai o gynlluniau 2019/20 a 2020/21, gyda'r her o'u gwireddu'n parhau.

- 4.3 Mae 25 o gynlluniau gwerth cyfanswm o bron i £820k wedi llithro. Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu llithriad mewn rhai o'r cynlluniau arbedion ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.
- 4.4 Mae 6 cynllun arall sydd werth cyfanswm o £652k gyda risgiau i'w cyflawni. 4 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ac 1 cynllun yr un gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Economi a Chymuned. Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu llithro rhai elfennau o'r cynlluniau arbedion, ond posib fod angen ystyried nawr os oes wirioneddol modd cyflawni'r arbedion ynteu a oes angen cynnig cynlluniau a dulliau amgen ar gyfer gwireddu'r arbedion.

## 5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2021/22

- 5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2021/22. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £967k gyda gwerth £436k, sef 45% o gynlluniau eisoes wedi eu gwireddu a £188k pellach sef 19% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 5.2 Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng ers Mawrth 2020.
- 5.3 Bu llithriad ar 4 cynllun ar draws y Cyngor gyda chyfanswm o £214k ond maent yn symud yn eu blaen sydd yn cynnwys 1 cynllun yr un gan yr Adran Amgylchedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant a 2 gynllun gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.
- 5.4 Rhagwelir risgiau i gyflawni arbedion 3 cynllun ar draws y Cyngor gwerth cyfanswm o £129k sydd yn cynnwys cynllun *Cynhyrchu incwm drwy atal twyll* (£20k) gan yr Adran Gyllid, *Adolygu'r trefniadau gweithredu* Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£34k) a *Chynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (£75k). Mae'r Adrannau yn gweithio i symud ymlaen gyda'r cynlluniau yma.

## 6 CYNLLUNIAU ARBEDION HYD AT 2021/22

- 6.1 Mae'n anrffod bod gwireddu £32.8m o arbedion (allan o gyfanswm o £34.8m) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.
- 6.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 sydd yn nodi fod 94% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 2: Crynodeb o statws holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

| <b>Statws yr Arbediad</b>                            | <b>Porth</b> | <b>£m</b>   | <b>%</b> |
|------------------------------------------------------|--------------|-------------|----------|
| Wedi gwireddu                                        | 1            | 32.8        | 94.3     |
| Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol                | 2            | 0.2         | 0.5      |
| Oediad, ond yn symud yn ei flaen                     | 3            | 1.0         | 3.0      |
| Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu       | 4            | 0.8         | 2.2      |
| Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol | 5            | 0.0         | 0.0      |
| <b>Cyfanswm arbedion</b>                             |              | <b>34.8</b> |          |

## **7. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2022/23**

- 7.1 Rhestrir arbedion 2022/23 yn **Atodiad 3**. Yn dilyn adolygiad diweddar o'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23 gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddogion Cyllid, yr hyn sydd yn amlwg yw fod rhaid cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni 2 gynllun arbedion gwerth £489,750. 1 cynllun 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' gwerth £279,750 yn yr Adran Plant a Theuluoedd ac 1 cynllun 'Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill' yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gan eu dileu o'r gyllideb.
- 7.2 O ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys ardrawiad Covid nid yw'n ymarferol bellach i werth £1,290,250 o arbedion gael eu cyflawni yn 2022/23, sydd yn cynnwys cynllun arbedion £155,000 yn yr Adran Economi a Chymuned a 4 cynllun arbedion gwerth £1,135,250 yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Felly y dylid ail-broffilio y cynlluniau arbedion i 2023/24 a blynyddoedd dilynol fel a nodir yn **Atodiad 3**.
- 7.3 Yn dilyn dileu a llithro arbedion a nodir yn 7.1 a 7.2 uchod, nodi mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, fel a nodir yn **Atodiad 3**.

## **8. CASGLIAD**

- 8.1 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion hyd at 2021/22. Yn ogystal, nodi bod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi'r adrannau i symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion er gwaethaf yr argyfwng.
- 8.2 Argymhellir fod y Cabinet yn cymeradwyo'r camau i ddileu a llithro arbedion a nodir yn rhan 7 o'r adroddiad ac **Atodiad 3** gan dderbyn mai £595,000 fydd gwerth yr arbedion diwygiedig ar gael i gefnogi cyllideb 2022/23.

## **Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol

---

## **Barn y Swyddogion Statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

### **Atodiadau:**

Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 – 2020/21 fesul Adran

Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22 fesul Adran

Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2022/23

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2020/21 FESUL ADRAN

| Adran                       | Cyfanswm<br>Arbedion<br>2015/16 i<br>2020/21<br><br>£ | Cynlluniau wedi<br>eu gwireddu<br><br>£ | Wrthi'n<br>gweithredu, ond<br>wedi llithro<br><br>£ - <i>nifer</i> |   | Cynlluniau sydd<br>hefo rhai risgiau i<br>gyflawni<br><br>£ - <i>nifer</i> |   | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-----------------------------|-------------------------------------------------------|-----------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|---|----------------------------------------------------------------------------|---|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Addysg                      | 1,889,360                                             | 1,889,360                               | -                                                                  |   | -                                                                          |   | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Ysgolion                    | 4,037,000                                             | 4,037,000                               | -                                                                  |   | -                                                                          |   | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Amgylchedd                  | 2,751,213                                             | 2,695,593                               | 55,620                                                             | 3 | -                                                                          |   | Bu llithriad ar dri cynllun; <i>Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (£20k), Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dwr er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth (£12.5k) a Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn Adran Amgylchedd (£23.12k).</i>                                                                                                        |
| Cefnogaeth<br>Gorfforaethol | 2,351,468                                             | 2,351,468                               | -                                                                  |   | -                                                                          |   | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Cyllid                      | 1,756,636                                             | 1,736,636                               | 20,000                                                             | 1 | -                                                                          |   | Gwireddu arbedion o £20k yn llithro ar y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll.</i>                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Economi a<br>Chymuned       | 2,896,422                                             | 2,766,422                               | 85,000                                                             | 3 | 45,000                                                                     | 1 | Bu llithriad gyda 2 gynllun <i>Cysoni trefniadau/adolygu ffioedd parcio</i> gwerth cyfanswm o £60k a'r cynllun <i>Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata</i> £25k. Mae risg o wireddu gweddill yr arbedion sef £45k ar y cynllun <i>Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15.</i> |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2020/21 FESUL ADРАН

| Adran                                             | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2020/21<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ - <i>nifer</i> | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ - <i>nifer</i> | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |  |
|---------------------------------------------------|------------------------------------------|----------------------------------|----------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant<br><br><b>Tud. 67</b> | 6,969,411                                | 6,193,051                        | 302,360 6                                                | 474,000 4                                                        | Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 4 cynllun sef <i>Integreiddio a Thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn</i> gyda £210k o darged yn 2019/20 ac mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr her barhaus o'i gyflawni, <i>Cydweithio â'r trydydd sector i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog</i> (£100k), <i>Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</i> (£100k) ac <i>Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran</i> (£64k) ond mae'r Adran yn gweithio i symud ymlaen gyda rhain. Mae 6 cynllun pellach gwerth cyfanswm o dros £302k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithredu i symud rhain yn eu blaen; y 3 mwyaf yw <i>Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus</i> (£150k), <i>Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion</i> (£40k) ac <i>Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes</i> (£49k). |  |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd                        | 2,295,738                                | 2,295,738                        | -                                                        | -                                                                | Bu i Cabinet 26 Ionawr 2021 gymeradwyo dileu targed arbedion cynllun <i>Dechrau i'r Diwedd</i> gwerth £370k hyd at ddiwedd 2019/20. Mae gweddill y cynlluniau wedi eu gwireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |  |
| Prifffyrdd a Bwrdeistrefol                        | 6,038,160                                | 5,593,410                        | 311,750 9                                                | 133,000 1                                                        | Gyda'r cynllun Trefniadau Fflyd (£133k) bu oediad oherwydd gorfodaeth i ail agor trafodaethau gyda'r Undebau ac yna sefyllfa Covid. Mae'r cynllun yma bellach yn derbyn sylw gan obeithio symud yn ei flaen yn Ebrill 2022. Mae 9 cynllun pellach gwerth cyfanswm o bron i £312k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithio i symud rhain yn eu blaen, y 4 cynllun mwyaf yw <i>Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu lleihau costau</i> (£66k), <i>Canolfannau Ailgylchu-codi ffioedd newydd</i> (£90k), <i>Ail-strwythuro'r Adran</i> (£50k) a <i>Cynllun Cau Cilgwyn</i> (£35k).                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |  |
| Ymgynghoriaeth                                    | 602,670                                  | 602,670                          | -                                                        | -                                                                | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |  |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2020/21 FESUL ADRAN

| Adran                                         | Cyfanswm<br>Arbedion<br>2015/16 i<br>2020/21<br><br>£ | Cynlluniau wedi<br>eu gwireddu<br><br>£ | Wrthi'n<br>gweithredu, ond<br>wedi llithro<br><br>£ - <i>nifer</i> |           | Cynlluniau sydd<br>hefo rhai risgiau i<br>gyflawni<br><br>£ - <i>nifer</i> |          | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|-----------------------------------------------|-------------------------------------------------------|-----------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-----------|----------------------------------------------------------------------------|----------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Tîm Rheoli<br>Corfforaethol a<br>Chyfreithiol | 403,240                                               | 383,220                                 | 20,020                                                             | 2         | -                                                                          | -        | Mae llithriad ar 2 gynllun sef <i>Arbedion yng nghyllideb y Crwner</i> gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd eto heb ddigwydd a'r cynllun <i>Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol Gwasanaeth Etholiadau a Chyfreithiol (£6.22k)</i> .                                                                   |
| Tai ac Eiddo<br>Tud. 6                        | 641,180                                               | 616,180                                 | 25,000                                                             | 1         | -                                                                          | -        | Bu llithriad ar y cynllun <i>Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol oherwydd Covid</i> . Mae podiau yng Nghaernarfon bellach yn barod a bydd unedau eraill ym Mangor yn barod yn fuan iawn. Mae bid wedi ei gyflwyno ar gyfer cyllid ychwanegol yn 2022/23 i ddelio efo'r newid polisi a'r tebygrwydd y bydd y Grant Caledi yn dod i ben. |
| Is-gyfanswm                                   | 32,632,498                                            | 31,160,748                              | 819,750                                                            | 25        | 652,000                                                                    | 6        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Arbedion<br>Rheolaethol                       | 1,200,360                                             | 1,200,360                               | -                                                                  | -         | -                                                                          | -        | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| <b>CYFANSWM</b>                               | <b>33,832,858</b>                                     | <b>32,361,108</b>                       | <b>819,750</b>                                                     | <b>25</b> | <b>652,000</b>                                                             | <b>6</b> | <b>Yn nhermau ariannol (£), mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2020/21 wedi eu gwireddu.</b>                                                                                                                                                                                                                                                                         |



## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2021/22

| Adran                          | Cyfanswm Arbedion<br>2021/22<br><br>£ - nifer |     | Cynlluniau wedi eu<br>gwireddu<br><br>£ - nifer |   | Cynlluniau ar drac i<br>gyflawni'n amserol<br><br>£ - nifer |   | Cynlluniau sydd yn<br>llithro a gyda rhai<br>risgiau i gyflawni'r<br>arbedion<br><br>£ - nifer |   | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|--------------------------------|-----------------------------------------------|-----|-------------------------------------------------|---|-------------------------------------------------------------|---|------------------------------------------------------------------------------------------------|---|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Addysg                         | 65,000                                        | 1   | 65,000                                          | 1 | -                                                           |   | -                                                                                              |   | Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Amgylchedd                     | 73,750                                        | 4   | 16,250                                          | 2 | 20,000                                                      | 1 | 37,500                                                                                         | 1 | Mae'r cynllun <i>Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e. offer swyddfa a TG) gwerth £20k</i> ar drac i gyflawni'n amserol. Bu oediad ar y cynllun <i>Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio</i> , gwerth £37.5k ond mae bellach yn symud yn ei flaen.                                                                                                                            |
| Cefnogaeth<br>Gorfforaethol    | 117,750                                       | 4 * | 45,250                                          | 2 | 72,500                                                      | 2 | -                                                                                              |   | Mae 2 gynllun ar drac i gyflawni'n amserol sef <i>Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol (lleihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu</i> (£60k yn 2021/22) a <i>Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad</i> (£12.5k yn 2021/22). Cymeradwywyd gynllun amgen i ddisodli gweddill arbedion yr ail gynllun uchod (£28k) yng Nghabinet 12/10/21.          |
| Cyllid                         | 100,000                                       | 3   | 80,000                                          | 2 | -                                                           |   | 20,000                                                                                         | 1 | Mae risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll</i> (£20k yn 2021/22). Cymeradwywyd gynlluniau amgen i ddisodli'r cynllun hanesyddol <i>Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol</i> (£75k yn 2021/22) yng Nghabinet 28/9/21.                                                                                                                                  |
| Economi a<br>Chymuned          | -                                             |     | -                                               |   | -                                                           |   | -                                                                                              |   | Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Oedolion, Iechyd a<br>Llesiant | 78,750                                        | 2   | -                                               |   | -                                                           |   | 78,750                                                                                         | 2 | Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion</i> (£33.75k) gan fod rhwystrau ar gynlluniau eraill a Covid wedi amharu ar y gallu i symud y cynllun yn ei flaen. Bu oediad ar y cynllun <i>Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a Theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo</i> ond mae'n symud yn ei flaen (£45k). |

| Adran                                         | Cyfanswm Arbedion<br>2021/22<br><br>£ - <i>nifer</i> |           | Cynlluniau wedi eu<br>gwireddu<br><br>£ - <i>nifer</i> |           | Cynlluniau ar drac i<br>gyflawni'n amserol<br><br>£ - <i>nifer</i> |          | Cynlluniau sydd yn<br>llithro a gyda rhai<br>risgiau i gyflawni'r<br>arbedion<br><br>£ - <i>nifer</i> |          | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------|-----------|--------------------------------------------------------|-----------|--------------------------------------------------------------------|----------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Plant a Chefnogi<br>Teuluoedd                 | 23,170                                               | 1         | 23,170                                                 | 1         | -                                                                  |          | -                                                                                                     |          | Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Priffyrdd a<br>Bwrdeistrefol                  | 206,250                                              | 3 *       | -                                                      |           | -                                                                  |          | 206,250                                                                                               | 3        | Mae risgiau o gyflawni arbedion y cynllun <i>Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau</i> (£75k yn 2021/22). Mae sefyllfa Covid wedi amharu ar gytundebau masnachol ac felly yn annhebygol o gyflawni'r arbediad eleni. Bu llithriad mewn gwireddu'r arbedion cynllun <i>Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont</i> (£26.25k yn 2021/22). Mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau gyda Network Rail. Yn ogystal bu llithriad ar y cynllun <i>Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofawr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'</i> (£105k yn 2021/22). |
| Ymgynghoriaeth                                | -                                                    |           | -                                                      |           | -                                                                  |          | -                                                                                                     |          | Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Tîm Rheoli<br>Corfforaethol a<br>Chyfreithiol | -                                                    |           | -                                                      |           | -                                                                  |          | -                                                                                                     |          | Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| Tai ac Eiddo                                  | 302,050                                              | 5         | 206,670                                                | 3         | 95,380                                                             | 2        | -                                                                                                     |          | Dau gynllun ar ôl i'w cyflawni ac sydd ar drac i gyflawni'n amserol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| <b>CYFANSWM</b>                               | <b>966,720</b>                                       | <b>23</b> | <b>436,340</b>                                         | <b>11</b> | <b>187,880</b>                                                     | <b>5</b> | <b>342,500</b>                                                                                        | <b>7</b> | <b>Yn nhermau ariannol (£), mae 45% o gynlluniau arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu a 19% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn amlwg mae'r adrannau wedi canolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng yn y cyfnod ers Ebrill 2020.</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |

\* cynllun wedi ei wireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i'w wireddu yn llawn.

## CYNLLUNIAU ARBEDION 2022/23

## ATODIAD 3

| Adran                              | Teitl y Cynllun                                                                                                                      | 2022/23<br>£     | Dileu<br>£     | Llithro *<br>£   | 2022/23<br>Diwygiedig<br>£ |
|------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------------|------------------|----------------------------|
| <b>Amgylchedd</b>                  | Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio                                                                              | 12,500           |                |                  | 12,500                     |
| <b>Cefnogaeth Gorfforaethol</b>    | Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr                                                                                                   | 100,000          |                |                  | 100,000                    |
| <b>Cyllid</b>                      | Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol                                                                                  | 25,000           |                |                  | 25,000                     |
| <b>Economi a Chymuned</b>          | Buddsoddi mewn gwelliannau fyddai yn gwneud Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol          | 70,000           |                |                  | 70,000                     |
|                                    | Yn yr hir dymor, anelu i leihau'r sybsidi i'r Cwmni Hamdden newydd sydd wedi ei sefydlu o 20%                                        | 155,000          |                | 155,000          | 0                          |
|                                    | <b>Cyfanswm Economi a Chymuned</b>                                                                                                   | <b>225,000</b>   |                |                  | <b>70,000</b>              |
| <b>Oedolion, Iechyd a Llesiant</b> | Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn                                                                                     | 300,000          |                | 300,000          | 0                          |
|                                    | Datblygu 3 prosiect tai gofal ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)                             | 300,000          |                | 200,000          | 100,000                    |
|                                    | Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion                                                                             | 101,250          |                | 101,250          | 0                          |
|                                    | Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth                                                                     | 534,000          |                | 534,000          | 0                          |
|                                    | <b>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>                                                                                          | <b>1,235,250</b> |                |                  | <b>100,000</b>             |
| <b>Plant a theuluoedd</b>          | Adolygiad Dechrau i'r Diwedd                                                                                                         | 279,750          | 279,750        |                  | 0                          |
| <b>Prifffyrdd a Bwrdeistrefol</b>  | Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill                                                                                                 | 210,000          | 210,000        |                  | 0                          |
|                                    | Rhesymoli gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir                                                                                           | 32,500           |                |                  | 32,500                     |
|                                    | Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn heb ofalwyr                                                     | 105,000          |                |                  | 105,000                    |
|                                    | Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid diwrnod casglu i drigolion) | 150,000          |                |                  | 150,000                    |
|                                    | <b>Cyfanswm Prifffyrdd a Bwrdeistrefol</b>                                                                                           | <b>497,500</b>   |                |                  | <b>287,500</b>             |
|                                    | <b>Cyfanswm</b>                                                                                                                      | <b>2,375,000</b> | <b>489,750</b> | <b>1,290,250</b> | <b>595,000</b>             |

\* Cynlluniau yn llithro i 2023/24 heblaw am gynllun Oedolion 'Datblygu prosiect Tai Gofal' fydd ddim yn gallu gwireddu cyn 2025/26.

# Eitem 9

|                     |                                                                                                                                 |
|---------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| PWYLLGOR            | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU                                                                                               |
| DYDDIAD             | 10 CHWEFROR 2022                                                                                                                |
| TEITL               | CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL                                                                                                       |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 IONAWR 2022                                                             |
| AWDUR               | LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO                                                                                             |
| GWEITHREDIAD        | DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNEWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL |

---

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2021 hyd 30 Ionawr 2022.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Ionawr 2022:

| Disgrifiad                                          | Nifer |
|-----------------------------------------------------|-------|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 7     |
| Archwiliadau Grant                                  | 1     |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Ionawr 2022, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL                                       | ADRAN              | GWASANAETH                               | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD   |
|---------------------------------------------|--------------------|------------------------------------------|----------------|-----------|
| Datganiadau Cyflogaeth                      | Corfforaethol      | -                                        | Cyfyngedig     | Atodiad 1 |
| Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol        | Corfforaethol      | —                                        | Dim Categori   | Atodiad 2 |
| Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | Addysg             | Adnoddau                                 | Uchel          | Atodiad 3 |
| Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae          | Addysg             | Adnoddau                                 | Cyfyngedig     | Atodiad 4 |
| Amgueddfa Lloyd George                      | Economi a Chymuned | Archifau.<br>Amgueddfeydd a Chelfyddydau | Uchel          | Atodiad 5 |
| Grant Dewisol Cyfyngiadau Clo               | Economi a Chymuned | Cefnogi Busnes                           | Uchel          | Atodiad 6 |
| Trefniadau Rheoli Prosiectau                | YGC                | Ar draws yr Adran                        | Digonol        | Atodiad 7 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

|                |              |                                                                                                                                                                       |
|----------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| LEFEL SICRWYDD | UCHEL        | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.                                                        |
|                | DIGONOL      | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.                                        |
|                | CYFYNGEDIG   | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
|                | DIM SICRWYDD | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.                                                                                    |

### **3. GWAITH AR Y GWEILL**

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Ionawr 2022:

- Cynlluniau Parhad Busnes a Gwersi a Ddysgwyd (*Corfforaethol*)
- Brexit (*Corfforaethol*)
- Côt Rheoli Ariannol (*Corfforaethol*)
- Trefn Gwynion (*Corfforaethol*)
- Dynodiadau Iaith (*Corfforaethol*)
- Defnydd o Gardiau Pryniant (*Corfforaethol*)
- Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (*Addysg*)
- Hylendid Bwyd (*Amgylchedd*)
- Grantiau Cefn Gwlad (*Amgylchedd*)
- Trefniadau Adfer Trychineb (*Cyllid*)
- Rheoli Prosiect – Uwchraddio E-financials (*Cyllid*)
- Newid Data Sefydlog (*Cyllid*)
- Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal (*Cyllid*)
- Storiol (*Economi a Chymuned*)
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant (*Plant a Theuluoedd*)

### **4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2021 hyd at 30 Ionawr 2022, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

**DATGANIADAU CYFLOGAETH****1. Cefndir**

- 1.1 Yn unol â Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, mae rhaid cyflwyno datganiadau cyflogaeth i weithwyr (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth, gweithwyr achlysurol a gweithwyr cytundeb sero oriau) ar neu cyn eu diwrnod gwaith cyntaf, sydd yn disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol a ganiatawyd i'r datganiad cael ei gyflwyno o fewn deufis o'r dyddiad cychwyn. Yn dilyn newidiadau i'r Ddeddf ar Ebrill 6ed 2020, mae'n ofynnol i ychwanegu cymal mewn perthynas ag ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol megis diogelu yn natganiadau cyflogaeth pob aelod staff.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod cymal ynglŷn a hyfforddiant angenrheidiol megis diogelu yn cael ei gynnwys yn natganiadau cyflogaeth holl staff y Cyngor, beth bynnag yw eu swyddogaethau er mwyn atgyfnerthu'r neges bod y cyfrifoldeb yn gyffredin i bawb. Er mwyn cyflawni hyn roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o unigolion sydd wedi derbyn swyddi newydd a gwirio eu datganiadau cyflogaeth er mwyn sicrhau bod y cymal penodol wedi ei gynnwys. Roedd y sampl yn cynnwys trawsdoriad o swyddogion ar draws adrannau'r Cyngor a benodwyd ers Ionawr 2021.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd    | Disgrifiad                                                                                                                                                            |
|-------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>CYFYNGEDIG</b> | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| <u>Lefel Risg</u> | <u>Nifer</u> |
|-------------------|--------------|
| <b>CHEL IAWN</b>  | 0            |
| <b>UCHEL</b>      | 1            |
| <b>CANOLIG</b>    | 0            |
| <b>ISEL</b>       | 0            |

## **5. Prif Ddarganfyddiadau**

- 5.1 Ers Ionawr 2021 mae oddeutu 500 o aelodau staff newydd wedi ymuno â'r Cyngor, gyda dros 1,000 o staff presennol wedi ennill swyddi newydd oddi fewn y Cyngor. Detholwyd sampl o 50 staff newydd a 100 o staff presennol (10%), gan wirio fod cymal parthed ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol wedi ei gynnwys yn eu datganiadau cyflogaeth, a'u bod wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu perthnasol.
- 5.2 Ni welwyd fod cymal parthed ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol wedi ei gynnwys yn y datganiadau cyflogaeth. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol fod y mater yn derbyn sylw, gyda gwahanol opsiynau yn cael eu hystyried. Oherwydd maint y Cyngor fel cyflogwr, mae penderfynu pa hyfforddiant sydd yn fandadol i bob rôl, a sut bydd y rhestr honno yn cael ei ddiweddarau dros amser yn waith fydd yn cymryd cryn dipyn o amser. Cadarnhaodd fod cymal penodol wedi ei deilwra ar gyfer gofynion hyfforddiant gwahanol swyddi, ond fod angen ystyried gofynion hyfforddi mwy corfforaethol sydd yn berthnasol i bawb.
- 5.3 O'r sampl (sef 150 aelodau staff) gwiriwyd nifer y swyddogion sydd wedi ymgymryd a hyfforddiant er mwyn canfod os yw niferoedd mynychu hyfforddiant yn uchel nawr, er nad oes cymal yn eu datganiadau cyflogaeth. Gwelwyd mai ond 3% o'r sampl yn unig sydd wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddiant canlynol: Diogelu Oedolion, Amddiffyn a Diogelu Plant, Cam-drin Domestig, Atal, a Chaethiwes Fodern, gyda 18 aelod staff (12%) wedi cwblhau modiwl Diogelu Data. Mae 32% o aelodau staff wedi cwblhau rhwng 1 a 4 modiwl, gyda 65% o aelodau staff heb gwblhau unrhyw fodiwlau. Mae hyn yn amlygu'r lefel o risg mae'r Cyngor yn ei wynebu.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i weithredu gyda'r angen i gynnwys cymal parthed ac ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol yn natganiadau cyflogaeth staff**



**DYLETSWYDDAU ECONOMAIDD GYMDEITHASOL 2021****1. Cefndir**

- 1.1 Nôd y ddyletswydd a ddaeth i rym ar y 1<sup>af</sup> o Ebrill 2021 yw annog gwell prosesau o wneud penderfyniadau strategol, sy'n rhoi ddyletswydd ar yr Awdurdod i ystyried anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd gwirio pa gamau sydd wedi eu rhoi mewn lle ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd. Gwneir hyn drwy wirio pa ddata economaidd-gymdeithasol sydd wedi ei gasglu ar gyfer llywio penderfyniadau, yr hyfforddiant sydd mewn lle i swyddogion a sut asesiadau sydd wedi eu gwneud er mwyn ystyried anghydraddoldeb.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd           | Disgrifiad                                                                                                                                                                                                          |
|--------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>DIM YN BERTHNASOL</b> | <b>Ystyrir ei bod yn gynamserol i ddatgan lefel sicrwydd gan fod trefniadau yn parhau ar y gweill ac mai ychydig o benderfyniadau ar lefel strategol oedd wedi eu cyflwyno i'w hystyried ar adeg yr archwiliad.</b> |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

- 4.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn i'r Cyngor ystyried effaith penderfyniadau strategol ar amryw o nodweddion cydraddoldeb, megis hil, rhyw, rhywioldeb ac anabledd. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, â fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru â ddaeth i rym ar y 1<sup>af</sup> o Ebrill 2021. Mae'r canllawiau newydd yn annog y Cyngor i ddefnyddio dulliau sydd eisoes yn bodoli er mwyn asesu effaith polisiau, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth llawn i amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn ogystal a'r nodweddion cydraddoldeb ystyrir yn bresennol.
- 4.2 Er mwyn cynorthwyo swyddogion i ystyried y nodweddion cydraddoldeb wrth lunio polisiau, creuwyd templed ffurflen asesiad effaith newydd, sy'n adeiladu ar y templed sydd eisoes wedi bod mewn lle ers rhai blynyddoedd, ar y cyd gydag awdurdodau lleol y gogledd, Bwrdd Iechyd PBC, APCE, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwylans, sef aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru. Yn dilyn adborth cadarnhaol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae'r rhanbarth yn y broses o gytuno ar y ffurflen asesiad effaith terfynol. Yn y cyfamser, yng Ngwynedd, roedd ffurflen asesiad effaith interim mewn lle. Bydd yr asesiad terfynol yng Ngwynedd yn ddogfen electroneg, a bydd digon o gymorth integredig ar gael i'r defnyddiwr wrth gwblhau yr adrannau er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb.

- 4.3 Gwiriwyd adroddiadau a'r dogfennau atodol a gyflwynwyd i'r Cabinet ers i'r ddyletswydd ddod i rym ar y 1<sup>af</sup> o Ebrill 2021. Gwelwyd bod rhai o'r adroddiadau â gyflwynwyd wedi defnyddio hen dempled asesiad effaith yn hytrach na'r fersiwn interim sydd wedi ei addasu i gynnwys yr elfen economaidd-gymdeithasol, ac felly nid oedd modd sicrhau bod yr elfen yma wedi derbyn y sylw priodol. Caiff yr adroddiadau eu gwirio gan y Swyddog Monitro cyn eu cyflwyno i'r Cabinet, ac mae'n debyg bod nifer o asesiadau effaith wedi eu cwblhau funud olaf ar ôl y gwiriad yn hytrach nag wrth lunio y polisiau arfaethedig, sydd yn awgrymu bod ymwybyddiaeth annigonol ymysg rheolwyr, a diffyg gwerthfawrogiad am y rhesymau tu ôl cynnal yr asesiadau yn y lle cyntaf. Er rhan amlaf nid oes angen asesiad effaith ar 'Benderfyniadau Aelodau' gan eu bod yn faterion penodol iawn, mae pryder nad yw hyn yn cael ystyriaeth ar bob achlysur.
- 4.4 Mae'r diffiniad o'r hyn sydd yn benderfyniad strategol yn heriol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, *"penderfyniadau strategol yw'r rheini sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni'i bwrpas statudol (ei swyddogaethau ar sail y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i wneud ei waith) dros gyfnod arwyddocaol o amser, heb gynnwys y penderfyniadau 'pob dydd' cyffredin."* Mae'n ddibynnal ar y cyd-destun os yw'r penderfyniadau yn strategol neu beidio, ac os oes amheuaeth mae'r Swyddog Monitro o blaid ymgorffori'r ddyletswydd.
- 4.5 Trafodwyd gyda'r Swyddog Monitro yr adroddiadau cyflwynwyd i'r Cabinet ers i'r ddyletswydd ddod i rym. Roedd o'r farn nad oedd nifer o'r adroddiadau yn wirioneddol strategol, ac felly cytunwyd nad oedd digon o amser wedi mynd heibio er mwyn gallu ffurfio barn ar y cydymffurfiaeth â'r ddeddf. Fodd bynnag, cytunwyd i ail-ymweld â'r maes yn 2022/23, gan gynnwys yr ymdrechion i godi'r ymwybyddiaeth a'r dealltwriaeth tu ôl cynnal yr asesiadau.
- 4.6 Dylai asesiadau effaith gael eu cefnogi gan ddata er mwyn cyfiawnhau y datganiadau. Gall y data ddod o amryw o ffynhonnellau, a bydd yn debygol o fod yn ddata gwahanol ar gyfer pob asesiad. Nid yw ystadegau ar ben eu hunain yn debygol o fod yn ddigonol ac felly mae derbyn safbwynt trigolion hefyd yn bwysig er mwyn asesu effaith yn briodol, ond mae COVID wedi atal nifer o weithgareddau ymgysylltu oedd wedi'i cynllunio er mwyn dod i ddeall profiad bywyd trigolion gwahanol, ardaloedd a mudiadau perthnasol.
- 4.7 Mae hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion ac i Aelodau, a creuwyd teilsen penodol ar gydraddoldeb ar fewnrwyd y Cyngor sy'n cynnwys manylion am y ddyletswydd newydd. Fodd bynnag, yn sgil y diffyg ymwybyddiaeth ymddangosiadol, mae bwriad i godi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau a rheolwyr ymhellach i gyd-fynd a chyflwyno'r drefn asesu effaith newydd, gyda cynlluniau mewn lle i addasu'r modiwl e-ddysgu a chreu cwrs ar y drefn asesu effaith.

**5. Camau Gweithredu**

**Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Codi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau a rheolwyr o'r ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb newydd, yn ogystal â darparu hyfforddiant penodol er mwyn annog ystyriaeth llawn i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol wrth ystyried penderfyniadau strategol.**
- **Defnyddio offeryn tracio cynnydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol er mwyn cynorthwyo y Cyngor i fodloni gofynion y ddyletswydd, ac i fynd y tu hwnt i'r gofynion i sicrhau newid ystyrlon yn y ffordd y gwneir penderfyniadau pwysig.**

**GRANT RHANBARTHOL CONSORTIA GWELLA YSGOLION****1. Cefndir**

- 1.1 Diben y grant yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr. Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau grant 2020-21 yn nodi'r disgwyliad bod isafswm o 80% o gyfanswm y Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion (GRCGY) yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod arweiniol GRCGY a GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant ac yn cefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu GRCGY 2020-21, er mwyn lliniaru risgiau cysylltiedig ag amodau a thelerau'r grant, yn ogystal â chadarnhau bod sail i'r ffigyrau a gyflwynir ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant, gan ddilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfrifylfr i gadarnhau eu cywirdeb a'u priodoldeb.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad                                                                                                            |
|----------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>UCHEL</b>   | <b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b> |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

- 4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion. Dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfrifylfr ariannol y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir, yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Gwelwyd bod y canran priodol o'r cyllid gros wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod y canran priodol o'r arian grant wedi ei ddargadw ar gyfer pwrpas gweinyddiaeth yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- 4.2 Yn ogystal â chyflwyno Cynllun Datblygu Ysgol, mae bellach yn ofynnol i'r ysgolion gyflwyno 'Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau' fel atodiad i'w cynlluniau. Mae'r dangosfyrddau yn galluogi i'r ysgolion grynhoi sut bydd yr arian grant yn cael ei ddyrannu yn ôl yr amcan, disgrifiad o'r gweithgaredd, y math o wariant ac yr amserlen.

**IECHYD A DIOGELWCH MEYSYDD CHWARAE****1. Cefndir**

- 1.1 Wrth archwilio trefniadau cynnal a chadw meysydd chwarae sydd dan ofalaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn 2019-20, adnabuwyd yr angen i archwilio trefniadau cyfatebol yr Adran Addysg ar gyfer y meysydd ac offer chware sydd ar dir ysgolion.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw offer a meysydd chwarae ar dir ysgolion yn briodol, er mwyn sicrhau diogelwch y defnyddwyr. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r drefn o archwilio meysydd ac offer chwarae ysgolion, sydd ddim dan ofalaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gan sicrhau fod trefn ddigonol o gaffael offer priodol, adnabod diffygion a risgiau, a chynnal gwelliannau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd    | Disgrifiad                                                                                                                                                            |
|-------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>CYFYNGEDIG</b> | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| <u>Lefel Risg</u> | <u>Nifer</u> |
|-------------------|--------------|
| <b>UCHEL IAWN</b> | 0            |
| <b>UCHEL</b>      | 4            |
| <b>CANOLIG</b>    | 0            |
| <b>ISEL</b>       | 0            |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

- 5.1 Er mwyn lliniaru'r risg i ddefnyddiwr rhag brifo ar offer chwarae, mae'n bwysig bod trefn mewn lle o wirio'r offer yn rheolaidd, gan adnabod ac atgyweirio diffygion cyn gynted â phosib. Er nad oes modd dileu y risg yn gyfan gwbl, disgwylir bod trefniadau rhesymol mewn lle i'w lliniaru gymaint â phosib. I'r perwyl yma, mae'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Uned Yswiriant wedi paratoi rhestrau gwirio i'r ysgolion.

Detholwyd sampl o 7 ysgol er mwyn darganfod pa drefniadau sydd mewn lle, a gwelwyd mai'r risg mwyaf yw'r methiant i allu profi bod gwiriadau digonol mewn lle, sy'n hanfodol petai achos yn erbyn ysgol yn dilyn damwain. Ni dderbyniwyd ymateb gan bob ysgol, sy'n atgyfnerthu y pwynt yma.

- 5.2 Mae rhestr wirio cyffredinol i reolwyr safle wedi ei rannu gyda'r ysgolion er mwyn iddynt gynnal archwiliad pob hanner tymor. Gwelwyd nad oes cyfeiriad uniongyrchol tuag at gyfarpar chwarae yn y rhestr wirio sy'n creu risg nad oes gwiriadau yn cael eu cynnal arnynt. Mae'r diffyg cyfeiriad uniongyrchol ato yn y rhestr wirio hefyd yn amharu ar allu y Cyngor i brofi bod trefniadau cynnal a chadw priodol mewn lle petai cwyn yn cael ei gyflwyno yn erbyn ysgol yn dilyn anaf. Cytunwyd i addasu'r ffurflen er mwyn cyfeirio at offer chwarae, ac i atgoffa ysgolion o'r angen i'w cwblhau a'u cadw am y cyfnod dargadw priodol.
- 5.3 O ran y gwiriadau anffurfiol dyddiol neu wythnosol, gwelwyd o'r ymatebion mai gofalmwyd sy'n cynnal yr archwiliadau ond nad oes cofnodion o'r archwiliadau yma yn cael eu cadw.
- 5.4 Mae Uned Yswiriant y Cyngor yn yswirio'r elfen atebolrwydd yn unig - nid yr offer ei hun. Yn ogystal, maent yn trefnu i beiriannydd o yswirwyr y Cyngor, 'Zurich Municipal', i arolygu'r holl feysydd chwarae yn flynyddol, ac yn darparu adroddiad o'u darganfyddiadau gan gynnwys argymhellion i gyfarch unrhyw ddiffygion. Fodd bynnag, mae'r Uned Yswiriant yn ddibynnol ar yr ysgolion i roi gwybod iddynt am fodolaeth unrhyw offer, ac wrth gymharu eu cofnodion gyda gwybodaeth allanol (Google Maps, gwefan yr ysgol ayb), gwelwyd nad yw'r Uned Yswiriant wedi cael gwybod am offer chwarae pob ysgol, a hynny o bosib oherwydd nad yw'r offer wedi ei ariannu o gyllideb swyddogol yr ysgolion. Golyga hyn na fydd adolygiad o gyflwr yr offer yn cael ei wneud gan beiriannydd profiadol a chymwysedig 'Zurich Municipal', ac yn hytrach bydd rhaid dibynnu ar wiriadau y Pennaeth fel Rheolwr Safle, neu gwmni allanol arall ar gais y Pennaeth.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cynnwys cyfeiriad tuag at offer a meysydd chwarae yn y rhestr wirio hanner tymor, a'i dosbarthu i'r ysgolion.**
- **Atgoffa'r ysgolion yn gyfnodol i gysylltu â'r Uned Yswiriant os ydynt yn prynu offer chwarae allanol er mwyn trefnu archwiliad blynyddol gan 'Zurich Municipal', oni bai eu bod wedi trefnu archwiliadau gan gwmnïau amgen cymwys.**
- **Paratoi pecyn i'r Pennaethiaid er mwyn eu helpu i gyfarch eu cyfrifoldebau ynglŷn ag offer allanol, megis cadw cofnodion archwiliadau, asesiadau risg, hunanarchwiliadau Llywodraethwyr, cyfnodau dargadw ayb.**
- **Cynnal a chadw yr offer chwarae yn unol â rhestrau gwirio a chanllawiau y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Uned Yswiriant, gan gadw cofnodion yr archwiliadau am y cyfnod dargadw cywir.**

**AMGUEDDFA LLOYD GEORGE****1. Cefndir**

- 1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog Prydain. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau am 2020-21, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2020-21, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad                                                                                                            |
|----------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>UCHEL</b>   | <b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b> |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

- 4.1 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i roi'r gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George o 1 Ebrill 2017, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r bwlch ariannol blynyddol o £27,000 yn cael ei gyfarch gan Lywodraeth y DU am 3 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020. Yng nghyfarfod o'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2019, penderfynwyd yn ei rôl fel Awdurdod Lleol i gyfrannu £27,000 ar gyfer 2020-21 o Gronfa Drawsffurfio'r Cyngor er mwyn caniatáu mwy o amser i'r Ymddiriedolwyr, sef y Cabinet mewn rôl ar wahân, ystyried modelau gorau ar gyfer y dyfodol. Wrth gwrs, cafodd COVID-19 effaith sylweddol na ragwelwyd ar yr amgueddfa, ac ar y 12/01/21 gofynnwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd i wneud cyfraniad un tro am gostau blwyddyn yr amgueddfa am 2021-22 er mwyn prynu rhagor o amser. Trafodwyd sefyllfa ac opsiynau ar gyfer rheolaeth yr elusen yn nghyfarfod y Cabinet – yn eistedd fel Ymddiriedolwyr yr elusen – ar 14/09/21.
- 4.2 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

## GRANT DEWISOL CYFYNGIADAU SYMUD

### 1. Cefndir

- 1.1 Agorodd Llywodraeth Cymru gronfa (Grant Dewisol) i gefnogi busnesau a hunan fasnachwyr sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau i reoli lledaeniad Covid-19. Diben y grant oedd rhoi cymorth llif arian i fusnesau a'u helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau estynedig. Roedd y grant ar gael i fusnesau ar 3 achlysur wedi'r cyfnod clo, y cyntaf: Hydref 2020, Rhagfyr 2020/Ionawr 2021 a Chwefror/Mawrth 2021 ar amser yr archwiliad.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i weinyddu grantiau cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r wybodaeth oedd ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â'r trefniadau prosesu, rheoli a gweinyddu'r grant.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad                                                                                                     |
|----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>UCHEL</b>   | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Mae'r grant dewisol wedi bod ar gael am 3 cyfnod yn ystod y cyfnod clo. Mae telerau'r grant wedi bod yn debyg yn ystod pob cyfnod gyda mymryn o wahaniaethau. Oherwydd hyn, mae 3 safle gwybodaeth gwahanol wedi bodoli yn ystod oes y grant. Gwelwyd bod rhain wedi bod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Roeddynt yn rhwydd i'w darganfod ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd ddolen at y ffurflenni cais pan oedd y grant yn fyw.
- 4.2 Yn ystod y cyfnod grant cyntaf, defnyddiwyd system *Sharepoint* er mwyn cadw data'r ceisiadau a'u gwirio. Esblygodd y gwasanaeth i ddefnyddio system FFOS erbyn yr ail a thrydydd gyfres o grantiau oherwydd credir bod achosion yn cael eu prosesu'n fwy effeithiol ac effeithlon.
- 4.3 Gwiriwyd sampl o 42 achos allan o 1,685 oedd wedi cael eu prosesu ar amser yr archwiliad (30 talwyd a 12 gwrthodwyd). 16.05 diwrnod oedd yr amser cyfartalog gymerwyd o gais i daliad a 8.21 diwrnod ar gyfer ceisiadau a wrthodwyd. Mae'r cyfnodau prosesu yma yn llawer byrrach na'r nod o 30 diwrnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.



- 4.4 Roedd yr wybodaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor yn y ceisiadau yn cael ei wirio yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru. Hynny yw bod y busnes yn masnachu cyn 1 Hydref 2020, bod y busnes yn gweithredu yng Nghymru, bod y busnes wedi gorfod cau neu wedi dioddef gostyngiad trosiant oherwydd Covid a.y.b. Mynegodd swyddogion y gwasanaeth bod cyfarwyddyd gan y Llywodraeth i dderbyn yr wybodaeth gyflwynir mewn ceisiadau fel ei fod yn hunan-dyst. Serch hyn, roedd swyddogion yn herio a'n gofyn am dystiolaeth ychwanegol gan fusnesau ar bob achlysur petai unrhyw ran o'r cais yn aneglur neu bod amheuaeth am resymeg yr ymgeisydd i fod angen cymorth. Roedd y gwasanaeth hefyd yn gofyn am ddatganiad banc gan yr ymgeiswyr i gadarnhau eu manylion banc a'u cyfeiriad. Allan o'r 30 o'r sampl a dalwyd gwelwyd bod datganiadau banc wedi'u harbed ar y system fel dystiolaeth ychwanegol ar gyfer pob ymgeisydd llwyddiannus. Roedd yr archwiliwr yn cytuno gyda'r penderfyniadau wnaethpwyd ar gyfer y sampl o 42 o geisiadau a wiriwyd (talw a gwrthod) yn dilyn gwiriadau yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru.

## TREFNIADAU RHEOLI PROSIECT

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae YGC yn rheoli ystod eang o brosiectau dylunio ac adeiladu. Mae trefniadau rheoli'r prosiectau yn amrywio, ac yn ddibynol ar eu gwerth, y ffynhonnell â ariennir y prosiect a'r cymwysterau a phrofiad angenrheidiol er mwyn eu rheoli. Golyga hyn fod nifer o aelodau staff YGC yn ymgymryd â rôl rheolwr prosiect gan arwain at amrywiaeth mewn trefniadau a'r dulliau â ddefnyddir i reoli'r gwahanol brosiectau.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli prosiectau YGC yn briodol gyda chysondeb yn y prosesau a ddilynir gan y rheolwyr prosiect. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol a gwirio trefniadau rheoli sampl o brosiectau ac adolygu'r systemau a ddefnyddir er mwyn cofnodi a ffeilio'r wybodaeth.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad                                                                                                                     |
|----------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>DIGONOL</b> | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg       | Nifer |
|------------------|-------|
| <b>CHEL IAWN</b> | 0     |
| <b>UCHEL</b>     | 0     |
| <b>CANOLIG</b>   | 1     |
| <b>ISEL</b>      | 0     |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae YGC yn y broses o fabwysiadu system K2 gyda'r bwriad i un ai ddisodli'r nifer o wahanol systemau â ddefnyddir yn bresennol, neu integreiddio elfennau ohonynt er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac anghysondebau o ran y trefniadau gweinyddiaeth.
- 5.2 Mae staff YGC yn cofrestru prosiectau ar eu system 'sharepoint' drwy gwblhau taflen gofrestru PM1 sydd wedi ei hymgorffori i fewn i 'sharepoint'. Mae'r broses yma yn dethol rhif prosiect unigryw ac yn rhoi'r cyfle i'r unigolyn sy'n ei gwblhau i nodi agweddau o'r

prosiect megis enw'r rheolwr prosiect, os yw CDM 2015<sup>1</sup> yn berthnasol, rôl YGC a'r ffynhonnell i ariannu'r prosiect. Mae manylion y prosiectau hefyd yn cael eu bwydo i system KeyedIn, yn bennaf er mwyn nodi oriau â weithir gan staff a chodi anfonebau yn ogystal â system PMS<sup>2</sup>, Asiantaeth Cefnffyrdd os mai'r Asiantaeth yw'r cleient.

- 5.3 Yn unol â safonau systemau rheoli rhyngwladol, mae YGC yn cynnal trefn o archwiliadau mewnol o fewn yr Adran, ac yn annibynnol o Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Caiff sampl o brosiectau eu harchwilio yn gyfnodol gan swyddog penodol o fewn YGC er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y diwydiant gan gynnwys elfennau cyfreithiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch, cytundebau a phrosesau ariannol.
- 5.4 Mae'r Swyddog Amgylcheddol a Sicrwydd Ansawdd yn ymgymryd â'r rôl yma o ran YGC. Mae rhaglen benodol gydag archwiliadau pob 4 mis. Mae YGC wedi ei rannu i 4 gwasanaeth gyda 5 neu 6 o dimau ynddynt. Y drefn arferol yw dethol sampl o hyd at 10 prosiect ym mhob cyfnod fel bod pob un o'r timau yn derbyn un archwiliad prosiect y flwyddyn. Adolygir y rhaglen yma yn flynyddol.
- 5.5 Mae'r BSI<sup>3</sup> yn cynnal asesiadau er mwyn adolygu'r prosesau yma o archwilio mewnol gan YGC. Mae asesiadau BSI yn edrych yn benodol ar safonau ISO 9001:2015 (Ansawdd), ISO 14001:2015 (Amgylcheddol) a ISO 45001:2018 (Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol). Mae'n ofynnol i YGC adrodd a darparu cynllun gweithredu ar unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r safonau yma. Os nad yw'r cynllun yn foddhaol neu fethiant i'w gyflawni, yna mae risg i YGC golli eu tystysgrif achrediad.
- 5.6 Detholwyd sampl o 9 o brosiectau YGC rhwng 2019-20 a 2020-21. Nid yw'r holl brosiectau wedi eu cwblhau eto ond gwelwyd y camau oedd wedi eu cymryd ar amser yr archwiliad. Mae system 'sharepoint' YGC yn cynnwys templed o ffolderi ar gyfer yr agweddau angenrheidiol wrth reoli prosiect, ond gwelwyd anghysondebau yn y drefn a ddilynir gan wahanol reolwyr prosiect gyda rhan helaeth o'r ffolderi yn cael eu hanwybyddu mewn rhai achosion. Mae ystod eang o feysydd yn golygu bod anghenion y gwahanol brosiectau yn amrywio'n sylweddol. Er mai bodolaeth y wybodaeth/tystiolaeth sydd yn bwysig yn hytrach na'r drefn ffeilio, gall hyn achosi trafferthion ac oedi wrth adolygu'r gwaith neu petai swyddogion eraill yn mabwysiadu'r rôl gan y rheolwr prosiect gwreiddiol. Mae canllawiau SOP-02<sup>4</sup> yn cael eu dilyn ar gyfer prosiectau ond mae'r amrywiaeth o ran cymhlethdod a maint y prosiectau yn golygu bod angen hyblygrwydd gan nad yw'n ymarferol i ddilyn yr un drefn ar bob prosiect. Trafodwyd hyn gyda'r Swyddog Amgylcheddol a Sicrwydd Ansawdd ac eglurodd bod hyn yn enghraifft o elfen arall y bwriedir tacluso a hwyluso drwy ddefnyddio system K2 a fydd yn cynnig system fwy dynamig ac addas i bwrpas a fydd yn lliflinio'r prosesau angenrheidiol.

---

<sup>1</sup> Construction (Design and Management) Regulations – HSE (Health and Safety Executive)

<sup>2</sup> Project Management Systems – Partner Authorities

<sup>3</sup> British Standards Institution

<sup>4</sup> Standard Operating Procedures – Project Management

- 5.7 Mae Archwilio Mewnol o'r farn bod y rheolaethau cydadfer sydd mewn lle i wirio cydymffurfiaeth â safonau rheoli prosiect BSI, â'r trefniadau arfaethedig sydd mewn llaw i gysoni trefniadau, yn golygu gellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle i gyflawni ei hamcanion. Fodd bynnag, nid oes modd rhoi sicrwydd pendant hyd nes i'r drefn newydd gael ei mabwysiadu a'i gwirio.

**6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Swyddog Amgylcheddol a Sicrwydd Ansawdd wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Mabwysiadu system K2 a monitro cynnydd ar y trefniadau rheoli prosiect ac adnabod a gweithredu ar unrhyw rwystrau a adnabyddir yn gynnar yn y cyfnod datblygu.**

|                     |                                                                             |
|---------------------|-----------------------------------------------------------------------------|
| PWYLLGOR            | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU                                           |
| DYDDIAD             | 10 CHWEFROR 2022                                                            |
| TEITL               | CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22                                            |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22 |
| AWDUR               | LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO                                         |
| GWEITHREDIAD        | ER GWYBODAETH                                                               |

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2021/2022.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

- 2.1 Mae Cynllun Archwilio 2021/22 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 31 Ionawr 2022 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| Statws yr Archwiliad    | Nifer     |
|-------------------------|-----------|
| Wedi ei gynllunio       | 5         |
| Gwaith Maes ar y gweill | 14        |
| Disgwyl Adolygiad       | 1         |
| Adroddiad Drafft        | 3         |
| Wedi ei gau             | 1         |
| Adroddiad Terfynol      | 18        |
| <b>Cyfanswm</b>         | <b>42</b> |
| <b>Canslwyd</b>         | <b>14</b> |

- 2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2022. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

|                   |     |
|-------------------|-----|
| Diwedd chwarter 1 | 8%  |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

- 2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Ionawr 2022 oedd **45.24%** - allan o'r **42** archwiliad unigol yng nghynllun 2021/22 roedd **19** wedi eu rhyddhau yn derfynol/cwblhau.

### 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

- 3.1 Mae cyfanswm o 225 diwrnod wedi ei gynnwys yn y Cynllun Blynnyddol 2021/22 ar gyfer cynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu ynghyd â chynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-dal i ddelio gyda taliadau Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf a hefyd Taliadau Cymorth Hunan-ynysu yn sgil y cynnydd mewn achosion Covid-19 yng Ngwynedd. Mae'r ddau wasanaeth hwn yn flaenoriaeth 1.

- 3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, 'roedd yn anochel na ellid cynnal rhai archwiliadau serch bod adnodd ychwanegol cyfwerth â 73.5 diwrnod wedi ei ychwanegu o ganlyniad i ddiwedd secondiad un o'r Uwch Archwilwyr. Penderfynwyd i addasu neu ganslo'r archwiliadau canlynol a throsglwyddo'r dyddiau ar gyfer ymgymryd â gwaith y ddau wasanaeth a nodir ym mharagraff 3.1 uchod.

| Archwiliad                         | Dyddiau | Addasiad/Canslo |
|------------------------------------|---------|-----------------|
| Trefniadau Diogelu – Sefydliadau   | 4       | Canslo          |
| Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau    | 5       | Canslo          |
| Grant Trafnidiaeth Leol            | 12      | Canslo          |
| Cynllun Rheoli Traethau            | 10      | Canslo          |
| Cynllun Llanbedr                   | 12      | Canslo          |
| Asesiadau Statudol (AMHP)          | 20      | Canslo          |
| Cynnal Tiroedd                     | 15      | Canslo          |
| Manddaliadau                       | 12      | Canslo          |
| Mesurau Diogelu Rhyddid            | 10      | Canslo          |
| Asesiadau Risg – Cynnal Priffyrdd  | 15      | Canslo          |
| Newid Hinsawdd                     | 15      | Canslo          |
| Grant Datblygu Disgyblion          | 10      | Canslo          |
| Trefniadau Busnes yn Sgil Covid-19 | 15      | Canslo          |

- 3.3 Mae archwiliad o gyfrifon Amgueddfa Lloyd George wedi ei ychwanegu at y Cynllun – cyfanswm o 3 diwrnod.
- 3.4 Mae'r dyddiau a glustnodwyd ar gyfer archwiliad Cwmni Cynnal wedi eu trosglwyddo i gynnal archwiliad ar Gronfeydd Answyddogol Ysgolion – cyfanswm o 25 diwrnod.
- 3.5 Yn draddodiadol, byddai wedi bod yn arferol i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf drwy adlewyrchu ar risgiau a sialensiau y flwyddyn gyfredol, ond eto eleni, defnydd cyfyngedig sydd o wneud hynny wrth gynllunio ar gyfer 2022/23, ac felly bydd yn anorfod i edrych ymlaen drwy ystyried y newidiadau a ragwelir dros y 12 mis nesaf.

- 3.6 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach fyth o ystyried effaith sylweddol a chyflym pandemig Covid-19 ar y Cyngor. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg a caiff y cynllun ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus.
- 3.5 Bydd yn anochel bod unrhyw gynllun archwilio yn hyblyg er gallu gweithredu ar ddatblygiadau a materion risg uchel a ddaw i'r amlwg. Felly, bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau/blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg yn y cyfnod ansefydlog hwn.
- 4. ARGYMHELLIAD**
- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2021/22, cynnig sylwadau a derbyn yr adroddiad.



# Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22

| Côd yr Archwiliad    | Enw'r Archwiliad                                                                   | Cynllun<br>Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun<br>Addasiedig | Gwir<br>Ddyddiau | Statws yr Archwiliad    |
|----------------------|------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|----------|-----------------------|------------------|-------------------------|
| <b>CORFFORAETHOL</b> |                                                                                    |                       |          |                       |                  |                         |
| 1-CORFF-09/2022/001  | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd                                                 | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 2.88             | Wedi ei gynllunio       |
| 1-CORFF-11/2022/001  | Datganiadau Cyflogaeth                                                             | 8.00                  | 0.00     | 8.00                  | 9.73             | Adroddiad Terfynol      |
| 1-CORFF-15/2022/001  | Newid Hinsawdd                                                                     | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 0.00             | Wedi ei ganslo          |
| 1-CORFF-19/2022/001  | Trefniadau Diogelu                                                                 | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 3.47             | Wedi ei gynllunio       |
| 1-CORFF-19/2022/002  | Trefniadau Diogelu- Sefydliadau                                                    | 4.00                  | 0.00     | 4.00                  |                  | Wedi ei ganslo          |
| 1-CORFF-20/2022/001  | Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19                                                 | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| 1-CORFF-20/2022/002  | Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd                   | 20.00                 | 0.00     | 20.00                 | 25.39            | Adroddiad Drafft        |
| 1-CORFF-20/2022/003  | Gwasanaeth Profi Orlhain a Diogelu                                                 | 0.00                  | 125.00   | 125.00                | 97.69            | Wedi ei gau             |
| 1-CPGV-01/2022/001   | Brexit                                                                             | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 9.50             | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2022/002   | Côd Rheoli Ariannol                                                                | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 12.78            | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2022/003   | Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021                                          | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 | 12.30            | Adroddiad Terfynol      |
| 1-CPGV-01/2022/004   | Trefn Gwynion                                                                      | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 | 11.86            | Adroddiad Drafft        |
| 1-CPGV-01/2022/005   | Dynodiadau Iaith                                                                   | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 | 4.18             | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-02/2022/001   | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | 40.00                 | 0.00     | 40.00                 | 32.49            | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2022   | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau                                                    | 5.00                  | 0.00     | 5.00                  |                  | Wedi ei ganslo          |
| AE-TAL-06/2022001    | Defnydd o Gardiau Pryniant                                                         | 25.00                 | 0.00     | 25.00                 | 16.59            | Adroddiad Drafft        |
| <b>ADDYSG</b>        |                                                                                    |                       |          |                       |                  |                         |
| <b>Adnoddau</b>      |                                                                                    |                       |          |                       |                  |                         |
| 4-DAT-X-ADD/2022/001 | Grant Datblygu Disgyblion                                                          | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| 4-DAT-X-ADD/2022/002 | Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion                                        | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 9.16             | Adroddiad Terfynol      |
| 4-DAT-X-ADD/2022/003 | Grant Addysg Ôl-16                                                                 | 3.00                  | 0.00     | 3.00                  | 0.55             | Adroddiad Terfynol      |
| EADDA02/2022/001     | Cwmni Cynnal - Gwasanaethau i Ysgolion                                             | 25.00                 | -25.00   | 0.00                  |                  | Wedi ei ganslo          |
| EADDA29/2022/001     | Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae                                                 | 20.00                 | 0.00     | 20.00                 | 19.31            | Adroddiad Terfynol      |
| <b>Ysgolion</b>      |                                                                                    |                       |          |                       |                  |                         |
| EADDA32/2022/001     | Cronfeydd Answyddogol Ysgolion                                                     | 25.00                 | 0.00     | 25.00                 | 3.61             | Gwaith Maes ar y gweill |



| Côd yr Archwiliad          | Enw'r Archwiliad                                                        | Cynllun<br>Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun<br>Addasiedig | Gwir<br>Ddyddiau | Statws yr Archwiliad    |
|----------------------------|-------------------------------------------------------------------------|-----------------------|----------|-----------------------|------------------|-------------------------|
| EADDA35/2022/001           | Ysgolion Cyffredinol                                                    | 5.00                  | 0.00     | 5.00                  | 0.14             | Wedi ei gynllunio       |
| AMGYLCHEDD                 |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| Gwarchod y Cyhoedd         |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| 2-ADN-GYC/2022/001         | Hylendid Bwyd                                                           | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 2.85             | Gwaith Maes ar y gweill |
| Trafnidiaeth a Gofal Stryd |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| 3-RHE1-X-GRANT/2022        | Grant Trafnidiaeth Lleol                                                | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| Uned Cefn Gwlad a Mynediad |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| 3-AMG-GWLAD/2022/001       | Grantiau Cefn Gwlad                                                     | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 | 3.69             | Gwaith Maes ar y gweill |
| CYLLID                     |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| Ar draws yr adran          |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| AW-TG-12/2022/001          | Systemau a Diogelwch TG - Data Adequacy                                 | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 14.11            | Adroddiad Terfynol      |
| AW-TG-12/2022/002          | Trefniadau Adfer Trychineb                                              | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 6.99             | Gwaith Maes ar y gweill |
| Cyfrifeg                   |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| AN-ACY-02/2022/001         | Rheoli Prosiect - Uwchraddio E-Financials                               | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 | 4.00             | Gwaith Maes ar y gweill |
| AN-ACY-08/2022/001         | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2020-2021                                 | 4.00                  | 0.00     | 4.00                  | 6.62             | Adroddiad Terfynol      |
| AN-ACY-08/2022/002         | Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2020-2021       | 4.00                  | 0.00     | 4.00                  | 4.27             | Adroddiad Terfynol      |
| AN-ACY-08/2022/003         | Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-2021 | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 | 4.95             | Adroddiad Terfynol      |
| Pensiynau a Chyflogau      |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| AL-CYF-01/2022/001         | Newid Data Sefydlog                                                     | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 | 10.00            | Disgwyl Adolygiad       |
| AL-CYF-18/2022/001         | Taliadau i Weithwyr Gofal (Rhan 2)                                      | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 | 3.81             | Adroddiad Terfynol      |
| AL-CYF-18/2022/002         | Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal                                         | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 3.55             | Gwaith Maes ar y gweill |
| AP-PEN-11/2022/001         | Taleion Newydd                                                          | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 | 5.57             | Adroddiad Terfynol      |
| Refeniw                    |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| AB-BD-01/2022/001          | Taliadau Hunanynysu - Tanwydd Gaeaf                                     | 0.00                  | 100.00   | 100.00                | 0.00             | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2022/001          | Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru (2021-22)                     | 25.00                 | 0.00     | 25.00                 | 16.00            | Adroddiad Terfynol      |
| ECONOMI A CHYMUNED         |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| Adfywio Cymunedol          |                                                                         |                       |          |                       |                  |                         |
| EADDZ-01/2022/001          | Cronfa Degwm                                                            | 3.00                  | 0.00     | 3.00                  | 3.05             | Adroddiad Terfynol      |

Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau

| Côd yr Archwiliad                | Enw'r Archwiliad                             | Cynllun<br>Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun<br>Addasiedig | Gwir<br>Ddyddiau | Statws yr Archwiliad    |
|----------------------------------|----------------------------------------------|-----------------------|----------|-----------------------|------------------|-------------------------|
| EDIW-MU-03/2022/001              | Storiel                                      | 6.00                  | 0.00     | 6.00                  | 0.34             | Gwaith Maes ar y gweill |
| EDIW-OR-01/2022/001              | Amgueddfa Lloyd George                       | 0.00                  | 3.00     | 3.00                  | 0.00             | Adroddiad Terfynol      |
| Cefnogi Busnes                   |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| DDAT-AD-04/2022/001              | Grant Dewisol Cyfyngiadau Clo                | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 18.04            | Adroddiad Terfynol      |
| Morwrol a Pharciau Gwledig       |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| EHAMT-01/2022/001                | Cynllun Rheoli Traethau                      | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| Strategaeth a Datblygu           |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| DDAT-AD-05/2022/001              | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru     | 20.00                 | 0.00     | 20.00                 | 0.00             | Gwaith Maes ar y gweill |
| DDAT-CON-01/2022/001             | Cynllun Llanbedr                             | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| OEDOLION, IECHYD A LLESIANT      |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| Ar draws yr adran                |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| GCC-02/2022/001                  | Mesurau Diogelu Rhyddid                      | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| Oedolion                         |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| GGWAS-H02/2022/001               | Dyledion                                     | 30.00                 | 0.00     | 30.00                 | 0.00             | Wedi ei gynllunio       |
| Preswyl a Dydd                   |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| GDAPR-H01/2022/001               | Diogelu Asedau Preswylwyr                    | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 6.38             | Wedi ei gynllunio       |
| PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD       |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| Plant a Theuluoedd               |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| GGWAS-P03/2022/001               | Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 | 10.55            | Gwaith Maes ar y gweill |
| GGWAS-P06/2022/001               | Asesiadau Statudol (AMHP)                    | 20.00                 | 0.00     | 20.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL        |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| PBW-02/2022/001                  | Cynnal Tiroedd                               | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| PZ01/2022/001                    | Asesiadau Risg - Cynnal Priffyrdd            | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |
| TAI AC EIDDO                     |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| Digartrefedd a Tai Cefnogol      |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| GDAPR-SP01/2022/001              | Grant Cymorth Tai                            | 10.00                 | 0.00     | 10.00                 | 9.22             | Adroddiad Terfynol      |
| Tir ac Eiddo'r Cyngor            |                                              |                       |          |                       |                  |                         |
| BA-EID-04/2022/001               | Manddaliadau                                 | 12.00                 | 0.00     | 12.00                 |                  | Wedi ei ganslo          |

| Côd yr Archwiliad      | Enw'r Archwiliad             | Cynllun<br>Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun<br>Addasiedig | Gwir<br>Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|------------------------|------------------------------|-----------------------|----------|-----------------------|------------------|----------------------|
| M-GMG-G02/2022/001     | Trefniadau Glanhau           | 15.00                 | 0.00     | 15.00                 | 14.68            | Adroddiad Terfynol   |
| YMGYNGHORIAETH GWYNEDD |                              |                       |          |                       |                  |                      |
| Ar draws yr adran      |                              |                       |          |                       |                  |                      |
| PYMG-CON/2022/001      | Trefniadau Rheoli Prosiectau | 20.00                 | 0.00     | 20.00                 | 20.65            | Adroddiad Terfynol   |

# Eitem 11

|                  |                                                                                                                                |
|------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CYFARFOD:        | <b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>                                                                                       |
| DYDDIAD:         | <b>10 CHWEFROR 2022</b>                                                                                                        |
| TEITL:           | <b>CYLLIDEB 2022/23</b>                                                                                                        |
| PWRPAS:          | <b>Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymhell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b> |
| GWEITHREDIAD:    | <b>Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymhell cyllideb 2022/23 i'r Cyngor llawn</b>                                          |
| AELOD CABINET:   | <b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS</b>                                                                                                  |
| SWYDDOG CYSWLLT: | <b>DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID</b>                                                                                            |

---

1. Yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2022/23 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).
2. Wedi ystyriaeth trylwyr mewn cyfres o weithdai aelodau, bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.
3. Rhoddir ystyriaeth i nifer o'r risgiau ariannol a'r camau perthnasol i sicrhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol, yn Atodiad 10.
4. Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.
5. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

## **Atodiad:**

Cyllideb 2022/23 (adroddiad Cabinet 15/02/2022)

**Cyfarfod:** Cabinet

**Dyddiad:** 15 Chwefror 2022

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid

**Pwnc:** Cyllideb 2022/23

**Swyddog Cyswllt:** Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

---

## **CYLLIDEB 2022/23**

### **Y Penderfyniad a geisir**

**Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022) y dylid:**

- 1. Sefydlu cyllideb o £295,232,820 ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213,210,400 a £82,022,420 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.95%.**
  - 2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £59,074,980 yn 2022/23 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**
- 

### **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23.**
- 1.2 Mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2022/23 sy'n gynnydd arwyddocaol ar yr hyn y bu i ni ei dderbyn mewn blynyddoedd blaenorol. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant o 8.8%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £18.1m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae £311k ychwanegol wedi ei gynnwys i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad (materion oedd wedi'u ariannu'n flaenorol drwy grantiau penodol).**
- 1.3 Er gwaethaf y setliad rhesymol eleni, mae nifer o ffactorau fydd yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar ein gwasanaethau yn 2022/23. Felly, yn ogystal â chyfarch graddfa chwyddiant sy'n uwch ar hyn o bryd nag y bu ers sawl blwyddyn, mae cyfle i ymdrin â phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael â chostau parhaus sy'n deillio o'r argyfwng Covid-19, a dileu neu ohirio cynlluniau arbedion nad yw'n ymarferol i'w gwireddu yn 2022/23. Byddai cymryd y penderfyniadau hyn yn golygu cynnydd Treth Cyngor o 2.95%.**

- 1.4 Mae'r gyllideb ddrafft wedi bod yn destun ymgynghori gyda mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Ionawr, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymhell cyllideb cytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 3 Mawrth ar gyfer 2022/23.
- 1.5 Erbyn 2022/23, byddai angen cynyddu ein gwariant o £20.2m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £7.1m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).
- 1.6 Yn ogystal â £6.7m i ymdrin â'r pwysau ar gyllidebau, argymhellir cynnwys £1.4m i ddarparu cyllideb gorfforaethol i ddygymod â chostau a colled incwm o barhad yr argyfwng Covid-19, gan na fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido hyn yn 2022/23 wrth i'w Cronfa Galedi ddirwyn i ben ar 31 Mawrth 2022. O ystyried bydd y Cyngor wedi hawlio oddeutu £14.4m o'r Gronfa Galedi yn 2021/22, nid ydym yn rhagweld bydd yr £1.4m yn ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau; sefydlwyd Cronfa Adfer Covid wrth gau cyfrifon 2019/20 i'r perwyl hyn, a hefyd gellir gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.
- 1.7 Mabwysiadwyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (am 2022/23 – 2024/25) gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Nodwyd yn yr adroddiad fod cynllunio ariannol yn hynod heriol yn 2021, gydag ystod o senarios posib yn awgrymu bwlch cyllido ar gyfer 2022/23 a allai fod unrhyw swm rhwng £0 a £7.5m, gyda'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n eang erbyn 2023/24 a thu hwnt. Ar sail yr wybodaeth oedd i law ar y pryd, yr "achos gorau" a ragwelwyd bryd hynny oedd cynnydd yn y Grant Llywodraeth o 4.5%. Gan fod y setliad yn rhagori hyd yn oed yr "achos gorau" hwn mae'n bosib i'r Cyngor allu ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau tra ar yr un pryd ddiddymu neu oedi y mwyafrif o gynlluniau arbedion oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn.
- 1.8 Felly, disgwylir gwireddu £595k yn 2022/23 o'r rhaglen arbedion cynlluniwyd eisoes (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) fydd y mynd beth o'r ffordd i gyfarch y bwlch ariannol sy'n ganlyniad i'r pwysau ychwanegol.
- 1.9 Bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau yn 2019, ac fe'i adolygwyd yn 2020, ac eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £59.1m yn 2022/23, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.
- 1.10 Mae cyllideb 2022/23 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd 2.95% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni.
- 1.11 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2022/23 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2021/22.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2022/23. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

| Grant Cynnal Refeniw<br>2021/22 – 2022/23 |              | Cyfanswm<br>Awdurdodau<br>Cymru<br>£ | Cyngor<br>Gwynedd<br>swyddogol<br>£ | Cyngor<br>Gwynedd<br>"cash"<br>£ |
|-------------------------------------------|--------------|--------------------------------------|-------------------------------------|----------------------------------|
| Grant y Llywodraeth<br>2021/22            |              | 4,670,079,770                        | 195,904,720                         | 194,793,140                      |
| Grant y Llywodraeth<br>2022/23            |              | 5,107,507,200                        | 213,210,340                         | 213,210,340                      |
|                                           | Cynnydd<br>£ | 437,427,430                          | 17,305,620                          | 18,417,260                       |
|                                           | Cynnydd<br>% | +9.4%                                | +8.8%                               | -                                |

Ni fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei setliad terfynol tan 2 Mawrth 2022. Mae manylion pellach am y setliad dros dro ar gael yma –

[Setliad refeniw a chyfalaf Llywodraeth Leol 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU](#)

- 2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £17.3m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2021/22 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynnydd o 8.8%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 9.4%.
- 2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawlwyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill.
- 2.4 Derbyniwyd cynnydd sylweddol mewn "cash" oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd gostyngiad cymharol mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.
- 2.5 Bydd Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 2 Mawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar 9 Mawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.

- 2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2022/23, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.

### 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2022/23

- 3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2022/23.

#### Gofynion Gwario Ychwanegol

|                                                  | £                | £                  |
|--------------------------------------------------|------------------|--------------------|
| Cyllideb Sylfaenol                               |                  | 275,669,610        |
| Chwyddiant Cyflogau Staff                        | 8,475,440        |                    |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr)                     | 3,979,720        |                    |
| Ardollau (Tân, CNC a CBC)                        | 493,200          |                    |
| Demograffi                                       | (26,700)         |                    |
| Bidiau - Pwysau ar                               | 6,732,590        |                    |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol                     | (788,400)        |                    |
| Cost Benthycia / Llog ar                         | (107,640)        |                    |
| Covid-19                                         | <u>1,400,000</u> |                    |
| Cyfanswm net yr                                  |                  | <u>20,158,210</u>  |
| Cyfanswm gofynion gwario<br>2022/23 cyn arbedion |                  | <u>295,827,820</u> |

#### 3.2 Cyllideb Sylfaenol 2021/22

Er mai £276m yw gwariant net 2021/22, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £470m, oherwydd ein bod yn derbyn llw o grantiau penodol gwerth £134m ac yn codi incwm cyffredinol o £60m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

#### 3.3 Chwyddiant Cyflogau £8.5m

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, nid oedd cytundeb cyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2021 i Mawrth 2022 wedi cael ei gytuno, ond ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf sydd i law rydym yn rhagdybio cynnydd o 1.75%. Darperir yma ar gyfer cynnydd tâl 1.75% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2022 (effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2021).

Mae'r gyllideb wedyn yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2022/23 o 4% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2022, gweddill y gweithlu o Ebrill 2022).



Nodir hefyd bydd cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dod yn weithredol yn Ebrill 2022.

Hefyd wedi'i gynnwys yma, mae cost incrementau net o drosiant sydd eleni yn golygu dyrannu £171,000 ychwanegol i ysgolion cynradd, ond £9,100 yn llai i ysgolion uwchradd, gan roi cynnydd net o £161,900.

### 3.4 Chwyddiant Arall £4m

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd sy'n daladwy i'n cyflenwyr preifat (yn cynnwys £636k ar gyfer cartrefi gofal preswyl annibynnol, a £806k ar gyfer cwmnïau gofal di-breswyl), ynghyd â chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni (£467k) a chynnydd prisiau yn dilyn ail-dendro (megis yswiriant £234k).

### 3.5 Ardollau £493k

Bydd y lefiau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2021/22 a 2022/23:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru £421k
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri £0
- Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) £10k
- Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd £62k

Tynnir sylw aelodau yn benodol fod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gorff newydd sydd wedi gosod ei gyllideb cyntaf ar gyfer 2022/23.

### 3.6 Demograffi (£27k)

Cyfanswm net sy'n adlewyrchu -£57k oherwydd lleihad net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion a +£30k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r ffigwr net o -£57k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£372k a cynradd -£429k.

### 3.7 Pwysau ar Wasanaethau £6.7

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £6.7m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £6.2m sydd i'w ariannu o'r Gronfa Trawsnewid.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminarau Cyllideb a gynhaliwyd ar 24, 25 a 26 Ionawr 2022, lle roedd y mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

### **3.8 Addasiadau Cyllideb Amrywiol (£788k)**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor.

### **3.9 Costau Benthycia a Llog ar Falansau (£108k)**

Rhagamcan o ostyngiad (£38k) mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2022/23, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben, ynghyd â chynnydd (£70k) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor.

### **3.10 Covid-19 £1.4m**

Ers Ebrill 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am gostau ychwanegol a cholled incwm fel sy'n ganlyniad i'r pandemig allan o'u Cronfa Caledi. Roedd cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth oddeutu £20m yn 2020/21, ac amcangyfrif bydd y cymorth oddeutu £14.4m yn ystod 2021/22.

Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid yn Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiamwys bydd y cymorth hwn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022 a bydd disgwyl i awdurdodau lleol ariannu unrhyw gostau ychwanegol / colled incwm yn sgil Covid-19 wedi hynny.

Felly, mae'r pwysau ariannol yn y gyllideb yn cynnwys £1.4m pellach sydd wedi ei ddarparu er mwyn sefydlu cronfa gorfforaethol, i ddygymod â'r sefyllfa. Nid ydym yn rhagweld bydd yr £1.4m yn ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau ond mae cronfeydd eraill ar gael i gynorthwyo. Sefydlwyd Cronfa Adfer Covid wrth gau cyfrifon 2020/21 i'r perwyl hyn, a hefyd gellir gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.

## 4. ARBEDION

**4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.**

**4.2** Ar 18 Ionawr 2022, wrth ystyried adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn o ran cynlluniau arbedion 2022/23:

- cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
  - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
  - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
- symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

| Arbedion           | Gohirio i<br>2023/24 neu<br>hwyrach<br>£ | Dileu<br>£ |
|--------------------|------------------------------------------|------------|
| Cynlluniau 2022/23 | 1,290,250                                | 489,750    |

**4.3** Felly, bydd gwerth £1,780,000 o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol i'w gwireddu yn 2022/23 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwlch cyllidebol 2022/23. Canlyniad hyn yw mai £595,000 yw gwerth yr arbedion sy'n weddill yn y rhaglen i'w tynnu allan o gyllideb 2022/23, yn hytrach na £2,375,000. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 3, ac yn yr adroddiad Cabinet 18 Ionawr.

**4.4** Wedi'r addasiadau uchod i'r rhaglen arbedion, mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2022/23 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

| Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2022/23          |                |
|---------------------------------------------------------|----------------|
|                                                         | £              |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant                       | 100,000        |
| Adran Cefnogaeth Gorfforaethol                          | 100,000        |
| Adran Economi a Chymuned                                | 70,000         |
| Adran Cyllid (a T.G.)                                   | 25,000         |
| Adran Amgylchedd                                        | 12,500         |
| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol                         | 287,500        |
| <b>Arbedion ar gael i leihau bwlch Cyllideb 2022/23</b> | <b>595,000</b> |

## 5. BWLCH ARIANNU 2022/23 A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o ran 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2022/23 yn £295.8m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £213.2m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £595,000 o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

| Sefydlu Cyllideb 2022/23                   |                   |
|--------------------------------------------|-------------------|
|                                            | £                 |
| Cyllideb Sylfaenol 2021/22                 | 275,669,610       |
| Gofynion Gwario Ychwanegol                 | <u>20,158,210</u> |
| Gofynion Gwario 2022/23 cyn Arbedion       | 295,827,820       |
| Ilai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | (213,210,400)     |
| Ilai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch    | (595,000)         |
| Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor         | <u>82,022,420</u> |

- 5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £82m, ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 2.95% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.
- 5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.
- 5.5 Felly, argymhellir codi'r dreth 2.95%, fydd yn cynhyrchu £82m o dreth erbyn 2022/23, sydd yn £1.2m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch o'i gymharu â chyllideb 2021/22. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £43.76 i eiddo mewn Band D, neu £0.84 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 3.68% ar gyfer 2022/23) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
- 5.6 Yn 2021/22 roedd lefel Band D Gwynedd yn £1,483, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,402. Fodd bynnag, mae hynny am resymau hanesyddol, gan fod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd ers 2015/16 yn 4.2% ar gyfartaledd, sy'n llai na'r cynnydd 4.3% a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru yn ystod yr un cyfnod.

- 5.7 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 2.95% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau.
- 5.8 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2022/23 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 2.95% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2022/23

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2022/23 ac er gwaethaf cynnydd grant sydd yn uwch na chwyddiant eleni, bydd rhaid parhau i gynaeafu rhai arbedion hanesyddol – er fod modd oedi neu dileu'r mwyafrif – a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- 6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £295.2m, wedi ychwanegu £20.2m, sy'n cynnwys darparu £6.7m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £213.2m a dibynnu ar £595k o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 2.95% i gynhyrchu £82m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2022/23.

| <b>Cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23</b> |                    |
|------------------------------------------|--------------------|
|                                          | £                  |
| Gofynion Gwario 2022/23 cyn Arbedion     | 295,827,820        |
| Cyfanswm Arbedion 2022/23                | (595,000)          |
| Cyllideb 2022/23                         | <u>295,232,820</u> |
| <b>I'w ariannu drwy -</b>                |                    |
| Incwm Grant                              | 213,210,400        |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 2.95%) | <u>82,022,420</u>  |
| Cyllideb 2022/23                         | <u>295,232,820</u> |

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £295,232,820. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## **7. CYFALAF**

- 7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2022/23. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.
- 7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2022/23 i 2024/25, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £59,074,980 yn 2022/23, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.
- 7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2022/23, mae'r gyllideb yma wedi ei glustnodi ar gyfer y 7 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2ch.

## **8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH**

- 8.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Cyllideb 2022/23 gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Bwriad y Strategaeth yma oedd rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2022/23, ynghyd â Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor Penderfyniad y Cabinet oedd:
- i. Cymeradwywyd y drefn ac amserlen ar gyfer llunio Cyllideb 2022/23.
  - ii. Nodwyd os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, a pwylo cyn adnabod unrhyw arbedion ychwanegol fydd angen yn ystod haf 2022.
  - iii. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad fel Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, tra'n nodi, yn y cyd-destun cyfredol, fod cynllunio ariannol yn hynod heriol.
- 8.2 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2022/23 yn Rhagfyr 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.5% yn 2023/24 ac yna +2.4% yn 2024/25. Wrth gwrs, gall Gwynedd dderbyn llai na chyfartaledd Cymru. Er enghraifft, derbyniwyd +8.8% eleni o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o +9.4%.
- 8.3 Golyga hyn bydd y cynnydd yng ngrant y Llywodraeth ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn sylweddol llai na'r hyn byddwn yn ei dderbyn yn 2022/23. O ystyried cyfraddau chwyddiant, wrth gynllunio ar gyfer y blynyddoedd hyn bydd gosod cyllideb gytbwys yn golygu ail-ymweld â'r cynlluniau arbedion sydd wedi llithro i'r blynyddoedd hynny.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

- 9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7m, ac ar ôl cyfarch effaith Covid-19 ar gyfrifon diwedd blwyddyn 2021/22, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae'r gyllideb yma'n argymhell defnyddio £6,172,960 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu'r bidiau refeniw un-tro sydd wedi eu nodi yn Atodiad 2.
- 9.3 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2022/23', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.
- 9.4 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Bydd hyn yn ysgafnach eleni, gan nad ydym yn cyflwyno unrhyw gynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod y bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol, gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu hargymhell.
- 9.5 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.
- 9.6 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.
-

## **Barn yr aelod lleol**

Dim yn fater lleol

---

### **Barn y swyddogion statudol**

#### **Swyddog Monitro:**

Er mai mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

#### **Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2022/23 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.



## ATODIADAU

- 1 Cyllidebau Arfaethedig
- 2 Crynodeb Bidiau
- 2a Bidiau Refeniw Parhaol
- 2b Bidiau Refeniw Un-tro
- 2c Bidiau Cyfalaf
- 3 Arbedion
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2022/23
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 10 Cadernid yr Amcangyfrifon

ATODIAD 1 - CRYNODEB CYLLIDEB

| CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2022/23 FESUL GWASANAETH |                |              |              |             |              |               |              |                 |              |                |
|-------------------------------------------------|----------------|--------------|--------------|-------------|--------------|---------------|--------------|-----------------|--------------|----------------|
|                                                 | Cyllideb       | Chwyddiant   | Chwyddiant   | Demograffi  | Incwm,       | Trosglwyddiad | Pwysau ar    | Arbedion        | Addasiadau   | Cyllideb       |
|                                                 | Sylfaenol      | Cyflogau     | Arall        |             | Ffioedd a    | Setliad       | Wasanaethau  | Effeithlonrwydd | Amrywiol     | Sylfaenol      |
|                                                 | 2021/22        |              |              |             | Phrisiau     |               |              |                 |              | 2022/23        |
| ADRANNAU                                        | £'000          | £'000        | £'000        | £'000       | £'000        | £'000         | £'000        | £'000           | £'000        | £'000          |
| Addysg Canolog                                  | 17,292         | 396          | 210          |             |              |               | 163          |                 | (198)        | 17,863         |
| Cyllideb Ysgolion                               | 80,572         | 2,993        | 492          | (57)        |              |               |              |                 | 37           | 84,037         |
| Economi a Chymuned                              | 5,250          | 198          | (13)         |             | (279)        |               | 785          | (70)            | 22           | 5,893          |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant                     | 56,607         | 1,260        | 1,663        |             |              | 193           | 1,585        | (100)           | 383          | 61,591         |
| Plant a Chefnogi Theuluoedd                     | 19,341         | 563          | 330          | 30          |              |               | 1,090        |                 | (12)         | 21,342         |
| Prifffyrdd a Bwrdeistrefol                      | 25,663         | 868          | 371          |             | 84           | 118           | 1,072        | (288)           | 35           | 27,923         |
| Amgylchedd                                      | 3,697          | 310          | (16)         |             | (66)         |               | 398          | (13)            | 2            | 4,312          |
| Tai ac Eiddo                                    | 6,677          | 276          | 23           |             | 88           |               | 590          |                 | 239          | 7,893          |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd                          | (134)          | 302          | 14           |             | (150)        |               |              |                 | 3            | 35             |
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol         | 1,958          | 74           | 9            |             | (10)         |               |              |                 | 121          | 2,152          |
| Cefnogaeth Gorfforaethol                        | 7,226          | 299          | 256          |             |              |               | 495          | (100)           | (69)         | 8,107          |
| Cyllid (a T.G.)                                 | 6,616          | 388          | (12)         |             |              |               | 480          | (25)            | 32           | 7,479          |
| CYFANSWM ADRANNAU                               | 230,765        | 7,927        | 3,327        | (27)        | (333)        | 311           | 6,658        | (596)           | 595          | 248,627        |
| Materion Corfforaethol a Chyfalaf               | 47,793         | 548          | 1,145        |             |              |               | 4,064        |                 | (1,468)      | 52,082         |
| CYFANSWM GROS                                   | 278,558        | 8,475        | 4,472        | (27)        | (333)        | 311           | 10,722       | (596)           | (873)        | 300,709        |
| Llai Praesept Cyngorau Cymuned                  | (2,544)        |              |              |             |              |               | -            |                 |              | (2,544)        |
| CYFANSWM GWARIANT GROS                          | 276,014        | 8,475        | 4,472        | (27)        | (333)        | 311           | 10,722       | (596)           | (873)        | 298,165        |
| Balansau a Reserfau Penodol                     | (344)          |              |              |             |              |               | (2,588)      |                 |              | (2,932)        |
| <b>CYFANSWM GWARIANT NET =</b>                  | <b>275,670</b> | <b>8,475</b> | <b>4,472</b> | <b>(27)</b> | <b>(333)</b> | <b>311</b>    | <b>8,134</b> | <b>(596)</b>    | <b>(873)</b> | <b>295,233</b> |
| <b>Ariannwyd Drwy:-</b>                         |                |              |              |             |              |               |              |                 |              |                |
| Grant                                           | 194,794        |              |              |             |              |               |              |                 |              | 213,211        |
| Treth Cyngor                                    | 80,876         |              |              |             |              |               |              |                 |              | 82,022         |
| <b>Cyfanswm Incwm</b>                           | <b>275,670</b> |              |              |             |              |               |              |                 |              | <b>295,233</b> |

|                                         | Teitl y Bid                                                                            | Parhaol (£) | Un tro (£) | Cyfalaf (£) |
|-----------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|-------------|------------|-------------|
| <b>Adran Addysg</b>                     |                                                                                        |             |            |             |
| Bid 1                                   | Cludiant Taccis a Threnau Ysgolion                                                     | 150,000     |            |             |
| Bid 2                                   | Swyddog Addysg Uwchradd                                                                | 89,530      |            |             |
| Bid 3                                   | Tocyn Teithio Ôl-16                                                                    | 218,070     |            |             |
| Un tro 1                                | Swyddog Hybu Cinio am Ddim                                                             |             | 42,920     |             |
| Cyf 1                                   | Cae Cymunedol Caernarfon ar safle Ysgol Syr Hugh Owen.                                 |             |            | 118,000     |
| <b>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</b> |                                                                                        |             |            |             |
| Bid 4                                   | Cynllun Awtisitaeth (ar y cyd gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)                | 48,000      |            |             |
| Bid 5                                   | Cynllun Pan Fyddai'n Barod                                                             | 50,000      |            |             |
| Bid 6                                   | Tâl am Sqiliau i Ofalwyr Maeth                                                         | 65,000      |            |             |
| Bid 7                                   | Tim Nos a Diogelu                                                                      | 16,000      |            |             |
| Bid 8                                   | Gwasanaeth Cefnogol Derwen                                                             | 100,000     |            |             |
| Bid 9 & Un tro 2                        | Tîm Ôl-16 Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol                        | 200,000     | 100,000    |             |
| Bid 10                                  | Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Plant Anabl                                             | 102,500     |            |             |
| Un tro 3                                | Cefnogi Pobl                                                                           |             | 350,000    |             |
| <b>Adran Amgylchedd</b>                 |                                                                                        |             |            |             |
| Bid 17                                  | Adnoddau staffio Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd                                       | 16,860      |            |             |
| Bid 18                                  | Uwch Swyddog Gweithredol                                                               | 55,850      |            |             |
| Un tro 8                                | Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad                                                          |             | 36,500     |             |
| Un tro 9                                | Cefnogi a chyfathrebu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwgaiedia           |             | 114,750    |             |
| Un tro 10                               | Swyddogion Ymgysylltu Gwarchod y Cyhoedd                                               |             | 261,720    |             |
| Un tro 11                               | Cynllun peilot ar gyfer cyflwyno parthau dynodedig i qartrefi modur wersylla dros nos. |             | 100,000    |             |
| Cyf 6                                   | Gwelliannau i groesfan ar Ffordd Llanberis, Caernarfon                                 |             |            | 50,000      |
| <b>Adran Economi a Chymuned</b>         |                                                                                        |             |            |             |
| Bid 19                                  | Amqueddfa Lloyd George                                                                 | 27,000      |            |             |
| Bid 20                                  | Cynnal gwasanaeth i gefnogi busnesau / adfer a datblygu'r economi                      | 139,570     |            |             |

|                                          | <b>Teitl y Bid</b>                                                          | <b>Parhaol (£)</b> | <b>Un tro (£)</b> | <b>Cyfalaf (£)</b> |
|------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------|--------------------|-------------------|--------------------|
| <b>Adran Economi a Chymuned (parhad)</b> |                                                                             |                    |                   |                    |
| Un tro 12                                | Rhaflen Hybu Canol Trefi                                                    |                    | 257,520           |                    |
| Un tro 13                                | Cynllun Eiddo Gwaq                                                          |                    | 111,680           |                    |
| Un tro 14                                | Fframwaith Adfywio Gwynedd                                                  |                    | 240,210           |                    |
| Un tro 15                                | Cynnal a Chadw Canolfannau Hamdden Byw'n Iach                               |                    | 36,000            |                    |
| Cyf 2                                    | Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)                                     |                    |                   | 50,000             |
| Cyf 3                                    | Ail Wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis                                    |                    |                   | 100,000            |
| Cyf 4                                    | Uwchraddio a diogelu Parc Padarn                                            |                    |                   | 50,000             |
| <b>Adran Ymgynghoriaeth</b>              |                                                                             |                    |                   |                    |
| Cyf 7                                    | Hirael – cynllun atal llifogydd a gwellianau cysylltiadau trafnidiaeth wrdd |                    |                   | 75,000             |
| <b>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>   |                                                                             |                    |                   |                    |
| Bid 23                                   | Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn                       | 75,620             |                   |                    |
| Bid 24                                   | Gangiau Ardal                                                               | 507,910            |                   |                    |
| Bid 25                                   | Newid trefniadau Iechyd a Diogelwch - Casglu Gwastraff                      | 342,000            |                   |                    |
| Bid 26                                   | Gwywiad yr Onnen                                                            | 100,000            |                   |                    |
| Bid 27                                   | Tariff Tannwydd Coch                                                        | 65,000             |                   |                    |
| Un tro 16                                | Cylchdaith Ailgylchu Ychwanegol (Ardal Arfon) - Casglu Gwastraff            |                    | 141,190           |                    |
| Un tro 17                                | Swyddog Prosiect Economi Gylchol                                            |                    | 40,040            |                    |
| Un tro 18                                | Swyddog Ymgysylltu a Newid Ymddygiad Ailgylchu                              |                    | 40,040            |                    |
| Cyf 5                                    | Flare ar gyfer delio gyda nwyon safle tirlenwi Ffridd Rasus, Harlech        |                    |                   | 56,900             |
| <b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b> |                                                                             |                    |                   |                    |
| Bid 11                                   | Oed Trosglwyddo Anabledd Dysgu                                              | 223,050            |                   |                    |
| Bid 12                                   | Llety Cefnogol – Maes Anabledd Dysgu                                        | 300,000            |                   |                    |
| Bid 13                                   | Staffio Cartrefi Preswyl Anabledd Dysgu                                     | 160,070            |                   |                    |
| Bid 14                                   | Ffioedd Safonol Preswyl a Nyrsio (Cartrefi Annibynnol)                      | 2,695,000          |                   |                    |
| Bid 15                                   | Cytundebau Staff Achlysurol                                                 | 125,000            |                   |                    |
| Bid 16                                   | Anghenion staffio uned gofal dementia Plas Hedd, Bangor                     | 70,000             |                   |                    |

|                   | Teitl y Bid                                                                     | Parhaol (£) | Un tro (£) | Cyfalaf (£) |
|-------------------|---------------------------------------------------------------------------------|-------------|------------|-------------|
|                   | <b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (parhad)</b>                               |             |            |             |
| Un tro 4          | Cryfhau Timau Adnodd Cymunedol - Gweithwyr Cymdeithasol / Ymarferwyr Gofal      |             | 250,000    |             |
| Un tro 5          | Cydlynnydd Trosoglwyddo                                                         |             | 47,420     |             |
| Un tro 6          | Sicrwydd Ansawdd                                                                |             | 48,930     |             |
|                   | <b>Adran Tai ac Eiddo</b>                                                       |             |            |             |
| Bid 21            | Digartrefedd - costau ychwanegol llety dros dro                                 | 358,560     |            |             |
| Bid 22 & Un tro 7 | Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai                                  | 100,000     | 131,200    |             |
|                   | <b>Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth</b>                                     |             |            |             |
| Bid 28            | Adnewyddu Cytundeb Meddalwedd Microsoft                                         | 332,000     |            |             |
| Un tro 19         | Cynyddu capasiti TG y Cyngor i gefnogi Strategaeth Ddiadidol Ysaolion Gwynedd   |             | 148,000    |             |
|                   | <b>Adran Cefnogaeth Gorfforaethol</b>                                           |             |            |             |
| Un tro 20         | Datblygu Hunaniaith                                                             |             | 203,880    |             |
| Un tro 21         | Prosiect Iechyd a Diogelwch                                                     |             | 40,035     |             |
| Un tro 22         | Llesiant meddyliol gweithlu'r Cyngor                                            |             | 50,000     |             |
| Un tro 23         | Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth                                              |             | 36,445     |             |
| Un tro 24         | Ymgynghorydd Iaith                                                              |             | 94,480     |             |
| Un tro 25         | Addasiadau i swyddfeydd er mwyn cyfarch trefniadau gweithio newydd vn y dyfodol |             | 250,000    |             |
|                   | <b>Cyngor</b>                                                                   |             |            |             |
| Un tro 26         | Cynllun Hinsawdd                                                                |             | 3,000,000  |             |

## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

### BIDIAU REFENIW PARHAOL 2022/23

|               | Teitl y Bid                        | Manylion y Bid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Swm a Argymhellir (£) |
|---------------|------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|
| <b>ADDYSG</b> |                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                       |
| Bid 1         | Cludiant Tacsis a Threnau Ysgolion | <p>Cytundebau diweddaraf ar sail nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2022-23, yn dangos gwariant o £3,044,427 yn erbyn cyllideb o £2,554,360 (yn cynnwys cyfraniad o £100k o'r Grant Gwella Addysg EIG tuag at gostau tacsis Canolfannau Iaith) yn gadael diffyg o £490,067.</p> <p>Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- diffyg o £145k yn bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2021-22. (cyflwynwyd bid am £290,440 a derbyniwyd £145,440 parhaol a £145k un tro),</li> <li>- yn defnyddio arbedion o (£65,980) sydd wedi deillio wrth ail tendro cytundebau Ardal Arfon yn Ebrill 2021.</li> </ul> | 150,000               |
| Bid 2         | Swyddog Addysg Uwchradd            | <p>Cabinet 28 Ebrill 2020 wedi cymeradwyo cyllid am gyfnod o ddwy flynedd i benodi swyddog er mwyn targedu, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd.</p> <p>Cais i ariannu'r swydd yn barhaol, er sicrhau parhad yng nghynhwysedd ychwanegol yr Adran i gefnogi'r sector uwchradd mewn cyfnod o bandemig, yn ogystal â chefnogi'r ysgolion rheiny sydd yn peri pryder, ac angen her a chefnogaeth ychwanegol ar eu taith tuag at hunan-wella.</p>                                                                                                                                                                               | 89,530                |

## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

|                                   |                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |         |
|-----------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Bid 3                             | Tocyn Teithio Ôl-16                                                     | <p>Codir ffi o £300 ar bobl ifanc 16 + oed i deithio i'w sefydliadau addysg boed yn yr ysgol neu goleg. Mae'r ffi'r un fath i bawb dim ots os ydynt yn teithio am 1 diwrnod neu 5 diwrnod. Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod yn rhanbarth y Gogledd sy'n codi ffi.</p> <p>Gwaith ymchwil yn dangos bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar bobl ifanc 16-25 oed o ran eu lles ac o ran cyfraddau NEETs. Roedd y gyfradd NEETs ar ei uchaf y llynedd yn ystod y pandemig (er yn is eleni, heb gyrraedd y lefel cyn y pandemig eto). Credir fod cost y Tocyn Teithio Ôl-16 yn rhwystro i rai pobl ifanc allu manteisio ar addysg bellach.</p> <p>Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl wedi adnabod lesiant yr oedran 16 + fel blaenoriaeth drawsadrannol yn sgil y pandemig, sy'n un o flaenoriaethau'r Adran Addysg yng Nghynllun y Cyngor.</p> <p>Byddai dileu'r ffi yn sicrhau mynediad di-rwystr i addysg bellach. Ac yn sicrhau cysondeb yn y cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd fanteisio ar addysg bellach yn rhad ac am ddim yn yr un modd a'u cyfoedion mewn siroedd eraill.</p> | 218,070 |
| <b>PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD</b> |                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |         |
| Bid 4                             | Cynllun Awtistiaeth (ar y cyd gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | <p>Comisiynwyd mewnbwn arbenigol i ddatblygu cynllun i ymateb i geisiadau am asesiadau a chefnogaeth yn ymwneud ag awtistiaeth yn dilyn adroddiad beirniadol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae cynllun drafft wedi ei ddatblygu, caiff ei gyflwyno i'r Cabinet cyn hir. Hefyd, ym mis Medi 2021 daeth Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth i rym. Datblygwyd y cynllun ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p>Byddai'r bid yn ariannu swydd Cydlynedd Awtistiaeth a 2 swydd Gwaith Cymdeithasol ar gost blyneddol o £144k. Byddai'r Cyngor yn cyfrannu tuag at draean o'r gost.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | 48,000  |
| Bid 5                             | Cynllun Pan Fyddai'n Barod                                              | <p>Ers 2016 mae cynnig trefniant aros yn eu lleoliad maeth i bobl ifanc sy'n troi 18 oed yn ofyniad statudol, ond ni chafwyd arian ychwanegol gan y Llywodraeth i'w weithredu. Ar gyfer 2 flynedd cyntaf y cynllun trosglwyddwyd arian o gyllideb maethu mewnol. Nid yw trosglwyddiad pellach yn bosib er mwyn rheoli'r gyllideb.</p> <p>Mae rhwng 5 a 8 person ifanc sydd mewn lleoliad maeth yn troi 18 yn flynyddol. Nid yw pob un yn dewis aros ymlaen, gyda rhwng 60% a 80% sy'n gymwys yn gwneud hynny. Eleni mae 11 yn rhan o'r cynllun hyd at ddiwedd Medi. Bydd 3 o'r trefniadau yn dod i ben cyn diwedd mis Mawrth 2022, a rhagwelir y bydd 4 cynllun newydd.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | 50,000  |

## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

|       |                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |         |
|-------|-----------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Bid 6 | Tâl am Sgiliau i Ofalwyr Maeth                                  | <p>Telir Lwfans Maethu i ofalwyr maeth ar gyfer pob plentyn yn eu gofal. Nid yw'r gofalwyr maeth fel arall yn derbyn cyflog, ond gellir derbyn ffi fel cydnabyddiaeth am eu rôl yn ddibynnol ar ddatblygiad personol, hyfforddiant a pharodrwydd i gwblhau cymhwyster gofal plant.</p> <p>Mae nifer y gofalwyr maeth yn weddol sefydlog a nod yr awdurdod lleol yw sicrhau nifer digonol o ofalwyr maeth er mwyn ceisio osgoi lleoli gydag asiantaethau preifat.</p> <p>Erbyn hyn, mae mwy o ofalwyr maeth sy'n gymwys am daliad ffi na'r gyllideb sydd ar gael. Cynyddwyd cyllideb talu lwfansau maeth y llynedd, ond nid oedd cynnydd ar gyfer yr elfen talu ffi i ofalwyr maeth.</p>           | 65,000  |
| Bid 7 | Tim Diogelu ac Ansawdd                                          | Yn sgil ymateb i gynnydd yn y galw, addaswyd sefydliad ar gyfer swydd Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn o 0.7 FTE i 1 FTE sydd wedi creu diffyg yn y gyllideb o £16k.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | 16,000  |
| Bid 8 | Gwasanaeth Cefnogol Derwen                                      | <p>Mae'r galw am wasanaeth gan Dîm Cefnogol Derwen wedi cynyddu yn sylweddol a natur anghenion yr achosion yn fwy dwys. Oherwydd natur dwys yr anghenion, gall sefyllfa cartref fod dan straen gan arwain at becynnau argyfwng am gyfnod o amser i leddfu'r sefyllfa. Law yn llaw a hyn, mae nifer pecynnau gofal dwys ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Iechyd i blant gwael hefyd wedi cynyddu, mae rhain yn becynnau cymhleth iawn.</p> <p>Gyda mwy o blant yn cael diagnosis yn fuan yn eu bywydau ni ellir gweld y bydd y galw am wasanaethau yn lleihau.</p>                                                                                                                                       | 100,000 |
| Bid 9 | Tim ôl-16 Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol | <p>Dros y 5 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer achosion sy'n agored i'r timau (cynnydd o 441 i 600), ond ni welwyd cynnydd yn y nifer o Weithwyr Cymdeithasol. Sydd wedi arwain at lwyth gwaith sylweddol uwch i'r Gweithwyr Cymdeithasol.</p> <p>Dros y 12/18 mis diwethaf mae'r gwasanaeth wedi profi heriau cynyddol i gynnal a chadw gweithlu Gwaith Cymdeithasol cymwysedig.</p> <p>O ganlyniad i fethu â recriwtio, penderfynwyd ychwanegu at staff y timau drwy ychwanegu swyddi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol di-gymhwyster, ail-ddisgrifio swyddi'r Uwch Ymarferwyr dros-dro a symud rhai Gweithwyr Cymdeithasol profiadol o rannau eraill o'r Gwasanaeth am gyfnod penodol.</p> | 200,000 |



## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

|                                    |                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |         |
|------------------------------------|--------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Bid 10                             | Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Plant Anabl | <p>Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer teuluoedd sy'n dewis Taliadau Uniongyrchol i drefnu pecynnau gofal eu hunain. Law yn llaw a hynny, mae natur a chymhlethdod anghenion bellach yn fwy dwys sy'n golygu bod angen am becynnau gofal mwy. Rhwng y ddau ffactor yma mae gwariant yr Adran ar Taliadau Uniongyrchol i blant anabl yn debygol o fod oddeutu £238k yn erbyn cyllideb o £81k.</p> <p>Mae cost cyfartalog achos wedi codi o £3,740 yn 2018-19 i £8,810 yn 2021-22. Gyda chost cyfartalog achos pecyn trwm bellach yn £20k.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | 102,500 |
| <b>OEDOLION, IECHYD A LLESIANT</b> |                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |         |
| Bid 11                             | Oed Trosglwyddo Anabledd Dysgu             | Bydd nifer o unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn troi yn 18 oed ac yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2022/23. Mae 9 o'r unigolion yma wedi eu hadnabod yn becynnau gofal lle bydd costau sylweddol ychwanegol. Yn ogystal, mae 2 unigolyn arall wedi troi yn 18 yn ystod 2021/22 lle mae angen bidio am effaith flwyddyn lawn eu pecynnau gofal.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | 223,050 |
| Bid 12                             | Llety Cefnogol – Maes Anabledd Dysgu       | <p>Mae anghenion unigolion mae'r Tîm yn eu cefnogi yn mynd yn fwy cymhleth. A'r niferoedd sydd yn byw mewn tŷ a chefnogaeth yn cynyddu. Mae prinder o lety addas, ond mae prosiect lletya yn gweithio ar gwrdd â'r angen ar draws y Sîr.</p> <p>Mae'r opsiwn o fyw mewn tŷ gyda chefnogaeth yn well opsiwn o ran cyfarch anghenion nifer fawr o unigolion a chael gwerth gorau am arian. Mewn ambell achos, bydd angen llety fwy arbenigol yn y gymuned. Fel rhan o'r bid yma, mae nifer o resymau pam fod yr unigolion dan sylw angen tŷ a chefnogaeth/wedi symud i dŷ a chefnogaeth/llety arbenigol :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>* Newid mewn angen sylweddol (1)</li> <li>* Unigolion yn dychwelyd adref o garchar neu ysbyty arbenigol (3).</li> <li>* Unigolion yn byw gartref gyda'i rhieni/gofalwr, a'r sefyllfa yn fregus iawn, neu wedi torri lawr (2)</li> </ul> | 300,000 |
| Bid 13                             | Staffio Cartrefi Preswyl Anabledd Dysgu    | <p>Mae strwythur staffio Cartrefi Preswyl Anableddau Dysgu Frondeg (Caernarfon) a Tan Y Marian (Pwllheli) wedi bod yn annigonol i gwrdd ag anghenion y preswylwyr wrth i anghenion y preswylwyr newid a dwysau.</p> <p>Er fod staff ychwanegol wedi eu rhoi mewn lle i gynnal y rota, dydi'r strwythur cyllidol heb gael ei ddiweddarau i gyd fynd ar hyd y blynyddoedd, ac felly mae gorwariant ar gyllideb staffio y ddau gartref yn flynyddol.</p> <p>Gyda £35,070 ar gyfer penodi is reolwr preswyl yng nghartref Tan Y Marian.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | 160,070 |

## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Tud. 118

|        |                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |           |
|--------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Bid 14 | Ffioedd Safonol Preswyl a Nyrsio (Cartrefi Annibynnol)                                                    | <p>Mae gwaith ar y gweill i ystyried os yw'r ffioedd safonol ar gyfer comisiynu gofal Preswyl a Nyrsio yn adlewyrchu'r gwir gost o ddarparu gofal.</p> <p>Mae'r gwaith yma ar lefel cenedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Fel rhanbarth gogledd Cymru mae grŵp tasg wedi ei sefydlu, ac un o'r ymarferiadau sydd wedi digwydd yn ddiweddar yw cymharu ein ffioedd safonol cyfredol gyda'r hyn sy'n cael ei awgrymu gan y 'Toolkit Laing &amp; Buisson'. Mae'r gwahaniaeth ariannol fesul y 4 categori gofal sydd gennym yn sylweddol. Mae gwaith o gasglu tystiolaeth a chynnal trafodaethau gyda'r darparwyr lleol hefyd wedi cymryd lle ac angen ei ddatblygu ymhellach dros yr wythnosau nesaf. Byddwn angen cyfle i ystyried yr holl oblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhanddeiliaid eraill cyn dod i gasgliad terfynol ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p> <p>Mae'r swm yn amcan o'r gost ychwanegol fyddai angen arnom fel awdurdod pe byddem yn cynyddu ein ffioedd safonol i'r lefelau sy'n cael eu hawgrymu gan y 'Toolkit' diweddaraf a'r dystiolaeth gan ein darparwyr lleol. Mae'r amcan hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr incwm sy'n cael ei gasglu gan unigolion sy'n gallu cyfrannu / talu am eu gofal.</p> | 2,695,000 |
| Bid 15 | Cytundebau Staff Achlysurol                                                                               | <p>Mae'r staff achlysurol yn gweithio oriau cyson ac am gyfnodau di-dor felly gellir eu gweld yn angenrheidiol i'r gwasanaeth.</p> <p>Dymuniad y gwasanaeth yw cynnig cytundebau oriau amrywiol ond parhaol i'r staff yma.</p> <p>Mae annhegwch i'r cyflogau a delir, er yn cyfrannu'n gyfartal i'r gwasanaeth fel aelod staff parhaol ond eu bod ar y cyflog isaf ac ddim cyfle i godi oherwydd eu statws.</p> <p>Mae angen am 70 aelod staff ychwanegol i'r strwythur cartrefi, ar gyfartaledd 5 i bob cartref a Bryn Blodau yn uwch gan ei fod yn gartref mwy.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | 125,000   |
| Bid 16 | Anghenion staffio uned gofal dementia ychwanegol a gofal mwy dwys yng nghartref preswyl Plas Hedd, Bangor | <p>Datblygwyd un Uned Dementia ym Mhlas Hedd ac erbyn hyn mae buddsoddiad yn cael ei wneud i addasu uned arall o 7 gwely. Mae'r bid hwn ar gyfer staffio yr uned ychwanegol ar gyfer dyblu'r ddarpariaeth gofal dementia yn y cartref.</p> <p>Mae'r uned dementia yn llawn yn gyson ac ers rhai misoedd mae'r rhestr aros ar gyfer gwelyau yr uned wedi bod yn fwy na'r nifer o welyau sydd yn yr Uned. Ar un adeg roedd 12 o unigolion yn aros am y math yma o ddarpariaeth gofal yn yr ardal leol. Dros yr un cyfnod mae hyd at 7 o welyau preswyl arferol wedi bod yn wag ar brydiau a neb wedi bod ar y rhestr aros ar gyfer eu lleoli ynddynt.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | 70,000    |

## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

| AMGYLCHEDD |                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |        |
|------------|--------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|
| Bid 17     | Adnoddau staffio Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd | Nid yw'r 3 gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn y drefn 'haenau rheolaethol' gan nad oes Arweinyddion Tîm i gefnogi'r rheolwyr. Felly, mae gormod o bwysau dydd i ddydd ar y Rheolwyr Gwasanaeth gydag oddeutu 14 swyddogion yn gofyn am arweiniad. Bydd disodli 6 swydd Swyddog GyC gyda 6 swydd Arweinydd Tîm (2 ar gyfer pob gwasanaeth) nid yn unig yn sicrhau bod rheolwyr gyda'r capasiti i reoli ond hefyd sicrhau bod strwythurau'n cael eu sefydlu i gyd-fynd ag egwyddorion haenau rheolaethol.                                                                                                                                                                                                                                                                                        | 16,860 |
| Bid 18     | Uwch Swyddog Gweithredol                         | <p>Mae'r adran gyda rôl allweddol neu'n arwain mewn sawl maes gwaith sydd yn bwysig yn gorfforaethol, megis Tai Haf, cydbwyllgorau, gwasanaeth profi, olrhain a diogelu. Yn ogystal, mae mwy o gyfrifoldeb ar yr adran y dyddiau hyn mewn perthynas â'r gyfundrefn rheoli perfformiad a bydd angen cefnogaeth i weithredu'r drefn a sicrhau bod popeth, gan gynnwys y gofrestr risg, yn cael eu cadw'n gyfredol.</p> <p>Rydym wedi adnabod yr angen am gefnogaeth ychwanegol ar yr Uned Reoli er mwyn medru cwrdd â'r gofynion sydd arnom mewn perthynas â materion adrannol a chorfforaethol.</p> <p>Byddai apwyntio Uwch Swyddog Gweithredol i weithio ar y cyd â'r Pennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn cyfarch y bwlch ac yn sicrhau trosolwg mwy effeithiol o'n gweithrediadau ddydd i ddydd.</p> | 55,850 |

## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Tud. 120

| ECONOMI A CHYMUNED |                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |         |
|--------------------|-------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Bid 19             | Amgueddfa Lloyd George                                            | <p>Dyfodol Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George yn parhau'n ansicr ers i'r gyllideb a dderbynnir gan y Cyngor gael ei thorri o £27k yn sgil 'Her Gwynedd'.</p> <p>Mae materion cyfraith elusennol yn ei gwneud yn anodd iawn trosglwyddo neu gau'r amgueddfa oherwydd yr angen i sicrhau lles gorau'r elusen gan yr Ymddiriedolwyr (sef y Cabinet).</p> <p>Yr opsiwn a ffafrir yw i'r Cyngor barhau i redeg yr amgueddfa, ond i ddatblygu trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng yr elusen a'r Cyngor.</p> <p>Mae Achos Busnes wedi ei ddatblygu i barhau gyda rôl allweddol i'r Cyngor yn rhedeg y safle gyda chyfraniad o £20k y flwyddyn gan y Cyfeillion.</p>                                                             | 27,000  |
| Bid 20             | Cynnal gwasanaeth i gefnogi busnesau / adfer a datblygu'r economi | <p>Byddai'r cais yn sefydlogi a dwysáu ymdrechion yr Adran i gefnogi busnesau lleol a datblygu'r economi drwy:</p> <p>a) Sicrhau cyllid parhaol i ariannu dwy swydd (Rheolwr Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel a Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig) sy'n allweddol i'n hymdrechion i wella'r economi er budd pobl Gwynedd.</p> <p>b) Sefydlogi a chynyddu gallu'r Cyngor i gefnogi busnesau lleol drwy, greu swydd ychwanegol o fewn Tîm Cefnogi Busnesau a chyllido swydd dros dro Cymhorthydd Cyfathrebu o fewn Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata'r Adran yn barhaol.</p>                                                                                                                                                         | 139,570 |
| TAI AC EIDDO       |                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |         |
| Bid 21             | Digartrefedd - costau ychwanegol llety dros dro                   | <p>Mae dros 500 o unigolion yn ddigartref, gyda dros 250 mewn llety dros dro megis llety gwely a brecwast neu westy. Ar gychwyn y pandemig fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiddymu'r gofyn am 'flaenoriaeth angen' ac mae'n bellach yn ofynnol i ni gartrefu pawb gan sicrhau nad oes unigolion yn cysgu ar y stryd. Mae'r gofyn hyn yn debygol o barhau.</p> <p>Rhagwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, derbyniad Grant Caledi gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfarch costau llety dros dro ar gyfer y digartref. Mae risg y bydd y grant yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fe fydd y gyllideb ychwanegol yn ein galluogi i barhau i gwrdd â'n dyletswydd statudol i gartrefu unrhyw un sy'n cyflwyno'n ddigartref.</p> | 358,560 |
| Bid 22             | Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai                    | <p>Creu 4 swydd ychwanegol i'r Uned Atebion Tai er mwyn gallu ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau digartrefedd, a hynny am gyfnod dros dro o ddwy flynedd.</p> <p>Nid yw niferoedd swyddogion y Tîm Atebion Tai wedi newid i gyfarch y gwaith ychwanegol yn sgil cynnydd yn nifer cyfeiriadau, ac felly nid yw'r Uned ar hyn o bryd yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | 100,000 |

## ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

| PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL       |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |           |
|---------------------------------|--------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Bid 23                          | Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn  | Cabinet yn ei gyfarfod ar 27/07/21 eisoes wedi cymeradwyo'r GDMC a'r angen i ariannu 2 Warden Gorfodaeth Stryd (Rheoli Cŵn). Fydd nid yn unig yn canolbwyntio ar GDMC ond hefyd gyda phwyslais cryf ar godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.                                                                                                                                                                                     | 75,620    |
| Bid 24                          | Gangiau Ardal                                          | Fel rhan o waith ymgynghori cychwynnol Ardal Ni 2035, mae sawl sylw wedi ei dderbyn am weld gwellhad yn edrychiad ein strydoedd. Bwriad y cais yw ariannu gangiau ardal a fydd yn ymateb i'r gwaith glanhau, "seidio", chwynnu ac ymateb i waith brys gan ychwanegu gwerth gweledol yn ein hardaloedd/cymuned.                                                                                                                 | 507,910   |
| Bid 25                          | Newid trefniadau lechyd a Diogelwch - Casglu Gwastraff | Newidiadau i drefn gwaith y Gwasanaeth Casglu Gwastraff a gytunwyd drwy gytundeb torfol. Un o amodau'r cytundeb oedd i'r Gwasanaeth ail-arfarnu swyddi o fewn y tîm casglu. Mae'r gwaith hwn bellach wedi ei gyflawni gyda'r angen i ail-arfarnu rhai swyddi.<br><br>Trwy ail-arfarnu'r swyddi hyn, bydd gwell trefn a dealltwriaeth o gyfrifoldebau a dyletswyddau'r tîm, sydd am weld gwelliant yn y gwasanaeth.             | 342,000   |
| Bid 26                          | Clwyf Gwywiad yr Onnen (Ash Dieback)                   | Adran eisoes wedi derbyn bidiau un tro yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn ymateb i'r afiechyd, ond byddai'r arian parhaol yn caniatáu'r Adran i barhau i baratoi rhaglen o dorri a thocio coed a'u hadnabuwyd yn beryglus yn dilyn archwiliadau gan archwilyr arbenigol.                                                                                                                                                        | 100,000   |
| Bid 27                          | Tariff Tanwydd Coch                                    | Yn sgil newid deddfwriaethol, o Ebrill 2022 ni all y Cyngor ddefnyddio tariff tanwydd coch a bydd rhaid defnyddio tanwydd gyda thariff llawn.                                                                                                                                                                                                                                                                                  | 65,000    |
| CYLLID A THECHNOLEG GWYBODAETH  |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |           |
| Bid 28                          | Adnewyddu Cytundeb Meddalwedd Microsoft                | Cytundeb gyda'r darparwr yn dod i ben diwedd Mehefin 2022. Mae'r cytundeb yn cael ei gytuno rhwng Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Microsoft, felly nid oes lle i'r Cyngor ddylanwadu ar y prisiau. Hefyd, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y defnyddwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Cyngor, gyda'r niferoedd yn codi o 2,390 yn 2017/18 i 2,711 erbyn hyn.<br><br>Rhagwelir fydd y cynnydd rhwng £215k a £332k y flwyddyn. | 332,000   |
| CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | 6,732,590 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

### BIDIAU REFENIW REFENIW UN-TRO 2022/23

|                                   | Teitl y Bid                                                                       | Manylion y Bid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Swm a Argymhellir (£) |
|-----------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|
| <b>ADDYSG</b>                     |                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                       |
| Un tro 1                          | Swyddog Hybu Cinio am Ddim                                                        | <p>Ariannu swyddog i annog rhieni i hawlio prydau ysgol am ddim ac i annog mwy o ddisgyblion cymwys i dderbyn y pryd yn yr ysgol. Ym mis Gorffennaf a Medi 2021, 60% o'r disgyblion oedd yn gymwys i ginio am ddim a gymrodd fwyd yn yr ysgol.</p> <p>Cost y swydd fyddai £32,920 gyda £10k tuag at adnoddau hyrwyddo hawlio prydau ysgol am ddim.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | 42,920                |
| <b>PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD</b> |                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                       |
| Un tro 2                          | 3 swydd Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a 4 swydd Gweithwyr Cymdeithasol (Tim ôl 16) | Bid refeniw parhaol am yr un swm hefyd wedi ei gyflwyno gan yr Adran, petai'r cais parhaol yn aflwyddiannus yna gofynnir i'r Cabinet ystyried ariannu'r cais ar sail un tro.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | 100,000               |
| Un tro 3                          | Cefnogi Pobl                                                                      | <p>Grŵp Tasg a Gorffen y Bwrdd Cefnogi Pobl wedi adnabod fod angen buddsoddi i'r isod:</p> <p>Tlodi<br/>Newidiadau i daliadau Credyd Cynhwysol yn effeithio ar 9,600 o gartrefi yng Ngwynedd, gyda dros eu hanner yn deuluoedd gyda phlant. Rhai materion yn cynnwys nad yw'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol yn gallu ymdopi gyda'r galw presennol. Nifer o ddefnyddwyr banciau bwyd yn cynyddu. A phrisiau tanwydd yn cynyddu ac yn cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd incwm isel, a chartrefi ar gyflenwad pre-payment.</p> <p>Bid ar gyfer Cydlynedd Tlodi a dau Swyddog Uchafu Incwm a Chynhwysiad.</p> <p>Model Pen Blaen / Drysau Ffrynt<br/>Cais am Swyddog Cefnogol i sefydlu trefniadau cydweithio ar draws y 4 adran i edrych ar drefniadau gweithio, trefniadau cyfeirio, cytuno ar raglen hyfforddiant "What Matters" ac ati er mwyn cysoni diwylliant ac ymarfer delio gyda chwsmer ar draws y drysau ffrynt.</p> | 350,000               |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

| OEDOLION, IECHYD A LLESIANT |                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |         |
|-----------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Un tro 4                    | Cryfhau Timau Adnodd Cymunedol (TAC) - Gweithwyr Cymdeithasol / Ymarferwyr Gofal | <p>Mae cynnydd wedi bod yn y galw am gefnogaeth TAC ers dechrau'r pandemig sydd wedi rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau a staff.</p> <p>Nid ydym yn gallu cefnogi unigolion yn amserol gyda 130 o unigolion ar restr aros am asesiad, 380 unigolyn yn aros am adolygiad o gynllun gofal a chefnogaeth a 99 unigolyn yn aros am gefnogaeth gofal cartref a nifer fawr o unigolion yn methu dychwelyd adref o'r Ysbyty yn amserol ar yr 20fed Medi 2021.</p> <p>Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. A bydd y gyllideb yn ein galluogi i benodi 5 swydd Gwaith Cymdeithasol, ac yn sicrhau yr arbenigedd angenrheidiol o fewn y gwasanaeth er mwyn cwrdd ag anghenion trigolion Gwynedd.</p> | 250,000 |
| Un tro 5                    | Cydlynnydd Trosglwyddo (cais ar y cyd gyda'r Adran Plant)                        | Swydd ar gyfer gwella'r cydweithio rhwng y ddau adran wrth i blant drosglwyddo i'r Adran Oedolion.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | 47,420  |
| Un tro 6                    | Sicrwydd Ansawdd                                                                 | <p>Mae angen cryfhau'r capasiti o ran cynnal archwiliadau ar ddarparwyr gofal o fewn y Sir. Mae 2.5 Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn yr Adran ar hyn o bryd ac nid oes capasiti ganddynt i archwilio'r holl ddarpariaeth allanol (h.y. gofal preswyl, gofal nyrsio, llety cefnogol, gofal dydd a darparwyr gofal cartref) a hefyd ein holl ddarpariaeth fewnol.</p> <p>Mae'r Adran wedi symud adnodd dros dro o'r Uned Gontractau er mwyn cynyddu capasiti y gwaith archwilio.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | 48,930  |
| TAI AC EIDDO                |                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |         |
| Un tro 7                    | Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai                                   | <p>Creu 4 swydd ychwanegol i'r Uned Atebion Tai er mwyn gallu ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau digartrefedd, a hynny am gyfnod dros dro o ddwy flynedd.</p> <p>Nid yw niferoedd swyddogion y Tîm Atebion Tai wedi newid i gyfarch y gwaith ychwanegol yn sgil cynnydd yn nifer cyfeiriadau, ac felly nid yw'r Uned ar hyn o bryd yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | 131,200 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Tud. 116

| AMGYLCHEDD |                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |         |
|------------|------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Un tro 8   | Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad                                                | <p>Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu sawl rhaglen grant i gefnogi Awdurdodau Lleol i weithredu cynlluniau sy'n eu galluogi i uwchraddio hawliau tramwy, sefydlu llwybrau teithio llesol, annog gwirfoddoli a gwarchod bioamrywiaeth.</p> <p>Yn ogystal mae camau gan y Cyngor i edrych ar ddyfodol twristiaeth yng Ngwynedd, dynodiad Safle Treftadaeth y Byd a pharatoi'r cynllun Newid Hinsawdd yn dangos yr angen i fanteisio ar gyfleoedd ariannu er mwyn uwchraddio a diogelu'n asedau naturiol. Mae'r Adran wedi paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (drafft) fydd yn adnabod blaenoriaethau ac anghenion adnoddau am y blynyddoedd nesaf ym maes mynediad i gefn gwlad.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod yr Adran yn manteisio'n llawn ar y cyfleon gwneir cais am adnodd staff ychwanegol am 3 mlynedd (£36,500 y flwyddyn) er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gweithredu prosiectau ar draws feysydd gwaith y Gwasanaeth.</li> <li>- Cynllunio ymlaen a chael pecyn o brosiectau yn barod.</li> <li>- Cynorthwyo i baratoi ceisiadau a monitro cynnydd.</li> <li>- Gweithredu argymhellion y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (drafft) a chyfrannu i raglenni gwaith traws adrannol.</li> </ul> | 36,500  |
| Un tro 9   | Cefnogi a chyfathrebu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig | <p>Cais i ariannu adnodd ychwanegol o fewn y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i helpu gwaith y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd. £60k o Ebrill 2022 hyd at Ebrill 2025.</p> <p>Hefyd cais i gyfrannu 50% tuag swydd i gefnogi gwaith dydd i ddydd y Gwasanaeth (gwaith lle nad oes angen Cydlynedd i'w wneud). Nodir y bydd angen cytundeb gan Ynys Môn i gyfraniad 50%. £54,750 o Ebrill 2022 hyd at Ebrill 2025.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | 114,750 |



## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

|           |                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |         |
|-----------|----------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Un tro 10 | Swyddogion Ymgysylltu Gwarchod y Cyhoedd (GyC)                                         | <p>Drwy fanteisio ar arian Grant y Gronfa Galedi a chefnogaeth y Cabinet, drwy arian bid, mae'r Adran wedi penodi 3 Swyddog Ymgysylltu GyC am gyfnod dros dro hyd at Ebrill 2022.</p> <p>Mae'r swyddi hyn nid yn unig wedi gwella gwydnwch y gwasanaethau GyC ond hefyd wedi ymateb i'r gofyn am orfodaeth fwy llym a phresenoldeb gweladwy yn ein trefi a phentrefi; wedi ymateb ac archwilio i achosion positif o'r haint Cofid; a chynghori busnesau, adrannau eraill y Cyngor, Prifysgol Bangor a'r Colegau.</p> <p>Bydd y gwariant yn sicrhau ein bod nid yn unig yn parhau i wella gwydnwch y gwasanaethau GyC, hwyluso'r gwaith allan yn y maes ond hefyd yn ein galluogi i roi rhaglen hyfforddi ar waith er mwyn datblygu swyddogion cymwys i'r dyfodol. Cais i ariannu swyddogion am gyfnod 3 mlynedd (£87,240 y flwyddyn).</p>                                                                                                                                                                                                                                     | 261,720 |
| Un tro 11 | Cynllun peilot ar gyfer cyflwyno parthau dynodedig i gartrefi modur wersylla dros nos. | <p>Cynhaliwyd gwaith ymchwil ar y cyd gyda'r Adran Economi a Chymuned gyda'r nod o ddarganfod mwy am dueddiadau perchnogion cartrefi modur ac adnabod ffyrdd o gael gwell rheolaeth o'r modurwyr sydd ddim yn gwneud trefniadau o flaen llaw i wersylla dros nos mewn safleoedd carafanau pwrpasol. Derbyniwyd dros 8,800 ymateb i'r holiaduron.</p> <p>Yn deillio o'r gwaith ymchwil, amlygwyd fod mwyafrif o drigolion lleol yn datgan mai treialu syniadau newydd e.e. cyfres o 'aires' mewn safleoedd mwy trefol gan ddefnyddio meysydd parcio cyfredol y Cyngor neu fusnesau preifat fyddai datrysiad mwyaf addas. Amlygwyd hefyd y byddent yn fodlon i'r Cyngor dreialu defnydd o feysydd parcio mewn lleoliadau mwy trefol a chaniatáu parcio dros nos am gyfnod penodol e.e. 48 awr.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar y 9 Tachwedd 2021, yn gofyn am gymeradwyaeth i dreialu'r defnydd o hyd at 6 safle parcio'r Cyngor (neu rhan o'r safle) ar gyfer cyfleuster i gartrefi modur aros dros nos. Mi fydd angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer gweithredu.</p> | 100,000 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Tud. 118

| ECONOMI A CHYMUNED |                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |         |
|--------------------|----------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Un tro 12          | Rhaglen Hybu Canol Trefi   | <p>Ariannu Rheolwr Prosiect a Hyfforddai Proffesiynol am 3 mlynedd, er mwyn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>-Datblygu a gweithredu prosiectau gwella a hybu canol trefi (yn cynnwys Cynllun Adfywio Dinas Bangor)</li> <li>-Cefnogi ymdrechion trawsadrannol i ddatblygu blaenoriaeth yn deillio o'r Fframwaith Adfywio a'r 13 cynlluniau lleol cysylltiedig</li> <li>-Targedu grantiau allanol ar gyfer prosiectau unigol</li> </ul> <p>Gyda'r gwaith yn disgyn o fewn Blaenoriaeth Gwella 1 Cynllun y Cyngor.</p>                                                                                                                                                                                                            | 257,520 |
| Un tro 13          | Cynllun Eiddo Gwag         | <p>Ariannu Rheolwr Prosiect am 2 flynedd, er mwyn gweithredu ar y Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag, sydd gydag amcanion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>-Gryfhau arferion presennol a mabwysiadu dull gweithredu gorfforaethol integredig</li> <li>-Integreiddio a chefnogi ymdrechion ehangach adfywio a hyrwyddo canol trefi</li> <li>-Adnabod a datblygu dulliau gweithredu a datrysiadau ar sail y gymuned i helpu ymdrin ag eiddo gwag.</li> </ul> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys gweithgareddau sydd uwchlaw rhaglenni gwaith a chapasiti presennol yr Adrannau. Gyda'r gwaith yn disgyn o fewn Blaenoriaeth Gwella 1 Cynllun y Cyngor.</p>                                                                                                           | 111,680 |
| Un tro 14          | Fframwaith Adfywio Gwynedd | <p>Mae'r Fframwaith Adfywio newydd wedi adnabod 13 ardal leol gyda'r bwriad o ddatblygu cynlluniau adfywio lleol ar eu cyfer. Yn sgil hyn, mae angen cynyddu capasiti o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau ar gyfer cydlynu'r gwaith, ac i gefnogi'r cymunedau lleol. Mae hefyd cyfle i sefydlu swyddogion cyswllt o fewn y cymunedau i hwyluso cysylltiadau trawsadrannol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn cynnwys rheolwr a 3 swyddog cefnogi cymunedau (gyda threfniadau am swyddog dros dro yn dod i ben mis Mawrth 2022).</p> <p>Bydd y gwariant ychwanegol yn galluogi'r Gwasanaeth i benodi 2 Swyddog Cefnogi Cymunedau ychwanegol. Bwriad yw treialu pob aelod o'r tîm i ganolbwyntio ar 2 ardal yr un (gydag un swyddog yn canolbwyntio ar 3 ardal).</p> | 240,210 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

|                                 |                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |         |
|---------------------------------|------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Un tro 15                       | Cynnal a Chadw Canolfannau Hamdden Byw'n lach                    | <p>Digolledu Cwmni Byw'n lach am golled incwm yn sgil yr angen i gau pwll nofio Caernarfon am gyfnod o 8 wythnos er mwyn cynnal gwaith cynnal a chadw. Bwriedir cau'r pyllau nofio dros gyfnod yr haf 2022 er mwyn lleihau'r effaith ar wersi nofio a cholled incwm.</p> <p>Yn sgil y gwaith i ddatblygu cae synthetig maint llawn newydd yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ystod 2022/23 ac ail-wynebu cae synthetig Llanrug. Mi fydd angen digolledu'r Cwmni am golled incwm yn sgil na fydd y caeau ar gael am gyfnod o 6 mis - cost o £4k.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | 36,000  |
| <b>PRIFYRDD A BWRDEISTREFOL</b> |                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |         |
| Un tro 16                       | Cylchdaith Ailgylchu Ychwanegol (Ardal Arfon) - Casglu Gwastraff | <p>Yn sgil pandemig Covid gwelwyd cynnydd mewn lefelau ailgylchu yn y tair ardal, gyda'r cynnydd mwyaf yn ardal Arfon o 15% i'w gymharu â gwaelodlin 2019/20. Nid yw'n gwbl glir beth sydd wedi gyrru'r newid hwn, ond mae'r cynnydd mewn deunyddiau yn golygu nad yw'r gwasanaeth yn gallu ymdopi gyda'r gwaith efo'r un lefel o gerbydau / criw. Mae costau'r gylchdaith ychwanegol wedi cael ei adhawlio o Grant Caledi Llywodraeth Cymru eleni a'r llynedd.</p> <p>Mae'r cynnydd yn y tunelledd ailgylchu yn ardal Arfon yn golygu fod gennym gerbyd a chriw ychwanegol allan bob diwrnod er mwyn ymdopi gyda'r gwaith. Bydd sicrwydd o arian 'Un tro' yn ein pontio am y flwyddyn ariannol nesaf tra byddwn yn dilyn dau ddarn o waith mawr yn y gwasanaeth sef Adolygiad Ffordd Gwynedd ac Adolygiad WRAP ar y cylchdeithiau cyfredol. Cais i ariannu criw ychwanegol am £83,190 (3 x FTE) a fflyd £58k.</p> | 141,190 |
| Un tro 17                       | Swyddog Prosiect Economi Gylchol                                 | <p>Ariannu swyddog a fyddai'n gyfrifol am lunio bidiau yn sgil anhawster i gyflwyno bidiau o fewn yr amserlen a osodir gan y Llywodraeth yn ogystal ag arwain prosiectau economi gylchol yr adran.</p> <p>Enghraifft o gynllun yw darparwyd 11 hwb bwyd gydag offer megis oergelloedd a rhewgelloedd. O ganlyniad i'r prosiect hwn darparwyd bwyd i ystod eang o bobl o fewn eu cymunedau gan hefyd leihau gwastraff bwyd gan archfarchnadoedd.</p> <p><i>Swm y cais yn ddibynnol ar arfarniad swydd.</i></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | 40,040  |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

|                                       |                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |         |
|---------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Un tro 18                             | Swyddog Ymgysylltu a Newid Ymddygiad Ailgylchu                                                                                                   | <p>Ariannu swyddog fel prif bwynt cyswllt rhwng yr adran a'r cyhoedd. Byddai'r swydd yn cryfhau ein ffrydiau cyfathrebu, ac yn ein galluogi i rannu llwyddiannau'r adran drwy ddefnyddio dulliau creadigol cyfathrebu ac ymgysylltu mwyaf addas a diweddar.</p> <p>Ar adegau rydym yn methu cyfleoedd i fod yn rhagweithiol drwy godi ymwybyddiaeth, dathlu llwyddiant ac ymateb i ymholiadau'r adran. Hefyd, mae gan yr Adran gynllun 'Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu' a byddai'r swydd yn sicrhau cyflawni amcanion y cynllun.</p> <p><i>Swm y cais yn ddibynnol ar arfarniad swydd.</i></p>                                     | 40,040  |
| <b>CYLLID A THECHNOLEG GWYBODAETH</b> |                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |         |
| Un tro 19                             | Cynyddu capasiti TG y Cyngor i gefnogi Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd                                                                     | Angen i gynyddu capasiti TG mewnol y Cyngor i ddarparu cefnogaeth i'r ysgolion (yn sgil gweithredu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd). Adroddwyd i'r Cabinet 9fed o Dachwedd 2021.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | 148,000 |
| <b>CEFNOGAETH GORFFORAETHOL</b>       |                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |         |
| Un tro 20                             | Datblygu Hunaniaith<br>(Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol/Prosiect 15) | <p>Mae wedi dod i'r amlwg nad yw'n amserol i Hunaniaith symud i fod yn endid annibynnol ar hyn o bryd oherwydd prinder grantiau a chostau uchel. Gwelwyd hefyd yr angen am brif swyddog llawn amser i arwain ar y gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Byddai'r gwariant ychwanegol hefyd o gymorth i Hunaniaith roi mwy o sylw i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg i drigolion Gwynedd yn y maes digidol.</p> <p>Cais i ariannu:<br/>Prif Swyddog Hunaniaith (PS3) £53,060 x 4bl<br/>Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith (S2) £36,490 x 2bl<br/>Arian prosiect digidol/Prosiect 15, £10k ar gyfer blwyddyn 1 a £10k pellach ar gyfer blwyddyn 2.</p> | 203,880 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

|           |                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |        |
|-----------|--------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|
| Un tro 21 | Prosiect Iechyd a Diogelwch          | <p>Prosiect ar reolaeth iechyd a diogelwch effeithiol wedi ei adnabod yng Nghynllun y Cyngor 2022/23 fel blaenoriaeth gorfforaethol. Ceir adolygiad llawn o bob elfen o reolaeth iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Ond yn sgil y gwaith ychwanegol mae'r Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn parhau i wynebu yn sgil pandemig Covid, mae risg nad oes capasiti digonol o fewn y tîm i yrru y prosiect yn ei flaen.</p> <p>Cais i gyflogi Swyddog Prosiect (S3), dros dro er sicrhau adnodd dynodedig i yrru y prosiect yn ei flaen</p>                                                                                                                                                                                                                                       | 40,035 |
| Un tro 22 | Llesiant meddyliol gweithlu'r Cyngor | <p>Mae straen yn parhau i fod y prif achos absenoldebau yn y gwaith o fewn y gweithlu. Mae cyfnod y pandemig wedi dod a straen ychwanegol ar sawl carfan o'r gweithlu am lu o wahanol resymau, boed yn staff gofal, staff addysg neu staff swyddfa sydd wedi bod yn gweithio o adref ers 18 mis. Mae angen gwella'r hyfforddiant sydd ar gael i bob rheolwr ar sut i reoli straen y gweithlu.</p> <p>Mae hyn wedi bod ar raglen waith yr Uned Iechyd Galwedigaethol ers tro ond oherwydd y gwaith ychwanegol sylweddol yn sgil COVID a fod cyfeiriadau i'r Uned yn gyffredinol ar gynnydd, nid oes capasiti i wneud hynny ar hyn o bryd heb adnodd ychwanegol.</p> <p>Cais i ariannu swyddog (PS1) am dri diwrnod yr wythnos yn 2022/23 ynghyd â chostau hyfforddi cysylltiedig.</p> | 50,000 |
| Un tro 23 | Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth   | <p>Cais am arian i gyllido swydd Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth am ddwy flynedd ar raddfa S2 er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn dygymod gyda'r gofynion newydd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</p> <p>Mae galw am wasanaeth y swyddogion Democratiaeth wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf wrth gynnal cyfarfodydd rhithiol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | 36,445 |

## ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Tud. 122

|                                       |                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                  |
|---------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|
| Un tro 24                             | Ymgynghorydd Iaith                                                              | <p>Cais i ariannu swydd Ymgynghorydd Iaith am gyfnod o 2 flynedd ar raddfa PS1 er mwyn galluogi'r tîm i roi sylw teilwng i asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg</p> <p>Mae galw am wasanaeth ac arbenigedd cynllunio ieithyddol yr uned iaith wedi cynyddu ac yn debygol o gynyddu yn y misoedd nesaf (yn sgîl llwyddiant enwebiad Safle Treftadaeth Byd, adolygu Cynllun Datblygu Lleol, cynnal asesiadau cydraddoldeb) ond nid oes digon o gapasiti yn y tîm presennol i ymdopi gyda'r gwaith.</p> <p>Ar hyn o bryd allwn ni ddim rhoi sylwadau ar yr asesiadau/ datganiadau iaith a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio o fewn y cyfnod ymgynghori swyddogol o 20 diwrnod oherwydd gofynion eraill.</p> | 94,480           |
| Un tro 25                             | Addasiadau i swyddfeydd er mwyn cyfarch trefniadau gweithio newydd yn y dyfodol | Bydd trefniadau gweithio hybrid i'r dyfodol yn golygu y bydd defnydd staff o swyddfeydd yn newid. Tydi dyluniad y swyddfeydd ar hyn o bryd ddim yn addas ar gyfer galluogi'r trefniadau gweithio hybrid. Bydd angen addasiadau i'r adeilad e.e. creu gofod hot desks, mwy o ystafelloedd cyfarfod, gofod storio offer. Bydd angen buddsoddi mewn moderneiddio'r swyddfeydd e.e. offer TG ac ystafelloedd cyfarfod gyda'r dechnoleg i gynnal cyfarfodydd rhithiol.                                                                                                                                                                                                                                           | 250,000          |
| <b>CYNGOR</b>                         |                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                  |
| Un tro 26                             | Cynllun Hinsawdd                                                                | Cais ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd ar gyfer cynlluniau yn ymwneud a'r hinsawdd e.e. Adnewyddu loriau bin i fod yn rhai trydan, cynlluniau bioamrywiaeth, gwelliannau i adeiladau ayb.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | 3,000,000        |
| <b>CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO</b> |                                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | <b>6,172,960</b> |

## ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

### BIDIAU CYFALAF 2022/23 - I'W ARIANNU O'R GYLLIDEB O FEWN Y CYNLLUN RHEOLI ASED AU

|                           | Teitl y Bid                                            | Manylion y Bid                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Swm a Argymhellir (£) |
|---------------------------|--------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|
| <b>ADDYSG</b>             |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                       |
| Cyf 1                     | Cae Cymunedol Caernarfon ar safle Ysgol Syr Hugh Owen. | <p>Nod y prosiect yw adeiladu cau synthetig 3G maint llawn yng Nghaernarfon. Bydd y cae oddeutu 100m x 64m gydag wyneb 3G synthetig modern, caiff ei amgylchynu gyda ffens a bydd llifoleuadau ynghyd a darpariaeth acoustig a thurlunio. Cae ar gyfer pêl-droed a hoci yn bennaf er bydd yn bosib cynnal ymarferion rygbi a chwaraeon eraill fel athletau arno.</p> <p>Byw'n lach fydd yn rheoli'r cae, gydag ysgolion y dalgylch yn ei ddefnyddio'n ddi-dâl yn ystod y dydd, a chlybiau a'r gymuned yn ei ddefnyddio gweddill yr amser.</p> <p>Mae sawl corff wedi adnabod yr angen am gae newydd ac wedi ymrwymo cefnogaeth ariannol i'r prosiect.</p> <p>Clustnodwyd £885k drwy'r Rhaglen Ariannu Cyfalaf 2019-22 ar gyfer gwella cyflwr y caeau synthetig sydd yn y sir. Mae oddeutu £80k o'r swm wedi ei glustnodi ar gyfer gwella cyflwr y cae presennol. Bwriedir defnyddi'r swm yma tuag at y cynllun.</p> <p>Byddai cymeradwyo'r bid yn caniatâu cwblhau prosiect gwerth £900k.</p> | 118,000               |
| <b>ECONOMI A CHYMUNED</b> |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                       |
| Cyf 2                     | Cronfa Datblygu Gwirfoddol (Cist Gwynedd)              | Mae CIST Gwynedd yn darparu grantiau refeniw a chyfalaf i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Yn 2021/22 cefnogwyd 7 prosiect gyda'r arian wedi ei gymeradwyo yn gyfan gwbl.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | 50,000                |
| Cyf 3                     | Ail Wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis               | <p>Ni ellir codi ffi am y maes parcio nes bod gorfodaeth parcio mewn lle, pan fydd y gorfodaeth mewn lle mi fydd angen gwella safon y maes parcio. Felly mae angen ail wynebu'r maes parcio.</p> <p>Trafferth arall yw nad oes baeau parcio wedi eu marcio, gyda cerbydau yn parcio'n flêr a bod yr ardaloedd parcio ddim yn dal gymaint o geir ac y gall. Mi fydd angen sicrhau fod y baeau wedi eu marcio pan fydd y gorfodaeth parcio mewn lle.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | 100,000               |

## ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

Tud. 124

|                                  |                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |        |
|----------------------------------|-------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------|
| Cyf 4                            | Uwchraddio a diogelu Parc Padarn                                  | <p>Goleuadau Maes Parcio Gilfach Ddu<br/>Diffyg goleuadau yn y safle yn bryder. Fe fyddai gosod goleuadau nid yn unig yn gwella diogelwch y safle ond hefyd yn cynnig yr opsiwn i gartrefi modur gwneud defnydd o'r safle yn y dyfodol gan gynhyrchu incwm ychwanegol i'r parc.</p> <p>Pontydd Ger Y Llyn – Parc Padarn<br/>Rhwyng maes parcio Ger Y Llyn a'r maes chwarae mae dwy bont bren sy'n croesi Afon Goch. Mae'r ddwy bont erbyn hyn yn dirywio ac mi fydd angen eu newid. Os bydd y pontydd yn cael eu dymchwel yna fe fydd rhaid i'r cerddwyr gerdded wrth ochr y lôn fawr i fynd am neu o'r maes parcio Ger Y Llyn.</p> <p>Diogelwch Dŵr<br/>Dwy elfen i'r gwaith, y cyntaf yw diogelwch defnyddwyr. Ariannu dylunydd i greu arwydd gyda map o'r llyn yn nodi'r ardaloedd diogel i nofwyr, ardal i offer a phrynu offer achub newydd ar gyfer y llyn. Yr ail elfen yw diogelwch natur. Cais i osod lleoliad golchi yn ardal y Glyn (lleoliad golchi eisoes yn Gilfach Ddu).</p> <p>Teithio Gwyrdd<br/>Cais i ariannu gosod racs beics o amgylch y parc er mwyn annog pobl leol ac ymwelwyr i wneud defnydd o'r lon las pan yn teithio i Lanberis. A hefyd gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn Gilfach Ddu.</p> <p>Mesurau Gwrth-fandaliaeth<br/>Gosod byrddau picnic a meinciau gwrth fandaliaeth.</p> | 50,000 |
| <b>PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL</b> |                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |        |
| Cyf 5                            | Fflêr ar gyfer delio a nwyon safle tirlenwi Ffridd Rasus, Harlech | Contractiwyd rheolaeth nwy tirlenwi ar y safle hwn am y 5 mlynedd diwethaf, mae'r contractwyr wedi gadael y safle yn ddiweddar, gan ei wneud yn ofynnol i'r rheolaeth nwy gael ei reoli'n fewnol unwaith eto gan y Cyngor. Mae cyfaint a safon y nwy wedi lleihau i lefel ble mai dim ond fflêr llosgi calorïg isel sydd a'r gallu rheoli'r nwy sy'n weddill yn ddigonol. Mae'n ofyniad trwydded statudol sy'n gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i reoli'r nwy cyhyd â'i gynhyrchiad.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | 56,900 |



## ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

| AMGYLCHEDD              |                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |         |
|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| Cyf 6                   | Gwelliannau i groesfan ar Ffordd Llanberis, Caernarfon                        | <p>Uwchraddio'r groesfan sydd wedi lleoli ar waelod y gyffordd sydd yn arwain i Stad Ysgubor Goch, Ffordd Llanberis. Mae'r safle croesi gyda phaent coch ar y briffordd yn bresennol ond nid yw safle croesi o'r math hwn yn rhoi gofyn statudol ar gerbydau i stopio.</p> <p>Mae Ffordd Llanberis yn hynod o brysur ac er gwaethaf ymdrechion yr Adran ni lwyddwyd i benodi swyddog i groesi plant ysgol. Hefyd, mae'r Adran wedi ceisio denu arian ar gyfer uwchraddio'r groesfan ond nid oedd y cais yn llwyddiannus.</p> <p>Derbyniwyd nifer o adroddiadau o sawl methiant agos yn y lleoliad, ble mae croeswyr wedi cael a chael i osgoi anafiadau difrifol. Ym mis Medi 2021 cafodd ddisgybl Ysgol Syr Hugh Owen ei daro gan gar yn agos i'r man croesi ac roedd rhaid i'r hofrennydd ambiwlans ymdrin â'r ddamwain oherwydd sefyllfa draffig yr ardal.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | 50,000  |
| YMGYNGHORIAETH          |                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |         |
| Cyf 7                   | Hirael – cynllun atal llifogydd a gwelliannau cysylltiadau trafnidiaeth wyrdd | <p>Disgwylir y bydd gwaith ar y cynllun atal llifogydd yn dechrau yn Ebrill 2022. Er mwyn sicrhau buddion ychwanegol fydd yn hwb i adfywio dinas Bangor, mae'r prosiect am weld gwelliannau i drafnidiaeth wyrdd (llwybr arfordirol a lôn beics genedlaethol) ar hyd llwybr yr amddiffynfa newydd fyddai'n hybu cysylltiadau rhwng canol y ddinas, Lôn Las Ogwen a'r pier.</p> <p>Mae'r cynllun atal llifogydd Hirael wedi cyllido gyda grant 85% gan Lywodraeth Cymru. Bydd y swm ychwanegol gofynnir amdano hefyd yn denu grant 85% gan roi £500k ar gyfer buddion ychwanegol, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Codi lefel y promenâd arfordirol i alluogi cerddwyr i weld dros y wal lifogydd newydd</li> <li>- Gwelliannau i'r promenâd gan gynnwys gosod meinciau ac arwyddion</li> <li>- Gwelliannau i'r llwybr arfordir a'r llwybr beicio cenedlaethol. Fydd yn gwella cysylltiadau teithio o Lôn Las Ogwen (Porth Penrhyn) i ganol Bangor ac i'r pier</li> <li>- Offer hamdden 'gym awyr-agored' ar faes chwarae Brenin Sior</li> <li>- Edrych ar opsiynau i osod unedau manwerthu ger y maes chwarae</li> <li>- Gwelliannau ategol (tu allan i'r prosiect atal llifogydd) drwy wella y llwybr beicio drwy Borth Penrhyn i gyfeiriad Hirael (adroddiad dichonoldeb newydd ei gwblhau).</li> </ul> | 75,000  |
| CYFANSWM BIDIAU CYFALAF |                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | 499,900 |

## ATODIAD 3

### ARBEDION

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.
2. Mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
3. Oherwydd hynny, tra byddai yna gyfleoedd cyfyngedig i geisio darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd, roeddem bellach wedi cyrraedd sefyllfa lle y byddai unrhyw angen am arbedion o sylwedd yn debygol o olygu toriadau i wasanaethau.
4. Mae'r setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol drafft ar gyfer 2022 i 2023 yn rhoi cynnydd arwyddocaol yng ngrant Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ni nag mewn blynyddoedd blaenorol i adolygu'r rhaglen arbedion.
5. Cyflwynwyd adroddiad Trosolwg Arbedion i gyfarfod Cabinet ar 18 Ionawr 2022. Penderfynodd y Cabinet dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol. Nodwyd hefyd bod effaith Covid-19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

#### [Adroddiad](#)

#### [Atodiad 1, Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 i 2020/21 fesul Adran](#)

#### [Atodiad 2, Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22](#)

#### [Atodiad 3, Cynlluniau Arbedion 2022/23](#)

6. Roedd gwerth £2,375,000 o arbedion wedi eu cynllunio i'w gwireddu yn 2022/23, a hynny'n gyfuniad o arbedion oedd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol a chynlluniau newydd. Ar ôl ystyried y sefyllfa, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn o ran y cynlluniau hynny:
  - cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
    - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
    - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
  - symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi effaith y penderfyniad:

|                    | Gwreiddiol<br>£ | Gohirio i 2023/24<br>neu hwyrach<br>£ | Dileu<br>£ | Rhaglen<br>Ddiwygiedig<br>£ |
|--------------------|-----------------|---------------------------------------|------------|-----------------------------|
| Cynlluniau 2022/23 | 2,375,000       | 1,290,250                             | 489,750    | <b>595,000</b>              |

7. Canlyniad hyn yw fod gwerth £595,000 o gynlluniau arbedion yn weddill i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn **2022/23**. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ac fe'i rhestrir isod **er gwybodaeth**.

| Arbediad                                                                                                                             | Swm £          |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|
| <b>ADRAN AMGYLCHEDD</b>                                                                                                              |                |
| Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio                                                                              | 12,500         |
| <b>ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL</b>                                                                                                |                |
| Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr                                                                                                   | 100,000        |
| <b>ADRAN CYLLID (a T.G.)</b>                                                                                                         |                |
| Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol                                                                                  | 25,000         |
| <b>ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT</b>                                                                                             |                |
| Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)                             | 100,000        |
| <b>ADRAN ECONOMI A CHYMUNED</b>                                                                                                      |                |
| Buddsoddi mewn gwelliannu fyddai yn gwneud Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol           | 70,000         |
| <b>ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL</b>                                                                                               |                |
| Rhesymoli gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir                                                                                           | 32,500         |
| Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'                                                   | 105,000        |
| Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid diwrnod casglu i drigolion) | 150,000        |
| <b>CYFANSWM ARBEDION 2022/23</b>                                                                                                     | <b>595,000</b> |

8. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi nodi y bydd y cynnydd yn y setliad yn llawer llai ar gyfer 2023/24 a 2024/25 felly disgwylir y bydd angen paratoi i weithredu'r cynlluniau hynny sydd wedi cael eu llithro eleni.

## ATODIAD 4

### CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| RHAGLEN GYFALAF                                               |                  |                  |                  |
|---------------------------------------------------------------|------------------|------------------|------------------|
|                                                               | 2022/23<br>£'000 | 2023/24<br>£'000 | 2024/25<br>£'000 |
| <b>Cynlluniau Asedau'r Cyngor :</b>                           |                  |                  |                  |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif                                 | 3,861            | 3,854            | 2,901            |
| Cynlluniau Tai                                                | 4,435            | 1,300            | 1,300            |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes                                  | 1,750            | 0                | 0                |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion                                | 1,611            | 625              | 0                |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol                               | 1,193            | 1,640            | 2,271            |
| Atal Llifogydd Arfordirol                                     | 1,995            | 0                | 0                |
| Cynlluniau Eraill                                             | 3,831            | 1,628            | 1,241            |
| Bidiau Cyfalaf                                                | 500              | 500              | 500              |
| <b>Cynlluniau Eraill :</b>                                    |                  |                  |                  |
| Adnoddau Grant Cyfalaf Cyffredinol<br>Ychwanegol i'w ddyrannu | 270              | 1,646            | 1,646            |
| Dadgarboneiddio                                               | 0                | 917              | 917              |
| Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm<br>Treth y Cyngor            | 0                | 0                | 2,549            |
| Strategaeth Dai - Prynu i Osod                                | 0                | 0                | 2,880            |
| Cynlluniau Eraill Eisoed wedi eu<br>Cymeradwyo :              |                  |                  |                  |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai                                    | 11,617           | 5,430            | 0                |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif (LIC)                           | 11,026           | 455              | 0                |
| Atal Llifogydd Arfordirol                                     | 4,993            | 0                | 0                |
| Cerbydau Adrannol                                             | 4,017            | 947              | 0                |
| Unedau Diwydiannol                                            | 2,925            | 0                | 0                |
| Cynlluniau Eiddo                                              | 1,331            | 0                | 0                |
| Eraill                                                        | 3,720            | 300              | 0                |
| <b>CYFANSWM Y RHAGLEN</b>                                     | <b>59,075</b>    | <b>19,242</b>    | <b>16,205</b>    |

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| <b>ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF</b>  |                |                |                |
|-----------------------------------|----------------|----------------|----------------|
|                                   | <b>2022/23</b> | <b>2023/24</b> | <b>2024/25</b> |
|                                   | <b>£'000</b>   | <b>£'000</b>   | <b>£'000</b>   |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth         | 4,073          | 4,073          | 4,073          |
| Benthyca Arall                    | 3,791          | 3,289          | 2,880          |
| Grantiau a Chyfraniadau           | 18,722         | 5,347          | 5,100          |
| Derbyniadau Cyfalaf               | 750            | 0              | 0              |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 34             | 0              | 0              |
| Cronfa Cyfalaf                    | 9,345          | 204            | 0              |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill     | 22,360         | 6,329          | 4,152          |
| <b>CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN</b> | <b>59,075</b>  | <b>19,242</b>  | <b>16,205</b>  |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2022/23 i 2024/25, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2022/23 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £59,074,980 ar gyfer 2022/23, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

### YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2022/23

1. **Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 7 Chwefror 2022 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2022/23, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.
2. **Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.3m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl athrawon, a cynnydd cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwr o 1.25%. Bydd hyn yn cyfarch cost cynnydd o 1.75% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2021, ac hefyd cost cynnydd o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2022 (am y 7 mis Medi 2022 – Mawrth 2023). Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.
3. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £168k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23 oherwydd incrementau net o drosiant staff. Bydd **£162k** o'r ychwanegiad yma'n mynd i gyllidebau ysgolion.
4. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2021 i gyfrifo dyraniadau 2022/23. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau **£57k**, sy'n cynnwys lleihad -£429k i'r sector Gynradd a chynnydd +£372k i'r sector Uwchradd. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau cymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.
5. **Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2022/23 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£457.6k**, er mwyn ariannu cost uwch cludiant tacsis a threnau i ddisgyblion (£150k), Swyddog Addysg Uwchradd (£89.5k) a dileu costau'r Tocyn Teithio Ôl-16 (£218.1k). Yn ychwanegol i hynny, argymhellir ariannu swyddog hybu Cinio am Ddim gydag arian un-tro (£43k).
6. **Dim Arbedion Newydd:** Unwaith eto eleni, wrth ddatblygu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi gofyn i ysgolion Gwynedd am arbedion newydd ychwanegol. Ers i'r Cyngor, ar 5 Mawrth 2015 yng nghyd-detun 'Her Gwynedd', benderfynu ar darged arbedion £4.3m wrth osod cyllideb 2015/16, ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd am unrhyw arbedion newydd ychwanegol. Ers 2015/16, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £32.8m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (13% o'r arbedion) wedi'i gynaeafu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor).

7. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2022/23 ar lefel tebyg i 2021/22.
8. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn sylweddol uwch yn 2022/23 na lefel 'cash' 2021/22, ond yn eithaf tebyg mewn termau 'real' (gan fod y bidiau argymhellir eu cymeradwyo ar benawdau sydd heb eu datganoli).

## ATODIAD 6

### TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2022/23. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth am fod setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig. Er enghraifft, yn 2019/20 bu'n rhaid cynyddu'r dreth 5.8%, o 3.9% yn 2020/21 ac o 3.7% yn 2021/22.
3. Eleni, erbyn 2022/23 argymhellir codi'r dreth 2.95%. Byddai hynny'n cynhyrchu £82.1m o dreth (o'i gymharu â £80.9m yn 2021/22), sy'n cynnwys £6m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £43.76 i eiddo mewn Band D, neu 84c yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 3.68% ar gyfer 2022/23) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 8,700 o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £79,672. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £398,359 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £796,718.



5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2015/16:

| Blwyddyn            | Cyngor  |       |
|---------------------|---------|-------|
|                     | Gwynedd | Cymru |
| 2021/22             | 3.7%    | 3.6%  |
| 2020/21             | 3.9%    | 4.6%  |
| 2019/20             | 5.8%    | 6.2%  |
| 2018/19             | 4.8%    | 4.9%  |
| 2017/18             | 2.8%    | 3.0%  |
| 2016/17             | 4.0%    | 3.6%  |
| 2015/16             | 4.5%    | 4.3%  |
| Cyfartaledd 2015-22 | 4.2%    | 4.3%  |

Yn 2021/22 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,483 tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,403.

Ceir mwy o fanylion yn ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): [Council Tax Levels in Wales, 2021-22 \(llyw.cymru\)](https://www.gov.uk/government/publications/council-tax-levels-in-wales-2021-22)

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2022/23, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 2.95% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol yn y gweithdai aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 2.95%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £0.84 neu £43.76 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,526.99 am 2022/23.**

## CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 2 Rhagfyr 2021, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 100% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2022/23. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £6m o incwm ychwanegol yn 2022/23 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2022/23.

## ATODIAD 7

### BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.9% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynnyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd parhaus mewn galw am wasanaethau gofal a her sylweddol yr argyfwng Covid-19 yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 18 Mai 2021 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 27 Mai 2021, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £170k o gronfeydd i gynorthwyo'r Adran Plant a Theuluoedd oedd wedi gorwario yn 2020/21. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2022**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cynghorau ddefnyddio gronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyledig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn**. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma mewn cyfarfodydd diweddar gydag Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i bandemig Covid-19. Tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartil uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

*“(9) fod rhai cyngorau mewn sefyllfa well o lawer na’i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gyngorau”, a (18) **bod “lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnheredd a chynaliadwyedd ariannol”.***

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

[Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales](#)

7. Rwy’n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau, gan ddefnyddio £2 filiwn yn 2022/23 tuag at y Strategaeth Ddigidol Addysg er mwyn sefydlu cronfa adnewyddu cyfrifiaduron, gyda’r disgwyliad i ysgolion dalu’r hanner arall yn weithred gwbl briodol.
8. Wrth gwrs, gallai sefyllfa ariannol 2021/22 wedi bod yn wahanol. Eleni, ar ganol argyfwng, mae balansau’r Cyngor wedi bod yn arf allweddol roedd yn caniatáu i ni aros i weld beth oedd sefyllfa’r setliad grant, cyn hyd yn oed gofyn i wasanaethau’r Cyngor adnabod cynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Roedd gwasanaethau Gwynedd yn medru canolbwyntio ar ymateb i’r argyfwng Covid-19, sy’n wahanol i’r sefyllfa mewn rhai awdurdodau lleol eraill.
9. Yn ogystal â rhoi’r hyder i ni weithredu’n ddilyffethair yn wyneb costau’r argyfwng, roedd bodolaeth ein balansau yn ‘prynu amser’ ac osgoi ‘hel bwganod’ am doriadau ychwanegol nad oedd eu hangen erbyn 2022/23. Gan bydd y Cyngor â balansau o tua £7 miliwn yn dilyn defnyddio’r £2 filiwn at y Strategaeth Ddigidol Addysg, byddwn wedi cadw’r swmp o’r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i ‘bontio’r’ sefyllfa ariannol os y bydd angen.

## ATODIAD 8

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

### I) Manylion

#### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23

#### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda.

### **1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

### **1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Medi 2021, wrth baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canol, a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Gwaith manwl wedi gallu cychwyn ar 21 Rhagfyr 2021, sef dyddiad cyhoeddi setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2022 i 2023.

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd pan yn paratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminarau cyllideb ar 24 – 27 Ionawr 2022
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 10 Chwefror
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 15 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn
- Y Cyngor llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2022/23 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 3 Mawrth

## **2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Gan fod cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, mae modd sefydlu cyllideb gytbwys heb chwilio am arbedion ariannol pellach.

Mae pob cynllun arbedion sydd eisoes yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Bryd hynny, bu cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

Gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cyflwyno eleni, ni fu proses ymgynghori.

## **2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cyflwyno eleni, ni fu proses ymgynghori.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cyllideb 2022/23 wedi ei lunio ar egwyddor “gynyddol”. Hynny yw, defnyddir cyllideb 2021/22 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23:

- Chwyddiant Cyflogau Staff
- Chwyddiant Arall (cyflenwyr)
- Cynnydd mewn ardollau (Awdurdod Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd)
- Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi
- Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau
- Addasiadau technegol i'r gyllideb
- Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau
- Cyllideb ychwanegol wedi ei greu er mwyn ymdrin â phwysau ariannol parhaus sy'n deillio o Covid-19.
- Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno

Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.

Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd “pwysau ar wasanaethau” yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

### 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| <b>Nodweddion</b>                          | <b>Sut fath o effaith? *</b> | <b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|--------------------------------------------|------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>     | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Anabledd</b>                            | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Rhyw</b>                                | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Oedran</b>                              | Positif                      | Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn cryfhau'r sector gofal preswyl a nyrsio.                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| <b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>                | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b> | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Ailbennu rhywedd</b>                    | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>           | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>       | Dim                          | Dim effaith wedi ei adnabod                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Yr iaith Gymraeg</b>                    | Positif                      | Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr. Mae nifer o fidiau am adnoddau ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau (Atodiad 2) yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Nodir yn benodol y cais am £305,000 o arian un-tro ar gyfer Datblygu Hunaniaith (Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol). |



|                                          |         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|------------------------------------------|---------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                          |         | <p>I ategu hyn, Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.</p> <p>Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'.</p> |
| <b>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</b> | Positif | Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol                                                                                                                                                                                                                      |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| <b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>                          | <b>A yw'n cael effaith?*</b> | <b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>                                                                                                                              |
|--------------------------------------------------------------------------------|------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b> | Nac ydi                      | Ni chredir fod unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth                                                   |
| <b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>                                             | Positif                      | Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd |
| <b>Meithrin perthnasau da</b>                                                  | Niwtral                      | Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau.       |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2022/23, nid yw'r Cyngor wedi cael yr angen i ddarganfod cynlluniau arbedion newydd. Mae'r arbedion sydd i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23 eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Dilynwyd prosesau statudol priodol cyn eu cymeradwyo ac felly nid ydynt yn destun penderfyniad eleni. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiad Cyllideb 2021/2022 rhoddwyd ystyriaeth ar effaith arfaethedig Cyllideb 2021/2022 ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2022/23.

Ymysg y ceisiadau llwyddiannus am arian y tro hwn mae ymrwymiad o £305,000 o arian un-tro ar gyfer Datblygu Hunaniaith (Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol).

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi ariannol yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd i wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu gorwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn annigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Nid oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cynnig eleni, ac mae'r rhai sydd yn bodoli yn y rhaglen ers blyneddoddd blaenorol wedi dod yn destun asesiad fanwl i sicrhau fod anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei leihau.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau a felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol.

##### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae effaith wedi ei adnabod, ond ni chredir y bydd yn sylweddol, gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu hargymell.

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

|                                                                                                  |   |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn                                           | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau                                                         |   |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr                                |   |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol                            |   |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth |   |

##### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y Dreth.

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tair gwaith y flwyddyn.

### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
  - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2022/23 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
  - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
  - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiau ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni wedi'u ystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
  - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
  - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion hir-dymor wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2022/23 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
  - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
  - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
  - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
  - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
  - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
  - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)
  - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pryd cymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y pwyllgorau craffu trefnwyd i'w ystyried ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

## ATODIAD 10

### CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:
4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2022/23, yn sgil cyfnod diweddar o chwyddiant cynyddol, caniatwyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am tâl a phrisiau. Disgwylir i'r lefel uchel gyfredol o chwyddiant ostwng yn ystod 2022/23, ond mae risg y bydd chwyddiant yn codi eto ac mae mwy o ansicrwydd nac arfer eleni ynghylch y lefel tebygol. Gall cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellir lleddfu hyn drwy ddefnyddio cyllideb wrth gefn fel bo'r angen.
5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor (mewn eitem ddilynol ar raglen y cyfarfod hwn), nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar ddychweliadau rhy uchel. Yn 2021 roedd cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed, ond maent wedi cychwyn cynyddu ac mae cynnydd pellach yn 2022/23 yn ymddangos yn anorfod. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel a byddai'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu gyda'r llall.



6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Gwyddom, wrth gwrs, bydd dim grantiau Covid o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 8 isod), a gall rhai o'r grantiau penodol eraill ostwng, neu cael eu torri, ac nid oes gennym ddarlun cyflawn wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Rydym wedi derbyn grantiau penodol sylweddol ym maes gofal cymdeithasol yn ystod blynyddoedd ariannol diweddar, ag ymrwymadau cysylltiedig, sy'n gwneud cynllunio cyllidol yn anodd. Yn gyffredinol, bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan daw grant i ben, ond mae'n bosibl fydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael am grantiau, ond mae'r cyrrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.
8. **Risg gyda Covid-19** – Oherwydd yr argyfwng Covid-19, disgwylir y bydd Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru wedi digolledu Cyngor Gwynedd gyda chymorth grant gwerth cyfanswm oddeutu £14.4m yn 2021/22, yn ychwanegol i'r £20m o gymorth a dderbyniwyd yn 2020/21. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid yn Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiamwys y bydd y Gronfa Caledi, sydd wedi ariannu'r cymorth yma, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Felly, yng nghyllideb 2022/23 Cyngor Gwynedd, rydym wedi cynnwys darpariaeth parhaol ychwanegol o £1.4m i ddygymod â chostau a colledion o barhad yr argyfwng. Hefyd, mae cronfeydd penodol (y Gronfa Covid, a Chronfa'r Strategaeth Ariannol) wedi cael eu diogelu i fod wrth gefn i gefnogi unrhyw wariant neu golled incwm uwchlaw'r £1.4m yng nghyllideb 2022/23. Yn 2020/21, cyn cadarnhad o'r cymorth grant yn wyneb costau sylweddol yn gynnwys yn yr argyfwng, roedd bodolaeth balansau'r Cyngor wedi rhoi'r hyder i ni weithredu'n ddilyffethair er lles pobl Gwynedd. Drwy hawlio grantiau yn briodol o Gronfa Caledi'r Llywodraeth yn 2020/21 a 2021/22, llwyddwyd i warchod y swmp o'r balansau hyn ar gyfer 2022/23.
9. **Risg ag Arbedion** – Mae'r setliad gan Lywodraeth Cymru yn golygu fod y Cyngor wedi gallu dileu neu lithro oddeutu £1.8m o'r £2.4m o gynlluniau arbed oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23. Mae'r £595,000 o gynlluniau arbed sydd yn weddill yn ymddangos yn gyraeddadwy, ond mae hanes gan rai o adrannau'r Cyngor o fethu cyflawni eu cynlluniau arbed. Yn unol â'r drefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd.

10. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Ni fydd llawer o achosion eleni, ond lle'n briodol caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
11. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth posibl o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
12. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

# Eitem 12

|                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| CYFARFOD:              | PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| DYDDIAD:               | 10 CHWEFROR 2022                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| PWNC:                  | STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| PWRPAS:                | EGLURO A CHRAFFU'R STRATEGAETH ARFAETHEDIG AR GYFER 2022/23                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| GWEITHREDU:            | Derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ei derbyn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| PENDERFYNIAD A GEISIR: | Mae rheoliadau cenedlaethol perthnasol yn mynnu perfyniad gan y Cyngor llawn ar y Strategaeth Cyfalaf blynyddol. Ymhellach i'r cyflwyniad gan swyddogion o gwmni Arlingclose, Ymgynhorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth. |
| SWYDDOG CYSWLLT:       | DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| AELOD CABINET:         | Y CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |

---

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn ar gyfer 2022/23. Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o sut rheolir y risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Fe'i hysgrifennwyd mewn arddull rwydd er mwyn hwyluso dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn sy'n dechnegol ar brydiau.
2. Bydd penderfyniadau ar reolaeth cyfalaf a thrysorlys a wneir eleni yn cael effaith ariannol ar y Cyngor am nifer o flynyddoedd i'r dyfodol. Maent felly o dan reolaeth fframwaith cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, fel a grynhoir yn yr adroddiad hwn.

## GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

3. Gwariant cyfalaf yw pan mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau. Mae gan y Cyngor ryddid cyfyngedig i bennu'r hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf, ac mae rhai asedau gwerth isel yn cael eu trosglwyddo i refeniw yn ystod y flwyddyn. Asesir pob ased a chynllun yn ôl ei haeddiant ei hun, a chyfrifir amdanynt yn unol â hynny hefyd.

- Ceir eglurhad pellach am bolisi'r Cyngor ar gyfalafu yn Nodiadau Polisi Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2020/21, gweler:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon/Datganiad-or-Cyfrifon-2020.21..pdf>

4. Yn 2022/23, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £64m, fel a grynhoir isod:

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau*

|                                 | <b>Gwir<br/>2020/21<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>2021/22<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2022/23<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2023/24<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2024/25<br/>£m</b> |
|---------------------------------|--------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 28.5                           | 52.2                            | 59.1                               | 19.2                               | 16.2                               |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol *   | 0.0                            | 0.0                             | 5.0                                | 0.0                                | 0.0                                |
| <b>CYFANSWM</b>                 | <b>28.5</b>                    | <b>52.2</b>                     | <b>64.1</b>                        | <b>19.2</b>                        | <b>16.2</b>                        |

\* Mae'r Gwariant Cyfalaf am 2022/23 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

5. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2022/23 yn cynnwys:

- Cynlluniau /Strategaeth Tai - £16.1m
- Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - £14.9m
- Atal Llifogydd Arfordirol - £7.0m
- Cerbydau Adrannol - £4.7m
- Unedau Diwydiannol - £2.9m
- Cynlluniau Eiddo - £2.2m

6. **Llywodraethu:** Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer

cynlluniau cyfalaf. Yr Adran Gyllid sy'n cydlynu'r ceisiadau. Mae'r Cabinet yn gwerthuso pob cais yn seiliedig ar flaenoriaethau, ac yn gwneud argymhellion. Cyflwynir ceisiadau cyfalaf a strategaeth asedau i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flynyddol.

- Am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf y Cyngor, ewch i **Atodiad A**.

7. Rhaid ariannu pob gwariant cyfalaf naill ai o ffynonellau allanol (grantiau gan y llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Cyngor (refeniw, cronfeydd a derbyniadau cyfalaf), neu ddyled (benthycha, prydlesu, a Menter Cyllid Preifat (MCP)). Bwriedir ariannu'r gwariant uchod fel a ganlyn:

*Tabl 2: Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

|                     | <b>Gwir<br/>2020/21<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>2021/22<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2022/23<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2023/24<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2024/25<br/>£m</b> |
|---------------------|--------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|
| Ffynonellau Allanol | 22.2                           | 32.2                            | 18.7                               | 5.3                                | 5.1                                |
| Adnoddau ein Hunain | 1.3                            | 14.6                            | 32.5                               | 6.5                                | 4.1                                |
| Dyled *             | 5.0                            | 5.4                             | 12.9                               | 7.4                                | 7.0                                |
| <b>CYFANSWM</b>     | <b>28.5</b>                    | <b>52.2</b>                     | <b>64.1</b>                        | <b>19.2</b>                        | <b>16.2</b>                        |

\* Mae'r Dyled am 2022/23 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

8. Cyllid dros dro yn unig yw dyled, gan fod rhaid talu benthyciadau a phrydlesau yn ôl. Mae hwn, felly, yn cael ei ddisodli mewn amser gyda mathau gwahanol o ariannu, fel arfer o refeniw. Gelwir hyn yn ddarpariaeth lleiafswm refeniw (DLIR). Fel arall, gellir defnyddio enillion a ddaw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i ddisodli dyled ariannol. Mae'r defnydd o'r derbyniadau cyfalaf a'r DLIR bwriedig fel a ganlyn:

*Tabl 3: Disodli Dyled mewn £ miliynau*

|                     | <b>Gwir<br/>2020/21<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>2021/22<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2022/23<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2023/24<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2024/25<br/>£m</b> |
|---------------------|--------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|
| Adnoddau ein Hunain | 7.7                            | 7.5                             | 8.2                                | 8.2                                | 8.3                                |

- Ceir Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw cyflawn y Cyngor yn **Atodiad B** y Datganiad Strategaeth Cyfalaf.

9. Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronrus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda DLIR a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i

ddisodli dyled. Disgwylir y bydd y GCC yn cynyddu £4.7m yn ystod 2022/23. Yn seiliedig ar y ffigyrau gwariant ac ariannu uchod, mae GCC amcangyfrifedig y Cyngor fel a ganlyn:

*Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

|                                   | <b>Gwir<br/>31.3.2021<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>31.3.2022<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2023<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2024<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2025<br/>£m</b> |
|-----------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol * | 174.0                            | 171.9                             | 176.6                                | 175.8                                | 174.5                                |

\* Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2022/23 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

- Rheoli Asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau'n ddefnyddiol yn y tymor hir, mae gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau. Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2019/20 hyd 2028/29 wedi cael ei ddatblygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 07/03/2019, gweler Eitem 11 ar y rhaglen:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?cid=130&m id=2457&ver=4&>

- Gwaredu Asedau:** Pan nad oes angen yr ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu er mwyn gwario'r derbyniadau cyfalaf yma ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn creu derbyniadau cyfalaf. Bwriad y Cyngor yw derbyn derbyniadau cyfalaf fel a ddengys yn y tabl isod:

*Tabl 5: Derbyniadau Cyfalaf mewn £ miliynau*

|                    | <b>Gwir<br/>2020/21<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>2021/22<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2022/23<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2023/24<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>2024/25<br/>£m</b> |
|--------------------|--------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|
| Gwerthu Asedau     | 0.1                            | 0.1                             | 0.0                                | 0.1                                | 0.0                                |
| Ad-dalu Benthyciad | 0.1                            | 0.0                             | 0.1                                | 0.0                                | 0.1                                |
| <b>CYFANSWM</b>    | <b>0.2</b>                     | <b>0.1</b>                      | <b>0.1</b>                         | <b>0.1</b>                         | <b>0.1</b>                         |

## RHEOLAETH TRYSORLYS

- Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y Cyngor, gan reoli'r risgiau cysylltiedig. Buddsoddir arian dros ben nes bydd galw amdano, ac ymdrinnir

â phrinder arian drwy fenthyg, er mwyn sicrhau nad yw'r gweddill credyd na'r gorddrafft yn y cyfrif banc cyfredol yn ormod. Mae'r Cyngor fel arfer yn gyfoethog mewn arian parod yn y tymor byr gan fod incwm refeniw'n cael ei dderbyn cyn cael ei wario. Ond yn y tymor hir mae'n ariannol dlawd, gan fod gwariant cyfalaf yn digwydd cyn canfod yr arian i dalu amdano. Caiff gormodedd arian parod refeniw ei osod yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf er mwyn lleihau faint a fenthycir yn gyffredinol.

13. Oherwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, ar hyn o bryd mae benthyciadau'r Cyngor yn £102.2m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 5.51%, a buddsoddiadau trysorlys o £83.5m ar gyfradd gyfartalog o 0.53%.
14. **Y Strategaeth Fenthyca:** Prif amcanion y Cyngor wrth fenthyg yw canfod cost fenthyca sy'n isel ond sy'n benodedig, gan gynnal hyblygrwydd pe bai cynlluniau yn newid yn y dyfodol. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro. Mae'r Cyngor, felly, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad, tymor byr (ar gael ar hyn o bryd am ryw 0.1%) a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch (tua 1.5% i 2.5% ar hyn o bryd).
15. Gweler lefelau rhagamcanedig o gyfanswm dyled y Cyngor sy'n weddill (sef rhwymedigaethau benthyg, MCP a phrydlesau) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

*Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

|                                      | <b>Gwir<br/>31.3.2021<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>31.3.2022<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2023<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2024<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2025<br/>£m</b> |
|--------------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|
| Dyled (gan gynnwys MCP a phrydlesau) | 112.3                            | 105.4                             | 108.2                                | 105.0                                | 98.8                                 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf                | 174.0                            | 171.9                             | 176.6                                | 175.8                                | 174.5                                |

16. Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir yn nhabl 6, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.
17. **Meincnod Ymrwymiad:** Er mwyn cymharu faint mae'r Cyngor wedi'i fenthyg mewn gwirionedd yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod ymrwymiad wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyg. Mae hyn yn tybio fod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw ar o leiaf £10m ar ddiwedd pob blwyddyn.

Tabl 7: Benthycia a'r Meincnod Ymrwymiad mewn £ miliynau

|                            | <b>Gwir<br/>31.3.2021<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>31.3.2022<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2023<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2024<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2025<br/>£m</b> |
|----------------------------|----------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|
| Benthyciadau sy'n Ddyledus | 109.7                            | 103.1                             | 101.8                                | 99.6                                 | 94.3                                 |
| Meincnod Ymrwymiad         | 58.7                             | 65.3                              | 77.6                                 | 83.8                                 | 89.2                                 |

18. Mae'r tabl yn dangos fod y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad. Mae hyn oherwydd bod gan gan y Cyngor reserfau, ac mae allbynnau arian parod wedi bod yn is na'r disgwyl pan fenthycwyd yr arian.
19. **Terfyn Benthyc Fforddiadwy:** Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyc fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn dynesu at y terfyn.

Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol mewn £m

|                                                 | <b>Terfyn<br/>2021/22<br/>£m</b> | <b>Terfyn<br/>2022/23<br/>£m</b> | <b>Terfyn<br/>2023/24<br/>£m</b> | <b>Terfyn<br/>2024/25<br/>£m</b> |
|-------------------------------------------------|----------------------------------|----------------------------------|----------------------------------|----------------------------------|
| Terfyn Awdurdodedig - Cyfanswm Dyledion Allanol | 200                              | 200                              | 200                              | 200                              |
| Ffin Gweithredol - Cyfanswm Dyledion Allanol    | 190                              | 190                              | 190                              | 190                              |

Mae'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol am 2022/23 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £6m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau

- Mae manylion pellach ar fenthyciadau ar gael yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.
20. **Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn digwydd drwy dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Fel arfer, ni



ystyrir fod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu er elw ariannol yn unig yn rhan o reolaeth y trysorlys.

21. Polisi'r Cyngor ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch; sef, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach nac uchafu enillion. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y dyfodol agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau ansawdd uchel penodedig, er mwyn lleihau'r perygl o golled. Bydd arian a gedwir yn hwy yn cael ei fuddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, er mwyn cydbwysu'r perygl o golled gyda'r perygl o gael enillion sy'n is na chwyddiant. Gellir cadw buddsoddiadau dyfodol agos a thymor hwy mewn cronfeydd wedi'u pwlio, lle mae rheolwr cronfa'n penderfynu pa fuddsoddiadau penodol i'w prynu ac fe all y Cyngor ofyn am ei bres yn ôl ar fyr rybudd.

Tabl 9: Buddsoddiadau Rheolaeth y Trysorlys mewn £ miliynau

|                              | <b>Gwir<br/>31.3.2021<br/>£m</b> | <b>Amcan<br/>31.3.2022<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2023<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2024<br/>£m</b> | <b>Cyllideb<br/>31.3.2025<br/>£m</b> |
|------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|--------------------------------------|
| Buddsoddiadau'r Dyfodol Agos | 50                               | 40                                | 25                                   | 15                                   | 5                                    |
| Buddsoddiadau'r Tymor Hwyl   | 10                               | 10                                | 10                                   | 10                                   | 10                                   |
| <b>CYFANSWM</b>              | <b>60</b>                        | <b>50</b>                         | <b>35</b>                            | <b>25</b>                            | <b>15</b>                            |

- Ceir manylion pellach ar fuddsoddiadau'r trysorlys yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

22. **Rheolaeth Risg:** Mae rheoli a rheoli risg yn effeithiol yn brif amcan gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor. Felly mae'r strategaeth rheolaeth trysorlys yn nodi amryw o ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys.

- Mae'r dangosyddion darbus rheolaeth trysorlys ar dudalennau 16 i 17 o Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn **Atodiad C**.

23. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddi a benthyg yn ddyddiol; felly, fe'u dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid, sy'n gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. Cyflwynir adroddiadau hanner blwyddyn a blwyddyn gyfan ar weithgaredd rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am graffu penderfyniadau rheolaeth trysorlys. Mae

aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a Cabinet yn derbyn cyflwyniad mewn seminar blynyddol gan Arlingclose, ein ymgynghorwyr ariannol, gafodd ei gynnal ar 7 Chwefror 2022 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23.

## **BUDDSODDIADAU ER DIBENION GWASANAETH**

24. Gall y Cyngor wneud buddsoddiadau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys gwneud benthyciadau i fusnesau bychain er mwyn hyrwyddo twf economaidd a chefnogi'r strategaeth dai. Yn sgil yr amcan gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd mwy o risg na gyda buddsoddiadau'r trysorlys. Fodd bynnag, mae'n dal i gynllunio na fydd buddsoddiadau o'r fath yn gwneud colled hyd yn oed ar ôl talu'r holl gostau.
25. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol mewn ymgynghoriaeth â Phennaeth yr Adran Gyllid. Mae mwyafrif y benthyciadau'n rhai gwariant cyfalaf a byddant hefyd yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglen gyfalaf.

## **YMRWYMIADAU**

26. Yn ogystal â'r ddyled y manylir arno uchod, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol i unioni'r diffyg yn ei gronfa bensiwn (gwerth o £364m). Mae hefyd wedi clustnodi £8m er mwyn cyflenwi risgiau'r darpariaethau, sy'n ymwneud â Safleoedd Gwastraff. Mae perygl hefyd y gall y Cyngor orfod talu ymrwymadau dibynnol yn ymwneud â chapio a gofynion ôl-ofal ar gyfer Safleoedd Tirlenwi'r Cyngor, a hefyd ymrwymadau yswiriant sy'n ymwneud â threfniadau yswiriant yr awdurdodau a'i rhagflaenodd, a chau Cronfa Yswiriant Municipal Mutual (MMI). Yn unol â'r gofynion cyfrifeg, ni chlustnodwyd unrhyw arian ar gyfer ymrwymadau dibynnol o'r fath.
27. **Llywodraethu:** Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gwneud penderfyniadau newydd ar ymrwymadau dewisol mewn ymgynghoriaeth â'r Pennaeth Cyllid. Mae'r Adran Gyllid yn monitro'r perygl y bydd ymrwymadau'n dod yn wir ac y bydd angen taliad. Adroddir ar ymrwymadau materol newydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
  - Ceir manylion pellach yr ymrwymadau ar dudalen 12 Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon/Datganiad-or-Cyfrifon-2020.21..pdf>

## GOBLYGIADAU CYLLIDEB REFENIW

28. Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a DLIR yn gost ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

|                                  | Gwir<br>2020/21 | Amcan<br>2021/22 | Cyllideb<br>2022/23 | Cyllideb<br>2023/24 | Cyllideb<br>2024/25 |
|----------------------------------|-----------------|------------------|---------------------|---------------------|---------------------|
| Costau Ariannu *<br>(£m)         | £13.2m          | £12.9m           | £13.5m              | £13.4m              | £13.3m              |
| Cyfran y Llif<br>Refeniw Net (%) | 5.0%            | 4.7%             | 4.6%                | 4.5%                | 4.4%                |

\* Mae'r Costau Ariannu am 2022/23 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.

- Caiff manylion pellach goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf eu cynnwys yng Nghyllideb 2022/23:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistmeetings.aspx?cid=133&year=0&>

29. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw'r gwariant a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn 50 mlynedd a mwy i'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf a gynigir yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

## GWYBODAETH A SGILIAU

30. Mae'r Cyngor yn cyflogi staff profiadol mewn swyddi uwch a chanddynt gymwysterau proffesiynol; mae ganddynt gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca, a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwys gyda blynyddoedd o brofiad, ac mae'r Rheolwr Stadau yn syrfêwr siartredig ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol Syrfeyr Siartredig. Mae'r Cyngor efo staff cymwysedig ac yn talu i staff i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol megis CIPFA, ACCA ac AAT.
31. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn talu cwmni Arlingclose i fod yn ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys. Mae'r ffordd hon yn un fwy cost effeithiol na chyflogi staff

o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan y Cyngor fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i awch am risg.

32. Mae staff perthnasol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant CIPFA ac Arlingclose er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, a bod gwybodaeth a sgiliau yn gyfredol.

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| <b>RHAGLEN GYFALAF</b>                                        |                          |                          |                          |
|---------------------------------------------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
|                                                               | <b>2022/23<br/>£'000</b> | <b>2023/24<br/>£'000</b> | <b>2024/25<br/>£'000</b> |
| <b>Cynlluniau Asedau'r Cyngor :</b>                           |                          |                          |                          |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif                                 | 3,861                    | 3,854                    | 2,901                    |
| Cynlluniau Tai                                                | 4,435                    | 1,300                    | 1,300                    |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes                                  | 1,750                    | 0                        | 0                        |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion                                | 1,611                    | 625                      | 0                        |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol                               | 1,193                    | 1,640                    | 2,271                    |
| Atal Llifogydd Arfordirol                                     | 1,995                    | 0                        | 0                        |
| Cynlluniau Eraill                                             | 3,831                    | 1,628                    | 1,241                    |
| Bidiau Cyfalaf                                                | 500                      | 500                      | 500                      |
| <b>Cynlluniau Eraill :</b>                                    |                          |                          |                          |
| Adnoddau Grant Cyfalaf Cyffredinol<br>Ychwanegol i'w ddyrannu | 270                      | 1,646                    | 1,646                    |
| Dadgarboneiddio                                               | 0                        | 917                      | 917                      |
| Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y<br>Cyngor            | 0                        | 0                        | 2,549                    |
| Strategaeth Dai - Prynu i Osod                                | 0                        | 0                        | 2,880                    |
| Cynlluniau Eraill Eisoed wedi eu<br>Cymeradwyo :              |                          |                          |                          |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai                                    | 11,617                   | 5,430                    | 0                        |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif (LIC)                           | 11,026                   | 455                      | 0                        |
| Atal Llifogydd Arfordirol                                     | 4,993                    | 0                        | 0                        |
| Cerbydau Adrannol                                             | 4,017                    | 947                      | 0                        |
| Unedau Diwydiannol                                            | 2,925                    | 0                        | 0                        |
| Cynlluniau Eiddo                                              | 1,331                    | 0                        | 0                        |
| Eraill                                                        | 3,720                    | 300                      | 0                        |
| <b>CYFANSWM Y RHAGLEN</b>                                     | <b>59,075</b>            | <b>19,242</b>            | <b>16,205</b>            |

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| <b>ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF</b>  |                                |                                |                                |
|-----------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|
|                                   | <b>2022/23</b><br><b>£'000</b> | <b>2023/24</b><br><b>£'000</b> | <b>2024/25</b><br><b>£'000</b> |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth         | 4,073                          | 4,073                          | 4,073                          |
| Benthyca Arall                    | 3,791                          | 3,289                          | 2,880                          |
| Grantiau a Chyfraniadau           | 18,722                         | 5,347                          | 5,100                          |
| Derbyniadau Cyfalaf               | 750                            | 0                              | 0                              |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 34                             | 0                              | 0                              |
| Cronfa Cyfalaf                    | 9,345                          | 204                            | 0                              |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill     | 22,360                         | 6,329                          | 4,152                          |
| <b>CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN</b> | <b>59,075</b>                  | <b>19,242</b>                  | <b>16,205</b>                  |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2022/23 i 2024/25, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2022/23 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £59,074,980 ar gyfer 2022/23, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

**DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2022/23**

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LIC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.
2. Nod cyffredinol Canllaw LIC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthycu gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.
3. Mae Canllaw LIC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.
  - Ar gyfer cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLIR ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.
  - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLIR ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLIR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
  - Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLIR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.
  - Ble rhoddir asedau, oedd yn arfer bod yn brydlesau gweithredol, ar y fantolen ar 1af Ebrill 2022 oherwydd mabwysiadu SAARh 16, Safon Cyfrifeg Prydlesau, ac mae gwerth yr asedau hyn wedi eu haddasu i ystyried croniadau, taliadau o flaen llaw, premiwm a/neu ddisgownt, yna

addasir y gost DLIR blynyddol fel nad oes unrhyw newid i gyfanswm y gost i reffeniwr oherwydd y safon newydd hwn.

- Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu had-dalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLIR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC).
4. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2022/23 yn destun ffi DLIR hyd nes 2023/24.
  5. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2022, mae'r gyllideb ar gyfer DLIR wedi ei bennu fel a ganlyn:

|                                                                                     | <b>31.03.2022<br/>Amcan<br/>GCC<br/>£m</b> | <b>2022/23<br/>Amcan<br/>DLIR<br/>£m</b> |
|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------|------------------------------------------|
| Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008 | 131.2                                      | 5.2                                      |
| Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008                                     | 38.4                                       | 2.1                                      |
| Prydlesau a Menter Cyllid Preifat                                                   | 2.3                                        | 0.9                                      |
| <b>Cyfanswm Cronfa Gyffredinol</b>                                                  | <b>171.9</b>                               | <b>8.2</b>                               |



## Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2022/23

**1. Cyflwyniad**

- 1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllgor y Cyngor.
- 1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LIC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LIC.
- 1.3** Yn unol ag Arweiniad LIC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen gyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd blwyddyn.

**2. Y Cyd-destun Allanol****2.1 Cefndir Economaidd**

Bydd effaith barhaus coronafeirws ar y DU, ynghyd â chwyddiant uwch, cyfraddau llog uwch a sefyllfa masnach y wlad ar ôl Brexit, yn dylanwadu'n fawr ar strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Cododd Banc Lloegr (BoE) y Gyfradd Banc i 0.25% ym mis Rhagfyr 2021 gan gadw ei raglen Esmwytho Meintiol ar £895 biliwn. Pleidleisiodd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) 8-1 o blaid codi cyfraddau, ac yn unfrydol i gadw'r rhaglen pryniant ased.

Yn y cyhoeddiad, nododd yr MPC bod cyflymdra adferiad byd-eang yn fras yn unol â'i Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Tachwedd. Cyn dyfodiad yr amrywiolyn Omicron o'r coronafeirws, ystyriodd y Banc hefyd bod economi'r DU yn esblygu yn unol â disgwyliadau; fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd cynyddol a'r risg a achosir i weithgarwch o ganlyniad i'r amrywiolyn newydd, adolygodd y Banc ei amcangyfrifon ar gyfer twf GDP Ch4 a'u lleihau o 1.0% i 0.6%. Rhagamcanwyd y byddai chwyddiant yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol, gyda Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn debygol o aros uwchben 5% drwy gydol y gaeaf a chyrraedd penllanw o 6% ym mis Ebrill 2022. Yn gyffredinol, roedd y farchnad lafur yn perfformio'n well na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol ac mae BoE bellach yn disgwyl i'r gyfradd diweithdra ddisgyn i 4% o'i gymharu â 4.5% a ragwelwyd yn flaenorol, ond nodir y gallai Omicron wanhau'r galw am lafur.

Roedd CPI y DU ar gyfer mis Tachwedd 2021 yn 5.1% flwyddyn-ar-flwyddyn, wedi codi o 4.2% yn y mis blaenorol. Cododd y chwyddiant craidd, nad yw'n cynnwys y rhannau mwy cyfnewidiol, i 4.0% flwyddyn-ar-flwyddyn o 3.4%. Dangosodd y data marchnad lafur diweddaraf ar gyfer y tri mis hyd at fis Hydref 2021 fod y gyfradd diweithdra wedi gostwng i 4.2%, tra bod y gyfradd mewn gwaith wedi codi i 75.5%.

Ym mis Hydref 2021, roedd y gyfradd twf blyneddol gyfartalog 3 mis ar gyfer cyflogau yn 4.9% ar gyfer cyflog cyfan ac yn 4.3% ar gyfer cyflog arferol. Mewn termau real, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, roedd y twf cyflog cyfan wedi cynyddu 1.7% tra bod cyflog arferol wedi cynyddu 1.0%. Mae'r newid mewn twf cyflog wedi cael ei effeithio gan newid mewn cyfansoddiad o swyddi gweithwyr, lle bu gostyngiad yn y nifer a'r gyfran o swyddi cyflog is.

Fe wnaeth cynnyrch domestig gros (GDP) dyfu o 1.3% yn nhrydydd chwarter calendr 2021 yn unol â'r amcangyfrif cychwynnol, o'i gymharu â chynnydd o 5.5% ch/ch yn y chwarter blaenorol, gyda'r gyfradd flynyddol yn arafu i 6.6% o 23.6%. Roedd cynnydd Ch3 ychydig islaw'r rhagolygon consensws o gynnydd o 1.5% ch/ch. Yn ystod y chwarter, cafodd mesurau gweithgarwch eu hybu gan sectorau a ail-agorodd yn dilyn cyfyngiadau'r pandemig, gan awgrymu bod gwariant ehangach yn wastad. Wrth edrych tua'r dyfodol, tra bod darlleniadau GDP misol yn awgrymu y bu ychydig o gynnydd mewn momentwm yn rhan olaf Ch3, disgwylir i dwf Ch4 fod yn ysgafn.

Cododd twf GDP yn ardal yr ewro o 2.2% yng nghalendr Ch3 2021 yn dilyn cynnydd o 2.1% yn yr ail chwarter a gostyngiad o -0.3% yn y cyntaf. Mae chwyddiant sydd yn y penawdau wedi bod yn gryf, gyda CPI yn cofrestru 4.9% flwyddyn-ar-flwyddyn ym mis Tachwedd, y pumed mis o chwyddiant yn olynol. Roedd chwyddiant CPI yn 2.6% f/f ym mis Tachwedd, y pedwerydd mis o gynnydd yn olynol o 0.7% f/f ym mis Gorffennaf. Ar y lefelau hyn, mae

chwyddiant yn uwch na tharged Banc Canolog Ewrop o 'o dan, ond yn agos at 2%' sy'n rhoi ychydig o bwysau ar ei safiad hirdymor o gadw ei brif gyfradd llog ar 0%.

Tyfodd economi'r Unol Daleithiau ar gyfradd flynyddol o 2.1% yn Ch3 2021, gan arafu'n sydyn o gynnydd o 6.7% a 6.3% yn y ddau chwarter blaenorol. Yn ei gyhoeddiad cyfradd llog Rhagfyr 2021, mae'r Federal Reserve yn parhau i gynnal y gyfradd Fed Funds rhwng 0% a 0.25% ond amlinellodd ei gynllun i leihau ei raglen pryniant ased yn gynt na'r hyn a nodwyd yn flaenorol a nodi eu bod yn ffafrio tynhau'r cyfraddau llog ar gyfradd cynt yn 2022, gyda thri symudiad 0.25% nawr yn ddisgwyliedig.

## **2.2 Rhagolygon credyd**

Ers dechrau 2021, mae amodau credyd cymharol hynaws wedi golygu fod prisiau amnewid diffyg credydau (CDS) ar gyfer banciau mawr y DU wedi aros yn isel ac wedi dod lawr yn raddol drwy'r flwyddyn tan ganol mis Tachwedd pan wnaeth dyfodiad Omicron achosi iddynt godi ychydig. Fodd bynnag, fe wnaeth y rhagolwg economaidd gwell yn gyffredinol yn ystod 2021 helpu proffidioldeb banciau a lleihau lefel yr amhariadau a wnaed gan lawer fel darpariaethau ar gyfer benthyciadau gwael. Fodd bynnag, mae'r mesurau cefnogi busnes yn ymwneud â choronafeirws a gafodd eu diddymu'n lled ddiweddar gan y llywodraeth yn golygu na wyddys yr effaith lawn ar fantolenni banciau am beth amser.

Arweiniodd y darlun economaidd gwell yn 2021 at yr asiantaethau statws credyd yn adlewyrchu hyn yn eu hasesiad o'r rhagolwg ar gyfer sofren y DU, yn ogystal â sawl sefydliad ariannol, yn eu hadolygu o negyddol i sefydlog ac yn uwchraddio llond llaw o statysau hyd yn oed.

Wrth edrych tua'r dyfodol, tra bod siawns o hyd i fanciau wneud colledion o fenthyciadau gwael wrth i gefnogaeth y llywodraeth a'r banciau canolog gael ei ddiddymu, mae'r sefydliadau ar restr wrth-bartïon y Cyngor â chyfalaf sylweddol a disgwylir i amodau credyd cyffredinol ar draws y sector aros yn ysgafn. Mae cyfyngiadau parhad ar gyfer gwrth-bartïon ar restr fenthyca'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bydd yn parhau i adlewyrchu amodau economaidd a'r rhagolwg credyd.

## **2.3 Rhagolygon cyfraddau llog**

Mae ymgynghorydd rheoli trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn rhagweld y bydd y Gyfradd Banc yn parhau i godi yng nghalendr Ch1 2022 i liniaru pwysau

chwyddiannol a'r dyhead ymddangosiadol gan BoE i symud oddi wrth lefelau argyfwng o gyfraddau llog.

Mae buddsoddwyr yn parhau i gynnwys codiadau lluosog yn y Gyfradd Banc dros y gorwel rhagolwg nesaf, ac er y bydd cyfraddau llog yn codi eto, mae Arlingclose yn credu na fydd y cynnydd i'r fath raddau a ragwelwyd gan farchnadoedd ariannol. Yn y tymor agos, mae'r risgiau o gwmpas achos canolog Arlingclose ar y tu uchaf tra bod risgiau'n fwy sefydlog dros y tymor canolig.

Disgwylir i enillion aros yn fras ar lefelau presennol dros y tymor canolig, gyda disgwyl i'r enillion gilt 5, 10 ac 20 mlynedd fod ar gyfartaledd o thua 0.65%, 0.90%, ac 1.15% yn ôl eu trefn. Yn y lle cyntaf, mae'r risgiau ar gyfer enillion tymor byr a chanolig ar y tu uchaf ond yn mynd yn is yn ddiweddarach, tra bod y risg ar y tu uchaf ar gyfer enillion tymor hir. Fodd bynnag, fel bob amser, mae'n sicr bron y bydd cyfnewidioldeb tymor byr oherwydd ansicrwydd a digwyddiadau economaidd a gwleidyddol.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

- 2.4** Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau rheolaeth trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.01% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2022/23.

### **3. Y Cyd-destun Lleol**

- 3.1** Ar 31 Rhagfyr 2021, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £102.2m a £83.5m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad 2**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg**

|                                                              | <b>31.3.21<br/>Gwir<br/>£m</b> | <b>31.3.22<br/>Amcan<br/>£m</b> | <b>31.3.23<br/>Cyllideb<br/>£m</b> | <b>31.3.24<br/>Cyllideb<br/>£m</b> | <b>31.3.25<br/>Cyllideb<br/>£m</b> |
|--------------------------------------------------------------|--------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|
| <b>GCC</b>                                                   | <b>174.0</b>                   | <b>171.9</b>                    | <b>176.6</b>                       | <b>175.8</b>                       | <b>174.5</b>                       |
| Llai: Rhwymedigaethau arall *                                | (2.6)                          | (2.3)                           | (6.4)                              | (5.4)                              | (4.5)                              |
| <b>Benthyca GCC</b>                                          | <b>171.4</b>                   | <b>169.9</b>                    | <b>170.2</b>                       | <b>170.4</b>                       | <b>170.0</b>                       |
| Llai: Benthyca allanol **                                    | (109.7)                        | (103.1)                         | (101.8)                            | (99.6)                             | (94.3)                             |
| <b>Benthyca mewnol</b>                                       | <b>61.7</b>                    | <b>66.5</b>                     | <b>68.4</b>                        | <b>70.8</b>                        | <b>75.7</b>                        |
| Llai: Adnoddau mantolen                                      | (125.3)                        | (116.6)                         | (109.0)                            | (102.0)                            | (95.3)                             |
| <b>Buddsoddiadau Trysorlys<br/>(neu fenthyciadau newydd)</b> | <b>63.6</b>                    | <b>50.1</b>                     | <b>40.6</b>                        | <b>31.2</b>                        | <b>19.6</b>                        |

\* ymrwymïadau PFI

\*\*yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

**3.2** Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

**3.3** Mae Tabl 1 yn dangos nad oes angen i'r Cyngor fenthyca yn y tymor hir yn ystod y tair blynedd nesaf. Os oes angen, bydd benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r gyfradd llog.

**3.4** Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymhell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2022/23.

## **4. Meincnod Ymrwymïadau**

**4.1** Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £10m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.


Flwyddyn diwethaf, roedd ystyriaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu at y Meincnod Ymrwymïadau gan mai Cyngor Gwynedd yw awdurdod cynnal Bwrdd

Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru lle bydd gofyniad i fenthycha yn codi yn y blynnyddoedd i ddod. Fodd bynnag, cymeradwywyd mewn egwyddor gan y Cabinet ar 21ain Rhagfyr 2021 bydd y Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn trosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforedig cyn bydd unrhyw fenthycha yn digwydd. Mae'r gofyniad benthycha yma felly wedi ei dynnu.

**Tabl 2: Meincnod Ymrwymadau**

|                                   | <b>31.3.21<br/>Gwir<br/>£m</b> | <b>31.3.22<br/>Amcan<br/>£m</b> | <b>31.3.23<br/>Cyllideb<br/>£m</b> | <b>31.3.24<br/>Cyllideb<br/>£m</b> | <b>31.3.25<br/>Cyllideb<br/>£m</b> |
|-----------------------------------|--------------------------------|---------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|------------------------------------|
| <b>GCC</b>                        | <b>174.0</b>                   | <b>171.9</b>                    | <b>176.6</b>                       | <b>175.8</b>                       | <b>174.5</b>                       |
| Llai: Adnoddau mantolen           | (125.3)                        | (116.6)                         | (109.0)                            | (102.0)                            | (95.3)                             |
| <b>Gofynion benthychiadau net</b> | <b>48.7</b>                    | <b>55.3</b>                     | <b>67.6</b>                        | <b>73.8</b>                        | <b>79.2</b>                        |
| Ychwanegu: Lwfans hylifedd        | 10.0                           | 10.0                            | 10.0                               | 10.0                               | 10.0                               |
| <b>Meincnod Ymrwymadau</b>        | <b>58.7</b>                    | <b>65.3</b>                     | <b>77.6</b>                        | <b>83.8</b>                        | <b>89.2</b>                        |

- 4.2** Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio dim gwariant cyfalaf pellach wedi'i ariannu gan fenthychiadau, lleiafswm darpariaeth refeniw yn seiliedig ar oes ased a chynnydd chwyddiant o 2.5% y flwyddyn ar reserfau. Dangosir hyn yn y siart canlynol:



Mae'r siart yn dangos na fydd angen benthycu yn seiliedig ar rhagamcanion cyfredol.

## **5. Y Strategaeth Fenthycu**

**5.1** Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dal £102.2 miliwn o fenthyciadau, mae hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthycu arian tymor hir yn 2022/23 ond efallai y bydd angen benthycu tymor byr oherwydd rhesymau llif arian. Yn y dyfodol, gall y Cyngor hefyd fenthycu symiau ychwanegol i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw ar yr amod nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthycu.

## **5.2 Amcanion**

Prif amcan y Cyngor wrth fenthycu arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

## **5.3 Strategaeth**

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthycu'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i unai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthycu dros y tymor byr yn lle hynny.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthycu net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthycu mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthycu tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthycu tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthycu symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2022/23 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi codi'r mwyafrif o'i fenthycu tymor hir o'r PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau tymor hir o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno bondiau ac offerynnau tebyg, er mwyn gostwng costau llog a lleihau

gorddibyniaeth ar un ffynhonnell cyllid yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch; mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynnyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddioddef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthycu benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

#### **5.4 Ffynonellau benthycu**

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Cyfleuster Benthycu PWLB Trysorlys EM (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gynt)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr marchnad cyfalaf
- UK Municipal Bonds Agency plc a cwmnïau eraill i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

#### **5.5 Ffynonellau eraill arian dyled**

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi derbyn mwyafrif o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond byddwn yn parhau i ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, gall fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.



**Y Municipal Bonds Agency:** Sefydlwyd yr UK Municipal Bonds Agency plc yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i'r PWLB. Mae'n cyflwyno bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf a rhoi benthycy yr enillion i awdurdodau lleol. Mae hyn yn ffynhonnell gyllid mwy cymhleth na'r PWLB am ddau reswm: bydd gofyn i awdurdodau sy'n benthycy ddarparu gwarant i'r buddsoddwyr bond i ad-dalu eu buddsoddiad petai'r asiantaeth yn methu â gwneud hynny am ba bynnag reswm; a bydd yna gyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthycy a chael gwybod beth fydd y gyfradd llog sy'n daladwy. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycy gan yr Asiantaeth felly'n destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor llawn.

## **5.6 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol**

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

## **5.7 Aildrefnu dyledion**

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

## **6. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys**

### **6.1** Mae gan y Cyngor arian wedi'i fuddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £62.9 a £147.9 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pŵlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pŵl ar gyfer 2022/23 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2022.

Fel arfer, nid yw benthyciadau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a phrynu eiddo fel buddsoddiad yn cael eu hystyried yn fuddsoddiadau trysorlys, ac felly rydym yn delio â'r rhain ar wahân yn **Atodiad 3**.

## **6.2 Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdlu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir.

## **6.3 Cyfraddau llog negyddol**

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r risg y bydd Banc Lloegr yn gosod ei Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sy'n debygol o fwydo drwodd i gyfraddau llog negyddol ar yr holl opsiynau buddsoddi tymor byr risg isel. Gan na all buddsoddiadau dalu incwm negyddol, cymhwysir cyfraddau negyddol trwy leihau gwerth buddsoddiadau. Os yw hyn yn digwydd, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm cytundebol a fuddsoddwyd ar aeddfedrwydd, er gallai'r swm yma fod yn llai na fuddsoddwyd yn wreiddiol.

## **6.4 Strategaeth**

Gyda'r cynnydd parhaus yn y risg ac enillion isel iawn o fuddsoddiadau banc tymor byr ansicredig, bydd y Cyngor yn anelu at barhau i ddal dosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu gynnyrch uwch yn ystod 2022/23. Mae hyn yn benodol yr achos ar gyfer yr £10m amcangyfrifedig sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hirach. Mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan y Cyngor wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, adneuon Llywodraeth DU, awdurdodau lleol a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n parhau'r strategaeth a fabwysiadwyd yn 2015/16.

## **6.5 Modelau busnes**

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda

model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

## 6.6 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau**

| Sector                                         | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|------------------------------------------------|--------------|-------------------|---------------|
| Llywodraeth y DU                               | 50 mlynedd   | Diderfyn          | d/b           |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd   | £10m              | Diderfyn      |
| Buddsoddiadau â sicrwydd *                     | 25 mlynedd   | £10m              | Diderfyn      |
| Banciau (ansicredig) *                         | 13 mis       | £5m               | Diderfyn      |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) *           | 13 mis       | £5m               | £10m          |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) *          | 5 mlynedd    | £5m               | £25m          |
| Cronfeydd marchnad arian *                     | d/b          | £10m              | Diderfyn      |
| Cronfeydd cyfun strategol                      | d/b          | £10m              | £50m          |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real         | d/b          | £10m              | £25m          |
| Buddsoddiadau eraill *                         | 5 mlynedd    | £5m               | £10m          |

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

## 6.7 Statws Credyd

Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â \*. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartïon. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael ei gwneud

ar sail cyfraddau credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

## **6.8 Llywodraeth**

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan, lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun '*bail-in*', ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg. Bernir nad oes gan fuddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

## **6.9 Buddsoddiadau â Sicrwydd**

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in*'. Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

## **6.10 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)**

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in*' petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

## **6.11 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

## **6.12 Cronfeydd Marchnad Arian**

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyngor yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

## **6.13 Cronfeydd Cyfun Strategol**

Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo sy'n cynnig enillion gwell dros y tymor hir ond sy'n fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Cyngor ehangu i ddosbarthiadau o asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, a'u bod ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i barhau i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael eu monitro'n gyson.

## **6.14 Ymddiriedolaethau Buddsoddi Ystâd Real**

Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sy'n buddsoddi'n bennaf mewn ystâd real ac sy'n talu'r mwyafrif o'u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn modd tebyg i gronfeydd eiddo cyfun. Yn yr un modd â chronfeydd eiddo, mae ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real yn cynnig enillion gwell dros y tymor hir, ond maent yn fwy anwadal yn enwedig gan fod pris y cyfranddaliadau yn adlewyrchu'r galw newidiol am y cyfranddaliadau ynghyd â newidiadau yng ngwerth yr eiddo sylfaenol.

## **6.15 Buddsoddiadau eraill**

Mae'r categori yma yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol ansicredig a benthyciadau cwmni. Nid yw cwmnïau heblaw banciau yn destun '*bail-in*' ond gallent fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Cyngor mewn perygl.

## **6.16 Cyfrifon banc gweithredol**

Gall y Cyngor ddelio gyda unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon

cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in*', ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun '*bail-in*' na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

### **6.17 Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Mae'r asiantaethau statws credyd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u rhestru yn nogfen Arferion Rheolaeth Trysorlys. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

### **6.18 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau**

Mae'r Cyngor yn deall bod graddfeydd statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdlu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol a dadansoddiad a chynghor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuan cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2020, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

### 6.19 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £100 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2022 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 10% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffygdlu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthycu i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £10 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

**Tabl 4: Terfynau ychwanegol**

|                                                                             | <b>Cyfyngiad arian</b> |
|-----------------------------------------------------------------------------|------------------------|
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth                       | £25m fesul rheolwr     |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £25m fesul brocer      |
| Gwledydd tramor                                                             | £10m fesul gwlad       |

### 6.20 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar

fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

## **7. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### **7.1 Diogelwch**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg ganfyddedig.

| <b>Dangosydd risg credyd</b>        | <b>Targed</b> |
|-------------------------------------|---------------|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0           |

### **7.2 Hylifedd**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthycu ychwanegol.

| <b>Dangosydd risg hylifedd</b>      | <b>Targed</b> |
|-------------------------------------|---------------|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m          |



### 7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Yr effaith refeniw ar gyfyngiadau uwch dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

| Dangosydd risg cyfradd llog                                                            | Cyfyngiad |
|----------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn <u>codiad</u> 1% yng nghyfraddau llog       | £643,000  |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda <u>chwyp</u> o 1% yng nghyfraddau llog | £643,000  |

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llog ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau marchnad newydd.

### 7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

| Dangosydd risg cyfradd ail gyllido | Cyfyngiad Uchaf | Cyfyngiad Isaf |
|------------------------------------|-----------------|----------------|
| Dan 12 mis                         | 25%             | 0%             |
| 12 mis ac o fewn 24 mis            | 25%             | 0%             |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd         | 50%             | 0%             |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd     | 75%             | 0%             |
| 10 mlynedd a mwy                   | 100%            | 0%             |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

## 7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyl na flwyddyn

Pwrrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| Dangosydd risg pris                                               | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|-------------------------------------------------------------------|---------|---------|---------|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20m    | £20m    | £20m    |

## 8. Materion Cysylltiedig

8.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

### 8.2 Cytundebau Deilliadau

Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd y Cyngor yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â risg cyffredinol y strategaeth rheolaeth trysorlys.

### 8.3 Cronfeydd Allanol

Yn gynwysedig ym malansau'r Cyngor mae balansau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, GwE, Cronfa'r Degwm a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Dyrennir yr incwm llog i bob sefydliad yn seiliedig ar falansau dyddiol.

### 8.4 Cyfarwydddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

## 9. Arweiniad Llywodraeth Cymru

Mae materion pellach sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3**.

## 10. Goblygiadau Ariannol

- 10.1** Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2022/23 yw £0.4 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £57.5 miliwn ar gyfradd llog o 0.01% ar gyfer adneuon a £10 miliwn o gronfeydd cyfun ar enillion o 4.08%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2022/23 yw £5.6 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £101.5 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.47%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

## 11. Ystyried Opsiynau Eraill

- 11.1** Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-ffeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau ariannol a rheoli risgiau.

| Dewis Arall                                                                  | Effaith ar incwm a gwariant                                                                           | Effaith ar reoli risgiau                                                                                     |
|------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is                                                                                 | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdlu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy   |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau hirach    | Bydd incwm llog yn uwch                                                                               | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdlu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai     |
| Benthycia symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor              | Bydd costau llog dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdlu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor |

|                                                                                  |                                                                                      |                                                                                                                                                                                            |
|----------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                  |                                                                                      | yn fwy sicr                                                                                                                                                                                |
| Cymryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn                                            | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau                                                     | Mae'r arbediad ar log y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdlu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr                                                                    |

## Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2021

- Mae'r adferiad byd-eang o'r pandemig wedi symud i gyfnod mwy heriol. Mae'r ail-afael yn y galw wedi arwain at y cynnydd disgwyledig mewn pwysau chwyddiant, ond mae'r ffactorau sydd wedi amharu ar gyflenwadau wedi chwyddo'r effeithiau, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y cyfraddau twf yn is yn y dyfodol. Mae dyfodiad yr amrywiolyn Omicron o'r coronafeirws yn effeithio ar weithgarwch a hefyd yn ein hatgoffa o'r risgiau anafanteisiol posib.
- Er gwaethaf data arolwg gweithgarwch cymharol fywiog, mae data swyddogol GDP yn dangos bod twf yn gwanhau wrth symud i Ch4 2021. Fodd bynnag, awgrymodd data arall fomentwm parhaus, yn enwedig ar gyfer mis Tachwedd. Cododd lefelau gwerthiant siopau 1.4%, cynyddodd PMIs a pharhaodd y farchnad lafur i gryfhau. Ymddengys na chafodd diwedd ffyrlo effaith sylweddol ar ddiweithdra. Cododd twf cyflogau.
- Cododd cyfradd chwyddiant CPI i 5.1% ar gyfer mis Tachwedd a bydd yn codi'n uwch yn y tymor agos. Er bod disgwyl i'r ffactorau dros-dro sy'n effeithio ar chwyddiant lacio dros amser, pryder llunwyr polisi yw pwysau parhaus ar brisiau tymor canolig.
- Ysgogodd y ffactorau hyn i'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) godi'r Gyfradd Banc i 0.25% yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Mae disgwyliadau cyfradd llog tymor byr yn dal yn uchel.
- Fodd bynnag, mae'r rhagolwg yn ymddangos yn wannach. Mae gwariant gan aelwydydd yn wynebu pwysau gan gyfuniad o brisiau uwch a chynnydd mewn trethi. Yn y tymor byr iawn, mae'r amrywiolyn Omicron eisoes wedi effeithio ar dwf - gallai gweithgarwch Ch4 a Ch1, ar ei orau, fod yn wan.
- Mae enillion bondiau tymor hir y llywodraeth yn parhau'n gymharol isel er gwaethaf yr arwyddion mwy ymosodol gan y BoE a'r Federal Reserve. Mae buddsoddwyr yn bryderus y bydd tynhau sylweddol ar bolisi yn y tymor agos yn arafu twf ac yn ysgogi'r angen am bolisi llacach yn ddiweddarach. Mae risgiau daearyddol-wleidyddol a choronafeirws hefyd yn ysgogi pryniannau hafan ddiogel. Y canlyniad yw cromlin enillion llawer mwy gwastad, gan fod enillion tymor byr yn codi wrth i enillion tymor hir ostwng hyd yn oed.
- Er gwaethaf yr amrywiolyn Omicron, mae'r cynnydd yn y Gyfradd Banc yn dangos y bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) yn gweithredu i ddod â chwyddiant i lawr, beth bynnag fo'r amgylchedd. Mae hefyd wedi datgan yn glir ei fwriadau i dynhau polisi ymhellach. Er y bydd y rhagolwg economaidd yn heriol, mae'r arwyddion gan lunwyr polisi yn awgrymu mai eu dyhead fydd tynhau polisi oni bai bod data yn awgrymu y bydd arafu mwy sylweddol.

**Rhagolygon:**

- Bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) eisiau adeiladu ar y neges gref a ryddhaodd y mis hwn drwy dynhau polisi er gwaethaf ansicrwydd Omicron.
- Felly, mae Arlingclose yn disgwyl i'r Gyfradd Banc gynyddu i 0.50% yn Ch1 2022, ond aros yno wedyn. Mae'r risgiau i'r rhagolygon wedi'u cydbwysu ar y tu uchaf yn y lle cyntaf ond yn dod yn fwy sefydlog dros amser. Mae rhagolwg canolog Arlingclose yn dal islaw darpar gromen y farchnad.
- Bydd enillion gilt fwy neu lai yn parhau'n wastad o'r lefelau presennol. Mae enillion wedi gostwng yn sydyn ar ddiwedd hirach y gromen enillion, ond mae'r disgwyliadau o ran cynnydd yn y Gyfradd Banc wedi cadw enillion gilt tymor byr ar lefelau uwch.
- Gallai lleddfu disgwyliadau ar gyfer y Gyfradd Banc dros amser ysgogi'r gromen enillion i godi, wrth i fuddsoddwyr gynnwys disgwyliadau chwyddiant uwch.
- Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhagolygon enillion gilt yn amrywio. Yn y lle cyntaf, mae'r risgiau ar gyfer enillion tymor byr a chanolig ar y tu uchaf ond yn mynd yn is yn ddiweddarach. Mae'r risg ar gyfer enillion tymor hir ar y tu uchaf.

|                                  | Dec-21 | Mar-22 | Jun-22 | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 |
|----------------------------------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|--------|
| <b>Official Bank Rate</b>        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |
| Upside risk                      | 0.00   | 0.00   | 0.25   | 0.25   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   |
| Arlingclose Central Case         | 0.25   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   |
| Downside risk                    | 0.00   | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  |
| <b>3-month money market rate</b> |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |
| Upside risk                      | 0.05   | 0.05   | 0.25   | 0.35   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   |
| Arlingclose Central Case         | 0.25   | 0.55   | 0.55   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.65   | 0.65   | 0.65   | 0.65   | 0.65   | 0.65   |
| Downside risk                    | 0.00   | -0.25  | -0.25  | -0.30  | -0.30  | -0.30  | -0.30  | -0.35  | -0.35  | -0.35  | -0.35  | -0.35  | -0.35  |
| <b>5yr gilt yield</b>            |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |
| Upside risk                      | 0.00   | 0.35   | 0.45   | 0.55   | 0.55   | 0.55   | 0.55   | 0.55   | 0.55   | 0.50   | 0.50   | 0.45   | 0.45   |
| Arlingclose Central Case         | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.60   | 0.65   | 0.70   | 0.75   | 0.75   |
| Downside risk                    | -0.10  | -0.20  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.25  | -0.30  | -0.35  | -0.40  | -0.40  |
| <b>10yr gilt yield</b>           |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |
| Upside risk                      | 0.10   | 0.25   | 0.35   | 0.40   | 0.45   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.55   | 0.55   | 0.55   |
| Arlingclose Central Case         | 0.80   | 0.85   | 0.85   | 0.85   | 0.85   | 0.85   | 0.85   | 0.85   | 0.85   | 0.90   | 0.90   | 0.95   | 0.95   |
| Downside risk                    | -0.10  | -0.25  | -0.30  | -0.35  | -0.35  | -0.35  | -0.35  | -0.35  | -0.35  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.40  |
| <b>20yr gilt yield</b>           |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |
| Upside risk                      | 0.30   | 0.40   | 0.45   | 0.45   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   |
| Arlingclose Central Case         | 1.00   | 1.05   | 1.10   | 1.10   | 1.10   | 1.10   | 1.15   | 1.15   | 1.15   | 1.20   | 1.20   | 1.20   | 1.20   |
| Downside risk                    | -0.15  | -0.30  | -0.35  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.45  | -0.45  | -0.45  | -0.45  |
| <b>50yr gilt yield</b>           |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |        |
| Upside risk                      | 0.25   | 0.30   | 0.40   | 0.45   | 0.45   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   | 0.50   |
| Arlingclose Central Case         | 0.70   | 0.75   | 0.80   | 0.85   | 0.90   | 0.95   | 1.00   | 1.05   | 1.05   | 1.10   | 1.10   | 1.15   | 1.15   |
| Downside risk                    | -0.15  | -0.30  | -0.35  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.40  | -0.45  | -0.45  | -0.45  | -0.45  |

PWLB Standard Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 1.00%  
PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%  
PWLB Infrastructure Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%

## Atodiad 2- Sefyllfa Portffolio Buddsoddi a Dyled Bresennol

|                                               | 31.12.2021<br>Gwir<br>Bortffolio<br>£m | 31.12.2021<br>Cyfradd<br>Cyfartalog<br>% |
|-----------------------------------------------|----------------------------------------|------------------------------------------|
| <b>Benthyca Allanol:</b>                      |                                        |                                          |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)    | 86.0                                   | 5.75                                     |
| Benthyciadau eraill                           | 16.2                                   | 4.22                                     |
| <b>Cyfanswm benthyca allanol</b>              | <b>102.2</b>                           | <b>5.51</b>                              |
| <b>Ymrwymadau tymor hir arall:</b>            |                                        |                                          |
| Prydlesau                                     | 1.4                                    | 0.0                                      |
| <b>Cyfanswm ymrwymadau tymor hir arall</b>    | <b>1.4</b>                             | <b>0.0</b>                               |
| <b>Cyfanswm dyled gros allanol</b>            | <b>103.6</b>                           | <b>5.51</b>                              |
| <b>Buddsoddiadau trysorlys:</b>               |                                        |                                          |
| Banciau a Chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 14.5                                   | 0.13                                     |
| Llywodraeth DU                                | 5.0                                    | 0.08                                     |
| Awdurdodau Lleol                              | 27.0                                   | 0.06                                     |
| Cronfeydd Marchnad Arian                      | 27.0                                   | 0.04                                     |
| Cronfeydd wedi'i pŵlio                        | 10.0                                   | 3.97                                     |
| <b>Cyfanswm buddsoddiadau trysorlys</b>       | <b>83.5</b>                            | <b>0.53</b>                              |
| <b>Dyled Net</b>                              | <b>20.1</b>                            |                                          |

### **Atodiad 3- Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Ganllaw Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydyn nhw'n rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

**Cyfraniad:** Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaeth a / neu i hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, a
- mae eiddo buddsoddi yn darparu gwarged ariannol net sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gefnogi economi carbon isel i'r graddau, os oes buddsoddiad carbon isel cyfwerth ar gael gyda'r un enillion, yna byddai'n well gan y Cyngor y buddsoddiad carbon isel.

**Buddsoddiadau penodedig:** Mae Canllawiau LIC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- wedi'i enwi mewn punt sterling,
- i fod i gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis ar ôl y trefniant oni bai bod y gwrthbarti yn awdurdod lleol,
- heb ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- buddsoddi gydag un o:
  - Llywodraeth y DU,
  - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymunedol yn y DU, neu
  - Corff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sy'n hanu o'r DU neu wlad dramor sydd â sgôr sofran o AA + neu'n uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

**Benthyciadau:** Mae Canllawiau LIC yn diffinio benthyciad fel cytundeb ysgrifenedig neu lafar lle mae'r Cyngor yn trosglwyddo arian dros dro i drydydd parti, menter ar y



cyd, is-gwmni neu aelod cyswllt sy'n cytuno ar enillion yn ôl telerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan fydd y trydydd parti yn awdurdod lleol arall.

Gall y Cyngor ddangos bod ei amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd yn gymesur trwy osod y terfynau yn nhabl 3a. Mae'r rhain yn sicrhau nad yw cyfanswm yr amlygiad yn fwy na 20% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae llyfr benthyciadau'r Cyngor o fewn y terfynau hunanasesedig hyn.

*Tabl 3a: Terfynau Benthyc*

| <b>Benthyciwr</b>                                                       | <b>Terfyn arian</b> |
|-------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Mentrau lleol ac elusennau lleol                                        | £3m                 |
| Cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd                        | £3m                 |
| Benthyciadau ceir a beics i weithwyr                                    | £3m                 |
| Buddsoddiadau rheolaeth trysorlys sy'n cwrdd â'r diffiniad o fenthyciad | Diderfyn            |

Mae'r Cyngor yn defnyddio model 'colled credyd disgwylidig' a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir yn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9: Offerynnau Ariannol fel y'i mabwysiadwyd gan arferion priodol i fesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i reolau cymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli credyd priodol i adennill ad-daliadau hwyr.

**Buddsoddiadau amhenodol:** Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o fuddsoddiad neu fenthyciad penodol yn cael ei ddsbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau yn unig. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn nhabl 3b; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol cyfredol yn aros o fewn y terfynau hyn.

*Tabl 3b: Terfynau buddsoddiadau amhenodol*

|                                                                           | <b>Terfyn arian</b> |
|---------------------------------------------------------------------------|---------------------|
| Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw A- | £20m                |
| Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tiriog             | £10m                |
| Cyfanswm buddsoddiadau amhenodol                                          | £30m                |

**Buddsoddiadau anariannol:** Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, eiddo buddsoddi yn bennaf. Penderfynir ar ddiogelwch trwy gymharu pris prynu pob ased â'i werth teg gan ddefnyddio'r model yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y'i haddaswyd gan arferion

priodol. Ar asesiad ar 31 Mawrth 2021, mae'r Cyngor o'r farn nad yw graddfa ei fuddsoddiadau anariannol yn sylweddol.

**Hylifedd:** Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau neu fenthyciadau rheoli trysorlys, mae gan y Cyngor weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hymrwymo'n ddarbodus am y cyfnod hiraf o amser.

**Ymgynghorwyr Buddsoddi:** Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyled a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

**Benthyg cyn yr angen:** Gall y Cyngor, o bryd i'w gilydd, fenthycu cyn yr angen, lle mae disgwyl i hyn ddarparu'r gwerth gorau am arian yn y tymor hir. Gan y bydd symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi nes eu bod yn cael eu gwario, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthycwyd, a'r risg y gall cyfraddau llog buddsoddi a benthyca newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y Cyngor ar ei risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn fwy na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £200 miliwn. Disgwylir i'r cyfnod hwyaf rhwng benthyca a gwariant fod yn ddwy flynedd, er nad yw'n ofynnol i'r Cyngor gysylltu benthyciadau penodol ag eitemau gwariant penodol.

**Trefniant masnachol:** Os bydd trefniant masnachol, mae'r unigolion sy'n gwneud y fargen yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodus a'r drefn reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddi.

**Capasiti, sgiliau a llywodraethu corfforaethol:** Gwahoddwyd aelodau etholedig a swyddogion i gyflwyniad gan Arlingclose ar 7fed Chwefror 2022. Mae'r wybodaeth a'r drafodaeth yn y cyflwyniad yn sicrhau bod gan yr aelodau'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i:

- Wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid ymrwymo i fuddsoddiad penodol.
- Asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg y Cyngor
- Deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid amlygiad risg cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau ya ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, ACA a sefydliadau priodol eraill.

# Eitem 13

|                            |                                                                                                                                                                                                                           |
|----------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Pwyllgor</b>            | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu                                                                                                                                                                                         |
| <b>Teitl yr Adroddiad</b>  | Gweithio i'r Dyfodol a'r Gefnogaeth Llesiant Meddyliol                                                                                                                                                                    |
| <b>Pwrpas yr Adroddiad</b> | Rhoi trosolwg o'r cynlluniau ar gyfer gweithio i'r dyfodol a nodi'r gefnogaeth a gynigir i staff yng nghyswllt llesiant meddyliol<br><br>Gwahoddir y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried y wybodaeth a gyflwynir |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod</b>  | 10.02.2022                                                                                                                                                                                                                |
| <b>Awdur</b>               | Geraint Owen                                                                                                                                                                                                              |
| <b>Pennaeth Adran</b>      | Geraint Owen                                                                                                                                                                                                              |
| <b>Aelod Cabinet</b>       | Cynghorydd Nia Jeffreys                                                                                                                                                                                                   |

## CEFNDIR

Cyflwynir yr adroddiad mewn ymateb i gais aelodau'r Pwyllgor i dderbyn gwybodaeth am gynlluniau'r Cyngor yng nghyswllt trefniadau gweithio i'r dyfodol ac hefyd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi llesiant meddyliol staff.

Mae'r weledigaeth ar gyfer gweithio i'r dyfodol i'w chyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod o'r Cabinet ar y 15 o Chwefror ac mae cynnwys a manylion y weledigaeth honno yn cael eu nodi yn rhan gyntaf yr adroddiad.

Mae'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer llesiant a iechyd staff gan y Cyngor yn cael ei gydnabod ar "Lefel Aur" Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru. Mae manylion y gwasanaeth sylfaenol a ddarperir yng nghyswllt llesiant meddyliol, yn ogystal a'r gynhaliath ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y pandemig, yn cael eu crynhoi yn ail ran yr adroddiad.

## GWEITHIO I'R DYFODOL

### 1. GWELEDIGAETH

- Cyngor s'yn cefnogi, grymuso ac ymddiried yn y gweithlu i weithio'n hyblyg a chynhyrchiol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, mewn ffordd sydd yn lleihau'n sylweddol ein effaith ar yr amgylchedd.
- Adeiladu ar y ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau sydd wedi datblygu yn ystod y pandemig, trwy roi hyblygrwydd i staff weithio mewn ffordd hyblyg gan wneud defnydd o dechnoleg ar gyfer gweithio a chyfathrebu'n rhithiol.

### 2. GYRRWYR / BUDDION

Mae'r prif yrrwyr ar gyfer mabwysiadu trefniadau gweithio newydd i'r dyfodol fel a ganlyn;

- Llesiant staff yn elwa oherwydd gwell cydbwysedd bywyd a gwaith yn arwain at staff fwy cynhyrchiol yn eu gwaith. Mae staff yn gweld buddion o fod yn gweithio'n hyblyg, ac mae hynny wedi ei adlewyrchu yn eu dymuniadau gweithio i'r dyfodol (gweler Rhan 7 - isod)
- Manteision i'r Cyngor yn y farchnad recriwtio wrth gynnig trefniadau gweithio hyblyg ple'n bosib.
- Llai o deithio mewn cerbydau i'r gwaith, gan felly lleihau ôl troed carbon y sir.

- Cynnig hyblygrwydd o ran sut y caiff swyddfeydd eu defnyddio, gyda photensial am resymoli adeiladau i'r dyfodol.
- Profiad gweithio trwy argyfwng Covid yn dangos fod y dechnoleg yn gallu cefnogi dulliau gwahanol o weithio; symud mwy i gyfeiriad ple bo lawer llai o ddibynnu ar bapur.
- Gwneud gwell defnydd o amser gwaith staff – llai o deithio.
- Gall trefniadau gweithio hyblyg roi gwell cyfleoedd i bobl anabl ac unigolion sy'n gofalu am bobl anabl, gan gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.

### 3. EGWYDDORION

Bydd rhai egwyddorion yn sylfaen ar gyfer y trefniadau gweithio'n hyblyg;

- Ple bo amgylchiadau'r swydd yn caniatáu, bydd unrhyw drefniant gweithio'n hyblyg yn wirfoddol i aelodau staff.
  - Bydd unrhyw drefniant gweithio'n hyblyg yn ddibynnol ar natur y swydd a bydd angen sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar wasanaethau i bobl Gwynedd.
  - Nid yw'r trefniadau gweithio newydd yn ymwneud ag addasu niferoedd na strwythur presennol y gweithlu, ond yn hytrach yn ymwneud a sut mae staff yn cyflawni eu gwaith a darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.
  - Bydd unrhyw drefniant gweithio gartref yn ddibynnol ar fod gofod ac amgylchiadau'r cartref yn caniatáu i'r unigolyn gyflawni eu swydd yn effeithiol a diogel.
- Cynhelir cyfarfodydd mewnol yn rhithiol (i gynnwys cyd-swyddogion ac Aelodau unigol) gan ddefnyddio "Microsoft Teams" yn arferol, gan gydnabod y budd o gynnal cyfarfodydd tîm wyneb i wyneb yn achlysurol yn ystod y flwyddyn.
- Fod llesiant staff yn ganolog i'r trefniadau a byddent yn parhau i dderbyn cefnogaeth cyson megis cyfathrebu amserol, hyfforddiant, cefnogaeth iechyd, diogelwch a lles (gan gynnwys lles meddyliol) gan eu rheolwyr llinell a'r Cyngor yn ehangach.
  - Mae'r weledigaeth yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth weithio o bell, gyda'r nod o alluogi i 30% o weithlu Cymru weithio yn agos at neu o'u cartrefi.

### 4. TREFNIADAU GWEITHIO

Rhagwelir y bydd staff y Cyngor, ble fod posib cyflawni eu swyddi mewn ffordd hyblyg, yn arddel un o'r trefniadau gweithio yma:

- **Gweithio Gartref** – mae'r staff yn cyflawni eu holl gwaith o'r cartref oni bai am achlysuron pan fydd gofyn iddynt fynychu'r swyddfa ar gais rhesymol gan y rheolwr (e.e. mynychu cyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb) neu oherwydd anghenion gwasanaeth.
- **Gweithio o Swyddfa** – mae'r staff yn cyflawni eu holl gwaith o swyddfa.
- **Gweithio Hybrid** – mae'r staff yn cyfuno gweithio o'r cartref ac o'r swyddfa. Bydd diwallu anghenion gwasanaeth yn cymryd blaenoriaeth mewn trefniant gweithio hybrid, a bydd rhaid i'r patrwm gwaith fod yn gytunedig gyda'r rheolwr. O dan trefniadau gweithio hybrid disgwylir i'r aelod staff weithio isafswm o 2 ddiwrnod yr wythnos o gartref (neu gyfran gyfystyr o'r wythnos waith i weithwyr rhan amser).

## **5. DYMUNIADAU STAFF AM DREFNIADAU GWEITHIO I'R DYFODOL**

- Mae tua 1,800 o staff o fewn y Cyngor yn ymgymryd a swyddi ble gellid y gellid eu cyflawni o gartref i'r dyfodol.
- Ym mis Medi 2021 bu trafodaethau rhwng y rheolwr a'r aelodau staff hyn, er mwyn cael dealltwriaeth a throsolwg cychwynnol am eu dymuniadau gweithio i'r dyfodol. Nid oedd yr ymatebion gan staff yn ymrwymiad ffurfiol i arddel y trefniadau gweithio penodol yma.
- Yn fras, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:
  - 59% yn dymuno trefniant gweithio
  - 25% yn dymuno gweithio o adref
  - 15% yn dymuno gweithio o swyddfa

Byddai unrhyw drefniant gweithio hyblyg/newydd yn destun i gyfnod treial cyn cytuno'n derfynol, er mwyn adolygu addasrwydd y trefniadau o safbwynt yr aelod staff a'r Cyngor fel cyflogwr.

## **6. SWYDDFEYDD**

- Wrth fabwysiadu model newydd o weithio mae'n anorfod y bydd angen newidiadau i'r swyddfeydd er mwyn hwyluso hyn. Mae'n annhebygol y gellid adnabod gweithfan/desg ddynodedig barhaol yn y swyddfa ar gyfer aelodau staff sydd yn gweithio i drefniadau hybrid. Bydd darpariaeth system ar gyfer archebu desgiau ar-lein pan fo aelodau o staff hybrid yn gweithio o'r swyddfa.
- Rhagwelir y bydd y parthau/ardaloedd yn cael eu hadnabod o fewn y swyddfeydd ar gyfer gwasanaethau a thimau penodol er mwyn hwyluso cyd-weithio a bydd darpariaeth ystafelloedd penodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd a chyflawni gwaith cyfrinachol.
- Bydd angen gwaith pellach i'r dyfodol er mwyn edrych ar y posibilrwydd o greu hybiau cymunedol fwy lleol fel mannau gweithio ar gyfer staff y Cyngor, neu ar y cyd gyda'n partneriaid.

## **7. AMODAU GWAITH / POLISIÂU CYFLOGAETH**

- Mae nifer o amodau gwaith a pholisiau cyflogaeth yn cael eu hadolygu er mwyn cyfarch a pharatoi ar gyfer y ffordd newydd o weithio i'r dyfodol.
- Rydym yn ymgynghori gyda chynrychiolwyr yr Undebau Llafur yn lleol wrth wneud hyn.

## **8. DYSGU A DATBLYGU**

- Mae Hyfforddiant Arwain o Bell eisoes ar gael i reolwyr ac arweinwyr. Mae gwaith datblygol ar y gweill er mwyn darparu hyfforddiant pellach e.e. sgiliau arwain / cynnal timau hybrid. Bydd yn hanfodol fod rheolwyr a gweithwyr yn cadw cysylltiad trwy sgysiau lles a pherfformiad rheolaidd. Bydd angen i reolwyr a gweithwyr gytuno a chynllunio sut y byddent yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd, a bydd cyfrifoldeb ar y ddwy ochr i sicrhau fod y cyfarfodydd a'r cyfathrebu cytunedig yn cael eu cynnal.
- Trefniadau anwytho staff newydd - mae dod i adnabod cydweithwyr a dysgu oddi wrth eraill yn llawer mwy heriol wrth weithio gartref; nid yw cyfathrebu rhithiol yn llenwi'r bwlch hwn yn llawn bob amser. Bydd angen trefniadau anwytho a chyfathrebu cadarn er mwyn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i staff newydd.

## **9. IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT**

- Bydd pob amgylchedd gwaith (gan gynnwys y gweithfannau cartref) yn destun asesiad risg i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr.
- Mae'r Cyngor eisoes yn ymrwymedig i gefnogi a chynnal llesiant meddyliol ei holl staff a bydd yr arweiniad a'r gefnogaeth i'r dyfodol yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyfarch yr amgylchedd gwaith newydd.

## **10. TECHNOLEG GWYBODAETH**

- Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth ffônau desg, gan fanteisio ar feddalwedd ffônau ar y cyfrifiaduron. Bydd ffônau traddodiadol ar ddesg (gyda rhai eithriadau yn unig) yn diflannu dros gyfnod o amser yn ystod 2022.

## **11. DIOGELU DATA**

- Bydd polisiâu diogelwch gwybodaeth yn cael eu hadolygu ac arweiniad perthnasol yn cael ei rannu gyda staff yn amserol.
- Bydd angen i wasanaethau ystyried a gweithredu ymatebion priodol i rwymedigaethau diogelu data, sef o ran sgysiau sensitif/cyfrinachol sy'n digwydd mewn cartrefi, diogelwch dogfennaeth copi caled yng nghartrefi swyddogion a swyddfeydd, sy'n gymesur a sensitifwydd a maint y data personol a effeithir.

## **12. COSTAU**

- Bydd angen i'r trefniadau gweithio newydd fod yn o leiaf gost-niwtral i'r Cyngor ar ôl unrhyw fuddsoddiad cychwynnol.
- Fel rhan o'r negodi cenedlaethol ar dâl ac amodau gwaith ar gyfer 2021 mae'r undebau llafur wedi gofyn i awdurdodau lleol fod yn talu lwfans gweithio o gartref (£26 y mis) i staff sydd yn gweithio o adref yn rheolaidd. Mae'r cyflogwyr yn genedlaethol wedi gwrthod yr elfen yma o'r cais. Mae'r cais hefyd wedi ei ystyried yn lleol, ond gan mai gwirfoddol fydd gweithio o adref a bod buddion eraill i staff o gael caniatâd i weithio o adref, ni ystyrir yn addas i fod yn talu lwfans. Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn ystyried y ffaith y bydd llawer o'r staff yn arbed ar eu costau teithio i'r swyddfa yn ddyddiol, a gellid gosod hynny yn erbyn y gost ychwanegol o weithio gartref.
- Bydd gan bob aelod o staff safle waith gorfforaethol enwebedig o hyd, a gallent hawlio treuliau teithio a chynhaliadau ohoni, ac felly ni fydd newid i'r polisi presennol ar hawlio costau teithio.
- Roedd arbedion costau teithio ar gyfer staff ym mlwyddyn ariannol 2020-21 yn £977,499. Gan nad yw'r Cyngor wedi dychwelyd i weithio eto heb unrhyw gyfyngiadau mae'n anodd amcangyfrif beth fydd yr arbediad parhaol ar deithio.
- Mae adnodd amcangyfrifol un-tro wedi ei glustnodi ar gyfer unrhyw addasiadau swyddfa ac anghenion TG, offer ayyb.
- Mae'n bosib y bydd arbedion yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas ag eiddo, trwy resymoli gofod swyddfeydd.

## **LLESIANT MEDDYLIOL**

### **1. IECHYD GALWEDIGAETHOL**

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol wedi bod ar gael i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i unigolion, rheolwyr a gwasanaethau. Yn ogystal, mae pob aelod o staff bregus rheng flaen (staff sydd gan gyflyrau meddygol gwaelodol) wedi eu cyfeirio am ymgynghoriad 1 i 1 gyda'r Uned Iechyd Galwedigaethol er mwyn cael cyngor meddygol ar addasiadau angenrheidiol i'w gwarchod rhag y feirws, a hefyd i drafod pryderon sydd ganddynt gan fod hyn wedi bod yn gyfnod hynod pryderus i unigolion bregus.

### **2. MEDRA**

Mae'r ddarpariaeth cwnsela wedi parhau dros y cyfnod, gyda Medra yn parhau i dderbyn cyfeiriadau. Oherwydd sefyllfa'r coronafeirws mae'r rhan fwyaf o gwnselwyr yn defnyddio naill ai cwnsela dros y ffôn neu'n rhithiol. Mae sesiynau rhagweithiol (fel *de-brief*) wedi eu cynnig i staff gofal sydd wedi bod yn gweithio mewn amgylchiadau anodd, a chrewyd fideo gan Medra i'w rhannu gyda staff rheng flaen i gyd.

### **3. PECYN CEFNOGAETH COVID-19**

Datblygwyd 'Pecyn Cefnogaeth Covid-19' er mwyn cefnogi staff mewn cyfnod heriol iawn. Mae gwybodaeth benodol ar lesiant meddyliol ac emosiynol yn rhan o'r pecyn a'r Cyngor wedi sicrhau fod apiau penodol ar gael i staff yn rhad ac am ddim ac sy'n rhoi cymorth gyda chwsig ac hunan ofal.

Mae lluo o wybodaeth ar gael fel rhan o'r pecyn megis newyddion diweddaraf, gwybodaeth ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, diogelu, pethau sydd yn effeithio ar waith e.e. gwyliau, salwch, cyflog ynghyd ag adran sy'n rhoi cyngor ar sut i ofalu am ein hunain ac adran benodol ar gyfer rheolwyr. Mae'r wybodaeth a'r adnoddau i gyd ar gael ar wefan allanol er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff y Cyngor yn gallu cael mynediad at y wybodaeth sydd ar gael. Mae modd hefyd cael mynediad ar ffôn symudol, ar ddyfais llechen (ipad er enghraifft) ac ar gyfrifiadur. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau fod y wybodaeth yn gyfredol.

### **4. RHAGLEN HYBU IECHYD A LLESIANT**

Mae'r rhaglen hybu iechyd a llesiant staff wedi parhau yn ystod y pandemig ond mae'n bwysig nodi fod y rhaglen wedi ei haddasu er mwyn cwrdd ac ymateb i'r sefyllfa bresennol.

Ym mis Ebrill 2020 trefnwyd cyfres o sesiynau penodol i staff dan y teitl '**Edrych ar ôl eich Lles Meddyliol**'. Cynhaliwyd y sesiynau yma'n rhithiol gan Andrew Tamplin o Cana Consulting. Ynghyd â sesiynau i staff trefnwyd sesiynau penodol i reolwyr hefyd dan y teitl '**Edrych ar ôl Lles Meddyliol ein Staff**'. Cafwyd dilyniant i'r sesiynau ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2020 pan gynhaliwyd sesiynau ar '**Hunanofal ac edrych ar ôl ein hunain**' a '**Delio gyda gorbryder**'. Mynychodd dros 300 o aelodau staff y sesiynau hyn ac roedd yr adborth a gafwyd yn wych. Mae rhai Adrannau wedi mynd ati i drefnu sesiynau eu hunain yn ogystal e.e. mae sesiynau Canna Consulting hefyd wedi eu trefnu gan yr Adran Addysg i Benaethiaid ysgolion. '**Sesiynau Seibiant**' yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Andrew Tamplin

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol hefyd wedi bod yn rhoi cyflwyniad byr i Adrannau a gwasanaethau er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gefnogaeth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig megis cyngor arbenigol, cyfeiriadau at y gwasanaeth cwnsela a'r gwasanaeth ffisio. Rhoddir pwyslais ar les meddyliol a sut i sicrhau balans bywyd a gwaith.

Fel rhan o'r rhaglen hybu iechyd a llesiant mae cynllun newydd wedi'i sefydlu ar gyfer staff y Cyngor o'r enw '**Camu Mlaen '21'**', cynllun sy'n seiliedig ar y Pum Ffordd at Les. Y syniad tu cefn i 'Camu Mlaen '21' ydi creu lle ac amser i aelodau o staff y Cyngor rannu eu profiadau, dysgu a chyfarfod pobl newydd.

Fel rhan o'r cynllun, sefydlwyd her gerdded ar gyfer staff ac mae nifer wedi bod yn cymryd rhan. Mae'n gyfle gwyh i fynd am dro a rhannu profiadau a fe anogir staff i dynnu llun tra ar eu taith a'i bostio ar-lein, ar y grŵp Facebook staff neu gofnodi'r daith drwy'r ap Strava. Mae 'Camu Mlaen '21' yn annog pobl i wneud gymaint ag sy'n siwtio eu gallu neu sefyllfa, ac o fewn y rheolau cenedlaethol. Mae modd i staff llwytho'r ap STRAVA am ddim i'r ffôn ac ymuno gyda'r clwb 'Staff Cyngor Gwynedd' i gofnodi eu taith gerdded a chael gweld lle mae cydweithwyr wedi bod am dro.

Ar y pegwn arall, mae yna glwb gwyddbwyll wedi ei sefydlu ar gyfer staff ac mae'n addas ar gyfer dechreuwyr ynghyd â chwaraewyr profiadol. Hefyd mae clwb 'Palu Malen' wedi ei sefydlu fel bo modd i'r rhai hynny sydd a diddordeb mewn garddio rannu syniadau, arferion da a tips. Hefyd cynhaliwyd digwyddiadau yn gysylltiedig a chystadleuaeth pel-droed yr "Euros" fel modd arall o annog staff i gymryd rhan mewn rhywbeth gwahanol ac i ymgysylltu a chyd-weithwyr.

Mae newyddlen 'Camu Mlaen '21' wedi ei chreu a'r rhifyn cyntaf wedi ei gyhoeddi fis Chwefror 2021. Mae'r newyddlen yn gyfle i rannu profiadau unigolion sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y cynllun a hysbysu staff o ddigwyddiadau sydd i ddod.

## **5. YMGYRCHOEDD HYBU IECHYD CENEDLAETHOL**

Eleni rydym wedi cefnogi'r ymgyrchoedd canlynol:

- Diwrnod Rhyngwladol Cwsg
- Mis Ymwybyddiaeth Straen
- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl – Cyfeirio at y 5 Ffordd at Les, adnoddau wedi eu datblygu a'u rhannu, fideos ayyb
- Wythnos Iechyd Dynion – wedi creu adnoddau penodol ar les meddyliol ar gyfer dynion yngyd a fideo penodol i ddynion
- Diwrnod Atal Hunan Laddiad y Byd – fideo wedi ei gynhyrchu yn trafod profiad personol unigolyn (aelod staff) a manylion cymorth
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Wythnos Ymwybyddiaeth Straen

## **6. ARWAIN O BELL**

Mae pecyn arwain a rheoli o bell wedi ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo rheolwyr. Cynhelir cyfres o sesiynau rhithiol dan y pennawd 'Arwain o Bell'. Pwrpas y sesiynau yw arfogi rheolwyr ac arweinyddion tîm i arwain o bell er mwyn cefnogi eu timau ar wasgar mewn cyfnod ansicr ble mae newid yn anorfod. Ynghyd â'r sesiynau rhithiol mae dogfennau penodol wedi eu datblygu i gefnogi rheolwyr sef 'Llywio'r Normal Newydd' a 'Gweithio o Bell'.



Mae'r oll o'r darpariaethau hyn wedi ei gyfathrebu gyda staff drwy'r mewnwyd, facebook staff, hunan wasanaeth staff, newyddlen "Camu 'Mlaen", bwletin y Prif Weithredwr, Gair o Gyngor yn ogystal a negeseuon penodol a rheolaidd i benaethiaid a rheolwyr.

## **7. DATBLYGIADAU PELLACH**

Mae bid unwaith ac am byth am £50,000 wedi'i gyflwyno ar gyfer 2022-23 er mwyn buddsoddi ymhellach yn y ddarpariaeth i gefnogi llesiant meddyliol. Bwriedir defnyddio'r arian yma, pe'i gymeradwyir, i gynorthwyo rheolwyr ac arweinyddion i adnabod symptomau straen ac iselder ymysg staff a sut orau i gynnal sefyllfaoedd fel hynny. Byddwn hefyd yn atgyfnerthu'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth ymysg staff yn gyffredinol ac hynny mewn rhagdybiaeth y byddwn yn wynebu nifer uwch o sefyllfaoedd ple bo angen cefnogaeth ac hyfforddiant yn dilyn y sefyllfa a wynebwyd dros y ddwy flynedd diwethaf.

# Eitem 14

|                    |                                                                                                                            |
|--------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| ENW'R PWYLLGOR     | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu                                                                                          |
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 10 Chwefror 2022                                                                                                           |
| TEITL YR EITEM     | Adroddiadau Archwilio Cymru                                                                                                |
| AMCAN              | Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 3 Archwilio Cymru ac adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar |
| ARGYMHELLIAD       | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.                                                                                   |
| AWDUR              | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor                                                                  |

## 1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 3 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.
- 1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 14eg o Hydref 2021. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin.
- 1.4. Yn y cyfamser mae copi o adroddiadau 'Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn' (Adroddiad Rhanbarthol a Chenedlaethol), 'Adolygiad o Reoli Perfformiad' a Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021' wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 2, 3 a 4**.

## Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

Diweddariad Chwarterol: 31 Rhagfyr 2021

### Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad                                                                                                                               | Amserlen    | Statws                                                      |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------|-------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.</b> | Ionawr 2022 | Cyhoeddwyd Adroddiad drafft i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2021. |

### Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad                                               | Cwmpas                                                                                                                   | Amserlen                             | Statws                                                                                            |
|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020-21 y Cyngor</b> | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. | Mehefin 2021 hyd at fis Hydref 2021. | Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar y Datganiad o Gyfrifon ar 19 Hydref 2021. |
| <b>Archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd</b>      | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. | Medi 2021 hyd at fis Tachwedd 2021   | Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar y cyfrifon ar 19 Tachwedd 2021.           |
| <b>Grantiau</b>                                          |                                                                                                                          | 31 Ionawr 2022                       | Mae'r archwiliad yn mynd rhagddo.                                                                 |

|  |                                                           |                  |                                                                                 |
|--|-----------------------------------------------------------|------------------|---------------------------------------------------------------------------------|
|  | Ardystio hawliadau Cymhorthdal Budd-daliadau Tai 2020-21. | 30 Tachwedd 2021 | Mae'r archwiliad wedi'i gwblhau a chyhoeddwyd y dystysgrif ar 25 Tachwedd 2021. |
|  | Ardystio Ffurflen Bensiwn Athrawon 2020-21                | 19 Tachwedd 2021 | Mae'r archwiliad wedi'i gwblhau a chyhoeddwyd y dystysgrif ar 8 Rhagfyr 2021.   |
|  | Ardystio Ffurflen Ardrethi Annomestig 2020-21             |                  |                                                                                 |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21                  | Cwmpas                                                                                                                                                                                           | Amserlen       | Statws                                                                            |
|-------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|-----------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn</b> | Prosiect sy'n gyffredin i gynghorau gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut mae partneriaid yn cydweithio i gomisiynu gofal cartref preswyl a nysio yn strategol. | Wedi'i gwblhau | Cyhoeddwyd yr adroddiad rhanbarthol a chenedlaethol terfynol ym mis Rhagfyr 2021. |

| Gwaith archwilio perfformiad 2021-22                                                   | Cwmpas                                                                                                                                                                                                                                                                   | Amserlen       | Statws                                  |
|----------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|-----------------------------------------|
| <b>Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf LICD)</b> | Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau o dan LICD o'r camau i gyflawni amcanion lles ynghyd â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn. | Amherthnasol   | Amherthnasol                            |
| <b>Archwiliad adrodd ar welliannau</b>                                                 | Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.                                                                                                                                                                                                       | Wedi'i gwblhau | Cyhoeddwyd tystysgrif ym mis Awst 2021. |

| Gwaith archwilio perfformiad 2021-22                                           | Cwmpas                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Amserlen                   | Statws                                                      |
|--------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|-------------------------------------------------------------|
| <b>Sicrwydd as Asesu Risg</b>                                                  | <p>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.</p> <p>Yng Nghyngor Gwynedd mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefyllfa ariannol</li> <li>• Trefniadau hunanasesu</li> <li>• Cynllunio adferiad</li> <li>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)</li> <li>• Cynlluniau lleihau carbon</li> </ul> | Ebrill 2021 i Fawrth 2022  | Cyflwyniad i'r Cabinet ym mis Chwefror 2022.                |
| <b>Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy</b> | <p>Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.</p>                                                                                                                                                                                                                                                | Rhagfyr 2021 i Fawrth 2022 | Gwaith maes sy'n mynd rhagddo.                              |
| <b>Adolygiad o Reoli Perfformiad</b>                                           | <p>Adolygu'r ffordd y mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Awst 2021 i Ionawr 2022    | Cyhoeddwyd Adroddiad drafft i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2021. |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol a gynllunir/ sydd ar waith

| Astudiaeth                                     | Cwmpas                                                                                                                                                                      | Amserlen                    | Statws                                                                    | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd                                                         |
|------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|---------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Taliadau Uniongyrchol</b>                   | Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol                                                                                 | Cyhoeddi yng Ngaeaf 2021-22 | Dod i gasgliadau canol mis Hydref, drafftio a chyhoeddi yn gynnar yn 2022 | Na – gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a detholiad o gyfweiliadau dilynol. |
| <b>Gwasanaethau Brys</b>                       | Adolygiad o ba mor dda y mae'r gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio                                                                                                 | Cyhoeddi yng ngaeaf 2021-22 | Clirio, gyda chyhoeddiad ddiwedd Ionawr 2022                              | Amherthnasol                                                                                              |
| <b>Gwaith dilynol ar Bobl sy'n Cysgu Allan</b> | Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020. | Amherthnasol                | Amherthnasol                                                              | Nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2021-22.                                                           |
| <b>Tlodi</b>                                   | Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi.                                                                                 | Hydref 2021 i Hydref 2022   | Gwaith maes                                                               | Ie – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor.                                                      |

| Astudiaeth                   | Cwmpas                                                                                                            | Amserlen                  | Statws      | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd    |
|------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|-------------|------------------------------------------------------|
| <b>Mentrau Cymdeithasol</b>  | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau | Hydref 2021 i Hydref 2022 | Gwaith maes | Ie – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| <b>Cydnorthedd Cymunedol</b> | Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau                                 | Hydref 2021 i Hydref 2022 | Gwaith maes | Ie – cyfweiliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22                        | Cwmpas                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Amserlen                                                                                        | Statws       |
|---------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|
| <b>Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol</b> | Mae Estyn wedi gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllaw arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllaw sydd wedi'i ddiweddararu (a gyhoeddir ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu yn yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen gwneud unrhyw fireinio ychwanegol. | Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol i aildddechrau tuag at ddiwedd tymor yr Hydref | Amherthnasol |
| <b>Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm</b>           | Consortia rhanbarthol a chymorth awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm.                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref – cyhoeddi ddechrau mis Chwefror.                         | Amherthnasol |

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC 2021-22        | Cwmpas                                                                                                                                                                                   | Amserlen                  | Statws                                                                                                                                                                                    |
|---------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwiriad Sicrwydd Cenedlaethol 2020-21 | Mae AGC bellach wedi cyhoeddi pob llythyr gwirio sicrwydd. Mae AGC wedi cyhoeddi ei adroddiad gwirio sicrwydd cenedlaethol sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol.    | Wedi'i gyhoeddi           | Wedi'i gwblhau                                                                                                                                                                            |
| Rhaglen 2022-23                       | Bydd AGC yn cynnal rhaglen flynyddol o wiriadau sicrwydd, arolygiadau gwerthuso perfformiad ac arolygiadau sy'n seiliedig ar risg.                                                       | Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | Cynllunio                                                                                                                                                                                 |
| Adolygiad cenedlaethol                | Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.                                                                                                                                                     | Wedi'i gyhoeddi           | Wedi'i gwblhau                                                                                                                                                                            |
| Gwaith dilynol                        | Bydd AGC yn cynnal gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgarwch arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen. | Ym mynd rhagddo.          | <p>Mae un arolygiad dilynol sy'n seiliedig ar risg wedi digwydd ac mae i'w gyhoeddi.</p> <p>Mae dau wiriad sicrwydd dilynol ychwanegol wedi digwydd ac maent i'w cyhoeddi maes o law.</p> |
| Arolygiad                             | Bydd gweithgarwch arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen.                                                                                                                 | Yn ôl y gofyn             | Ni threfnir unrhyw arolygiadau ar hyn o bryd (hyd at fis Ebrill 2022)                                                                                                                     |



| Gwaith arfaethedig<br>AGC 2021-22                                                                                     | Cwmpas                                                                                                                 | Amserlen                    | Statws   |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|----------|
| <b>Datblygiad</b>                                                                                                     | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei ddull o arolygu ac adolygu awdurdodau lleol.                                         | Ebrill 2022                 | Ar waith |
| <b>Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020-21</b> | Adroddiad monitro blynyddol ar ffurf drafft ar hyn o bryd – mae hwn yn adroddiad ar y cyd ag Arolygiaeth Iechyd Cymru. | Rhagfyr 2021                | Ar waith |
| <b>Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol</b>                                     | Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol                                                   | Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022 | Ar waith |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2021

| Teitl yr adroddiad                                                                            | Dyddiad cyhoeddi a doleri i'r adroddiad |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|
| Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn                                                           | <a href="#">Rhagfyr 2021</a>            |
| Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru                                                       | <a href="#">Tachwedd 2021</a>           |
| Gofalu am y Gofalwyr?<br>Sut roedd cyrff y GIG yn ategu lles staff yn ystod pandemig COVID-19 | <a href="#">Hydref 2021</a>             |
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol                                                       | <a href="#">Medi 2021</a>               |
| Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG                                                                | <a href="#">Medi 2021</a>               |

| Teitl yr adroddiad                                                                                 | Dyddiad cyhoeddi a doleri'r adroddiad |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|
| <b>Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus<sup>1</sup></b>                                                  | <a href="#">Medi 2021</a>             |
| <b>Adfywio Canol Trefi</b>                                                                         | <a href="#">Medi 2021</a>             |
| <b>Cyllid myfyrwyr</b>                                                                             | <a href="#">Awst 2021</a>             |
| <b>Offeryn data cyllid y GIG 2020-21</b>                                                           | <a href="#">Mehefin 2021</a>          |
| <b>Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru</b>                                              | <a href="#">Mehefin 2021</a>          |
| <b>Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: gwaith dilynol</b> | <a href="#">Mai 2021</a>              |
| <b>Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru</b>                        | <a href="#">Mai 2021</a>              |
| <b>Yn ôl eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol</b>                                | <a href="#">Ebrill 2021</a>           |
| <b>Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19</b>                    | <a href="#">Ebrill 2021</a>           |

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. Dros y chwe wythnos a ganlynodd, cyhoeddwyd pum sylwebaeth sector byr: [Darlun o lywodraeth leol](#), [Darlun o ofal iechyd](#), [Darlun o ofal cymdeithasol](#), [Darlun o ysgolion](#), [Darlun o addysg uwch ac addysg bellach](#).

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo/a gynllunir)<sup>2</sup>

| Teitl                                                                               | Dyddiad cyhoeddi disgwylledig |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|
| Sylwadau cyfrifon Llywodraeth Cymru                                                 | Chwefror 2022                 |
| Llywodraeth Cymru yn pennu amcanion llesiant                                        | Chwefror 2022                 |
| Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth                                     | Chwefror/Mawrth 2022          |
| Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol            | Chwefror 2022                 |
| Ymateb ac adferiad COVID/Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – cymorth trydydd sector | Chwefror 2022                 |
| Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwebaeth gofal wedi'i chynllunio              | Mawrth 2022                   |
| Gweithlu Llywodraeth Cymru                                                          | Chwefror/Mawrth 2022          |
| Gwasanaethau orthopedig                                                             | Mawrth 2022                   |
| Diwygio'r cwricwlwm                                                                 | Gwanwyn 2022                  |
| Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb                                                 | Gwanwyn 2022                  |
| Newid hinsawdd – adolygiad sylfaenol                                                | Gwanwyn/haf 2022              |

<sup>2</sup> Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn inni ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd.

| Teitl                                                              | Dyddiad cyhoeddi disgwylledig |
|--------------------------------------------------------------------|-------------------------------|
| Ymateb ac adferiad COVID/rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – arall | I'w gadarnhau                 |
| Tai fforddiadwy                                                    | I'w gadarnhau                 |
| Seilwaith band eang                                                | I'w gadarnhau                 |
| Rheoli perygl llifogydd                                            | I'w gadarnhau                 |

## Digwyddiadau a chyhoeddiadau y Gyfnewidfa Arfer Da yn y dyfodol

| Teitl                                                                                                                                               | Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwylledig |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------|
| Adnoddau ar ôl y digwyddiad gan gynnwys recordiadau sesiwn ar gyfer digwyddiad Llamu Ymlaen ar gadernid sefydliadol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021. | Diwedd Ionawr 2022                       |
| Digwyddiad Taliadau Uniongyrchol (teitl i'w gadarnhau)                                                                                              | 30 Mawrth 2022                           |

# Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cyngorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2467A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed; caiff hyn ei wneud yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy'n arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae cryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflawni i gyd-fynd â hi'n cynnig y potensial i lywio newid cadarnhaol a threfniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

Adroddiad cryno

Cefndir 4

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 5

Negeseuon allweddol a'r casgliadau ar y cyfan 6

Mae partneriaid yn cydweithio i ddarparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed ond maent yn cario risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â sefydlogrwydd y farchnad, y gweithlu, a threfniadau cyn lleoli, ynghyd â dibyniaeth ar brynu ar y pryd 7

Roedd Datganiad Siapio'r Farchnad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2018 yn nodi rhai dyheadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yr ychwanegwyd atynt gan ymateb y BPRh i 'Cymru Iachach' yn 2019; fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi llywio datblygiad strategaeth ranbarthol eglur ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru na chynllun cyflawni i fwrw ymlaen â'r dyheadau a nodwyd 10

Er bod rhwydwaith y BPRh yn dod â phartneriaid ynghyd i 'feddwl yn ranbarthol', mae ei strwythurau, a bennwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, yn helaeth a chymhleth, ac mae angen cryfhau llinellau atebolrwydd 13

Mae strwythurau ffioedd a bennir yn genedlaethol yn gymhleth ac yn arwain at ffocws sylweddol ar gost sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd 15

Mae angen i bartneriaid wneud mwy i ddangos eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth gomisiynu darpariaeth mewn cartrefi gofal a gwneud lleoliadau unigol 19

Argymhellion 22

Atodiad 1 – Siart strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 23

# Adroddiad cryno

## Cefndir

- 1 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
- 2 Ledled Cymru, mae costau comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yn gannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn ac effeithir ar filoedd lawer o bobl.


### Arddangosyn 1: ffeithiau allweddol am gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal

Mae'r arddangosyn yn nodi rhai ffeithiau allweddol am wasanaethau cartrefi gofal i oedolion yng Ngogledd Cymru.

**4,353**

O bobl dros 65 oed yn cael gwasanaethau mewn cartrefi gofal i oedolion yng Ngogledd Cymru gan awdurdodau lleol yn 2018-19.

O'r rhain, mae **1,034** yn cael gwasanaethau nyrsio hefyd.



Mae data 2016<sup>1</sup> yn dynodi bod 6,048 o leoedd preswyl mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru, sy'n cynnwys:

**2,636** o leoedd preswyl

**1,194** o leoedd preswyl i'r Henoed sy'n Eiddil eu Meddwl

**1,555** o leoedd nyrsio cyffredinol

**663** o leoedd nyrsio i'r Henoed sy'n Eiddil eu Meddwl

**£74.2 miliwn**

Gwariant Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ar leoliadau nyrsio a phreswyl ar gyfer pobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn 2019-20 (Stats Cymru)

**£98.8 miliwn**

Costau Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir y Bwrdd Iechyd yn 2019-20 (Cyfrifon Blynnyddol)<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Datganiad Siapio'r Farchnad – Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru

<sup>2</sup> Data wedi'i gael o Gyfrifon Blynnyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r mwyafrif ond nid yr holl gostau Gofal Iechyd Parhaus yn ymwneud â lleoliadau mewn cartrefi gofal.



- 3 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau a byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn eu hardal. Dylai partneriaid adnabod pa wasanaethau y mae eu hangen a defnyddio'u hadnoddau'n effeithiol; er enghraifft, trwy sefydlu a chynnal trefniadau cronfa gyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o ran llety mewn cartrefi gofal.
- 4 Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau gan gynnwys ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia. Yng Ngogledd Cymru, mae'r BPRh yn cynnwys y partneriaid statudol – Cynghorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 5 Yn gynnar yn 2020, fe wnaethom nodi bod mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn risg i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd am y rhesymau canlynol:
- lefel uchel o wariant ar y gwasanaethau hyn;
  - codiadau a ragwelir yn niferoedd y bobl hŷn y disgwylir y bydd angen cymorth arnynt;
  - cystadleuaeth recriwtio a chadw rhwng darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a rhannau o'r sector annibynnol yn ogystal â chyflogwyr manwerthu a lletygarwch; a
  - manteision posibl mynd ati'n strategol i gomisiynu ar draws cyrff sector cyhoeddus Gogledd Cymru nad ydynt wedi cael eu cyflawni hyd yma.
- 6 Yn ystod 2020-21, mae pandemig COVID-19 wedi amlygu bregusrwydd y farchnad gofal a materion o ran ei chapasiti ynghyd â'r angen i gynllunio'n strategol ar lefel ranbarthol.

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 7 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Fe wnaed y gwaith fel rhan o'n rhaglen statudol o waith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gan adlewyrchu ffocws traws-sector yr adolygiad hwn rydym wedi cyflwyno ein canfyddiadau fel un adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer cryfhau'r dull o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal a threfniadau cysylltiedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws Gogledd Cymru i gyd. Rydym wedi defnyddio'r term cartrefi gofal i adlewyrchu pob math o gartrefi gofal nyrsio a phreswyl mewn ystyr gyffredinol er ein bod wedi nodi yn y testun pan fyddwn yn cyfeirio at un math.

## Negeseuon allweddol a'r casgliadau ar y cyfan

- 8 Wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal mae'n rhaid wrth gydweithio rhwng cynghorau, y Bwrdd Iechyd, a darparwyr i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu lletya mewn lleoliadau addas.
- 9 **Ar y cyfan, canfu ein hadolygiad fod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed; caiff hyn ei wneud yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy'n arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae cryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflawni i gyd-fynd â hi'n cynnig y potensial i lywio newid cadarnhaol a threfniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.**
- 10 Er y gallai rhai o'r materion a heriau arwyddocaol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yr ydym yn eu nodi yn yr adroddiad hwn fod yn unigryw i Ogledd Cymru, mae llawer yn bodoli oherwydd y fframweithiau, polisi a deddfwriaeth a bennir yn genedlaethol. Er bod angen gwelliant rhanbarthol, mae cyfle gwirioneddol i ystyried hyd a lled y materion hyn mewn rhanbarthau eraill, a sut y gallai diwygio cenedlaethol helpu i ddarparu llwyfan ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan argymhell camau gweithredu y dylai eu cymryd i wella'r fframwaith y mae partneriaid rhanbarthol yn gweithredu oddi mewn iddo. Nid yw darparwyr cartrefi gofal yn y sector preifat yn cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y cyfryw, ond mae arian cyhoeddus a delir i ddarparwyr o'r fath yn cael ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'r archwiliad o gyrff cyhoeddus. Fel rhan o weithgareddau comisiynu a chaffael, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried sut y gellir annog darparwyr yn y sector preifat ymhellach i gynorthwyo gyrff cyhoeddus i wella'r ddarpariaeth o ran cartrefi gofal. Caiff y canfyddiadau sy'n tanategu'r casgliadau uchod eu hystyried yn yr adrannau canlynol.

## Mae partneriaid yn cydweithio i ddarparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed ond maent yn cario risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â sefydlogrwydd y farchnad, y gweithlu, a threfniadau cyn lleoli, ynghyd â dibyniaeth ar brynu ar y pryd

- 11 Ar lefel weithredol, mae swyddogion yn parhau i weithio trwy ac o amgylch cymhlethdodau'r strwythur ariannu cenedlaethol i gael y gorau y gallant o'r farchnad cartrefi gofal. Wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal, mae rheolwyr gweithredol yn gweithio'n galed i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael y gofal gorau i ddiwallu eu hanghenion, ond rhaid i'r rhai â chyfrifoldebau am gyllidebau daro cydbwysedd rhwng hyn a'r costau hefyd.
- 12 Mae cynaliadwyedd y farchnad cartrefi gofal yn fater allweddol i Ogledd Cymru. Ceir cartrefi gofal sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus a phreifat ac mae incwm yn ddibynnol ar y galw a chyfraddau ffioedd. Mae'r dull ariannu'n fyrdymor o ran ei natur ac nid yw'n mynd i'r afael â hyfywedd ariannol tymor hwy'r farchnad. Nid yw'n mynd ati'n iawn i ragweld newidiadau hirdymor yn yr angen a sut i addasu'r farchnad i ddiwallu'r angen hwnnw ychwaith.
- 13 Mewn busnes mae'n hanfodol bod y cyflenwad a'r galw'n cyd-fynd yn agos â'i gilydd, ac yng Ngogledd Cymru, nid yw'r ddarpariaeth cartrefi gofal yn adlewyrchu'r galw. Dywedodd rheolwyr wrthym fod diffyg rhai mathau o ddarpariaeth arbenigol megis ar gyfer pobl â dementia a bod gan rai rhannau o'r rhanbarth orgyflenwad o gartrefi gofal nad oes iddynt bwyslais arbenigol. Pan fo tangyflenwad o gartrefi gofal addas mewn ardal, gall person gael ei leoli gryn bellter o'i gartref a'i gymuned leol, neu fe allai arwain at oedi cyn ei ryddhau o'r ysbyty. Pe bai lleoliad yn cael ei wneud, gallai hyn fod mewn rhannau eraill o Gymru neu weithiau y tu allan i Gymru yn gyfan gwbl. Efallai'n wir mai lleoliad y tu allan i Gymru sy'n synhwyrol ar gyfer preswylwyr mewn siroedd mwy dwyreiniol, ac ar adegau, lleoliad i ffwrdd o'r lle yr oedd y preswilydd yn byw yw'r penderfyniad cywir: er enghraifft, i fod yn nes at berthnasau neu i sicrhau bod y preswilydd yn gallu byw mewn cartref lle mae'r staff yn siarad Cymraeg yn bennaf. Fodd bynnag, gall hyn hefyd olygu bod gan berthnasau siwrneiau hir i ymweld â'u perthnasau.
- 14 Mae rhai agweddau ar y farchnad cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru sy'n creu bregusrwydd ynddi hefyd. Mae rhai perchnogion cartrefi gofal yn dynesu at oedran ymddeol a bydd arnynt eisiau gwerthu eu busnesau. Nid yw rhai cartrefi'n cydymffurfio â'r safonau amgylcheddol sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar hyn o bryd<sup>3</sup>. Unwaith y cânt eu gwerthu, efallai y bydd angen i'r perchnogion newydd

<sup>3</sup> Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

gydymffurfio os nad oes neb yn byw yn y cartrefi ar adeg eu gwerthu. Bydd hyn yn effeithio ar farchnadwyedd eu busnesau, ac efallai na fydd cost gwaith adeiladu i gydymffurfio â'r safonau'n cael ei hadlewyrchu'n ddigonol ym methodoleg y pecyn cymorth ffioedd. Mae swyddogion yn parhau i gontractio â'r cartrefi gofal hyn er nad ydynt yn cyrraedd y safonau amgylcheddol yn llawn, oherwydd byddai'r capasiti heb eu defnyddio'n rhy gyfyngedig.

- 15 Mae partneriaid, trwy'r Grŵp Gweithredol Cartrefi Gofal, wedi cynorthwyo cartrefi gofal i wella safonau ansawdd megis cymorth nyrsio datblygu ymarfer, cymorth swyddogion monitro gyda phrosesau datblygu a chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella a chynlluniau parhad busnes, recriwtio a hysbysebu swyddi gwag, cymorth iechyd yr amgylchedd gyda hylendid bwyd, swyddogion iechyd a diogelwch a chysiau dysgu Cymraeg i staff cartrefi gofal.
- 16 Hefyd, mae partneriaid yn rhoi cymorth i helpu pobl i gadw'n iach, gofalu amdanynt hwy eu hunain ac i atal eu hanghenion rhag dwysáu nes bod angen gofal a reolir. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys gwasanaethau atal cwympiadau a rhaglenni llesiant cymunedol.
- 17 Mae comisiynwyr a darparwyr yn parhau i gydweithio er gwaethaf yr heriau amlwg a achosir gan gymhlethdodau'r farchnad ar hyn o bryd. Mae rheolwyr yn cwrdd yn rheolaidd â darparwyr, a Phrif Weithredwr Fforwm Gofal Cymru, sy'n cynrychioli darparwyr, yw cadeirydd y BPRh bellach. Mae rhwystredigaethau'n ymwneud yn bennaf â'r broses a'r strwythur ffioedd, ond mae darparwyr a chomisiynwyr yn parhau i weithio trwy'r trefniant amherffaith yma.
- 18 Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn agwedd arall sy'n creu bregusrwydd o fewn y farchnad ac yn un a ddogfennwyd yn glir yn Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru 2018-2021, a ddatblygwyd gan Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (BGGC), sy'n nodi bod ei flaenoriaethau fel a ganlyn:
  - sefydlogi'r gweithlu – recriwtio a chadw;
  - dysgu a datblygu – datblygu gweithlu ar draws y sector sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth, a'r cymwyseddau i ddarparu gwasanaethau wedi'u personoli o ansawdd da; a
  - chynllunio a datblygu'r gweithlu – cynllunio'r gweithlu yn y sector cartrefi gofal.

Er bod BGGC yn adrodd wrth y BPRh a'i fod wedi gwneud gwaith i ddechrau cyflawni'r blaenoriaethau hyn, nid yw'r rhain yn rhan o gynllun cyflawni rhanbarthol cynhwysfawr.

- 19 Yn gyson â rhanbarthau eraill yng Nghymru, mae'r heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cynnwys trosiant staff uchel, swyddi gwag yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogau amrywiol mewn swyddi tebyg o fewn y Bwrdd Iechyd a chynghorau, effaith BREXIT, gofynion o ran cymwysterau a'r symiau mawr a delir am staff asiantaeth gan ddarparwyr. Mae BGGC yn gweithio ar brosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n datblygu model busnes ar gyfer asiantaeth staffio ddielw

i helpu i ymdrin â'r heriau o ran y gweithlu ledled Gogledd Cymru mewn perthynas â recriwtio, cadw a hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd y rhanbarth.

- 20 Mae Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cylchredeg gwybodaeth am hyfforddiant a recriwtio sy'n hysbysu ac yn annog staff a recriwtiaid posibl i gymryd rhan ledled Gogledd Cymru. Ac mae Sir y Fflint yn gweithio ar recriwtio seiliedig-ar-werthoedd i ddenu pobl sy'n dymuno gweithio yn y sector gofal.
- 21 Mae'r rhanbarth ar hyn o bryd yn y broses o gytuno ar gytundeb cyn lleoli (CCLI) newydd ar gyfer Gogledd Cymru ac mae wedi estyn y fersiwn gyfredol lle mae'r rhain yn eu lle, nes gellir cyflwyno'r fersiwn newydd. Fodd bynnag, nid oes CCLI ar gyfer rhai lleoliadau am fod y darparwyr hynny wedi penderfynu peidio â llofnodi'r cytundeb. Mae CCLI yn ymdrin â phethau fel gofynion cofrestru, monitro ansawdd, cyfeiriad at brosesau talu a thaliadau ar ôl marwolaeth. Nid yw manylebau gwasanaethau yn eu lle ledled y rhanbarth ychwaith. Wrth weithio i gyflwyno fersiwn newydd o'r CCLI, dylai partneriaid fod yn amcanu at gyfyngu ar achosion, ac yn ddelfrydol dileu'r achosion lle mae darparwyr yn gwrthod llofnodi'r CCLI newydd. Mae peidio â bod â'r cytundebau a'r manylebau hyn yn eu lle'n achosi risg sylweddol i leoliad y defnyddwyr gwasanaethau yn enwedig lle mae anghydfodau'n codi.
- 22 Mae cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu ar sail prynu ar y pryd, o fewn fframwaith prisiau ar y cyfan. Er bod hyn yn golygu mai dim ond am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio y maent yn talu, mae hefyd yn golygu os oes manteision ariannol posibl ar gael trwy gontractau bloc neu gontractau cost a nifer, nad yw'r rhain yn cael eu gwireddu. O ganlyniad, gallai defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid fod yn talu mwy nag y dylent.

## Roedd Datganiad Siapio'r Farchnad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2018 yn nodi rhai dyheadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yr ychwanegwyd atynt gan ymateb y BPRh i 'Cymru Iachach' yn 2019; fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi llywio datblygiad strategaeth ranbarthol eglur ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru na chynllun cyflawni i fwrw ymlaen â'r dyheadau a nodwyd

- 23 Mae 'codau a chanllawiau' Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi y dylai byrddau iechyd lleol a chynghorau, mewn perthynas â chartrefi gofal, gytuno ar ddatganiad integredig priodol o sefyllfa'r farchnad ranbarthol a strategaeth gomisiynu ranbarthol. Dylai'r rhain nodi'r canlyniadau y mae'n ofynnol i gartrefi gofal eu cyflawni, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sy'n ofynnol. Dylai fod cytundeb hefyd ar y dulliau comisiynu (er enghraifft, gall fod ar rai gwasanaethau angen contract bloc, gwasanaethau gofal canolradd camu i fyny, camu i lawr, gofal seibiant a.y.b.).
- 24 Mae partneriaid yng Ngogledd Cymru'n dal data sylweddol yn lleol ar ddefnyddwyr eu gwasanaethau, yr ystod o wasanaethau ledled y rhanbarth megis defnyddwyr gwasanaethau mewn cartrefi gofal, y rhai sy'n cael cymorth gofal cartref, darpariaeth tai gofal ychwanegol a gwasanaethau cymorth eraill. Er bod y Datganiad yn rhagfynegi cynnydd posibl yn y lleoliadau mewn cartrefi gofal yn seiliedig ar niferoedd cyfredol a rhagolygon ar gyfer y boblogaeth, nid yw'n darparu unrhyw ddata nac amcanestyniadau ynghylch effaith gwasanaethau ataliol ar leoliadau mewn cartrefi gofal.
- 25 Yng Ngogledd Cymru, mae'r model a ffafir gan bartneriaid o ran darparu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn amrywio. Mae'r ddemograffeg ledled y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol, sy'n golygu bod y galw ac anghenion comisiynu'n amrywio. Mae rhai cynghorau wedi cadw eu cartrefi gofal mewnol tra bo eraill yn dibynnu ar y sector annibynnol ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal. Mae gan y cynghorau hynny sy'n weddill gymysgedd o ddarpariaeth fewnol ac annibynnol. Mae gan rai rhannau o'r rhanbarth orgyflenwad o rai mathau o leoliadau mewn cartrefi gofal ond mae gan eraill ddifffyg capasiti mewn meysydd arbenigol megis gofal dementia. Er bod yn well gan rai partneriaid gartrefi gofal mwy newydd sy'n fwy o faint, mae'n well gan eraill gartrefi gofal llai, ond mae'r dewis i raddau helaeth wedi'i seilio ar beth sydd ar gael mewn gwirionedd neu beth

ellid ei gefnogi yn yr ardal leol. Mae'r rhan fwyaf yn gweld tai gofal ychwanegol yn disodli rhywfaint o'r capasiti cyfredol o ran cartrefi gofal.

- 26 Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, i gydymffurfio â'r Ddeddf, fe ddatblygodd partneriaid rhanbarthol Gogledd Cymru eu Datganiad Siapio'r Farchnad – **Cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru** (y Datganiad) yn 2018 yn seiliedig ar yr asesiad o'r boblogaeth. Mae'r datganiad yn ymrwymo i fynd i'r afael ag ystod o faterion gan gynnwys sgiliau'r gweithlu, y Gymraeg a'r fethodoleg ffioedd. Roedd Datganiad Siapio'r Farchnad yn nodi fel a ganlyn: 'Efallai y bydd angen ad-drefnu darpariaeth ar draws Gogledd Cymru; er enghraifft, mewn rhai ardaloedd mae diffyg darpariaeth gofal preswyl ac mewn ardaloedd eraill mae gormodedd - bydd angen datblygiad strategol cydgysylltiol er mwyn sicrhau bod perchnogion cartrefi yn ymwybodol o'r galw a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol a rhaid i gomisiynwyr a pherchnogion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r gweithlu i gwrdd yr anghenion a ragwelir (dementia a chyflyrau iechyd corfforol cymhleth).' Er ei fod yn nodi rhai o'r materion, a dyheadau ar gyfer gofal, nid oedd yn darparu gweledigaeth ranbarthol eglur na chynllun cyflawni ar gyfer gofal i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn y dyfodol.
- 27 Wrth gwrs, nid yw strategaeth ranbarthol yn golygu bod rhaid i bopeth gael ei wneud ar sail ranbarthol. Gall dull ranbarthol fod yn briodol lle mae angen eglur i wasanaethau gael eu comisiynu a'u darparu'n gyson neu lle mae'r galw'n isel am wasanaethau arbenigol iawn. Gall dull ranbarthol ddarparu'r llwyfan ar gyfer datrysiad i Ogledd Cymru hefyd ac atal profiadau sy'n gostus ac weithiau'n wael i ddefnyddwyr gwasanaethau o ganlyniad i leoliadau y tu allan i'r ardal. Gall fod cyfleoedd hefyd i greu darbodion maint trwy gomisiynu a darparu'n ranbarthol. Ar y llaw arall, gellid cyflawni dull isranbarthol lle mae ar bartneriaid eisiau cydweithio i lunio ac addasu gwasanaethau i gwrdd ag amgylchiadau lleol. Gallai dull lleol barhau lle mae pethau'n gweithio'n dda, ond gallai elwa o gael ei alinio â safonau, prosesau a strwythurau ffioedd y cytunwyd arnynt yn ranbarthol. Er bod polisi cenedlaethol yn tybio dull ranbarthol, bydd angen i bartneriaid gytuno sut y gall dull ranbarthol fod o fudd i Ogledd Cymru a beth y mae'n dal yn well ei reoli'n lleol. Yng Ngogledd Cymru, mae partneriaid yn gweithredu gyda chymysgedd o drefniadau ranbarthol, isranbarthol a lleol ond nid yw rhinweddau a chyfyngiadau pob un ohonynt wedi cael eu hystyried yn ffurfiol gan y BPRh.
- 28 Bydd angen i bartneriaid fod yn eofn er mwyn siapio'r farchnad cartrefi gofal. Mae hyn yn dechrau â gweledigaeth y cytunwyd arni, dealltwriaeth am siâp y farchnad ofal yn y dyfodol a thryloywder o ran sut y byddant yn cyflawni'r trawsnewid, gan ymgysylltu'n ystyrlon â darparwyr.
- 29 Er bod Datganiad Siapio'r Farchnad wedi ymrwymo i gyhoeddi cynllun cyflawni i'w danategu, nid yw'r gwaith yma wedi cael ei gwblhau. Er bod pandemig COVID-19 wedi dwyn goblygiadau mawr o ran capasiti ar gyfer partneriaid gofal cymdeithasol ac iechyd yn ystod 2020 a hyd yn hyn, dylid nodi bod y Datganiad wedi cael ei gymeradwyo yn 2018. Felly gallai partneriaid fod wedi bod yn datblygu cynllun cyflawni yn ystod 2018 a 2019 i nodi sut y byddid yn ymdrin â'r materion pwysig a godwyd ganddo.



- 30 Er bod y BPRh, trwy ei ymateb i 'Cymru Iachach', yn 2019, yn siarad am y newidiadau posibl y bydd eu hangen yn nifer y lleoliadau a'r math o leoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn, ni wnaeth gyfleu hyn mewn strategaeth ar y cyfan ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal na chynllun cyflawni i egluro sut y bydd yn mynd o'r lle y mae ar hyn o bryd i'r lle y mae angen iddo fod.
- 31 Fe arsylwom ni ar gyfarfod Bwrdd Comisiynu Gogledd Cymru ar 24 Chwefror 2021 fel rhan o'r adolygiad hwn. Yn y cyfarfod hwn fe gytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2020-2022 mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y rhifyn nesaf o Ddatganiad Siapio'r Farchnad. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r BPRh ddiweddarau'r Datganiad a datblygu strategaeth a chynllun cyflawni eglur, i siapio'r farchnad a'r patrwm darparu lleoliadau mewn cartrefi gofal yn enwedig mewn perthynas â'r gofal mwy cymhleth ac arbenigol, sy'n cael ei ddarparu y tu allan i'r rhanbarth ar gyfer rhai defnyddwyr ar hyn o bryd.

## **Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw'r trefniant cronfa gyfun cyfredol yn darparu gwerth am arian nac unrhyw fanteision bwriadedig sy'n gysylltiedig â'r model cronfa gyfun**

- 32 Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, o dan y Ddeddf mae'n ofynnol i bartneriaid sefydlu a chynnal trefniant cronfa gyfun i roi cymorth i gyflawni eu swyddogaethau o ran lletya mewn cartrefi gofal. Yn 2020, cododd Archwilio Cymru bryderon ynghylch sut yr oedd y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio cyflawni'r rhwymedigaethau hyn. Daethom i'r casgliad, er ei fod yn bodloni lleiafswm y gofynion o ran cydymffurfiaeth dechnegol, fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru, nad yw'r trefniant cronfa gyfun cyfredol yn darparu gwerth am arian. Fe ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at bob cyngor yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2020, yn cynnig y dylent adolygu'r trefniant cronfa gyfun cyfredol ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn, i sicrhau bod trosglwyddo arian rhwng cyrff cyhoeddus yn dwyn budd gweladwy megis comisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio mewn modd mwy integredig, gwell. Fe ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Lywodraeth Cymru hefyd i godi ei bryderon.
- 33 Hysbyswyd y BPRh hefyd ynghylch argymhellion a wnaed mewn adroddiad ar wahân a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>4</sup> ar drefniadau cyllidebau cyfun ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gadeiryddion yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno'u cynlluniau gwella yn nodi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r naw argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw, gan gynnwys sut y byddant yn defnyddio pecyn cymorth Cymdeithas

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddefnyddio cyllidebau cyfun mewn perthynas â llety mewn cartrefi gofal i bobl dros 65 oed a gyhoeddwyd](#), Mehefin 2020



Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sydd wedi bod ar gael ers haf 2019, i roi cymorth i ddatblygu cronfeydd cyfun. Roedd disgwyl i'r cynlluniau hyn gryfhau trefniadau cronfeydd cyfun ac adnabod y camau y gellir eu cymryd ar lefel Cymru gyfan i rannu gwersi a ddysgwyd. I ategu'r dull hwn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu trefniadau rhanbarthol i gomisiynu a chyfuno adnoddau.

- 34 Ymatebodd cadeirydd y BPRh i Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2021 yn nodi rhesymau partneriaid dros oedi cyn gwneud unrhyw gynnydd gyda'r trefniant cronfa gyfun nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ymatebion i'r Papur Gwyn - **Ailgydbwyso Gofal a Chymorth** oherwydd ei effaith bosibl ar rôl a swyddogaeth y BPRh. Mae'r BPRh wedi datgan yn glir ei fod o'r farn y dylai cyllidebau cyfun fod ar sail leol ac nid ar ôl troed rhanbarthol mwy. Deellir bod y BPRh mewn deialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y ffordd orau o roi'r Ddeddf ar waith yn fwy eang, ac nid dim ond mewn perthynas â defnyddio cyllidebau cyfun.
- 35 Er bod safbwynt partneriaid ar gyllidebau cyfun ar lefel ranbarthol hyd at y pwynt yma wedi'i nodi, bu Datganiad gan y Gweinidog yn ddiweddar yn nodi'r camau nesaf yn dilyn ymgynghori ynghylch y Papur Gwyn. Mae'r Datganiad yn nodi disgwyliad ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar bob lefel, gan gynnwys yn rhanbarthol. Mae hefyd yn amlygu manteision dull rhanbarthol o ddarparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ag anghenion cymhleth. Gyda hynny fel cyd-destun, mae'r argymhelliad presennol a wnaethom i holl bartneriaid BPRh Gogledd Cymru mewn perthynas â chyllidebau cyfun yn dal i fod yn berthnasol. Roedd hwn yn nodi y dylai partneriaid y BPRh adolygu'r trefniant cyllideb gyfun cyfredol ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn, i sicrhau bod trosglwyddo arian rhwng cyrff cyhoeddus yn dwyn budd gweladwy megis comisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a nysio mewn modd mwy integredig, gwell.

**Er bod rhwydwaith y BPRh yn dod â phartneriaid ynghyd i 'feddwl yn rhanbarthol', mae ei strwythurau, a bennwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, yn helaeth a chymhleth, ac mae angen cryfhau llinellau atebolrwydd**

- 36 Mae'r Ddeddf yn nodi aelodaeth BPRh; gall gynnwys cynghorydd o un cyngor yn y rhanbarth, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol, cynrychiolydd tai cyngor a chynrychiolydd addysg, landlord cymdeithasol cofrestredig, aelod o'r cyhoedd a gofalwr. Gall aelodau ychwanegol gael eu cyfethol yn ôl yr angen megis aelodau o Wasanaeth Ambiwlans Cymru, y Gwasanaeth Tân, a'r Heddlu. Gan fod BPRh Gogledd Cymru yn cwmpasu chwe chyngor a'r Bwrdd Iechyd, mae hyn yn arwain yn rheolaidd at bresenoldeb o fwy na 30 o bobl ym mhob cyfarfod.

37 Mae strwythur y BPRh wedi esblygu dros amser; er ei fod yn dibynnu ar y cyd-destun lleol, mae cryn dipyn fel y nodir gan Lywodraeth Cymru. Cefnogir BPRh Gogledd Cymru gan Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Thîm Cydweithio Rhanbarthol. Mae pedwar Bwrdd Trawsnewid sy'n cwmpasu Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn tanategu gwaith y BPRh. Ceir tri Thîm Gweithredu Lleol, sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd meddwl a thri Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal yn gweithredu'n isranbarthol, a hwythau'n cwmpasu Wrecsam a Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn, a Chonwy a Sir Ddinbych. Mae sefydlu'r byrddau hyn a Thimau Gweithredu Lleol yn dangos bod partneriaid yn cydnabod manteision trefniadau gweithio is-ranbarthol ac wedi datblygu trefniadau sy'n darparu ar gyfer gwahaniaethau lleol gan hefyd gefnogi'r dull rhanbarthol. Cefnogir y BPRh ymhellach gan grwpiau, byrddau a rhwydweithiau fel a ganlyn:

- Grŵp Gweithredol Gofalwyr
- Bwrdd Comisiynu
- Bwrdd y Gweithlu
- Fforwm Mwy na Geiriau
- Rhwydwaith Dewis Cymru
- Grŵp Cyllidebau Cyfun
- Bwrdd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol
- Grŵp Gweithredol y Gronfa Gofal Integredig
- Hyb Ymchwil, Arloesi a Gwella
- Grŵp Strategol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Mae **Atodiad 1** yn nodi'r grwpiau hyn mewn siart trefniadaeth.

38 Mae sefydlu'r grwpiau hyn yn dangos bod partneriaid yn dod ynghyd i ymdrin â rhai o'r agweddau manwl ar fusnes y BPRh. Gall presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn fynd ag amser sylweddol ond mae'n dangos ymroddiad i weithio mewn partneriaeth ledled y rhanbarth. Er bod hyn yn dangos bod y BPRh yn aeddfedu o ran y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes, mae maint strwythur a gweithrediad y BPRh yn ei wneud yn weddol anhylaw ac yn creu heriau ar gyfer y ffordd y mae'n gweithredu.

39 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau integredig yn eglur mewn deddfwriaeth a chanllawiau atodol, sy'n cynnwys rôl y BPRh o ran cyflawni'r newid hwn. Canfuom rwystrau i fwy o integreiddio rhanbarthol yng Ngogledd Cymru fel a ganlyn:

- gwahaniaeth sefydliadol – blaenoriaethau, dulliau, ac atebolrwydd;
- lleihad canfyddedig mewn atebolrwydd a achosir gan yr haen ychwanegol o lywodraethu;
- ffynhonnell cyllid a'r costau ychwanegol;
- rheolaeth leol o'i gymharu â rheolaeth ranbarthol;

- maint ac amrywiaeth y rhanbarth;
  - diffyg parodrwydd i rannu adnoddau; a
  - diffyg ymddiriedaeth ymhlith rhai partneriaid.
- 40 Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd y BPRh, efallai nad oes gan swyddogion a chynghorwyr awdurdod dirprwyedig i neilltuo adnoddau eu sefydliad eu hunain neu benderfynu ar bolisi a chyfeiriad strategol. Er bod aelodau'r BPRh yn atebol o fewn eu trefniadau llywodraethu sefydliadol hwy eu hunain, nid oes tystiolaeth i ddangos eu bod yn mynd â phenderfyniadau yn ôl i gael eu cymeradwyo, na bod trefniadau ffurfiol i graffu ar fusnes y BPRh i'w ddwyn i gyfrif na herio'i gynigion.
- 41 Mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol yn cael ei friffio gan aelodau'r BPRh ar y gweithgareddau a'r cynigion a wnaed. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd hwn yr awdurdod dirprwyedig i neilltuo adnoddau cynghorau unigol na phenderfynu ar bolisi a chyfeiriad strategol. Hefyd, nid yw'r BPRh yn cael ei ddwyn i gyfrif am gyflawni effaith nac ateb gofynion deddfwriaethol gan bartneriaid na Llywodraeth Cymru.

**Mae strwythurau ffioedd a bennir yn genedlaethol yn gymhleth ac yn arwain at ffocws sylweddol ar gost sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd**

**Mae'r ffioedd a delir am leoliadau mewn cartrefi gofal yn codi a gostwng gan ddibynnu ar adnoddau'r defnyddiwr gwasanaethau ei hun, pa gorff cyhoeddus sy'n gwneud y lleoliad a threfniadau cytundebol gyda darparwyr, ac nid yw cyfraddau ffioedd o anghenraid yn adlewyrchu cymhlethdod anghenion gofal preswylwyr**

- 42 Mae'r trefniadau ariannu ar gyfer cartrefi gofal yn gymhleth. Ar lefel uchel, mae'r cyfrifoldeb am ffioedd cartrefi gofal yn syml. Gall person ddewis symud i gartref gofal ar ei draul ei hun os oes ganddynt yr adnoddau i dalu. Os oes gan berson anghenion o ran iechyd sylfaenol, yna'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am dalu'r costau llawn. Os oes gan berson anghenion o ran gofal cymdeithasol, y cyngor sy'n gyfrifol am dalu'r costau hyn, ond bydd y defnyddiwr gwasanaethau'n cael ei asesu i bennu faint ddylai ei dalu tuag at ei ofal. Ac os oes gan berson gyfuniad o anghenion o ran iechyd ac anghenion o ran gofal yna bydd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn rhannu'r costau. Fodd bynnag, mae'r manylion y tu ôl i'r ffordd y mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn gymhleth ac yn ddryslyd.

- 43 Er enghraifft, os yw cyngor yn contractio ar gyfer y lleoliad, mae'r uchafswm y mae defnyddiwr gwasanaethau'n ei dalu am ei ofal bob wythnos yn amrywio gan ddibynnu ble y mae'n byw. Er enghraifft, byddai person â thros £50,000 o gyfalaf, sy'n byw yn Ynys Môn neu yng Ngwynedd, ac sy'n cael y lefel isaf o ofal mewn cartref gofal, yn talu £586.32 yr wythnos pe bai'n cael ei leoli yn Ynys Môn neu yng Ngwynedd. Fodd bynnag, pe bai'r un person yn cael ei leoli yng Nghonwy, byddai'n talu £611 yr wythnos, sy'n wahaniaeth o £1,283 y flwyddyn. Fel arall, pe bai'n cael ei leoli yn Wrecsam, byddai'n talu £608.72 yr wythnos, sy'n wahaniaeth o £1,164 y flwyddyn. Gall rhai pobl ddewis symud i mewn i gartref gofal y tu allan i'w hardal; ond os gwneir y penderfyniad oherwydd capasiti cyfyngedig mewn cartrefi gofal lleol, mae capasiti'r farchnad yn cael effaith ariannol uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaethau.
- 44 Mae cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn negodi gyda darparwyr bob blwyddyn i gytuno ar ffioedd ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi nyrsio a gofal preswyl. Mae cynghorau'n talu cyfradd uwch ym mhob categori ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl.
- 45 Cyfrifir y ffioedd gan ddefnyddio pecyn cymorth a addaswyd yn wreiddiol yn 2013 ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i fwriadu i nodi'r costau sydd wedi cael eu hystyried wrth gyfrifo'r ffioedd cartrefi gofal. Mae'n darparu tryloywder yn y broses a dylai ddarparu strwythur ffioedd teg, er nad yw rhai darparwyr yn rhannu eu cyfrifon busnes fel rhan o'r drefn arferol i gefnogi'r broses. Dywedwyd wrthym yn ystod yr adolygiad fod dros draean o ddarparwyr yn ystyried nad yw eu holl gostau wedi'u cynnwys o fewn y tybiaethau yn y pecyn cymorth, felly maent yn ail-negodi eu ffioedd ar wahân gyda phob cyngor. Dywedodd un cyngor wrthym fod gan ddarparwr yn ei ardal chwe chartref gyda chyfraddau ffioedd gwahanol ar gyfer pob un a bod oddeutu 20% o'r darparwyr yn yr ardal honno wedi ailnegodi eu ffioedd yn 2019-20. Os yw cyngor yn lleoli un o'i drigolion lleol yng nghartref cyngor cyfagos, bydd yn talu'r gyfradd a bennwyd gan y cyngor hwnnw, boed yn uwch neu'n is, nid y gyfradd y mae wedi cytuno arni gyda'r darparwr penodol hwnnw am leoliadau o fewn y sir.
- 46 Lle mae cynghorau'n comisiynu'r lleoliad, dylai hyn fod yn seiliedig ar y cyfraddau y cytunwyd arnynt neu'r gyfradd wythnosol a ail-negodwyd yn unigol. Bydd defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hasesu'n ariannol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i bennu faint ddylent ei dalu yr wythnos tuag at eu costau gofal, ac os ydynt yn gallu talu'r gost lawn eu hunain yna byddant yn talu'r gyfradd y cytunwyd arni gan y cyngor. O dan reolau cronfa galedi COVID-19 Llywodraeth Cymru, dyfarnwyd taliad ychwanegol dros dro ar ben y ffioedd o £50 yr wythnos ar gyfer pob preswylydd yn achos gofal preswyl a gomisiynir gan gynghorau a darpariaeth gofal preswyl fewnol; mae hyn yn ychwanegol at y ffioedd cartrefi gofal.
- 47 Os yw defnyddiwr gwasanaethau'n dewis cartref gofal lle na fydd y darparwr yn derbyn y prisiau y cytunwyd arnynt gyda'r cynghorau, gall person arall, fel arfer perthynas neu ffrind, gytuno i dalu ychwanegiad trydydd parti sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng ffioedd y cartref gofal a'r swm y byddai'r Cyngor yn ei dalu fel arfer. Os yw'r trydydd parti'n rhoi'r gorau i dalu'r ychwanegiad mae tri dewis:

- mae'r cartref gofal yn derbyn y gyfradd is y cytunwyd arni;
- mae'r defnyddiwr gwasanaethau'n symud i gartref gofal sy'n derbyn y ffioedd y cytunwyd arnynt; neu
- mae'r Cyngor yn cytuno i dalu'r ychwanegiad ar ben y ffioedd y mae wedi cytuno i'w talu.

Deallwn fod cynghorau yn aml yn cytuno i dalu'r ychwanegiad i osgoi tarfu ar ofal y defnyddiwr gwasanaethau.

- 48 Os oes gan y defnyddiwr gwasanaethau hawl i Ofal Nyrsio a Ariennir<sup>5</sup>, mae'r Bwrdd lechyd yn talu £179.79 yr wythnos ar ben y ffioedd y cytunwyd arnynt gyda'r Cyngor. Ac os yw'r Bwrdd lechyd yn gwneud lleoliad dan ei drefniadau Gofal lechyd Parhaus (GIP), bydd yn talu ffioedd gwahanol eto.
- 49 Yn 2019, roedd y Bwrdd lechyd wedi dechrau adolygu ei ffioedd a'r dull a ddefnyddir i bennu'r gyfradd GIP. Disgwylir i'r adolygiad o ffioedd gymryd hyd at dair blynedd. Os oes gan y defnyddiwr gwasanaethau anghenion gofal cymhleth uwch na'r arfer, bydd y Bwrdd lechyd yn asesu'r costau ychwanegol ac yn cytuno ar gyfradd uwch na'r cyfraddau GIP safonol.
- 50 Mewn rhai achosion, bydd cynghorau a'r Bwrdd lechyd yn cytuno i gydariannu lleoliad. Mae hyn weithiau'n cynyddu cymhlethdod y broses leoli. Mewn achosion o'r fath gall hyn olygu ei bod yn ofynnol llunio cytundeb ar wahân gyda ffi wahanol.
- 51 Mewn rhai achosion, gall y Bwrdd lechyd leoli person mewn cartref nyrsio a gallai ei iechyd wella gan olygu na fydd y Bwrdd lechyd yn atebol mwyach am y costau. Yn yr achosion hyn, gall cynghorau ddod o dan bwysau i dalu'r un cyfraddau ag y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd lechyd, a allai fod yn uwch na'r gyfradd safonol y cytunwyd arni.
- 52 Mae cyllid caledi COVID-19 ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r Bwrdd lechyd hefyd ac mae wedi gallu defnyddio peth o'r cyllid hwn i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae bod â ffrwd cyllid arall yn ychwanegu cymhlethdod pellach at strwythurau ffioedd cartrefi gofal. Fodd bynnag, yn ei dro gall ychwanegu pwysau pellach ar gynghorau pan ydynt yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y lleoliad y mae darparwyr wedi bod yn cael cyfradd wythnosol uwch amdano ond y mae angen iddynt ostwng yn awr i'r cyfraddau y cytunwyd arnynt.
- 53 Pan fo anghenion defnyddwyr gwasanaethau'n newid, gall hyn arwain at newidiadau i becynnau ariannu, a phryd hynny gall y cyfrifoldeb am ariannu newid o'r cyngor i'r bwrdd lechyd. Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae gofal a ariennir gan fwrdd lechyd yn rhad ac am ddim i'r defnyddiwr gwasanaethau. Mae'r Bwrdd lechyd yn cynllunio gwaith i gefnogi cartrefi gofal i helpu'r cartrefi i adnabod a gwerthuso'n well pryd y mae angen newidiadau i becynnau gofal.

<sup>5</sup> Ystyr Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG yw cyllid a ddarperir gan y GIG i dalu cost gofal gan nyrs gofrestredig mewn cartref gofal neu gartref nyrsio. Pennir y gyfradd yn genedlaethol.

## Mae darparwyr o'r farn bod y ffioedd a delir yn annheg ac anghyfiawn

- 54 Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn ymdrin â chanlyniadau cyni ariannol am nifer o flynyddoedd. Felly mae'r pwyslais wedi bod ar ddarparu a chomisiynu gwasanaethau am y gost isaf bosibl. I gartrefi gofal mae hyn wedi arwain at graffu ar eu ffioedd i bennu cyfraddau fforddiadwy gyda chydbwysedd yn cael ei daro rhwng hynny a'r angen i ddarparwyr ddal i fod yn hyfyw fel busnesau. Yng Ngogledd Cymru, gwneir hyn trwy ddefnyddio'r pecyn cymorth pennu ffioedd.
- 55 Cododd darparwyr y siaradom ni gyda hwy yn ystod yr adolygiad hwn bryderon ynghylch y pecyn cymorth a ddefnyddir i gyfrifo'r lefelau ffioedd. Mae maint y cartrefi'n amrywio'n sylweddol, felly gall darbodion maint amrywio. Roedd darparwyr yn derbyn bod angen proses dryloyw i gytuno ar ffioedd ond roeddent yn cwestiynu i ba raddau y mae'r pecyn cymorth yn diwallu'r angen hwn, ac fe wnaethom nodi bod llawer o ddarparwyr yn peidio â rhannu eu cyfrifon. Cydnabyddir yr angen am newid yn y Datganiad lle ymrwymodd partneriaid, yn 2018, i 'Adolygu gwir gost (llawn) cartrefi cyngor a chost gofal yn y cartref o safbwynt cymariaethau gwerth am arian ac i ddatblygu gweithdrefn ymateb frys i ymateb i newidiadau yn y gost o redeg cartrefi neu pan fydd darparwyr yn nodi problem ariannol'. Mae'r Is-grŵp Cost Uned a Modelu Ariannol sy'n cynnwys cynrychiolwyr y darparwyr wedi dechrau gwaith i asesu gwir gost gofal yn unol â Fframwaith 'Let's Agree to Agree' Llywodraeth Cymru.
- 56 Mae gan rai darparwyr nifer o gartrefi mewn gwahanol rannau o Ogledd Cymru lle mae'r ffioedd y cytunwyd arnynt yn wahanol ar gyfer lefelau gwasanaeth a chostau seilwaith sydd yr un fath yn eu tyb hwy. A gall rhai darparwyr fod â chartrefi mewn rhannau eraill o Gymru lle mae ffioedd yn uwch nag yng Ngogledd Cymru. Er y bydd hyn, mewn llawer o achosion, yn deillio o wahaniaethau lleol mewn costau, mewn rhai achosion gallai'r amrywiadau hyn olygu bod cynghorau eraill i bob pwrpas yn darparu traws-gymhorthdal ar gyfer y ffioedd cartrefi gofal is a delir gan gynghorau Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd.
- 57 Mae darparwyr yn cydnabod eu bod yn cystadlu wrth recriwtio staff ond fe godon nhw'r anghydraddoldebau canfyddedig yng nghyfrifiad y pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys costau gofaluwr yn seiliedig ar yr isafswm cyflog<sup>6</sup> tra bo cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn talu'r cyflog byw<sup>7</sup> neu uwch i'w staff eu hunain.

<sup>6</sup> Byddai gan weithiwr 23 oed a throsodd hawl i gyflog byw o £8.91 yr awr.

<sup>7</sup> £9.50 yr awr yw Cyflog Byw'r DU ar gyfer 2021-22.

## Mae comisiynwyr o'r farn mai ychydig o reolaeth sydd ganddynt dros y ffioedd y maent yn eu talu

58 Mae costau cartrefi gofal yn sylweddol. Er enghraifft, byddai gofal sylfaenol mewn cartref gofal yn Sir Ddinbych neu Wynedd yn costio £30,489 y flwyddyn, gan gynyddu i £48,776 ar gyfer gofal mewn cartref nyrsio gyda gofal iechyd parhaus yng Nghonwy neu Sir Ddinbych. Mewn rhai achosion, caiff cynghorau eu gadael weithiau heb unrhyw ddewis ond derbyn cyfrifoldeb am ymrwymadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd neu berthnasau neu ffrindiau sy'n rhoi'r gorau i dalu ychwanegiadau trydydd parti ar gyfraddau uwch na'r rhai a ddisgrifir yma. Mae hyn yn un o symptomau dau fodel ariannu cenedlaethol ar wahân ar draws y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â rhyngwyneb rhwng partneriaid nad yw wedi'i integreiddio go iawn. Nid yw'n syndod felly bod gan gyrff y sector cyhoeddus ffocws mor frwd ar reoli costau.

## Mae angen i bartneriaid wneud mwy i ddangos eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth gomisiynu darpariaeth mewn cartrefi gofal a gwneud lleoliadau unigol

### Nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i sefydlu'n llawn fel rhan o ymarfer

59 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus. I wneud hyn, mae angen iddynt ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae Deddf LICD yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi pum ffordd o weithio ar waith mewn perthynas â gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae ein harsylwadau ni ar y pum ffordd o weithio mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal fel a ganlyn:

- **Hirdymor.** Mae partneriaid yn wynebu twf sylweddol ym mhoblogaeth hŷn Gogledd Cymru fel y nodir yn Natganiad Siapio'r Farchnad, ond nid yw partneriaid wedi nodi eu cynlluniau ar gyfer diwallu'r anghenion cynyddol am gartrefi gofal a fydd yn bodoli o ganlyniad eto.
- **Atal.** O dan Ddeddf LICD, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus leoli adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethgu. Yn achos angen pobl hŷn am leoliadau mewn cartrefi gofal, mae partneriaid yn wynebu her amlwg gyda'r codiadau a ragwelir yn y boblogaeth hŷn yng Ngogledd Cymru. Mae diffyg



manylder yn Natganiad Siapio'r Farchnad ynglŷn â sut y mae partneriaid yn bwriadu lleihau'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, er bod camau gweithredu ataliol yn amlwg trwy'r ffaith bod y BPRh yn dangos bod partneriaid yn cyflawni'r rhwymedigaethau atal dan y Ddeddf.

- **Integreiddio.** Er bod union eiriad yr amcanion llesiant yn amrywio ar draws cyrff y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, ceir cyffredinrwydd mewn perthynas â gofal i bobl agored i niwed, addasrwydd y lle y mae pobl yn byw a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae partneriaid yng Ngogledd Cymru wedi datblygu Strategaeth Dementia a Strategaeth Gofalwyr, sy'n dangos bod cynllunio integredig yn digwydd yn y meysydd hyn; fodd bynnag, mae diffyg strategaeth neu gynllun cyflawni sy'n gysylltiedig â Datganiad Siapio'r Farchnad yn dynodi bod cynllunio integredig i ddiwallu anghenion pobl hŷn y mae arnynt angen llety mewn cartref gofal yn ei gamau cynnar.
- **Cydweithio.** Mae Deddf LICD yn datgan bod rhaid i gorff cyhoeddus ystyried sut y gallai cydweithio gydag eraill gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion. Mae partneriaid yn cwrdd mewn ystod o leoliadau i ystyried yr heriau y maent yn eu hwynebu mewn perthynas â'r boblogaeth hŷn gynyddol; fodd bynnag, yr hyn sy'n llai eglur yw sut y mae partneriaid yn 'gweithredu'n' gydweithredol i fynd i'r afael â'r heriau yn y broses gomisiynu.
- **Cynnwys.** Yng Ngogledd Cymru, mae'r BPRh yn cynnwys gofalwr a gall gyfrannu at y busnes yn seiliedig ar ei brofiadau. Fodd bynnag, yn ymarferol mae llawer o drafodaethau'n digwydd y tu allan i gyfarfodydd y BPRh rhwng partneriaid statudol neu mewn is-grwpiau, fforymau neu fyrdau na fyddant yn cynnwys y cynrychiolydd gofalwyr fel rheol. Mae gan bartneriaid yng Ngogledd Cymru brosesau i geisio barn pobl sy'n byw yn y cartref gofal. Er bod y rhai sy'n rhan o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yn ymwybodol o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau, megis y costau y maent yn eu hysgwyo trwy ychwanegiadau trydydd parti, nid yw partneriaid yn coladu'r profiadau hyn, yn adrodd arnynt nac yn eu meintoli ac nid ydynt wedi gweithredu'n effeithiol fel partneriaid i ddysgu o'r adborth hwn.

## Weithiau nid yw gofynion iaith defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu diogelu, sy'n arwain at anawsterau cyfathrebu

- 60 Rhoddodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y Gymraeg ar sylfaen gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru, ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi pennu safonau sy'n rhwymo mewn cyfraith<sup>8</sup> i wella'r gwasanaeth dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl ei gael gan rai cyrff cyhoeddus a statudol penodol. Mae Safonau'r Gymraeg wedi'u rhannu'n bum categori gwahanol sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau a llunio

<sup>8</sup> [www.comisiynyddygyymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/safonau-gymraeg](http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/safonau-gymraeg)



polisi. Mae partneriaid yn gweithio gyda darparwyr i wella mynediad at wasanaethau gofal yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaethau.

- 61 Dyfarnwyd canmoliaeth arbennig i Fforwm Rhanbarthol Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru am ei waith o hyrwyddo cydweithredu i gyflawni gofynion fframwaith strategol Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag ansawdd y Gymraeg a faint mae ar gael mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
- 62 Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae siâp y farchnad cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru weithiau'n golygu bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu lleoli mewn rhannau eraill o Gymru neu yn Lloegr, am nad yw natur arbenigol y gofal ar gael yn lleol neu am fod ganddynt gysylltiadau teuluol mewn ardal arall. I berthnasau a ffrindiau gall hyn olygu siwrneiau hir i ymweld â'r defnyddiwr gwasanaethau ac i bobl sydd wedi nodi Cymraeg fel dewis iaith, mae hyn yn gwneud cyfathrebu'n anodd os nad yw'r cartref yn cyflogi staff Cymraeg, gyda chanlyniadau posibl o ran ansawdd y gofal ar gyfer yr unigolyn. Mae hyn hefyd yn gwneud iddynt golli cysylltiad â'u diwylliant a cholli eu hymdeimlad o le.

# Argymhellion


## Arddangosyn 2: argymhellion

Mae **Arddangosyn 2** yn nodi argymhellion i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n codi o'r adolygiad hwn.

| Argymhellion |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|--------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A1           | Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn lleoli ledled y rhanbarth.                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| A2           | Gall y dull presennol o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal achosi tensiynau rhwng partneriaid ac arwain at werth gwael a phrofiad gwael i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydweithio i adolygu trefniadau lleol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddileu effeithiau andwyol y gellir eu hosgoi ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac ar ei gilydd. |
| A3           | Mae atebolrwydd yn un o gonglfeini prosesau penderfynu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i drefniadau llywodraethu graffu ar benderfyniadau a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gryfhau eu trefniadau llywodraethu wrth weithio mewn partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol.                                                                |
| A4           | Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd ati, trwy'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, i ddatblygu strategaeth comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal y cytunwyd arni yn rhanbarthol, ac wedyn, datblygu cynllun cyflawni cysylltiedig.                                                                                                                                                              |
| A5           | Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.                                                                                                                                                           |

Tud. 227

Tud. 227





Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)


Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and  
telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagfyr 2021





Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

## Adroddiad cryno 4

Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn yn datrys rhai materion hirsefydlog; mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei hun bod diwygiadau polisïau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell 4

Am yr adroddiad hwn 4

Ledled Cymru, mae costau comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn yn rhedeg i gannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn ac effeithir ar filoedd lawer o bobl 5

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithredu'n effeithiol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau comisiynu cartrefi gofal 7

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi codi pryderon â Llywodraeth Cymru o'r blaen ynghylch a yw cronfeydd cyfun rhanbarthol, mewn cysylltiad â chartrefi gofal i bobl hŷn, yn rhoi gwerth am arian 9

Nododd ein gwaith ar gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal i bobl hŷn ar draws y gogledd rai materion sylfaenol sy'n debygol o gael eu hadlewyrchu ledled Cymru i ryw raddau 11

Mae cyfle amserol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith diwygio cynlluniedig yn datrys rhai o'r materion hirsefydlog a heriol sy'n ymwneud â chomisiynu cartrefi gofal a gofal integredig 14

Argymhellion 15

## Atodiadau 16

1 Gwariant ar leoliadau cartrefi gofal a gomisiynwyd ledled Cymru 17



# Adroddiad cryno

Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn yn datrys rhai materion hirsefydlog; mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei hun bod diwygiadau polisiau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell

## Am yr adroddiad hwn

- 1 Rydym wedi cwblhau adolygiad ynghylch comisiynu lleoliadau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn y gogledd yn ddiweddar. Roedd ein gwaith yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid comisiynu ond yn canolbwyntio'n bennaf ar y chwe awdurdod lleol<sup>1</sup> a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rydym wedi paratoi adroddiad manwl ar gyfer y sefydliadau hyn i helpu i sbarduno gwelliant, yn y gogledd yn benodol: Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cyngorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Galluogodd ein hadolygiad i ni ystyried yn fanylach, ar draws y rhanbarth, faterion a godwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar bwysau cyllidebol gwasanaethau cymdeithasol mewn dau o'r awdurdodau lleol<sup>2</sup>.
- 2 Rydym wedi paratoi'r adroddiad byr hwn i dynnu allan o'n gwaith yn y gogledd rai materion o arwyddocâd cenedlaethol ehangach ac i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Ein nod yw tynnu sylw at heriau y dylid eu hystyried yn rhan o ddiwygio polisiau arfaethedig a sicrhau newid ystyrion a gwell canlyniadau i bobl ledled Cymru. Mae'r adroddiad wedi ei wreiddio mewn tystiolaeth o'n gwaith yn y gogledd, ond rydym hefyd wedi defnyddio ein gwybodaeth archwilio ehangach megis o'n hadolygiad Cymru gyfan o'r Gronfa Gofal Integredig ym mis Gorffennaf 2019 a data sydd ar gael i'r cyhoedd ar wariant a gweithgarwch.

1 Y cyngorau dan sylw yw Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

2 Yn 2020, gwnaethom adrodd ar bwysau cyllidebol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych.



## Ledled Cymru, mae costau comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn yn rhedeg i gannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn ac effeithir ar filoedd lawer o bobl

3 Mae comisiynu cartrefi gofal yn ganlyniad i asesu anghenion y boblogaeth, cynllunio, llywio, caffael, a darparu gwasanaethau cartref gofal weithiau. Mae'n cynnwys monitro a rheoli ansawdd gwasanaethau. Dylid ei wneud gyda'r nod o ddarparu capasiti digonol o gartrefi gofal o ansawdd da i ddiwallu'r angen cyfredol a'r angen disgwylidig yn y dyfodol. Dylai ganolbwyntio ar werth i'r trethdalwr a chanlyniadau i'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n llawer mwy na phrynu lleoliadau cartref gofal yn y fan a'r lle.

4 Mae'r arian cyhoeddus sy'n gysylltiedig â chomisiynu cartrefi gofal yn deillio o gyllidebau awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae comisiynu cartrefi gofal hefyd yn defnyddio rhannau helaeth o gynilion bywyd unigolion. Ar lefel uchel, mae'r cyfrifoldeb am ffioedd cartrefi gofal yn syml:

- gall person ddewis symud i gartref gofal ar ei draul ei hun;
- os oes gan berson anghenion gofal iechyd parhaus, yna'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am dalu'r costau llawn;
- os mai anghenion gofal cymdeithasol yn unig sydd gan rywun, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am dalu'r costau hyn, ond caiff y defnyddiwr gwasanaeth ei asesu i benderfynu faint y dylai ei dalu tuag at ei ofal; ac
- os oes gan rywun gyfuniad o anghenion iechyd a gofal, yna bydd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn rhannu'r costau.

Gall cymhlethdod godi pan fo angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gytuno ar gymhwysedd i gael cyllid.

5 Mae **Arddangosyn 1** yn darparu rhai ffeithiau a ffigurau allweddol sy'n berthnasol i gomisiynu cartrefi gofal ledled Cymru. Mae'r ffigurau ar gyfer gwahanol flynyddoedd yn dibynnu ar y data cyhoeddedig diweddaraf sydd ar gael, ar ddiwedd mis Mehefin 2021. Rydym wedi adrodd am gostau byrddau iechyd yn 2019-20 er mwyn eu cymharu ag awdurdodau lleol. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys dadansoddiad ychwanegol o gostau penodol ar gyfer awdurdodau lleol unigol a byrddau iechyd o'u cymharu â'u poblogaethau. Y data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael cyn y pandemig; ni fyddai defnyddio data mwy diweddar yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch arferol.

## Arddangosyn 1: rhai ffeithiau allweddol sy'n berthnasol i gomisiynu cartrefi gofal

### 6.24 miliwn o ddiwrnodau

Cyfanswm y diwrnodau y cafodd oedolion 65 oed a hŷn eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl yn 2018-19 (StatsCymru)



### £297 miliwn

O wariant gan awdurdodau lleol ar leoliadau nyrsio a phreswyl ar gyfer pobl 65 oed a hŷn yng Nghymru yn 2019-20 (StatsCymru)

### 16,144

o bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau gofal i oedolion gan awdurdodau lleol yn 2018-19.

O'r rhain, mae **5,534** yn derbyn gwasanaethau nyrsio hefyd.



### Mae'r data diweddaraf yn dangos:

**677** o gartrefi gofal yng Nghymru

bod **263** o'r rhain yn darparu gofal nyrsio

**96** o gartrefi gofal a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru

**22,706** o welyau cartrefi gofal yng Nghymru (CMA 2017)

**25,500** o staff gofal preswyl

### £415 miliwn

Ar ofal iechyd parhaus y Bwrdd Iechyd a chostau gofal nyrsio a ariannwyd yn 2019-20 (Cyfrifon Blynnyddol)



### 833 diwrnod

Y cyfnod cyfartalog y cefnogwyd oedolion dros 65 oed mewn cartrefi gofal preswyl fel y'u cofnodwyd yn 2018-19 (StatsCymru)

#### Ffynonellau:

- [Gofal Cymdeithasol Cymru – proffil gweithlu 2018](#)
- [The future of care in Wales, Wales Fiscal Analysis](#)
- Cyfrifon Blynnyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhan fwyaf ond nid yr holl gostau gofal iechyd parhaus yn ymwneud â lleoliadau cartrefi gofal
- Competitions and Market Authority (CMA) – [Care-homes market study 2017](#)
- [StatsCymru](#)

## Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithredu'n effeithiol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau comisiynu cartrefi gofal

- 6 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a thrawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cynnwys rhai gofynion allweddol o ran comisiynu cartrefi gofal. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn eu hardal<sup>3</sup>. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyhoeddi eu hasesiadau poblogaeth cyfunol cyntaf fel sy'n ofynnol erbyn mis Ebrill 2017. Ar ôl hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi un adroddiad asesu poblogaeth cyfunol fesul cylch etholiadol llywodraeth leol.
- 7 Yn ogystal â dyletswyddau cydraddoldeb penodol presennol<sup>4</sup> y sector cyhoeddus ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a ddechreuodd ar 30 Mawrth 2021 yng Nghymru yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys rhai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol<sup>5</sup>, pan fyddant yn gwneud 'penderfyniadau strategol' i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai penderfyniadau strategol yw'r rhai sy'n helpu corff perthnasol i gyflawni ei ddiben statudol a fwriadwyd. Nid oes rhestr gynhwysfawr o benderfyniadau a fydd yn ymgysylltu â'r ddyletswydd, er bod enghreifftiau'n cynnwys datblygu polisiau strategol, penderfyniadau comisiynu mawr megis y rhai ar gyfer comisiynu cartrefi gofal a phennu amcanion llesiant<sup>6</sup>.

3 Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

4 The Public Sector Equality Duty Section 149 of the Equality Act 2010; Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

5 Adran 2(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010; Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021, mae gyrff perthnasol yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol a Chyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

6 Canllawiau Llywodraeth Cymru – Cymru Fwy Cyfartal – Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2010

- 8 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau o sefydlogrwydd y farchnad ond ni phennodd ddyddiad cychwyn ar gyfer y rhain. Mae rheoliadau a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2021 wedi gosod gofynion penodol i gyhoeddi'r adroddiad sefydlogrwydd erbyn 1 Mehefin 2022, chwe blynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Felly, mae effaith y gofynion hyn ar gomisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn i'w gweld o hyd.
- 9 Mae Canllawiau Statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud â threfniadau partneriaethau<sup>7</sup> yn nodi y dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, mewn cysylltiad â chartrefi gofal, gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth a dadansoddi'r farchnad er mwyn ymgorffori anghenion unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Dylent gytuno hefyd ar ddatganiad sefyllfa'r farchnad rhanbarthol integredig priodol a strategaeth gomisiynu ranbarthol. Dylai'r rhain nodi'r canlyniadau sy'n ofynnol gan gartrefi gofal, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sydd eu hangen, a chonsensws ar y dulliau comisiynu. Hefyd, mae'r canllawiau'n nodi y dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd:
- gytuno ar gontract a manyleb gyffredin.
  - cytuno ar feini prawf a phrosesau monitro contractau cyffredin sy'n cynnwys sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
  - datblygu dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr.
  - datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd.
  - mabwysiadu defnydd tryloyw o adnoddau. Mae'n rhaid i gyllidebau fod yn gyson â'r gwariant cyffredinol a nodwyd, ynghyd ag ymrwymadau ariannol y ddwy asiantaeth i gomisiynu cartrefi gofal. Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddarostyngedig i gytundeb ysgrifenedig.
- 10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf – gan gynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol – weithio'n wahanol. Mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cydbwysu anghenion tymor byr a hirdymor, ystyried sut mae eu hamcanion yn integreiddio â phartneriaid eraill, cydweithredu, cynnwys rhanddeiliaid, a cheisio dulliau ataliol. Fel y sonnir uchod, wrth gyflawni dyletswyddau presennol a allai fod yn strategol, megis pennu amcanion llesiant, mae'n ofynnol bellach i gyrff perthnasol ddangos eu bod hefyd yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau.

7 Llywodraeth Cymru, Codau a chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd o dan Adran 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- 11 Yn ein hadroddiad rhanbarthol diweddar ar Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn, gwnaethom argymhell bod Cyngorau'r gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol.

**Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi codi pryderon â Llywodraeth Cymru o'r blaen ynghylch a yw cronfeydd cyfun rhanbarthol, mewn cysylltiad â chartrefi gofal i bobl hŷn, yn rhoi gwerth am arian**

- 12 Noda ein hadroddiad mis Gorffennaf 2019 ar Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, cyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chyflwyniad y gronfa yn 2014, fod partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi archwilio'r potensial o gyfuno arian er mwyn datblygu gwasanaethau integredig. Fodd bynnag, dim ond llond llaw o enghreifftiau ymarferol a gafwyd ac roedd parodrwydd cyrff cyhoeddus allweddol i ryddhau cyllid ar gyfer trefniadau ar y cyd yn rhwystyr allweddol.
- 13 Arweiniodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 at sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol a chyda disgwyliad y byddent yn datblygu cronfeydd cyfun. Noda ein hadroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig fod cronfeydd cyfun ar gyfer comisiynu darpariaeth cartrefi gofal i oedolion wedi bod ar waith ledled Cymru ers mis Ebrill 2018. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu safbwynt swyddogion Llywodraeth Cymru bod aeddfedu trefniadau partneriaeth oherwydd y Gronfa Gofal Integredig wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer bwrw ymlaen â threfniadau cyllido cyfun. Fodd bynnag, mae'n canfod hefyd nad oedd llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif ffrydio a'u cyllido yn rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau craidd cyrff cyhoeddus.
- 14 Ym mis Medi 2020, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol i Lywodraeth Cymru, gan gopïo'r llythyr at bob prif weithredwr awdurdod lleol a bwrdd iechyd yng Nghymru, yn codi pryderon am gronfeydd cyfun rhanbarthol mewn cysylltiad â chartrefi gofal i bobl hŷn. Daeth y pryderon hyn i'r amlwg o waith archwilio mewn dau o'r awdurdodau lleol yn y gogledd yn gynharach y flwyddyn honno (**paragraff 1**). Er bod cyllid oddi wrth y sefydliadau perthnasol wedi ei adneuo mewn cronfa gyfun a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych i ddechrau, canfuom fod cyllid pob cyfrannwr wedi ei ddychwelyd iddo 24 awr yn ddiweddarach.

- 15 Cododd ein canfyddiadau rai pryderon sylweddol ynghylch cymhwyso cyllidebau cyfun yn ymarferol ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal yn y gogledd, ac yn ehangach yng Nghymru o bosibl. Er nad oeddem wedi profi'r trefniadau mewn rhanbarthau eraill, roeddem yn credu eu bod o natur debyg. O siarad â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y pryd, roeddem yn deall bod y trefniad yn y gogledd yn bodloni'r gofynion technegol lleiaf posibl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad nad oedd y trefniad yn cynnig gwerth am arian, nac unrhyw un o fanteision ehangach arfaethedig cronfa gyfun. Pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd nad oeddent yn ystyried y math hwn o drefniad yn ymateb boddhaol i'r bwriad polisi o alluogi cydweithrediad agosach rhwng comisiynwyr cartrefi gofal er budd pobl sy'n derbyn gofal a chymorth.
- 16 Mewn ymateb i lythyr yr Archwilydd Cyffredinol, dywedwyd wrtho fod y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [ar y pryd] eisoes wedi trafod y materion hyn â chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac wedi herio partneriaid rhanbarthol i gynyddu'r ddarpariaeth.
- 17 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun (y Fframwaith). Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r adroddiad i asesu'r cynnydd yr oedd pob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei wneud o ran datblygu cronfeydd cyfun. Canolbwyntia'r adolygiad ar ddefnyddio cyllidebau cyfun sy'n ymwneud â llety mewn cartrefi gofal i bobl hŷn (65 oed neu'n hŷn).
- 18 Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bodloni'r gofyniad sylfaenol at ei gilydd mewn cysylltiad â'r cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn, ond nad oedd llawer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfuno'r cyllidebau'n ffisegol nac yn rhannu risgiau ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn. Dim ond dau o'r saith rhanbarth yng Nghymru sy'n cyfuno arian yn ffisegol ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, a thynnodd mwyafrif y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sylw at gartrefi gofal i bobl hŷn fel maes cyntaf heriol i gyfuno arian, o dan y ddeddfwriaeth sy'n dangos lefelau gwahanol o aeddfedrwydd ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae rhai o'r heriau allweddol a amlygir yn y Fframwaith yn ymwneud â rheoli carfan amrywiol o anghenion ar draws ardaloedd yn hytrach na gwasanaethau arbenigol, yr oeddent yn ystyried eu bod yn fwy addas ar gyfer dull cyfun o weithredu, a'r risg o groesgymorthdalau ar draws ffiniau awdurdodau lleol.



- 19 Canfuom drwy ein gwaith rhanbarthol yn y gogledd nad oedd ymateb Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y gogledd i'r Dirprwy Weinidog yn rhoi unrhyw sicrwydd bod partneriaid yn bwriadu gweithredu yn y tymor byr i fynd i'r afael â phryder yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd yr ymateb yn dangos nad oedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'w drefniadau cyllideb cyfun nes bod Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'i chynigion Papur Gwyn ar Ailgydbwyso gofal a chymorth. Deallwn fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnal deialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y ffordd orau o weithredu'r Ddeddf yn ehangach, ac nid mewn cysylltiad â chronfeydd cyfun yn unig.
- 20 Yn 2020-21, rydym wedi gweld llawer o enghreifftiau o bartneriaid yn dod at ei gilydd yn effeithiol mewn amgylcheddau hynod gymhleth a heriol. Er enghraifft, datblygu gwasanaeth profi, olrhain a diogelu a gwasanaeth brechu newydd COVID-19. Mae ewyllys da ac ymrwymiad partneriaid wedi arwain at welliant.
- 21 Mae hyn, a rhywfaint o'n gwaith cynharach ar y Gronfa Gofal Integredig, yn awgrymu, pan fo partneriaid yn dod at ei gilydd i reoli cyllid ychwanegol ar y cyd, eu bod wedi cael rhywfaint o lwyddiant ond pan fyddant yn dod at ei gilydd i rannu eu hadnoddau craidd eu hunain, eu bod wedi cael llawer llai o lwyddiant. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gydweithredu a chyfuno cronfeydd ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, cyfyngedig yw'r cynnydd ac nid yw'r defnyddwyr gwasanaethau yn gweld fawr o fudd, os o gwbl.

### **Nododd ein gwaith ar gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal i bobl hŷn ar draws y gogledd rai materion sylfaenol sy'n debygol o gael eu hadlewyrchu ledled Cymru i ryw raddau**

- 22 Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hadolygiad blaenorol o'r Gronfa Gofal Integredig ac adroddiad Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun Llywodraeth Cymru, rhagwelwn y bydd canfyddiadau ein hadolygiad o'r gogledd yn cael eu hadlewyrchu ledled Cymru i ryw raddau. Yn ein gwaith diweddaraf yng ngogledd Cymru, daethom i'r casgliad bod **partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed; gwneir hyn yn anoddach gan brosesau cenedlaethol cymhleth, gan arwain at bwyslais sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniadau ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae gan y broses o gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth a chynllun cyflawni rhanbarthol y potensial i ysgogi newid cadarnhaol a gweithio gwell mewn partneriaeth, yn enwedig mewn cysylltiad â gofal cymhleth a mwy arbenigol.**

- 23 Er bod lle i wella yng ngogledd Cymru, pan fo partneriaid rhanbarthol yn gyfrifol am y ffordd y gweithredir deddfwriaeth, fframweithiau a pholisïau cenedlaethol, mae rhai o'r materion sylfaenol yn codi oherwydd fframweithiau deddfwriaethol cenedlaethol hirsefydlog a threfniadau polisïau a chyllido.
- 24 Crynhoir canfyddiadau ein gwaith rhanbarthol a'n dadansoddiad Cymru gyfan ychwanegol fel a ganlyn:
- **Mae gallu pobl hŷn i gael mynediad at gartrefi gofal yn gymhleth ac yn anodd ei lywio.** Mae comisiynwyr yn ymwybodol o'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau ond nid ydynt wedi gallu symleiddio'r broses; Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r polisïau a'r canllawiau cyffredinol.
  - **Gall dulliau'r sector cyhoeddus o gyllido gwahanol agweddau ar ofal greu ymraniad ymhlith partneriaid.** Mae lleoliadau cartrefi gofal yn gostus, a all annog gorbwyslais ar gost; er y gall gweithredu'r dull gweithredu ar lefel leol gynyddu tensiynau, Llywodraeth Cymru sy'n nodi sail y cyfrifoldebau cyllido.
  - **Nid yw'r manteision a fwriadwyd a'r cyflawniad gwirioneddol wedi eu meintoli.** Mae gwybodaeth am berfformiad a gesglir ac a adroddir, sy'n ymwneud â chomisiynu iechyd a gofal cymdeithasol, yn dameidiog ar draws sectorau ac nid yw'n darparu dangosydd da o ran a yw nodau polisïau a llesiant yn cael eu cyflawni ac nid oes unrhyw dystiolaeth o newidiadau i ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid yn rheolaidd i asesu cynnydd o ran gweithredu polisïau cenedlaethol, ond nid yw Llywodraeth Cymru na phartneriaid rhanbarthol wedi datblygu fframwaith perfformiad ar gyfer asesu canlyniadau.
  - **Nid yw'r cydymffurfio technegol lleiaf â'r gofyniad cronfa gyfun yn sicrhau unrhyw fudd gwirioneddol.** Mae cydymffurfio â'r gyfraith heb gyflawni unrhyw fanteision o'r trefniad yn ddefnydd gwael o arian cyhoeddus ac yn werth gwael am arian. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r cynnydd cyffredinol o ran gweithredu trefniadau cronfa gyfun ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn. Mae wedi datblygu pecyn offer a lansiwyd drwy Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i helpu i fynd i'r afael â'r heriau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael fawr o effaith ac nid yw trefniadau cronfeydd cyfun yn cael eu cryfhau'n gyffredinol tra bod y papur gwyn ar ailgydbwysu gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu.



- **Mae'r broses llywodraethu a gweithredu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn aeddfedu ond, yn unol â deddfwriaeth, mae strwythurau'n helaeth ac yn gymhleth, a cheir problemau o hyd ynghylch eu hatebolrwydd.** Yn dilyn ein gwaith yn y Gronfa Gofal Integredig, roedd disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (yn unol â Chantllawiau y Gronfa Gofal Integredig 2020-21) fod wedi bod yn rhoi trefniadau ar waith i gefnogi gwaith craffu effeithiol ar eu penderfyniadau. Hefyd, mae ein gwaith yn y gogledd wedi herio llywodraethu ac atebolrwydd yn ehangach. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth o ran nodi sut y dylid eu dwyn i gyfrif a'u dwyn i gyfrif am gyflawni polisiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan bartneriaid y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyfrifoldeb dros sicrhau bod cytundebau allweddol yn cael eu craffu a'u cymeradwyo'n briodol hefyd, gan ddefnyddio trefniadau llywodraethu eu sefydliadau eu hunain.
  - **Ceir amrywiad anesboniadwy mewn gwariant ar ofal preswyl a chostau gofal iechyd parhaus, sy'n awgrymu bod polisiau'n cael eu cymhwyso'n annheg ledled Cymru.** Bydd ffactorau megis gwneud penderfyniadau lleol a'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael i gefnogi pobl i fyw yn y gymuned yn effeithio ar wariant lleol ar leoliadau cartrefi gofal. Mae **Atodiad 1** yn dangos yr amrywiadau hyn yn fanylach.
  - **Mae'r cap ar godi tâl ar gyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth yn wahanol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal o'i gymharu â phobl a gefnogir yn y gymuned.** Mae hyn yn rhoi cymhelliad gwrthnysig posibl i gomi-siynwyr leoli person mewn cartref gofal, neu i berson ddewis aros gartref, fel y byddai'n well gan lawer.
- 25 Er bod mwyafrif y swyddogion awdurdodau lleol a byrddau iechyd y buom yn siarad â nhw yn ystod ein hadolygiad yng ngogledd Cymru yn gallu disgrifio'r problemau o'u profiadau, nid oedd yr un ohonynt yn teimlo y gallai gael unrhyw ddylanwad nac effaith ar raddfa'r newidiadau sydd eu hangen o fewn y fframwaith polisi cenedlaethol. O ganlyniad i hynny, roeddent yn derbyn ar y cyd yr angen i wneud y gorau o'r sefyllfa bresennol a gobeithio am newid.

## **Mae cyfle amserol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith diwygio cynlluniedig yn datrys rhai o'r materion hirsefydlog a heriol sy'n ymwneud â chomisiynu cartrefi gofal a gofal integredig**

- 26 Ym mis Ebrill 2021, cwblhaodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad ar ei phapur gwyn Ailgydbwyso gofal a chymorth (**paragraff 20**). Cynigiodd y papur gwyn fframwaith cenedlaethol, trefniadaeth ranbarthol a rhagor o bwerau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gwnaethom ymateb i Lywodraeth Cymru yn rhan o'i hymgyngghoriad, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol o'n gwaith archwilio.
- 27 Mae'r materion a amlygwyd o'n gwaith diweddaraf ar gomisiynu cartrefi gofal yn y gogledd yn dangos nad yw'r ddeddfwriaeth a'r polisïau presennol yn cael yr effaith gadarnhaol a ddymunir. Fodd bynnag, maent hefyd yn cyfeirio at rai materion ymarferol ac amharodrwydd diwylliannol a allai gwestiynu a yw'r cynigion yn y papur gwyn yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol hyn. Wrth wraidd ein canfyddiadau, mae cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyllidebol annibynnol ac ar wahân yn creu ymraniad, sy'n arwain at ganolbwyntio ar gost, ac yn gofyn am lwybrau cymhleth i'w llywio a all gael effaith negyddol ar lesiant defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio sylfaen y ddeddfwriaeth a'r polisïau sy'n achosi'r materion hyn, ond mae angen iddi sicrhau ei hun bod y newidiadau'n mynd yn ddigon pell i'w datrys nhw.
- 28 Mae'r pandemig wedi amlygu breuder gwasanaethau gofal ledled Cymru, ond roedd mwyafrif y materion a wynebier yn awr yno o'r blaen i ryw raddau. Mae'r materion yn cynnwys capasiti a gallu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hwyluso gweithio rhanbarthol ac, er enghraifft, pryderon ynghylch lefelau ffioedd, a ystyrir gan gynghorau i fod yn faterion lleol yn hytrach na materion rhanbarthol neu genedlaethol. Dywedwyd wrthym yn ystod ein hadolygiad nad yw dull rhanbarthol yn gweddu i gomisiynu cartrefi gofal bob amser. Nid yw'n glir a yw'r atebion a gynigir gan y papur gwyn ar ailgydbwyso gofal a chymorth mewn cysylltiad â gweithio rhanbarthol yn ymarferol ac y byddant yn cyflawni'r newid gofynnol.
- 29 Mae cyfle yn awr i adeiladu consensws ymhlith darparwyr, comisiynwyr, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd, ynglŷn â'r newidiadau sy'n angenrheidiol i gyflawni gwelliannau y mae mawr eu hangen, gan sicrhau bod y rhain yn mynd i'r afael yn llawn â'r holl faterion sy'n aros yn y sector.

# Argymhellion

## Arddangosyn 2: argymhellion

### Argymhellion

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:**

- A1 ystyried beth y mae'r canfyddiadau o'n gwaith yn y gogledd yn ei olygu ar gyfer diwygio polisïau arfaethedig ac a fydd y gwaith diwygio hwn yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion; ac
- A2 yn fwy penodol, dylai:
- leihau cymhlethdod y cyfrifoldebau ariannu ar draws partneriaid er mwyn symleiddio trefniadau;
  - disgrifio a chyfleu'n glir sut y mae'n disgwyl i gronfeydd cyfun weithredu ar draws partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol;
  - cymryd camau i fynnu trefniadau craffu cryfach ac atebolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gan eu dilyn â chamau ychwanegol mewn ymateb i argymhelliad yn ein hadroddiad blaenorol ar y Gronfa Gofal Integredig); a
  - datblygu fframwaith ar gyfer adrodd ar berfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n cysylltu ag uchelgais polisïau a'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru.




# Atodiadau

---


- 1 Gwariant ar leoliadau cartrefi  
gofal a gomisiynwyd ledled  
Cymru

# 1 Gwariant ar leoliadau cartrefi gofal a gomisiynwyd ledled Cymru

**Arddangosyn 3: y gwariant net (£) ar leoliadau gofal preswyl (ac eithrio gofal nyrsio) ar gyfer pobl 65 oed a hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth (2019-20)**



Ffynhonnell: StatsCymru – Gwariant alldro refeniw y gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleientiaid (Pobl Hŷn, lleoliadau gofal preswyl) ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 (yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar 31 Awst 2021)

**Arddangosyn 4: gwariant gofal iechyd parhaus (£) fesul 1,000 o'r boblogaeth, 2019-20**

Ffynhonnell: Cyfrifon Blynnyddol y Bwrdd Iechyd ac ystadegau poblogaeth Stats Cymru





Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau  
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)



## Adolygiad o Reoli Perfformiad – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2741A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

## Adroddiad Manwl

|                                                                                                                                                                                                         |    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Gosod y sefyllfa                                                                                                                                                                                        | 4  |
| Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol ar hyn o bryd, ac mae'n anodd llywio'r broses adrodd                                                          | 6  |
| Mae'r Cyngor yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd ond nid yw'r cyfathrebu â chynghorwyr na'r hyfforddiant a roddwyd iddynt wedi bod yn ddigon effeithiol                                    | 6  |
| Mae sesiynau herio perfformiad, sy'n rhan allweddol o'r fframwaith rheoli perfformiad newydd, yn datblygu'n dda, ond mae cyfleoedd i wella ymhellach gyda rhai adrannau â chryn dipyn o waith i'w wneud | 7  |
| Nid oes gan bob un o adrannau'r Cyngor set gytunedig o fesurau defnyddiol ac uchelgeisiau cysylltiedig, mae'r defnydd o wybodaeth gymharol yn gyfyngedig                                                | 8  |
| Mae adroddiadau perfformiad yn niferus a hirfaith, ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth bwysig sy'n ei gwneud yn anodd cael darlun cyfannol diduedd o berfformiad y Cyngor                                | 9  |
| Nid adroddir am wybodaeth ynghylch y galw am wasanaethau fel mater o drefn ac nid yw fel arfer yn llywio ac yn cefnogi'r broses o osod lefel cyllidebau                                                 | 10 |
| Argymhellion                                                                                                                                                                                            | 12 |

# Adroddiad manwl

## Gosod y sefyllfa

- 1 Mae rheoli perfformiad yn cynnwys casglu, dadansoddi a gweithredu ar wybodaeth am berfformiad i wella gwasanaethau ac ansawdd bywydau pobl yn y gymuned leol. Mae rheoli perfformiad yn fusnes i bawb, mae'n rhan barhaus o swyddogaeth cynghorwyr a swyddogion o ddydd i ddydd:
  - mae gan gynghorwyr swyddogaeth bwysig o ran rheoli perfformiad. Mae angen iddynt fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a sut y byddant yn monitro ac yn adolygu perfformiad. Mae angen iddynt hefyd fod yn barod i herio swyddogion ar berfformiad gwasanaethau er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cyflawni, a bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu diwallu. Gall cynghorwyr gefnogi gwelliant drwy ddangos bod ganddynt ddiddordeb gweithredol mewn perfformiad a gweithredu ar yr hyn y mae'r wybodaeth am berfformiad yn ei ddweud wrthynt.
  - mewn cynghorau da, mae arferion rheoli perfformiad wedi'u hymgorffori ledled y sefydliad, maent yn rhan o'r gwaith dyddiol ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn faich nac yn ychwanegiad. Pan fo rheoli perfformiad yn rhan o ddiwylliant y sefydliad, mae rheolwyr yn arwain drwy esiampl, drwy fynd ati i reoli perfformiad, a chyfleu canlyniadau.
- 2 Er mwyn i fframwaith rheoli perfformiad fod yn effeithiol mae angen iddo adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor a chael ei integreiddio i drefniadau cynllunio busnes. Mae fframwaith rheoli perfformiad da yn defnyddio ystod o fesurau perfformiad sy'n rhoi darlun clir diduedd o berfformiad. Dylai'r mesurau adlewyrchu blaenoriaethau Cyngor a diwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau. Mae cynghorau da yn cydnabod ac yn adnabod perfformiad da ac yn ymdrin â pherfformiad gwael, gan ei ystyried yn brofiad dysgu cadarnhaol.
- 3 Mae adroddiadau perfformiad ar gyfer y cyhoedd yn bwysig ar gyfer atebolrwydd a dylent fod yn hawdd eu canfod a'u deall. Mae meincnodi yn ffordd effeithiol o helpu sefydliadau i ddarparu gwell gwasanaethau ac i werthuso a yw eu gwasanaethau'n perfformio'n dda o fewn cyd-destun rhanbarthol neu genedlaethol. Mae'n rhaid i hunanwerthuso ac adolygu fod yn gadarn ac yn onest i fod yn effeithiol.
- 4 Mae egwyddorion rheoli perfformiad hefyd yn berthnasol i weithio mewn partneriaeth. Mae angen i bartneriaid gael cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau a'r effaith y mae eu gwaith yn ei chael.

## Arddangosyn 1: Swyddogaethau wrth Reoli Perfformiad

### Swyddogaethau wrth reoli perfformiad<sup>1</sup>

Mae gan bawb yn y cyngor ran i'w chwarae o ran rheoli perfformiad.

- Mae angen gwybodaeth am berfformiad o ansawdd da ar gynghorwyr i wneud penderfyniadau gwybodus, craffu ar berfformiad a nodi meysydd i'w gwella.
- Mae'n rhaid i fesurau perfformiad adlewyrchu blaenoriaethau cyngor os yw am sicrhau ei hun bod ei amcanion yn cael eu cyflawni.
- Mae rheoli perfformiad yn bwysig ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd.
- Mae diwylliant o reoli perfformiad effeithiol, dan arweiniad swyddogion a chynghorwyr, yn hanfodol.
- Mae'n rhaid gweithredu ar wybodaeth am berfformiad i wella canlyniadau.
- Mae gweithgaredd hunanwerthuso ac adolygu yn rhan bwysig o welliant parhaus.
- Mae angen i gynghorwyr a swyddogion sicrhau bod egwyddorion rheoli perfformiad yr un mor berthnasol wrth weithio gyda phartneriaid.

- 5 Yng Nghyngor Gwynedd (y Cyngor) cynhaliwyd cyfarfodydd herio perfformiad adrannol dair gwaith y flwyddyn o dan yr hen fframwaith. Cynhaliwyd y ddwy rownd gyntaf yn ystod mis Gorffennaf a mis Tachwedd gyda'r allbwn a oedd yn cyfrannu at adroddiadau unigol Aelodau'r Cabinet yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi/Hydref a Rhagfyr/Ionawr. Cynhaliwyd cyfarfod arall ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i gyfrannu at Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor. Fel arfer, cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Cabinet ym mis Mehefin ac i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.
- 6 Mae adolygiad o 'hen' adroddiadau perfformiad y Cyngor yn nodi bod y defnydd o fesurau i gefnogi rheoli perfformiad yn amrywio, ac yn aml yn absennol. Roedd y dull anghyson hwn ac absenoldeb mesurau ystyrion mewn rhai gwasanaethau/adrannau wedi codi pryderon ynghylch a oedd gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei hun ei fod yn darparu gwerth am arian.
- 7 Roedd gan y Cyngor enghreifftiau o berfformiad da, fel Adroddiad Perfformiad yr aelod dros Gyllid. Roedd hwn yn nodi pwrpas y gwasanaeth, y mesurau a ddefnyddiwyd, ac roedd yn dangos perfformiad blaenorol a phresennol, gan roi gwybodaeth am dueddiadau. Rhoddodd graffiau sicrwydd mewn meysydd lle'r oedd perfformiad yn gyffredinol yn ôl y disgwyl, a defnyddiwyd blychau testun mewn graffiau i esbonio amrywiannau. Roedd yr atodiadau'n caniatáu i ddarllenwyd newydd gasglu ystod o sicrwydd yn gyflym, a dealltwriaeth o feysydd â pherfformiad yn dirywio a beth oedd y camau lliniaru. Fodd bynnag, roedd gan y Cyngor enghraifft hefyd o adrodd am berfformiad gwael, er enghraifft, yr Adran

<sup>1</sup> Audit Scotland "Managing performance: are you getting it right?"

Oedolion, lechyd a Llesiant. Nid oedd yr adroddiad ar berfformiad hwn yn cynnwys unrhyw atodiadau ac ni ddefnyddiwyd graffiau na thablau i helpu'r darllenwyr i ddeall yr wybodaeth. Roedd adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau eraill wedi datblygu i wahanol raddau rhwng y ddwy enghraifft hyn.

- 8 Nid oedd y fframwaith rheoli perfformiad yn gatalydd i ysgogi gwelliant nac i ddatrys rhai o'r anawsterau allweddol a wynebodd y Cyngor. Gan gydnabod hyn, cynlluniodd y Cyngor adolygiad helaeth o drefniadau rheoli perfformiad ac mae wedi bod yn gweithredu fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig ers mis Ebrill 2021.
- 9 Er mwyn deall cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r trefniadau newydd hyn a rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor ddulliau ar waith i sicrhau ei hun ei fod yn darparu gwerth am arian, ceisiodd yr adolygiad hwn gan Archwilio Cymru ateb y cwestiwn:  
**A yw'r fframwaith rheoli perfformiad yng Nghyngor Gwynedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau?**

**Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol ar hyn o bryd, ac mae'n anodd llywio'r broses adrodd**

**Mae'r Cyngor yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd ond nid yw'r cyfathrebu â chynghorwyr na'r hyfforddiant a roddwyd iddynt wedi bod yn ddigon effeithiol**

- 10 Cyflwynodd y Cyngor adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2020, gan awgrymu newidiadau i'r trefniadau rheoli perfformiad presennol. Ar ôl atal yr hen drefniadau yn ystod y pandemig, cyflwynodd y Cyngor ei drefniadau rheoli perfformiad newydd ym mis Ebrill 2021. Mae gan y trefniadau newydd ddwy adran ar wahân, un cyfarfod i ystyried mesurau perfformiad ar eu pennau eu hunain, a chyfarfod manylach arall i ystyried y gofrestr risg, mesurau perfformiad, yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau corfforaethol ac yn olaf materion ariannol.
- 11 Er bod newidiadau i'r fframwaith rheoli perfformiad wedi eu cyfleu i'r tîm Arweinyddiaeth, roedd prinder o wybodaeth ar gael i aelodau'r Cyngor. Gall absenoldeb cyfathrebu clir â chynghorwyr gyfrannu at yr ansicrwydd a fynegwyd ganddynt ynghylch trefniadau herio perfformiad.
- 12 Nid yn unig y mae angen i gynghorwyr, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â sesiynau herio perfformiad a phwyllgorau craffu, fod yn ymwybodol o'r trefniadau newydd, mae angen iddynt hefyd fod â'r hyder a'r sgiliau i herio perfformiad yn

effeithiol. Efallai y bydd angen mwy o eglurder hefyd am y swyddogaethau a'r cyfraniadau a ddisgwylir gan gyfranogwyr yn y sesiynau herio. Gwelsom fod y nifer a oedd yn bresennol a chyfraniadau cynghorwyr mewn sesiynau herio perfformiad yn amrywio. Bydd cynyddu presenoldeb a hyfforddi cynghorwyr fel y gallant fod yn effeithiol wrth herio perfformiad yn dangos bod y cynghorwyr o ddifrif ynghylch deall a rheoli perfformiad y Cyngor.

13 Roedd y Cyngor yn disgwyl y manteision canlynol yn sgil y trefniadau newydd:

- Llai o wybodaeth a oedd yn gysylltiedig â threfniadau blaenorol, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd adnabod materion a oedd yn peri pryder yn gyflym;
- cyfle i osod ystod o wybodaeth ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn gweld y darlun cyflawn; ac
- ymateb i bryderon aelodau bod gormod o adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet o fewn yr un ffenestr a oedd yn ei gwneud hi'n anodd rhoi sylw ystyrlon iddynt.

14 Er na nododd y Cyngor unrhyw fuddion eraill, roedd wedi myfyrio ar yr angen am fesurau perfformiad amserol cywir yn ystod y pandemig. Er enghraifft, mewn cysylltiad â chyfarpar diogelu personol (PPE). Roedd hyn yn helpu'r Cyngor i ddeall yr angen am fesurau cyson sy'n rhoi darlun clir o berfformiad, a fframwaith i ysgogi gwella gwasanaethau a chyllidebu mwy cywir.

## **Mae sesiynau herio perfformiad, sy'n rhan allweddol o'r fframwaith rheoli perfformiad newydd, yn datblygu'n dda, ond mae cyfleoedd i wella ymhellach gyda rhai adrannau â chryn dipyn o waith i'w wneud**

15 Mae'r Prif Weithredwr yn bresennol yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd herio perfformiad ac mae'n cymryd swyddogaeth arweiniol wrth ddatblygu trefniadau. Er bod angen arweinyddiaeth adeiladol effeithiol i ysgogi gwelliant a newid diwylliant, yn enwedig mewn rhai adrannau, gallai adnoddau ychwanegol ac arbenigedd ym maes rheoli perfformiad helpu'r adrannau i lunio a datblygu trefniadau.

16 Gwelsom y sesiynau herio perfformiad newydd a gynhaliwyd ym mis Medi, Hydref a dechrau mis Tachwedd. Mae adrannau ar wahanol gamau o weithredu'r trefniadau newydd. Mae rhai adrannau wedi gwneud cynnydd da ac mae'r trefniadau newydd bron â chael eu gweithredu'n llawn. Mae'r adrannau hyn bellach yn mireinio trefniadau. Fodd bynnag, mae gan adrannau eraill lawer o waith i'w wneud i gyrraedd y lefel hon.

17 Mae'n amlwg nad yw ystyried y Pum Ffordd o Weithio, gydag un neu ddau eithriad efallai, yn gyffredin yn ystod sesiynau herio perfformiad y Cyngor.

18 Mae angen i'r Cyngor ystyried pa mor effeithiol y mae herio perfformiad yn gweithio ar draws ffiniau gwasanaethau traddodiadol pan fydd galw yn sgil methiant yn creu gwaith ar gyfer gwasanaethau eraill. Bydd methu ateb galwad deialu uniongyrchol gwasanaeth yn arwain at gwsmeriaid yn cysylltu ag un o wasanaethau drws ffrynt y

Cyngor fel Galw Gwynedd. Mae staff y ganolfan alwadau yn sylwi'n gyflym ar batrymau galwadau yn sgil methiant niferus, ond mae'n ymddangos bod y diwylliant presennol a'r ffiniau canfyddedig yn aneffeithiol o ran cyfleu a datrys y broblem o alw yn sgil methiant o'r fath.

- 19 Rhan sylweddol o'r trefniadau rheoli perfformiad newydd yw adolygiad o'r gofrestr risg. Ni chafodd y gofrestr risg ei hadolygu fel mater o drefn fel rhan o'r trefniadau monitro blaenorol. Mae'r pwyslais newydd hwn wedi canolbwyntio sylw swyddogion a chynghorwyr ar risgiau yn y gofrestr. Mae adrannau ar wahanol gamau o ymgorffori'r gofrestr risg yng nghylch adolygu'r rhaglen. Mae rhai adrannau'n blaenoriaethu risgiau allweddol yn hyderus ac yn trafod ac yn adrodd ar gamau lliniaru, tra bod eraill yn dal i gael eu hannog i ymgorffori'r gofrestr risg fel rhan o'r cylch adolygu perfformiad.

### **Nid oes gan bob un o adrannau'r Cyngor set gytunedig o fesurau defnyddiol ac uchelgeisiau cysylltiedig, mae'r defnydd o wybodaeth gymharol yn gyfyngedig**

- 20 Nid yw pwrpas a mesurau gwasanaeth wedi'u cynllunio wedi'u nodi'n glir ar hyn o bryd ar gyfer yr holl wasanaethau, sefyllfa a etifeddwyd o'r hen drefniadau herio perfformiad. Yn yr achosion hyn, mae mesurau perfformiad newydd yn cael eu datblygu. Mae'r Prif Weithredwr yn gweithio gyda Deiliaid Portffolio a Phenaethiaid Adrannau i nodi prif bwrpas pob adran o adrannau'r Cyngor, a bydd hyn yn ei dro yn eu cynorthwyo i nodi'r mesurau perfformiad mwyaf priodol.
- 21 Mae cyfle i alinio pwrpas y gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfodydd herio perfformiad â'r cynlluniau adrannol a gynhwysir yng Nghynllun y Cyngor a nodi mesurau sydd hefyd yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Cyngor.
- 22 Nid yw dull Ffordd Gwynedd y Cyngor yn cydnabod yr angen i gyhoeddi data am uchelgais/safon gwasanaeth/targed, nac yn nodi tuedd ar gyfer darparu gwasanaethau ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau, ac felly mae'n anodd os nad yn amhosibl i gymharu llwybr perfformiad gwirioneddol â dyhead y Cyngor. Mae uchelgais/safon gwasanaeth/targedau, tueddiadau a chymariaethau yn caniatáu i ddefnyddwyr gwybodaeth gael darlun clir i ddangos a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion, ac yn cynnig esboniadau prydlon a chymharol lliniaru pan fydd perfformiad yn gwyro oddi wrth perfformiad a gynlluniwyd.
- 23 Nid yw'r Cyngor ychwaith yn defnyddio nac yn adrodd ar wybodaeth gymharol fel mater o drefn, fel y gall feincnodi ei berfformiad o'i gymharu â chyrff eraill. Mae unrhyw farn a roddir ar berfformiad cyffredinol yn fwy goddrychol o ganlyniad. Bydd angen i gynghorau sicrhau bod ystod addas o wybodaeth gymharol ar gael, os nad yn genedlaethol yna'n rhanbarthol yn y dyfodol, gan ei bod yn elfen hanfodol o hunanwerthuso/hunanasesu yn ogystal â rheoli perfformiad yn effeithiol.



- 24 Nid yw'n glir sut, heb yr eitemau data a nodir uchod, y gall y Cyngor fod yn sicr ei fod yn darparu lefel y gwasanaeth y mae'n ei ddisgwyl ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu cyfrannu. Mae hyn yn effeithio ar allu'r Cyngor i sicrhau ei hun ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

## **Mae adroddiadau perfformiad yn niferus a hirfaith, ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth bwysig sy'n ei gwneud yn anodd cael darlun cyfannol diduedd o berfformiad y Cyngor**

- 25 Mae tuedd i'r naratif mewn adroddiadau perfformiad ddathlu'r da. Mae swyddogion yn llawer mwy agored yn y cyfarfodydd herio perfformiad caeedig. Mae nifer o sylwadau craff a wnaed mewn cyfarfodydd caeedig a allai fod yn gatalydd ar gyfer gwella gwasanaethau yn cael eu hepgor o adroddiadau cyhoeddus. Mae angen i'r Cyngor ddatblygu diwylliant mwy agored a llai beirniadol lle mae problemau o ran perfformiad yn cael eu hystyried yn gyfle i ddysgu a all helpu'r Cyngor i wella perfformiad. Yn amlwg, mae gan yr holl randdeiliaid, gan gynnwys swyddogion ac aelodau'r Cyngor, ran i'w chwarae wrth greu amgylchedd diogel a fydd yn galluogi adrodd agored, cytbwys a gonest, a chreu ffordd o gael y budd mwyaf o'r dysgu sydd ei angen i newid mesurau perfformiadau anffafriol.
- 26 Yn ystod y cyfarfodydd her perfformiad, mynegodd rhai cynghorwyr y farn hefyd y gellir colli negeseuon pwysig mewn adroddiadau hir a atgyfnerthwyd gan rai o'r aelodau y buom yn siarad â hwy. Roedd hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gyfrannu'n effeithiol at y cyfarfodydd herio perfformiad; yn fwy felly pan oedd yr wybodaeth yn anghyflawn. Mae adroddiadau ar berfformiad sy'n hir iawn yn aml yn aneffeithiol, gan y gall materion pwysig fynd ar goll yn y manylder.
- 27 Cyflwynir Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet i'r Cabinet dros bum cyfarfod pwyllgor, sy'n golygu y byddai'n rhaid i ddarllenydd â diddordeb lywio ei ffordd drwy bum cyfarfod a sawl dogfen i gael trosolwg yr holl Gyngor. Mae gan y defnydd o dechnegau a amlinellir yn **Arddangosyn 2** y potensial i symleiddio'r broses o adrodd a chael gafael ar wybodaeth.
- 28 Nid yw Adroddiadau Perfformiad Aelod Cabinet yn cofnodi cynnydd o'i gymharu â cherrig milltir allweddol ar gyfer pob rhaglen. Mae absenoldeb cerrig milltir clir yn ei gwneud yn anodd cymharu cyflawni gwirioneddol â'r bwriad i gyflawni prosiectau, ac unrhyw wyriad neu lithiant cronedig wrth gyflawni. Mae Bargen Twf y Gogledd – Adroddiad Perfformiad Chwarter 2, sydd i'w weld ar wefan y Cyngor, yn gwneud defnydd effeithiol o godau lliw a cherrig milltir, ac yn rhoi mynediad cyflym i'r darllenydd at brosiectau sy'n cyrraedd eu cerrig milltir, a phrosiectau sy'n profi llithiant, anawsterau ac unrhyw gamau lliniaru.
- 29 Nid yw'n ymddangos bod y trefniadau newydd yn cynnwys atodiad/dangosfwrdd mesurau perfformiad cyffredinol, mae hwn yn arf defnyddiol i dynnu sylw at feysydd allweddol o lwyddiant/pryder a gall fod yn borth i wybodaeth fanylach ar lefel gwasanaeth.

## Arddangosyn 2: adroddiad perfformiad effeithiol

### Adroddiadau perfformiad effeithiol

Mae adroddiadau perfformiad effeithiol yn y cyngor:

- yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd hygyrch gan ddefnyddio siartiau priodol yn hytrach na thablau neu naratif;
- yn cyfyngu ar nifer y mesurau mewn unrhyw un adroddiad er mwyn osgoi gorlwytho gwybodaeth;
- yn tynnu sylw at fesurau sy'n peri pryder, er enghraifft drwy ddefnyddio dangosfwrdd a chodau lliw i gynrychioli gwybodaeth am berfformiad ar ffurf graffeg;
- yn egluro'n glir y rhesymau pam y mae perfformiad wedi methu'r targed, neu dim fel cynlluniwyd; ac
- yn nodi pa gamau a gymerir i adfer perfformiad lle mae mesurau wedi methu'r targed, neu dim fel cynlluniwyd.

## Nid adroddir am wybodaeth ynghylch y galw am wasanaethau fel mater o drefn ac nid yw fel arfer yn llywio ac yn cefnogi'r broses o osod lefel cyllidebau

- 30 Yn hanesyddol, mae cyllidebau mewn gwasanaethau a arweinir gan y galw wedi'u haddasu i adlewyrchu newid mewn demograffeg, yn hytrach na chael eu llywio gan lefelau galw presennol. Mae swyddogion yn y Cyngor wedi nodi nad yw'r galw am wasanaethau bob amser yn tracio demograffeg. Ond nid yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn cymharu, fel mater o drefn, weithgaredd wedi ei gyllidebu â'r galw gwirioneddol. Bydd defnyddio gwybodaeth galw yn helpu'r Cyngor i ddeall cyd-destun gwariant yn erbyn y gyllideb, gan helpu i egluro pam y mae gwasanaethau wedi gorwario neu wedi tanwario. Mae prisiau yn y farchnad a chymhlethdod anghenion yn ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar wariant. Fodd bynnag, bydd cael darlun cliriach o'r galw ac yna'r gyllideb yn arwain at well dealltwriaeth gorfforaethol o'r sefyllfa ariannol, yn enwedig mewn gwasanaethau gwariant mawr, galw amrywiol, fel gofal cymdeithasol.
- 31 Pan fydd gorwariant yn digwydd, mae ymateb y Cyngor yn gyffredinol yn gymeradwyaeth adweithiol i geisiadau ychwanegol. Dull mwy rhagweithiol fyddai defnyddio'r galw presennol a data demograffig i gyllidebu ar sail 'o'r newydd' ar gyfer y flwyddyn nesaf sy'n nodi'r lefel bresennol o weithgaredd a sut y disgwylir i hyn newid dros amser. Byddai cynlluniau comisiynu yn ymblethu â chynlluniau a chyllidebau gwasanaeth i ddarparu un darlun cyfannol o sut y bwriedir cynllunio cymorth pobl. Bydd ei fodel hefyd yn annog gwell cyfiawnhad dros gyllideb ychwanegol, pe bai angen, gan mai'r disgwyliad fydd y darperir gwybodaeth am y galw a'r costau gwasanaeth.

- 32 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod amrywiadau sylweddol mewn rhai gwasanaethau. Er enghraifft, nifer y plant sy'n derbyn gofal neu oedolion y mae angen cymorth arnynt o fis i fis. Gall cyfnodau llwyddiannus pan fo nifer y plant sy'n derbyn gofal yn lleihau, yn sydyn wynebu cynnydd dros gyfnod hir. Yn syml, mae'r galw'n gyfnewidiol. Defnyddir cyllid wrth gefn wedi'i gynllunio mewn rhai Cyngorau i gydnabod yr ansefydlogrwydd hwn, ac i ymdopi â chynnydd yn y galw.
- 33 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni cynlluniau arbedion sylweddol dros gyfnod hir. Fodd bynnag, mae parhau i gyflawni arbedion wedi dod yn heriol mewn llawer o adrannau. Mae ein hadolygiad wedi nodi achosion ('Dechrau i'r Diwedd') pan oedd cynlluniau arbedion hirdymor yn cyflawni arbedion a gynlluniwyd yn gynnar yn y broses, ond oherwydd cynnydd yn y galw, ni wnaethant berfformio cystal mewn blynyddoedd diweddarach. Nid oedd trefniadau'r Cyngor yn ymateb i newidiadau o'r fath, ac mae angen i reoli perfformiad a chynllunio ariannol weithio law yn llaw i sicrhau bod tybiaethau sy'n sail i gynlluniau arbedion yn parhau'n realistig.

# Argymhellion

## Arddangosyn 3: Argymhellion

### Argymhellion

- A1 Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo ystod o fesurau defnyddiol ar gyfer yr holl adrannau a swyddogaethau. Mae angen iddo roi sylw arbennig i'r canlynol:
- sicrhau bod yr holl wasanaethau, yn nodi mesurau perfformiad priodol wedi'u saernïo'n dda (SMART) sy'n adlewyrchu pwrpas y gwasanaeth;
  - gwneud pwrpas y gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn gydnaws â'r pwrpas yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol yng Nghynllun y Cyngor;
  - ymgorffori gwybodaeth uchelgais/safon gwasanaeth/darged a thueddiadau i roi darlun clir i'r Cyngor o uchelgais y Cyngor a'i gynnydd tuag at ei gyflawni; a
  - sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon ystwyth i ymateb i heriau newydd a wynebwr gan wasanaethau, fel y problemau gweithlu sylweddol presennol a wynebwr gan rai gwasanaethau, drwy weithredu mesurau penodol.
- A2 Mae angen i'r Cyngor wella ei adroddiadau perfformiad er mwyn cynorthwyo eglurdeb drwy:
- ehangu'r defnydd o offer gweledol fel codau lliw i alluogi'r darlennydd i ganolbwyntio'n gyflym ar y materion allweddol drwy dynnu sylw at feysydd lle mae perfformiad ar y trywydd iawn neu'n peri pryder;
  - sicrhau bod adroddiadau'n gytbwys ac yn rhoi darlun cyflawn, gonest a chytbwys o'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio sy'n amlygu lle mae angen gwella er mwyn sicrhau canlyniadau diriaethol;
  - sicrhau bod dangosfwrdd (neu atodiad mesurau) cyfredol yn cael ei gynhyrchu gan bob gwasanaeth a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod rheoli perfformiad;
  - cyhoeddi adroddiad perfformiad/cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar bob mesur allweddol mewn un ddogfen hygyrch.

## Argymhellion

- A3 Mae angen i'r Cyngor wella'r broses o integreiddio wybodaeth perfformiad ac ariannol drwy:
- ddefnyddio'r galw gwirioneddol am wasanaethau yn hytrach na demograffeg fel y sylfaen ar gyfer gosod cyllidebau sydd yn ymateb i alw;
  - cyfleu patrwm y galw gwirioneddol o'i gymharu â thybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r pwysau adnoddau presennol ar wasanaethau;
  - cyfuno gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth ariannol i gyflwyno darlun cyfannol ac unedig o sefyllfa adnoddau gwasanaethau;
  - cyfuno gwybodaeth perfformiad ac ariannol i rhoi sicrwydd y gellir gwireddu cynlluniau arbedion a gyflwynir dros y tymor canolig;
  - sicrhau ei hun bod cyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar lefel sy'n ddigonol i roi adnoddau i'r galw presennol a wynebwr gan wasanaethau; a
  - phan fydd y Cyngor yn sicr bod y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau allweddol sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar y lefel gywir, datblygu offer fel cyllid dros dro i gydnabod ac ymdopi â chynnydd yn y galw mewn cyllidebau cyfnewidiol.
- A4 Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad drwy wneud y canlynol:
- cyfathrebu'n rheolaidd y newidiadau yn y fframwaith rheoli perfformiad gyda swyddogion ac aelodau'r Cyngor ;
  - sicrhau bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael cymorth a hyfforddiant priodol fel y gallent gyflawni eu priod swyddogaethau'n effeithiol;
  - adolygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad;
  - sicrhau bod yr holl adrannau'n ymgorffori'n effeithiol y defnydd o'r gofrestr risg yn y cylch rheoli perfformiad;
  - ymgorffori dull "Un Gwynedd" a fydd yn agor sianeli deialog i alluogi dysgu corfforaethol a dileu yn gyflym achosion lle mae galw yn sgil methiant mewn un adran yn cynyddu'r galw am wasanaethau mewn un arall;
  - ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i ddeall gwir achos perfformiad gwael ac ymddygiad anfwriadol; a
  - chyflwyno cerrig milltir a nodi perchnogion prosiectau i dracio cynnydd a sicrhau atebolrwydd am gyflawni prosiectau sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn.

## Argymhellion

---

- A5 Mae angen i'r Cyngor ymgorffori ystyriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nhrefniadau cynllunio adrannau, rheoli ac adolygu perfformiad ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.





Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  
We welcome correspondence and  
telephone calls in Welsh and English.



## Cyngor Gwynedd – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021

Dyma grynodedb o'n harchwiliad ar gyfer Cyngor Gwynedd. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwiliad Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae'r crynodeb o'n harchwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein [gwefan](#).

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor



#### Ffeithiau allweddol

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 cynghorydd sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Plaid Cymru 40
- Annibynnol 20
- Llais Gwynedd 6
- Annibynnol Unedig Gwynedd 3
- Aelod Unigol 2
- Propel 2
- Llafur 1
- Democratiaid Rhyddfrydol 1

Gwariodd y Cyngor £244.2 miliwn ar ddarparu gwasanaethau<sup>1</sup> yn ystod 2020-21, y 12fed gwariant uchaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru.

<sup>1</sup> Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyled.

## Ffeithiau allweddol

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £99.6 miliwn yn ei gronfeydd ariannol wrth gefn y gellid eu defnyddio<sup>2</sup>. Mae hyn yn cyfateb i 40.8% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y ganran uchaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru<sup>3</sup>.

Bernir bod gan Gyngor Gwynedd 2 o'r 191 ardal ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef y chweched isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru<sup>4</sup>.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Gwynedd yn cynyddu 5.3% rhwng 2020 a 2040 o 124,670 i 131,314, gan gynnwys cynnydd o 0.4% yn nifer y plant, cynnydd o 0.9% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 20.8% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd<sup>5</sup>.

## Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

### Rydym wedi cwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwelliant parhaus**

Roedd yn rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac roedd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion hyn yn ystod 2020-21.

- **Archwilio Cyfrifon**

Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau y cedwir cofnod priodol o wariant arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i fodloni ei fod wedi gwneud hyn.

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

<sup>2</sup> Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r pwrpas wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Dyma gyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Mae'n eithrio cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

<sup>3</sup> Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21

<sup>4</sup> Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

<sup>5</sup> Ffynhonnell: Stats Cymru



Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac yn gweithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, ac yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.



**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym yn dibynnu ar waith archwilio arall hefyd, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

### Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Cyngor Gwynedd

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

#### Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 19 Hydref 2021.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a chyda'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 28 Mai 2021 yn dda iawn ar y cyfan.
- gwnaed newidiadau i ddatganiadau ariannol drafft y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2021.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae'n gyfrifol hefyd am ardystio nifer o ffurflenni a hawliadau grant. Mae'r archwiliad o ffurflenni Pensiwn Athrawon ac Ardrethi Annomestig wedi'i gwblhau. Mae ein gwaith ar archwilio'r ffurflen Cymhorthdal Budd-dal Tai ar y gweill ar hyn o bryd. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol.
- mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi'r dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2020-21 wedi'i gwblhau ar 19 Hydref 2021.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaethom newid dull a ffocws ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod mae crynodeb o rywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae llawer ohono'n berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gefnogi ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu dysgu trwy'r pandemig. Nod y prosiect yw helpu i ysgogi rhywfaint o feddwl, ac ymarfer cyfnewid. Mae mwyl o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma ar Profi, Orlhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom hefyd gyhoeddi rhai arsylwadau gan yr Archwilydd Cenedlaethol ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ar weithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, fel yr arbedwyd trwy orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau perfformiad cynghorau yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020-21, gwnaethom nodi llai o gyfeirio at wybodaeth perfformiad cymharol. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal rhywfaint o gasglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian, a bydd yn her i gynghorau ystyried hynny, yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, buom yn archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru.

Gwnaethom gynnal yr asesiad hwn gan fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg i gynghorau roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Daeth ein hadroddiad i'r casgliad bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond erys sawl her ariannol, gan gynnwys lliniaru effaith COVID-19, trawsnewid a gwella gwasanaethau, a datrys heriau ariannol.

Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol hefyd: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a'r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

## Cynllunio adferiad

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi cynllunio adferiad. Gwnaethom gyflawni'r gwaith hwn yn barhaus, gan ddarparu adborth amser real a pharhaus lle bo hynny'n briodol. Ein canfyddiadau allweddol oedd:

- bod gwasanaethau'r Cyngor a gafodd eu hatal dros dro wedi aildddechrau yn gyffredinol, a bod staff yn parhau i weithio gartref i raddau lle bynnag y bo modd.
- bod y Cyngor wedi cyflwyno rhai swyddogaethau arloesol i gefnogi dinasyddion drwy'r pandemig, fel desg galwadau cyswllt a oedd yn cymryd camau cyflym i gefnogi llesiant dinasyddion. Mae angen i'r Cyngor werthuso'r swyddogaethau 'dros dro' hyn yn iawn er mwyn sicrhau'r dysgu mwyaf posibl a deall y buddion posibl ar gyfer y tymor hwy.
- mae cyfathrebu'r Cyngor â thrigolion Gwynedd wedi bod yn ymateb yn gyflym i argyfwng sy'n datblygu'n gyflym ac mae ei ddulliau cyfathrebu gyda'i staff wedi gwella yn ystod y pandemig.
- bod y Cyngor wedi trosglwyddo'n effeithiol ac yn effeithlon i gyfarfodydd dwyieithog ar-lein ar gyfer uwch swyddogion a chynghorwyr. Ar hyn o bryd, mae'n paratoi trefniadau i ganiatáu ar gyfer cyfarfodydd cyngor llawn, cabinet, cynllunio a chraffu hybrid gan ystyried ystyriaethau mynediad cyhoeddus a chydaddoldeb.
- rydym wedi gweld datblygiad Dangosfwrdd Ymateb Brys Coronafeirws mewn cyfnod cymharol fyr gydag adnoddau cyfyngedig i ddal gwybodaeth allweddol am breswylwyr a risgiau corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen am wybodaeth fwy amserol i reoli gwasanaethau ac mae'n diweddar ei drefniadau rheoli perfformiad, sy'n cynnwys defnyddio mesurau perfformiad a dangosfyrddau ychwanegol.
- wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor yn ystyried, pan fydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn caniatáu, ddull hybrid o weithio gartref, yn y swyddfa a gweithio ar safle. Lle mae staff yn gweithio mewn swyddfeydd neu ar safle, bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, gan edrych ar ba addasiadau y mae'n rhaid eu gwneud a sut y gall staff weithio'n ddiogel orau.

## Ffordd Gwynedd – Adolygiad Lefel Uchel

Gwnaethom gynnal adolygiad lefel uchel o Ffordd Gwynedd i sefydlu sut yr oedd yn ymwreiddio, yn sbarduno newid diwylliannol ac yn ystyried a oedd rhwystrau i gynnydd pellach. Daethom i'r casgliad yn ein llythyr at y Cyngor, fod Ffordd Gwynedd yn ymwreiddio'n dda ac yn sbarduno newid diwylliannol, fodd bynnag, mae rhai camdybiaethau a rhwystrau cyffredin sy'n arafu cynnydd Ffordd Gwynedd. Adroddodd y Cyngor i'w Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2021 eu bod wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i weithio gyda'r Prif Weithredwr i gynnal adolygiad o sut ac i ba raddau y mae egwyddorion ffordd o weithio 'Ffordd Gwynedd' wedi'u hymwreiddio ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

## Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Yn ystod 2020-21, gwnaethom archwilio a oedd cynghorau gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) fel partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithredu'n effeithiol wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yn strategol. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth bregus; mae hyn yn cael ei wneud yn anoddach gan brosesau cenedlaethol cymhleth, gan arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniad ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae gan gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflenwi y potensial i ysgogi newid cadarnhaol a gwella gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

Wrth gloi'r gwaith hwn, gwnaethom gydnabod bod y cyfrifoldeb am yr heriau cyfredol yn y trefniadau comisiynu yn eang. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith cenedlaethol sy'n gymhleth, ac mae gan bartneriaid lleol gyfrifoldeb am y ffordd y mae polisi a chanllawiau cenedlaethol yn cael eu gweithredu. Felly rydym wedi adrodd yn lleol i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru, yn argymhell camau y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

## **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adolygiad Cynnydd Bargaen Twf Gogledd Cymru**

Yn ystod 2020-21, gwnaethom geisio ateb y cwestiwn: 'Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) yn barod ac yn gallu addasu i gwrdd â'r amgylchiadau economaidd sy'n newid?' Daethom i'r casgliad yn ein hadroddiad bod gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig a'i fod yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu; gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.

## **Arolygiaethau eraill**

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ac Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb.

Cyhoeddodd CIW eu [llythyr](#) Archwiliad Sicrwydd awdurdod lleol 2021 ym mis Tachwedd 2021.

Ataliodd Estyn ei rhaglen arolygu ysgolion yn ystod y flwyddyn 2020-21 a chadw mewn cysylltiad â darparwyr addysg o bell.

## **Astudiaethau llywodraeth leol**

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym yn cynnal astudiaethau ledled y sector llywodraeth leol hefyd i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## **Gwasanaethau Dewisol (Ebrill 2021)**

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethom ganolbwyntio ar sut mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ailbrisio ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein [hadroddiad](#) ym mis Ebrill 2021.

## **Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (Medi 2021)**

Rhwng 1950 a 1980, rhoddodd awdurdodau lleol flaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu lle manwerthu newydd a mwy o faint. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn cael effaith andwyol ar

lawer o ganol trefi Cymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, gydag un o bob saith siop ar y stryd fawr yng Nghymru bellach yn wag, er gwaetha'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac ysgogi buddsoddiad o £892.6 miliwn yn y saith mlynedd ddiwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y gallu i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau lleol gorau, mae angen alinio ac integreiddio polisiau a chydweithio, a blaenoriaethu adnoddau i ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer 2021-22

Edrychwyd hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r cyngor. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a defnydd o'i adnoddau.

Y risg a'r broblem fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cyngorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2021-22 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi llunio ein gwaith i roi sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae'n gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys ffocws ar:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Cynllunio adferiad
  - Cynlluniau lleihau carbon
  - Trefniadau hunanasesu
  - Sefyllfa ariannol
- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cyngorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.
- Archwiliad adrodd am welliant.
- Adolygiad o'r fframwaith Rheoli Perfformiad yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chaiff gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.